

PENODAU 1 i 6

PENNOD 1 – CRYNODEB GWEITHREDOL

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
62	Mr Aled Evans [2646]	1.1	Gwrthwynebu	<p>Y mae'r holl gynllun wedi ei seilio ar orchymyn llywodraeth yn hytrach na'r angen lleol. Mae'n cynnwys gormod o lawer o dai.</p> <p>Asesiadau ar lefel leol o beth yn union ydi'r galw go iawn, nid rhywbeth wedi ei seilio ar amcanestyniadau poblogaeth llywodraeth</p>	<p>Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario” (2014), “Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
163 188	Rod Dixon [2774] Mrs Irene Stott [2780]	1.1	Gwrthwynebu	<p>Mae'r broses ar gyfer cyflwyno sylwadau i'w gweld yn rhy anodd ac wedi'i chreu ar gyfer hwylustod cynllunwyr ac i ddal y person cyffredin yn ei ôl. Rwyf yn ystyried fy hun yn un sy'n hyddysg yn y maes cyfrifiadurol ond bu rhaid i mi wneud ymdrech deg i roi trefn ar y system. Byddwn yn credu y byddai hyn yn debygol o ostwng nifer y sylwadau.</p> <p>Gwneud y broses yn gyfeillgar i'w ddefnyddio.</p>	<p>Nodi'r sylw - Cafodd y Cynllun ei baratoi yn unol â'r gofynion deddfwriaethol sydd wedi cael ei roi yn y rheoliadau statudol perthnasol. Cyfeiriwn at y Cynllun Cyfranogiad Cyhoeddus sydd yn y Cytundeb Cyflawni. 'Roedd sawl ffordd ar gael i gyflwyno sylwadau, - ffurflen galed ac electronig, gwefan rhyngweithiol, llythyr neu e-byst. 'Roedd cyfarwyddiadau ar gael i unrhyw un gysylltu gyda'r Uned i drafod y dulliau yma.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					diwygio'r Cynllun Adnau i'w wneud yn gadarn. Dim newid
391	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	1.2	Cefnogi	Mae Cyngor Tref Ffestiniog yn cefnogi cadw Blaenau Ffestiniog fel Canolfan Gwasanaethau Trefol. Mae hyn yn bwysig o ran trafndiaeth gyhoeddus, gwasanaethau lleol a llawer mwy.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid
409	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	1.2	Gwrthwynebu	Sylw ychwanegol Lle mae tai yn cael eu gwerthu'n araf deg, dylai'r Cynllun Lleol annog pobl i un greu un tŷ annedd allan o ddau dy wrth ochr ei gilydd.	Nodi'r sylw - Nid oes angen caniatâd cynllunio i gyfuno dau dy wrth ymyl ei gilydd i gael un tŷ. Os oes angen addasiadau, estyniadau, ac ati yn gysylltiedig â'r bwriad bydd Polisi PCYFF 1 yn hyrwyddo datblygiad o safon dda. Argymhelliad Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd. Dim newid
410	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	1.2	Gwrthwynebu	Sylw ychwanegol Dylid gwneud yn siŵr fod elfennau o'r cynllun ym Mlaenau Ffestiniog weddu efo'r Cynllun Lleol fydd yn cael ei greu ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri. Pa gydweithrediad sydd yna rhwng Adrannau Cynllunio Cyngor Gwynedd a'r Parc	Nodi'r sylw - Cafodd y Cynllun ei baratoi yn unol â'r gofynion deddfwriaethol sydd wedi cael ei roi yn y rheoliadau statudol perthnasol. Cyfeiriwn at y Cynllun Cyfranogiad Cyhoeddus sydd yn y Cytundeb Cyflawni. Noder yr angen i ymgynghori gyda rhanddeiliaid penodol, sy'n cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Cenedlaethol?	Bydd trafodaethau trawsffiniol yn parhau i ddigwydd. Argymhelliad Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd. Dim newid.
412	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	1.2	Cefnogi	Sylw ychwanegol Mae Cyngor Tref yn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer Blaenau Ffestiniog ar dudalen 41.	Nodi'r sylw cefnogol. Argymhelliad Dim newid
162 189	Rod Dixon [2774] Mrs Irene Stott (2780)	1.3	Gwrthwynebu	Mae'r broses yn annemocrataidd a, hyd y gwelaf i, wedi'i rhoi at ei gilydd gan gynllunwyr heb unrhyw ystyriaeth o'r bobl ac nid yw wedi'i hystyried na'i phasio gan y cynghorau lleol - cynrychiolwyr y bobl. Mae'n ymddangos fod polisïau a chyfarwyddyd cynllunio presennol wedi'u diystyru. Roedd y Ddogfen Strategol a Ffarfir yn gyffredinol iawn ac nid oedd ynddi ddigon o fanylion i wneud sylwadau adeiladol arni. Cyflwyno'r cynllun mewn cyfarfodydd llawn o'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth y Cyngor.	Dim yn derbyn - Cafodd y Cynllun ei baratoi yn unol â'r gofynion deddfwriaethol sydd wedi cael ei roi yn y rheoliadau statudol perthnasol. Cyfeiriwn at y Cynllun Cyfranogiad Cyhoeddus sydd yn y Cytundeb Cyflawni yn ogystal â'r Adroddiad Ymgynghori. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau i sicrhau ei gadernid. Dim newid
272	Mrs Marian Jones [2832]	1.3	Gwrthwynebu	Dywedir eich bod wedi ymgynghori a'r cyhoedd. Nid oes neb wedi cysylltu â mi nac unrhyw aelod	Dim yn derbyn - Cafodd y Cynllun ei baratoi yn unol â'r gofynion deddfwriaethol sydd wedi

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>o fy nheulu. Ydych chi wedi cael cyswllt gyda chanran helaeth o boblogaeth y Sir? A chael croes-doriad o ran oedran ac amgylchiadau personol?</p> <p>Teimlaf nad yw'r cyhoedd wedi cael eu hysbysu am y cynllun. Dylai pawb gael y wybodaeth yn llawn, mewn iaith hawdd ei ddeall. Dylai pawb gael eu holi yn unigol a chael cyfle i leisio barn. Byddai hyn yn rhoi darlun tecach o'r angen lleol am y tai.</p>	<p>cael ei roi yn y rheoliadau statudol perthnasol. Cyfeiriwn at y Cynllun Cyfranogiad Cyhoeddus sydd yn y Cytundeb Cyflawni yn ogystal â'r Adroddiad Ymgynghori.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau i sicrhau ei gadernid.</p> <p>Dim newid</p>
152	Mr Aled Evans [2646]	1.4	Gwrthwynebu	<p>Fel y nodwyd wrth ymateb i'r Hoff Strategaeth - aethpwyd ati i greu'r cynllun o'r top i lawr ac nid o'r gwaelod i fyny gan hynny mae'n methu a chyfarch gwir anghenion y Sir ac yn y diwedd y wlad hefyd.</p> <p>Cychwyn y cynllun drwy gymryd i ystyriaeth yr anghenion yn lleol, eu "adio" at ei gilydd a gweld beth yw angen y wlad yn ei chyfanrwydd. Bydd parch i'r anghenion yn lleol heb anghofio'r anghenion mwy eang. Fel ac y mae mae'r "angen mawr" yn boddi'r angen lleol.</p>	<p>Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario” (2014), “Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyladau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>cededlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
271	Iwan Edgar [2833]	1.5	Gwrthwynebu	<p>Y drol o flaen y ceffyl</p> <p>Asesu gofynion o'r gwaelod i fyny nid derbyn ordinhad oddi fry</p>	<p>Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario” (2014), “Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigur sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
356	Mr Aled Evans [2646]	1.9	Gwrthwynebu	<p>Rhoi sylwadau</p> <p>Diwygio'r drefn sydd gennych yma sy'n caniatáu i rywun gynnwys tystiolaeth hefo'r sylwadau. Yn anffodus, hyd y gwelaf (ac fel y cefais wybod gan swyddog) y mae nam ar y system.</p>	<p>Nodi'r sylw Cafodd y Cynllun ei baratoi yn unol â'r gofynion deddfwriaethol sydd wedi cael ei roi yn y rheoliadau statudol perthnasol. Cyfeiriwn at y Cynllun Cyfranogiad Cyhoeddus sydd yn y Cytundeb Cyflawni. 'Roedd sawl ffordd ar gael i gyflwyno sylwadau, - ffurflen</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>galed ac electronig, gwefan rhyngweithiol, llythyr neu e-byst. 'Roedd cyfarwyddiadau ar gael i unrhyw un gysylltu gyda'r Uned i drafod y dulliau yma.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau i'w wneud yn gadarn.</p> <p>Dim newid</p>
510	Marian Roberts [2973]	1.14	Gwrthwynebu	<p>Rwyf o'r farn nad yw'r ddau gyngor wedi dangos na fydd y datblygiadau hynny yn niweidio sefyllfa'r Gymraeg yn gymunedol. Nid oes tystiolaeth ganddynt sy'n profi na fydd unrhyw orddatblygu. Gwyddom am effaith ddifäol y mewnlifiad ar y Gymraeg ar drefi a phentrefi Seisnig arfordir y gogledd ac yn awr mae hyn wedi digwydd ac yn digwydd o flaen ein llygaid yma yng Ngwynedd a Môn.</p>	<p>Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario” (2014), “Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wunedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau'r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei oleuo gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisiau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymïadau cynllunio, gynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, tai fforddiadwy, math a chymysgedd o dai, a briffiau datblygu.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
500	Marian Roberts [2973]	1.14	Gwrthwynebu	<p>tystiolaeth heb fod ar sail gredadwy (Prawf cadernid CE2)</p> <p>* seilio Cynllun Datblygu Lleol ar angen cymunedol gan lunio cynlluniau datblygu cymunedol er mwyn osgoi gorddarparu a allai arwain at fewnfudiad di-gymraeg;</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith leithyddol.</p> <p>Dylid rhoi sylw i bolisiau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
513	Marian Roberts [2973]	1.13	Gwrthwynebu	<p>Mae datganiad ysgubol fel hyn "Mae statws yr iaith yn iach iawn ym Motwnnog. Y Ffôr a Chwilog" (dan BOTWNNOG) heb dystiolaeth ddibynadwy a mynd ati i feddwl am godi 40 tŷ</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				yno yn hollol anghyfrifol. (Asesiad Effaith leithyddol Cynllun Adnau, Chwefror 2015).	<p>wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith leithyddol.</p> <p>Dylid rhoi sylw i bolisiau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
514	Marian Roberts [2973]	1.13	Gwrthwynebu	<p>Prin ar y naw fu'r cyhoeddusrwydd i'r Ymgynghoriad: * Dim sôn yn "Newyddion Gwynedd" a anfonir i bob tŷ a swyddfa yn Rhagfyr a Mawrth nac ychwaith efo'r bil treth a anfonwyd ymhell cyn i'r Ymgynghoriad ddod i ben. * I sicrhau copi i astudio'r dogfennau yn fanwl yr oedd angen rhai cannoedd o bunnau. * Yr oedd y cyfarfodydd cyhoeddus yn gyfyngedig iawn heb nemor ddim cyhoeddusrwydd o gwbl iddynt</p>	<p>Nodi'r sylw - Cafodd y Cynllun ei baratoi yn unol â'r gofynion deddfwriaethol sydd wedi cael ei roi yn y rheoliadau statudol perthnasol. Cyfeiriwn at y Cynllun Cyfranogiad Cyhoeddus sydd yn y Cytundeb Cyflawni. 'Roedd sawl ffordd ar gael i gyflwyno sylwadau, - ffurflen galed ac electronig, gwefan rhyngweithiol, llythyr neu e-byst. 'Roedd cyfarwyddiadau ar gael i unrhyw un gysylltu gyda'r Uned i drafod y dulliau yma.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau i'w wneud yn gadarn.</p> <p>Dim newid</p>
140	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	1.17	Gwrthwynebu	<p>Dywedir yn y frawddeg gyntaf: "Mae'r Archwiliad yn sicrhau bydd y Cynllun yn seiliedig ar wybodaeth a meddylfryd cadarn, a bod barn y rhai sydd â phryderon yng nghylch y Cynllun wedi cael eu hystyried." Hyd y gwelwn 'does dim tystiolaeth bod newidiadau a awgrymwyd gennym ni sef Cyngor Cymuned Llanystumdwy, (a mudiadau eraill) ym mis Mai/ Mehefin 2013 wedi eu hystyried.</p>	<p>Dim yn derbyn - Cafodd y Cynllun ei baratoi yn unol a'r gofynion deddfwriaethol sydd wedi cael ei roi yn y rheoliadau statudol perthnasol. Cyfeiriwn at yr Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol a gafodd ei gyhoeddi 'run pryd â'r Cynllun Adnau.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau i'w wneud yn gadarn.</p> <p>Dim newid</p>
351	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (Menna Machreth) [2819]	1.17	Gwrthwynebu	<p>Credwn fod sawl un o'r profion cadernid yn ddiffygiol.</p> <p>C1: credwn fod y cynllun yn tanseilio polisi iaith Gwynedd 2014-17</p> <p>C2: mae Bil Cynllunio Llywodraeth Cymru yn cael ei ffurfio ar hyn o bryd felly byddai'n annoeth gwneud penderfyniad heb ystyried egwyddorion y bil hwnnw</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>C4: nid oes asesiad o'r angen lleol wedi ei wneud.</p> <p>CE2: Nid oes tystiolaeth yn y cynllun i ddangos sut y penderfynwyd ar y nifer o dai ar gyfer pob cymuned.</p> <p>Nid oes tystiolaeth i brofi na fydd y cynllun yn cael effaith andwyol ar y Gymraeg</p> <p>CE4: nid yw'n hyblyg i ymdrin ag amgylchiadau sy'n newid</p>	<p>leithyddol.</p> <p>Dylid rhoi sylw i bolisiau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.</p> <p>Dylid rhoi sylw i fframwaith fonitro'r Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
820	Jina Gwyrfai [3092]	1.20	Gwrthwynebu	<p>Mae'r Cynllun hwn wedi cael ei gyflwyno i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn mewn modd sy'n siŵr o fod yn annealladwy i'r rhan fwyaf ohonynt. Mae cynnwys 'crynodeb' - sy'n sgleiniog ac yn gamarweiniol wedi ychwanegu at guddio prif broblemau / gwendidau'r cynllun cyfan, h.y.</p> <p>* diffyg pwyslais ar y cyfleoedd sy'n codi o'r stoc tai presennol;</p> <p>* diffyg tystiolaeth ddigonol yn lleol fod angen tai, e.e. a oes modd cyfiawnhau'r angen am 323 o dai ym Mhwlheli?</p> <p>* effaith andwyol mudo.</p> <p>Mae angen tystiolaeth ystadegol gadarn i brofi bod angen tai newydd, yn hytrach na dylanwadau megis faint o broffid sydd yna i adeiladwyr a ffigyrau mudo.</p>	<p>Nodi'r sylw - Cafodd y Cynllun ei baratoi yn unol â'r gofynion deddfwriaethol sydd wedi cael ei roi yn y rheoliadau statudol perthnasol.</p> <p>Bwriad y llyfryn crynodeb gweithredol a gafodd ei gyhoeddi run pryd a'r Cynllun Adnau oedd rhoi braslun cyffredinol o'r Cynllun, esbonio'r broses ymgynghoriad cyhoeddus ac esbonio sut i wneud sylwadau. Eglurwyd y byddai rhaid edrych ar y ddogfen lawn i wneud sylwadau am y Cynllun Adnau.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Aseiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Aseiad Effaith Ieithyddol.</p> <p>Dylid rhoi sylw i bolisiâu'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau i'w wneud yn gadarn.</p> <p>Dim newid</p>
77	Cyngor Cymuned Y Felinheli (Cyng Sian Gwenllian) [2683]	1.22	Cefnogi	<p>Rydym yn cytuno gyda'r dynodiad ar gyfer Y Felinheli ac yn ei groesawu yn fawr. Gallai'r polisi Marchnad Leol fod yn berthnasol i ochr Bangor y ward ond gallai rwystro pobol o rannau eraill o Wynedd ee Llyn, Meirionnydd rhag codi tai-arhap. Ar hyn o bryd felly, nid ydym am gael ein cynnwys o dan 'Marchnad Agored' ond byddwn yn cadw golwg ar y sefyllfa os y teimlwn ein bod angen y warchodaeth ychwanegol i'r dyfodol. Rydym hefyd yn falch mai dim ond 100% tai fforddiadwy fyddai'n gallu cael eu codi yn ol yr</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				angen lleol ger ffiniau'r pentref.	
114	CPERA (Cyngorydd Elin Walker Jones) [2760]	1.26	Gwrthwynebu	Angen cydweithio a chynllunio manwl ar anghenion pobl Bangor. Sefydlu pwyllgor i edrych ar anghenion tai pobl Bangor edrych ar adleoli ffiniau'r ddinas? Angen am dai fforddiadwy, isadeiledd cadarn. Tir llwyd! - nid tir gwyrdd Ystyried effaith ar yr iaith	Dim yn derbyn - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith leithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisiau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau i'w wneud yn gadarn. Dim newid
287	Mr John Hughes [2676]	1.26	Gwrthwynebu	Clystyrau. Mae Llanengan wedi'i ailddosbarthu'n glwstwr tra bo Sarn Bach a Llangian yn bentrefi gwledig. Pam? Llanengan yw enw'r ardal (Plwy Llanengan) ac mae'n fwy na'r ddau bentref arall gyda mwy yn	Dim yn derbyn - Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol gael rhwydwaith aneddeoledd sy'n gynaliadwy, sy'n cwrdd â gofynion yr economi, yr amgylchedd ac iechyd wrth barchu amrywiaeth leol a gwarchod cymeriad a

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				mynd ymlaen yno, canolfan gymunedol, ysgol feithrin, snwcer, Eglwys a Thafarn (Hyb). Pentref Cymreig a Chymraeg iawn.	<p>hunaniaeth ddiwylliannol y cymunedau.</p> <p>Mae'r Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o drefi a phentrefi sydd gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a'i gyhoeddi i adnabod yr aneddeledd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Aneddeledd.</p> <p>Nid yw Llanengan yn cwrdd â'r meini prawf i gael ei gategoreiddio fel pentref gwledig.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau i'w wneud yn gadarn.</p> <p>Dim newid</p>
393	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	1.26	Cefnogi	Mae Cyngor Tref Ffestiniog yn cefnogi cadw Blaenau Ffestiniog fel Canolfan Gwasanaethau Trefol. Mae hyn yn bwysig o ran trafndiaeth gyhoeddus, gwasanaethau lleol a llawer mwy.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
418	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	1.26	Gwrthwynebu	Dylid gwneud yn siŵr fod elfennau o'r cynllun ym Mlaenau Ffestiniog weddu efo'r Cynllun Lleol fydd yn cael ei greu ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri. Pa gydweithrediad sydd yna rhwng Adrannau Cynllunio Cyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol?	<p>Nodi'r sylw - Cafodd y Cynllun ei baratoi yn unol â'r gofynion deddfwriaethol sydd wedi cael ei roi yn y rheoliadau statudol perthnasol. Cyfeiriwn at y Cynllun Cyfranogiad Cyhoeddus sydd yn y Cytundeb Cyflawni. Noder yr angen i ymgynghori gyda rhanddeiliaid penodol, sy'n cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Bydd trafodaethau trawsffiniol yn parhau i ddigwydd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid.</p>
419	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	1.26	Gwrthwynebu	<p>Sylw ychwanegol</p> <p>Lle mae tai yn cael eu gwerthu'n araf deg, dylai'r Cynllun Lleol annog pobl i un greu un tŷ annedd allan o ddau dy wrth ochr ei gilydd.</p>	<p>Nodi'r sylw - Nid oes angen caniatâd cynllunio i greu un tŷ annedd allan o ddau dy wrth ochr ei gilydd. Dim ond ar gyfer gwneud newidiadau allanol sydd ddim yn cael eu caniatáu o dan y Gorchymyn Datblygu a Ganiateir. Gallai polisïau'r Cynllun yn hyrwyddo'r math yma o newidiadau.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid.</p>
631	Cyng./Cnllr. Mike Stevens [406]	1.26	Gwrthwynebu	<p>O ran cynaladwyedd Gwynedd yn yr hirdymor, ni all fod yn fuddiol bod yr holl ganolfannau gwasanaeth trefol yng ngogledd y sir. Ystyrir Tywyn fel 'Mam Dref' De Meirionnydd sy'n gwasanaethu chwe phentref mawr sy'n mynd i Dywyn am eu prif wasanaethau. Mae adran pelydr-x newydd yn yr ysbyty a gorsaf heddlu a gorsaf dân newydd wrthi'n cael eu hadeiladu yno.</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol gael rhwydwaith aneddeleod sy'n gynaliadwy, sy'n cwrdd â gofynion yr economi, yr amgylchedd ac iechyd wrth barchu amrywiaeth leol a gwarchod cymeriad a hunaniaeth ddiwylliannol y cymunedau.</p> <p>Mae'r Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Mae awdurdodau iechyd yn cydnabod pwysigrwydd daearyddol Tywyn. Dylid dynodi Tywyn yn Ganolfan Drefol i fod yn gyfartal â'r pedair sy'n bresennol yng Ngwynedd i ganiatáu twf tai a swyddi er mwyn dal gafael ar bobl leol.	<p>drefi a phentrefi sydd gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a'i gyhoeddi i adnabod yr aneddleoedd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd.</p> <p>Nid yw Tywyn yn cwrdd â'r meini prawf i gael ei gategoreiddio fel Canolfan Wasanaeth Trefol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau i'w wneud yn gadarn.</p> <p>Dim newid</p>
142	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	1.27	Gwrthwynebu	Mae ffigyrau'r paragraff hwn yn dwyllodrus. Dywedir " i hwyluso darparu 7,184 o gartrefi newydd." Pan ychwanegir 10% o lithriad mae'r ffigwr yn 7,902. Dywedir bod tua 50% wedi eu hadeiladu neu gyda chaniatâd 'sy'n golygu byddai angen darparu 3,907 o gartrefi newydd.' Mae 50% o 7,902 yn 3,951, sy'n cyfateb a stad ychwanegol yn rhywle.	<p>Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny,</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Mae'r Arolygon Tir ar gyfer Tai blynyddol wedi goleuo'r ystyriaeth a roddwyd i'r safleoedd sydd eisoes â chaniatad cynllunio.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau i'w wneud yn gadarn.</p> <p>Dim newid</p>
217	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]	1.27	Gwrthwynebu	<p>Egluro pam fod y ffigwr tai wedi'i ostwng o ffigwr y strategaeth a ffafrir. Pryder ynghylch gorddibyniaeth ar ganiatadau cynllunio hanesyddol ac a fydd y rhain yn wirioneddol gyflenwi tai ai peidio.</p> <p>Diwygio'r ffigwr tai i 7665. Sicrhau fod safleoedd sydd â chaniatâd blaenorol wedi cael ei asesu ar gyfer ei gallu i ildio'r datblygiad.</p>	<p>Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Mae'r Arolygon Tir ar gyfer Tai blynyddol wedi goleuo'r ystyriaeth a roddwyd i'r safleoedd sydd eisoes â chaniatad cynllunio.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau i'w wneud yn gadarn.</p> <p>Dim newid</p>
218	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]	1.27	Gwrthwynebu	Ymddengys nad yw'r ffigwr tai yn caniatáu ar gyfer graddfa gwacter o 4% sydd ei angen i ganiatáu i'r farchnad dai weithredu. Codwyd pryder ynghylch y ddibyniaeth ar hawliau cynllunio cyfredol nad ydynt wedi gwireddu dim	<p>Derbyn yn rhannol - Nid oes lwfans safonol cenedlaethol. Fe fydd yn amrywio o ardal i ardal yn dibynnu ar y sefyllfa yn lleol. Mae Cyfrifiad 2011 yn rhoi ffigwr 12.2% i Wynedd a 10.5% i Ynys Môn. Mae'r lefel yma wedi cael ei</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>hyd yn hyn.</p> <p>Diwygio'r ffigwr tai i 7471.</p>	<p>gymhwyso ar gyfer y senarios ystadegol i gyd a gafodd eu paratoi gan Edge Analytics. Cafodd y wybodaeth yma ei gofnodi yn y Papur Cefndir amragolygon poblogaeth, aelwydydd a thai.</p> <p>Mae'r gwrthwynebiad wedi tynnu sylw i'r angen i egluro hynny'n well yn y Cynllun Adnau ei hun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio'r geiriad ym mharagraff 6.40 i gyfeirio at lwfans tai gwag a gyfeirir ato yn y papur cefndir.</p> <p>Newid â Ffocws: NF13</p> <p>Er mwyn gwella eglurder y Cynllun</p>
346	Mr Gareth Dobson [2917]	1.27	Gwrthwynebu	<p>Does dim tystiolaeth o'r angen am y nifer o dai a nodir o fewn y cynllun. Yn wir gellid dadlau fod y nifer o dai a ddyrannwyd eisoes o fewn cynllun datblygu lleol Gwynedd yn ddigonol. Mae Cynghorau Sir Gwynedd ac Ynys Môn yn gymunedau Cymraeg eu hiaith ac fe fyddai datblygiadau ar y graddfeydd hyn yn sicr o effeithio yn negyddol ar Gymreictod y cymunedau hyn yn enwedig felly'r rhai o fewn y canolfannau gwasanaethau lleol fel y'i disgrifir.</p>	<p>Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario” (2014), “Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau'r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei oleuo gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymïadau cynllunio, gynnal a chreu</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>cymunedau cynaliadwy, tai fforddiadwy, math a chymysgedd o dai, a briffiau datblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
815	Mr Iwan Edgar [251]	1.27	Gwrthwynebu	<p>Mae nifer yr anheddau a geisir yn ormodol i angen lleol ac yn debygol o hyrwyddo mewnlifiad o bobl ddi-gymraeg a fydd yn tanseilio'r iaith yn ei chadarnle. Mae'r Cynllun Adnau yn mynegi cefnogaeth i'r iaith, ond o or-ddarparu tai mae'r fath gefnogaeth yn aneffeithiol a chamarweiniol.</p>	<p>Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario” (2014), “Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliaidau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigur sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisiau'r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei oleuo gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisiau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal a Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymadau cynllunio, gynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, tai fforddiadwy, math a chymysgedd o dai, a briffiau datblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
153	Mr Aled Evans [2646]	1.28	Gwrthwynebu	<p>Yr Hierarchaeth</p> <p>Ei newid fel bod canran uwch yn y clystyrau a'r cefn gwlad. Bydd cefn gwlad farw ar ei thread fel hyn. Mae sawl un yng nghefn gwlad eisiau codi ei dy ei hun ond mae'r drefn yma yn canoli yn ormodol.</p>	<p>Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafnidiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Byddai cyfeirio mwy o unedau tai na chafwyd ei ddsrannu i safleoedd yn y Clystyrau ac yng nghefn gwlad yn y Cynllun Adnau yn tanseilio'r Strategaeth Ofodol a'r egwyddorion cynaliadwy sy'n sail i'r Cynllun. Mae'r Cynllun Adnau yn cyfeirio at TAN6 - Cynlluniau ar gyfer cymunedau gwledig (2010). Mae Polisi TAI 19 yn hyrwyddo adfer adeiladau presennol priodol i ddefnydd preswyl.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
337	Sally Baxter (Ms Sally Baxter) [2883]	1.28	Cefnogi	<p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod bod angen datblygu tai priodol i sicrhau cymunedau cynhwysol ac iach ar gyfer anghenion y boblogaeth a ddisgwylir. Nid oes gennym wrthwynebiadau penodol i'r cynigion datblygu. Er</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol - Bydd y Cynghorau yn ymgynghori gyda'r Bwrdd Iechyd ynglŷn â chanllawiau cynllunio atodol perthnasol. Bydd cyfle hefyd i'r Bwrdd Iechyd fynegi barn am</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				hynny, dymunem fod yn rhan o asesiad pellach ar effaith cynigion ar iechyd y boblogaeth a hefyd yr effaith ar ddarparu gofal iechyd, o gofio'r heriau i recriwtio, yn enwedig felly mewn ardaloedd gwledig, ac yn cynnwys darparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.	gynigion adeg cais cynllunio. Argymhelliad Dim newid
78	Cyngor Cymuned Y Felinheli (Cyng. Sian Gwenllian) [2683]	1.32	Cefnogi	Rydym yn cefnogi'r polisi tai fforddiadwy.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid
143	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	1.32	Gwrthwynebu	Dywedir yn y pwynt cyntaf "Diogelu a gwella'r iaith Gymraeg - trwy greu'r amgylchiadau iawn a fydd yn cyfrannu at gynnal a chreu cymunedau Cymraeg eu hiaith e.e. hwyluso cymysgedd o dai, cyfleoedd cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol." Ni welwn unrhyw beth yn y ddogfen sy'n egluro sut y bydd hyn yn digwydd. Dylai cyfleoedd cyflogaeth gael mwy o bwyslais na thai. Tai i ddilyn gwaith ddylai hi fod.	Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario” (2014), “Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Cyfeiriwn hefyd at dabl 7 yn rhan 5 o'r Cynllun, sy'n darparu rhestr o bolisiau perthnasol a fydd yn hyrwyddo datblygiadau i gyfarch yr amcanion strategol unigol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
154	Mr Aled Evans [2646]	1.32	Gwrthwynebu	<p>Y polisiau - a hynny i warchod yr iaith Gymraeg</p> <p>Rhoi blaenoriaeth i greu a chael gwaith yn yr ardal yn gyntaf, cyn codi mwy o dai a allasai fod yn ddiangen - a hynny yn ei dro yn denu pobol i ymddeol a fyddai maes o law yn gostus i wasanaethau cymdeithasol ac iechyd y sir. Iawn</p>	<p>Dim yn derbyn - Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				codi tai ble mae'r angen wedi ei fesur (yn fras) ymlaen llaw.	<p>ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
335	Miss Ffion Jones [2856]	1.32	Gwrthwynebu	Credaf fod y Cynllun lawer rhy fawr i gwrdd ag angen lleol. Oes, mae angen tai, ond mae angen mwy o ymchwil o ran holi pobl leol am eu hanghenion.	<p>Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario” (2014), “Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
1098	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	1.32	Gwrthwynebu	<p>Mae Horizon yn credu bod y ciplun o'r rhan hon yn "Cefnogi'r sector ynni" yn cyfyngu gormod. Nid yw'n gredadwy bod modd osgoi effeithiau ym mhob achos o ddatblygiad ynni. Dylai cefnogaeth i ddatblygu prosiectau ynni gael ei chefnogi lle mae unrhyw effeithiau andwyol sylweddol wedi cael eu hosgoi yn briodol, eu hateb neu eu lleddfu hyd at lefelau derbyniol.</p>	<p>Derbyn – Cytunir ei bod hi'n rhesymol i ddiwygio'r geiriad sy'n son am gefnogi'r sector ynni i roi'r darlun llawn.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio rhan o dabl 3 sy'n cyfeirio at y sector ynni i gyfeirio at liniaru effeithiau.</p> <p>Newid â Ffocws: NF1</p> <p>Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
141	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	1.33	Gwrthwynebu	Dywedir yma: "Monitro blynyddol gofynnol (ac) adolygiad llawn (mewn) 4 blynedd". Erbyn i'r Cynllun gael ei fabwysiadu yn Rhagfyr 2016 bydd wedi bod yn weithredol am 5 mlynedd heb ei fonitro na'i adolygu.	<p>Nodi'r sylw - Nid yw'r Cynllun yn ystyriaeth cynllunio berthnasol ar hyn o bryd. Bydd y gwaith monitro yn cychwyn ar ôl iddo gael ei fabwysiadu yn unol â gofynion y Rheoliadau am baratoi cynlluniau datblygu lleol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
155	Mr Aled Evans [2646]	1.33	Cefnogi	Monitro	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

PENNOD 2 – CYFLWYNIAD

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
422	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	2.4	Gwrthwynebu	Dylid gwneud yn siŵr fod elfennau o'r cynllun ym Mlaenau Ffestiniog weddu efo'r Cynllun Lleol fydd yn cael ei greu ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri. Pa gydweithrediad sydd yna rhwng Adrannau Cynllunio Cyngor Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol?	<p>Nodi'r sylw - Cafodd y Cynllun ei baratoi yn unol â'r gofynion deddfwriaethol sydd wedi cael ei roi yn y rheoliadau statudol perthnasol. Cyfeiriwn at y Cynllun Cyfranogiad Cyhoeddus sydd yn y Cytundeb Cyflawni. Noder yr angen i ymgynghori gyda rhanddeiliaid penodol, sy'n cynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Bydd trafodaethau trawsffiniol yn parhau i ddiwydd.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
139	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	2.7	Gwrthwynebu	Sonnir yn y paragraff hwn, "Fe fydd rhaid edrych ar y materion sy'n bwysig i'r ardal, ei selio ar dystiolaeth." Mae'r dystiolaeth wedi ei gasglu gennym ni ar sail y ffeithiau a gyflwynir yn Adroddiad Arolwg Anghenion Tai Ardal Cyngor Llanystumdwy (Rhagfyr 2014).	<p>Nodi'r sylw - Mae Papur Testun 4A Disgrifio'r Twf Tai yn cyfeirio at y ffactorau lleol a roddwyd ystyriaeth iddynt wrth benderfynu ar y cyfanswm galw am unedau tai. Mae'r ffactorau yn cynnwys arolygon angen tai lleol. Bydd proffiliau aneddleoedd yn cyfeirio at gasgliadau'r arolygon diweddaraf.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd.</p>
156	Mr Aled Evans [2646]	2.7	Gwrthwynebu	<p>Cadernid y cynllun a thystiolaeth</p> <p>Mae'r dystiolaeth sydd wedi ei gyflwyno ar adegau yn amwys iawn, ail adroddus ac wedi ei seilio ar ddymuniad Llywodraeth.</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae datblygiad y Cynllun yn seiliedig ar broses o gasglu a dadansoddi gwybodaeth am nifer o themâu, e.e. ffeithiau sy'n helpu i ddeall amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol presennol yn yr ardal; tueddiadau'r gorffennol a rhagamcanion y dyfodol; yn ogystal â ffactorau sy'n debygol o sbarduno newid yn y dyfodol. Mae'r wybodaeth wedi cael ei gofnodi mewn cyfres o Bapurau Testun a Phapurau Cefndir sy'n cyfeirio at adroddiadau amrywiol gan randdeiliaid eraill am wahanol themau.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
157	Mr Aled Evans [2646]	2.8	Gwrthwynebu	<p>Rhoi'r cynllun at ei gilydd</p> <p>Newid y cynllun fel bod anghenion lleol yn cael blaenoriaeth o flaen yr "anghenion" / dyheadau cenedlaethol.</p>	<p>Dim yn derbyn - Cafodd y prif faterion a gyrwyr newid yn lleol eu hystyried yn ystod y cyfnod paratoi'r ddogfen Hoff Strategaeth. Cawsant eu datblygu mewn ymgynghoriad a'r Grŵp Rhanddeiliaid Allweddol ac fe roddwyd cyfle i randdeiliaid amrywiol a'r cyhoedd fynegi barn a chyflwyno syniadau yn ystod 2011 - 2012. Fe fuodd y ddogfen Hoff Strategaeth hefyd yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2013.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
360	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg (Menna Machreth) [2819]	2.12	Gwrthwynebu	<p>Mae' tystiolaeth ar gyfer y nifer o dai ym mhob cymuned yn ddiffygiol. Nid yw'r cynllun yn dangos bod asesiad o'r angen lleol wedi ei gwblhau Nid oes tystiolaeth yn y Cynllun i gyfiawnhau'r honiad na fydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cael effaith andwyol ar y</p>	<p>Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Gymraeg	<p>senario” (2014), “Egluro’r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a’r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy’n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy’n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae’n rhoi ffigwr sy’n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a’i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Dim newid
384	Mr Gareth Dobson [2917]	2.14	Gwrthwynebu	Credaf fod y Cynllun Hoff Strategaeth sydd yn sail i'r Cynllun Adnau yn ddiffygiol. Dylid sefydlu patrwm datblygu ar angen cymunedol a chanllawiau ymarfer da cynllunio dinesig nid ar fudd preifat fel sydd yn codi pan mae gwahoddiad i ddatblygwyr preifat a pherchnogion tir gyflwyno tir i sylw'r awdurdod.	<p>Dim yn derbyn - Mae'r Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o drefi a phentrefi sydd gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a'i gyhoeddi i adnabod yr anedlleoedd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Anedlleoedd.</p> <p>Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafniadaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o anedlleoedd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>'Roedd y cyfnod galw am safleoedd i'r rhoi ar y Gofrestr Tir Posib yn ddull safonol o gael gwybodaeth am argaeledd tir ar gael i'w ddatblygu neu dir a ddylid ei warchod. Cafodd y safleoedd eu hasesu wedyn yn unol â methodoleg gydnabyddedig er mwyn sefydlu os oeddynt yn cyd-fynd a strategaeth y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					cadernid y Cynllun. Dim newid

PENNOD 3 – CYD-DESTUN POLISI (CENEDLAETHOL, RHANBARTHOL A LLEOL)

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
158	Mr Aled Evans [2646]	3.1	Gwrthwynebu	Polisiâu Rhanbarthol a chenedlaethol Mwy o bwyslais ar y lleol yn hytrach na'r rhanbarthol a chenedlaethol	Dim yn derbyn – Rhoddir ystyriaeth briodol i'r cyd-destun lleol. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
854	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	3.2	Gwrthwynebu	Nodwn fod paragraff 3.2 yn darparu crynodeb eang o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) (Gorffennaf 2014 - Rhifyn 7). Er ein bod yn gwerthfawrogi fod crynhoi PCC a'i Nodiadau Cyngor Technegol yn dasg amhosib mewn dau baragraff, rydym yn bryderus na wneir unrhyw gyfeiriad at amcan cyffredinol Llywodraeth Cymru a PCC, sef cyflawni datblygiadau cynaliadwy ac yn unol ag Adran 4.2, amlinellu darpariaeth sy'n rhagdybio o blaid datblygu cynaliadwy yn y broses o greu	Dim yn derbyn – Mae'r paragraff eisoes yn nodi bod polisiâu a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn rhoi pwyslais ar rôl y system gynllunio defnydd tir i gyfrannu at sicrhau datblygiad cynaliadwy. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				cynllun a gwneud penderfyniadau. Dylid cyfeirio at y rhagdybiaeth o blaid datblygiad cynaliadwy.	cadernid y Cynllun. Dim newid
819	Jina Gwyrfai [3092]	3.5	Gwrthwynebu	Nid yw'r Cynllun Adnau'n cyflawni gweledigaeth Cynllun Gofodol Cymru am ardal Eryri a Môn sef "cynnal economi .. a fydd yn gymorth i'r ardal gynnal ei chymeriad unigryw ... i gynnal yr iaith Gymraeg" oherwydd mae'r cynlluniau wedi selio ar fewnfudo sydd yn tanseilio cymeriad unigryw & iaith yr ardal. Mae'r ddamcaniaeth "Population & Household Forecasts" yn defnyddio methodoleg sy'n seiliedig ar dwf cyson mewn mewnfudo a hyn yn newid cymeriad ein hardal. Yn ogystal nid yw ei fethodoleg wedi cysylltu'n ddigonol gyda Gwynedd (cyf App A A.5) Astudiaeth ddichonadwy ar yr angen am dai yn ôl twf naturiol yn unig - sef model "Natural Change" yn unig gan gyplysu tai gwag ac ail gartrefi sydd yn y Sir.	Dim yn derbyn - Mae datblygiad y Cynllun Adnau wedi rhoi ystyriaeth lawn i weledigaeth y Cynllun Gofodol ar gyfer yr ardal. Mae Papur Testun 4A yn disgrifio'r gwahanol senarios twf a gafodd ystyriaeth yn ogystal â ffactorau lleol sy'n gyrru'r farchnad tai lleol. Rhoddwyd ystyriaeth i fodolaeth tai gwag a thai haf/ gwyliau wrth drosi cyfanswm aelwydydd i'r cyfanswm galw am unedau tai. Nid ellir rhoi llawer o bwyslais ar y senario 'Newid Naturiol' oherwydd nad ellir atal unigolion rhag symud i mewn ac allan o'r ardal. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
1099 1100 1101	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	3.7, 3.8 & 3.9	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn ystyried y byddai modd gwella eglurder y paragraffau hyn, yn enwedig y gwahaniaeth cyfreithiol yn Neddf Cynllunio 2008 o ran y term "datblygiad cysylltiedig" fel mae'n ymwneud â Chymru. Dylai'r rhestr o fwledi ddangos mathau o	Derbyn - Cytuno bod angen i'r geiriad fod yn gyson gyda therminoleg a ddefnyddir mewn deddfwriaeth. Cytunir hefyd y dylid bod yn eglur ynglŷn â pha fathau o ddatblygiad a ellir eu hystyried yn rhai sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd, ac felly yn gallu

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				ddatblygiad cysylltiedig gael ei gwneud yn gyson efo cynnwys canllawiau cynllunio atodol y Wylfa. Dylai mân gamgymeriadau yn y disgrifiad o drefn Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd Safle'r Wylfa hefyd gael eu cywiro.	bod yn destun cais cynllunio i'r Cyngor lleol. Argymhelliad – Diwygio geiriad paragraffau 3.7 – 3.9 i sicrhau cywirdeb ac eglurder. Newid â Ffocws: NF2
297	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	3.10	Gwrthwynebu	O gofio'r pwyslais a roddir ar warchod bioamrywiaeth, dylid cyfeirio at y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol ar gyfer Gwynedd a Môn	Nodi'r sylw - Nid amcan y rhan yma ydi cyfeirio at bob cynllun, dogfen bolisi a strategaeth leol. Mae rhan 7.5 o'r Cynllun Adnau yn dangos sut roddwyd ystyriaeth i'r Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Leol. Argymhelliad Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd. Dim newid
1081	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	3.10	Gwrthwynebu	Tabl 5 - yn cyfeirio at flaenoriaethau'r Cynlluniau Trafnidiaeth Ranbarthol Taith a Trac. Bydd y Cynlluniau hyn yn cael eu disodli gan Gynllun Trafnidiaeth Leol ar y Cyd Gogledd Cymru a Chynllun Trafnidiaeth Leol ar y Cyd Canolbarth Cymru. Dylai'r cynllun gyfeirio at unrhyw welliannau priffordd yr ymrwymwyd iddynt pan fo'n briodol.	Derbyn y sylw - ers i'r Cynllun Adnau gael ei baratoi cafodd Cynllun Trafnidiaeth Leol ar y Cyd Gogledd Cymru a Chanolbarth Cymru eu cyhoeddi. Cytunir y dylid diwygio'r rhan yma o'r Cynllun i adlewyrchu hynny. Argymhelliad Diwygio'r tabl i trwy gynnwys cyfeiriad at y Cynlluniau Lleol yn lle'r Cynlluniau Rhanbarthol.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Newid â Ffocws: NF3</p> <p>Er mwyn sicrhau cywirdeb</p>
1095	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521]	Table 5: Cyd-destun Polisi	Gwrthwynebu	Mae CNC yn argymhell bod Tabl 5 yn cynnwys cyfeiriad at Bolisiau Cynllunio Cenedlaethol, yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol.	<p>Dim yn derbyn – ceir cyfeiriad digonol i Bolisi Cynllunio Cymru a Nodiadau Cyngor Technegol ym mharagraffau 3.2 a 3.3.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>

PENNOD 4 – PROFFIL GOFODOL A PHRIF FATERION

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
79	Cyngor Cymuned Y Felinheli (Cyng. Sian Gwenllian) [2683]	4.7	Cefnogi	Rydym yn cytuno efo'r prif faterion sydd wedi eu hadnabod.	<p>Nodi'r sylw cefnogol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
269	Mr Aled Evans [2646]	4.7	Gwrthwynebu	K1 Nid yw K1 yn son am y symudiad o bobol sydd wedi eu geni tu allan i Gymru sy'n ychwanegu at y	Dim yn derbyn – mae KI1 yn adlewyrchu'r mater a gyfeirir ato.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				niferoedd o bobol mewn oed sydd yn yr ardal. Dylai ryw gydnabyddiaeth gael ei wneud o hyn o gofio bod yr ardal fel petai yn cael ei gwerthu fel ardal hamdden - (Golff, Hwyllo) lle da i ddod i ymddeol.	<p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
298	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	4.7	Cefnogi	Mae croeso i KI 24-29	<p>Nodi'r sylw cefnogol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
350	WYG/Alliance Planning (Mr Mark Walton) [2905]	4.7	Cefnogi	Mae ein Cleient, Admiral Taverns, yn cefnogi KI6. Rhaid i'r cynllun roi sylw i'r cyflenwad, cymysgedd a'r ystod o dai mewn ardaloedd gwledig yng Ngwynedd er mwyn cefnogi gwead cymdeithasol a diwylliannol yr ardal a chyfrannu at gyflawni amcanion economaidd y Cynllun.	<p>Nodi'r sylw cefnogol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
445	Bourne Leisure Ltd [2768]	4.7	Gwrthwynebu	Dylid ychwanegu at KI22 i gyfeirio at yr angen am ailddatblygiad/ ailwampio parhaol o lety gwyliau er mwyn cynnal rhywbeth sy'n cwrdd â disgwyliau'r ymwelwyr. Mae Bourne Leisure yn siomedig bod yr eirfa a welwyd ym mharagraff 7.60 o'r Hoff Strategaeth wedi cael ei eithrio o'r Proffil Gofodol yn y Cynllun Adnau. Mae'r eirfa yma yn rhoi'r cyd-destun defnyddiol o ran pwysigrwydd twristiaeth fel cyfrannwr i'r economi leol a sut mae wedyn yn siapio Gweledigaeth Ofodol a Materion Allweddol.	<p>Dim yn derbyn - mae KI22 yn cyfeirio at yr angen i 'wella a rheoli'r ddarpariaeth twristiaeth' a chredir bod hynny'n ddigonol. Mae'r wybodaeth ystadegol a gyfeirir ato wedi cael ei gynnwys ar ddechrau'r gyfres o bolisiau a fydd yn hyrwyddo datblygiad ar gyfer y sector ymwelwyr.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
850	Mr Rob Booth [3033]	4.7	Gwrthwynebu	Ni fydd cymunedau yn elwa o Fater Allweddol 10 a bydd yn arwain at leihad mewn cyfleusterau i'r gymuned leol, yn enwedig cymunedau sydd â phoblogaeth sy'n heneiddio. Bydd yn arwain at nifer fwy o bobl yn gorfod teithio a mwy o deithiau mewn ceir. Mae'n gwrthdaro â Mater Allweddol 11 "Hyrwyddo cyfleoedd i bobl gael byw'n iach a chael mynediad rhesymol at ofal iechyd, yn enwedig o fewn y boblogaeth sy'n heneiddio". Nid yw'n briodol chwaith ar gyfer un o'r polisiau strategol dan PS5 ar dudalen 75, pwynt 4, "Hyrwyddo canolfannau a phentrefi mwy hunangynhaliol drwy gyfrannu at gymunedau cytbwys sy'n cael eu cefnogi gan ddigonedd o wasanaethau..." Eisiau gweld Mater Allweddol 10 yn cael ei ddileu.	<p>Dim yn derbyn - Mae'r rhan yma o'r Cynllun yn rhestru'r heriau a'r cyfleoedd sydd yn wynebu ardal y Cynllun. Mae KI10 yn cydnabod bod darparwyr cyfleusterau addysg ac iechyd yn edrych i mewn i resymoli eu gwasanaethau neu yn gweithredu ar gynlluniau i wneud hynny. Mae'r Cynllun Adnau wedyn yn cynnwys strategaeth ofodol a pholisiau sy'n anelu i gyfrannu i fynd i'r afael a'r ffenomenau. Dylid nodi bod y Cynllun Adnau yn rhan o ddull integredig i daclo'r materion a nodir.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
851	Mr Rob Booth [3033]	4.7	Gwrthwynebu	Mater Allweddol 20 yw dirywiad yn ffyniant a bywiogrwydd canol trefi. Mae hyn wedi digwydd oherwydd bod archfarchnadoedd mawr a pharciau busnes yn cael eu hadeiladu tu allan i ganol trefi. Mae siopau a swyddfeydd tu allan i drefi yn annog y defnydd o geir. Awgrymaf bolisi sy'n ffafrio cadw siopau a busnesau yng nghanol trefi ac nad yw'n cynyddu datblygiad parciau busnes ac archfarchnadoedd tu allan i drefi a phentrefi.	<p>Nodi'r sylw - Mae'r rhan yma o'r Cynllun yn rhestru'r heriau a'r cyfleoedd sydd yn wynebu ardal y Cynllun. Mae KI20 yn cydnabod beth sydd wedi digwydd yng nghanol trefi dros y blynyddoedd. Mae cyfres o bolisiau yn rhan 7.3 o'r Cynllun Adnau yn rhoi'r fframwaith ar gyfer hyrwyddo canol trefi.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd. Dim newid
908	Mr Rob Booth [3033]	4.7	Gwrthwynebu	Tudalen 37. Problem Allweddol 20 yw'r dirywiad yn ffyniant a hyfywdra canol trefi. Mae hyn wedi digwydd o ganlyniad i archfarchnadoedd a pharciau busnes mawr gael eu hadeiladu ar gyrion canol trefi. Mae siopau a swyddfeydd allan o'r dref yn annog y defnydd o geir. Rwy'n awgrymu polisi sy'n ffafrio cadw siopau a busnesau yng nghanol trefi, nad yw'n cynyddu datblygiad parciau busnes ac archfarchnadoedd y tu allan i drefi a phentrefi.	Nodi'r sylw – mae'r materion a godir yn cydfynd a pholisiau manwerthu sydd yn y Cynllun Argymhelliad Nid oes angen diwygio'r Cynllun i gyfarch y materion a godwyd. Dim newid
1089	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	4.7	Cefnogi	Mae CNC yn ystyried bod y gwaith o adnabod ac adolygu'r tueddiadau allweddol sydd wedi dod yn amlwg wrth adolygu'r strategaethau, cynlluniau a rhaglenni sydd wedi'u henwi ym Mhennod 3 wedi llwyddo i adnabod y prif faterion i gael eu taclo gan y CDLI ar y Cyd.	Nodi'r sylw cefnogol. Argymhelliad Dim newid
1406	Admiral Taverns [3348]	4.7	Cefnogi	Cefnogi KI6 - Mae ein cleientiaid yn cefnogi'r cysail y dylai'r CDLI ar y Cyd ddarparu ystod a chymysgedd digonol a phriodol o dai y mae modd eu datblygu mewn lleoliadau cynaliadwy er mwyn diwallu gofynion tai pob rhan o'r boblogaeth, cefnogi gwead cymdeithasol a diwylliannol yr ardal a chyfrannu at gyflawni amcanion economaidd y Cynllun.	Nodi'r sylw cefnogol. Argymhelliad Dim newid
1450	Bourne Leisure Ltd [2768]	4.7	Gwrthwynebu	Fe ddylid ehangu KI22 i gyfeirio at yr angen ar gyfer ailddatblygiad/ ailgyfuniad parhaol llety gwyliau er mwyn cynnal rhywbeth sy'n cwrdd â dyheadau ymwelwyr. Mae angen buddsoddiad	Dim yn derbyn – mae KI22 yn cyfeirio at yr angen i 'wella a rheoli'r ddarpariaeth twristiaeth' a chredir bod hynny'n ddigonol.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				sylweddol i gynnal a gwella hyfywdra a pha mor ddeniadol ydi gweithredwyr presennol fel rhywle i ymweld ag ef, i wella beth sydd ar gael ac i ymateb i newidiadau yn y farchnad, gan gynnwys gwella cyfleusterau gwesteion a llefydd chwarae a hamdden. Fe ddylai KI22 gael ei enwid i ddarllen; "Rheoli, diwygio a gwella..."	<p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
1451	Bourne Leisure Ltd [2768]	4.7	Gwrthwynebu	Mae Bourne Leisure yn siomedig bod yr eirfa yn 7.60 o'r Hoff Strategaeth wedi cael ei eithrio o'r rhan am broffil gofodol y Cynllun Adnau. Mae'r eirfa yma yn rhoi cyd-destun defnyddiol o ran pwysigrwydd twristiaeth fel cyfranwyr economaidd a sut mae felly yn siapio'r weledigaeth ofodol a'r prif faterion. Roedd yr eirfa fel a ganlyn:"Mae twristiaeth yn dod a dros £233 miliwn i economi leol Ynys Môn a dros £851 miliwn i Wynedd (gan gynnwys Parc Cenedlaethol Eryri) pob blwyddyn ac mae'n cefnogi dros 4,100 a 15,819 o swyddi, yn y drefn honno." Mae Bourne Leisure yn gofyn i ail-osod yr eirfa yma yn y Cynllun sydd ar y gweill.	<p>Dim yn derbyn – Mae'r wybodaeth ystadegol a gyfeirir ato wedi cael ei gynnwys ar ddechrau'r gyfres o bolisiau a fydd yn hyrwyddo datblygiad ar gyfer y sector ymwelwyr.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>

PENNOD 5 – GWELEDIGAETH AC AMCANION STRATEGOL

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
138	Cyngor Cymuned Llanystumdwy	5.2	Gwrthwynebu	Dywedir yma "Dyma ei weledigaeth: "Cryfhau cymunedau yng Ngwynedd a Môn." Anghytunwn	Nodi'r sylw - mae paragraff 5.2 yn cyfeirio at weledigaeth y Cynllun Integredig Sengl ar gyfer

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	(Mr Richard J Roberts) [1550]			a'r gosodiad hwn gan na fydd y Cynllun yn cryfhau cymunedau gwledig a chefn gwlad.	<p>Gwynedd a Môn a gafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen diwygio'r Cynllun Adnau i gyfarch sylwadau'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
160	Mr Aled Evans [2646]	5.2	Gwrthwynebu	<p>Gweledigaeth i gryfhau'r cymunedau</p> <p>Newid y dyraniad , a lleihau niferoedd y tai</p>	<p>Dim yn derbyn - Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
1103	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	5.4	Gwrthwynebu	Mae diffyg cefnogaeth amlwg yn y CDLI ar y Cyd i Brosiect Wylfa Newydd. Er bod yr ystyriaeth ar gyfer polisi datblygu yn ymwneud â Wylfa Newydd yn cael ei gydnabod (ar ffurf PS9) nid yw'n ddigon eglur ac nid yw, yn ei ffurf bresennol	<p>Derbyn - Mae'r Cynllun Adnau yn cydnabod pwysigrwydd Prosiect Wylfa Newydd i Ynys Môn a gweddill ardal y Cynllun (yn ogystal ag ardaloedd tu hwnt i hynny). Mae bodolaeth y Prosiect a'r budd a ddaw yn ei sgil wedi bod yn</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				yn unig, yn galluogi fframwaith benderfynu gydlynol ar gyfer datblygiad cysylltiedig. Yn ogystal, nid yw'r diffyg datganiadau eglur yn cefnogi Prosiect Wylfa Newydd yn gyson efo canllawiau cynllunio atodol y Wylfa.	<p>ystyriaeth bwysig ac mae wedi goleuo gweledigaeth ac amcanion y Cynllun ac felly ei strategaeth. Credir y byddai ychwanegu'r geiriad awgrymir yn ychwanegu at werth y rhan yma o'r Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio'r Cynllun trwy ychwanegu paragraff ar ol 5.4 i gyfeirio at bwysigrwydd y Prosiect.</p> <p>Newid â ffocws: NF4</p>
357	Mr Gareth Dobson [2917]	5.5	Gwrthwynebu	Mae perygl sylweddol i sylfaenu gweledigaeth ar un prosiect sydd eto i'w gadarnhau'n derfynol. Yn hanesyddol ni fu i Wylfa na Trawsfynydd gael effaith cadarnhaol ar y cymunedau hynny sydd yn agos iddynt - megis Amlwch ym Môn na Ffestiniog yng Ngwynedd. Yn wir gellid dadlau fod y ddau brosiect yma wedi llesteirio datblygiadau mwy addas i'r cymunedau lleol hyn oherwydd peryglon ynni Niwclear.	<p>Dim yn derbyn - mae'r galw am atomfeydd ynni niwclear wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Prydain. Mae Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-6 wedi adnabod safle Wylfa Newydd fel lleoliad sydd o bosib yn addas i ddatblygu pwerdy newydd erbyn diwedd 2025. Mae'n bwysig bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn rhoi fframwaith bolisi cynllunio lleol yn ei le i gefnogi a rheoli elfennau pwysig o Brosiect Wylfa Newydd. Fe fydd angen i'r awdurdodau cynllunio lleol wneud penderfyniad am sawl datblygiad a fydd eu hangen i wireddu'r datblygiad ar safle Wylfa Newydd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					cadernid y Cynllun. Dim newid
115	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]	5.6	Gwrthwynebu	Mae angen cyfeiriad cryfach at dai preifat. Dylai fod yn fwy na dim ond anghenion tai'r gymuned. Mae angen tai newydd i wasanaethu'r twf economaidd cynlluniedig a daw hyn â phobl newydd i mewn i'r ardal.	Dim yn derbyn - mae lefel twf priodol yn ffurfio rhan o'r weledigaeth ar gyfer cymunedau ffyniannus a llawn bywyd, fel y gwelir wedyn yn yr amcanion strategol, y strategaeth a pholisïau'r Cynllun. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
136	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	5.6	Gwrthwynebu	Croesewir y datganiad hwn ond dylai'r Cynllun Datblygu ddiffinio ffyrdd o gyflawni'r amcan hwn. Dylai bod mwy o fanylion ar sut cyrhaeddir y nod hwn.	Dim yn derbyn - Mae'r weledigaeth yn rhoi ciplun o sut fydd ardal y Cynllun yn edrych yn 2026. Nid rhoi datganiad polisi terfynol ydi pwrpas y weledigaeth. Dylid cyfeirio at yr amcanion strategol sy'n adeiladu ar y weledigaeth yn ogystal â'r polisïau a'r dynodiadau yng ngweddill y Cynllun. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
270	Mr Aled Evans [2646]	5.6	Cefnogi	Gweledigaeth (cytuno ond amheus o sut bydd pethau'n gweithio)	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
300	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	5.6	Gwrthwynebu	Dylai paragraff agoriadol y weledigaeth bwysleisio'r amgylchedd naturiol fel mewn rhan arall o'r ddogfen. Cynnwys y gair "naturiol" cyn amgylchedd.	<p>Dim yn derbyn - mae'r gair 'amgylchedd' yn yr achos yma yn cyfeirio at yr amgylchedd naturiol a'r amgylchedd adeiledig fel ei gilydd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
379	Mr Gareth Dobson [2917]	5.6	Gwrthwynebu	Mae'r weledigaeth yn rhy niwlog - yn llawn o ansoddeiriau ond fawr ddim sylwedd. Does dim digon o dystiolaeth o allu'r Awdurdod i gyflawni'r weledigaeth yn ei ffurf bresennol.	<p>Dim yn derbyn - Mae'r weledigaeth yn rhoi ciplun o sut fydd ardal y Cynllun yn edrych yn 2026. Nid rhoi datganiad polisi terfynol ydi pwrpas y weledigaeth. Dylid cyfeirio at yr amcanion strategol sy'n adeiladu ar y weledigaeth yn ogystal â'r polisiau a'r dynodiadau yng ngweddill y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
849	Mr Rob Booth [3033]	5.6	Gwrthwynebu	Mae'n siomedig iawn gweld fod gan Gyngor Gwynedd ac Ynys Môn weledigaeth sy'n cynnwys gorsaf bŵer niwclear newydd, mae risgiau mawr ynghlwm ag adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd fel rydym wedi'i weld yn y trychineb diweddar yn Fukushima. Mae risg enfawr i'n cartrefi, diwylliant a thwristiaeth. Byddai gorsaf bŵer newydd angen nifer o ddatblygiadau mawr cysylltiedig megis tai i'r gweithwyr adeiladu, ac isadeiledd (e.e. ffyrdd, pibelli a pheilonau). Bydd adeiladu'r orsaf bŵer niwclear yn effeithio ar y diwylliant Cymreig oherwydd y mewnlifiad o weithwyr adeiladu dros dro. Nid yw pŵer niwclear yn gynaliadwy, mae gofyn cael tanwydd gwenwynig ar ei gyfer ac mae'r gwastraff yn broblemus iawn.	<p>Dim yn derbyn - mae'r galw am atomfeydd ynni niwclear wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Prydain. Mae Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-6 wedi adnabod safle Wylfa Newydd fel lleoliad sydd o bosib yn addas i ddatblygu pwerdy newydd erbyn diwedd 2025. Mae'n bwysig bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn rhoi fframwaith bolisi cynllunio lleol yn ei le i gefnogi a rheoli elfennau pwysig o Brosiect Wylfa Newydd. Fe fydd angen i'r awdurdodau cynllunio lleol wneud penderfyniad am sawl datblygiad a fydd eu hangen i wireddu'r datblygiad ar safle Wylfa Newydd. Dylid cyfeirio at yr amcanion strategol sy'n adeiladu ar y weledigaeth yn ogystal â'r polisiau a'r dynodiadau yng ngweddill y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
858	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	5.6	Gwrthwynebu	Mae'r weledigaeth yn gadarnhaol ar y cyfan ac yn rhoi syniad da o'r hyn y mae'r Cynllun yn gobeithio ei gyflawni'n gyffredinol ac mewn ardaloedd penodol o Ynys Môn a Gwynedd. Fodd bynnag, rydym yn bryderus nad oes unrhyw gyfeiriad at gyflawni datblygu cynaliadwy a'r	<p>Dim yn derbyn - Nid rhoi datganiad polisi terfynol ydi pwrpas y weledigaeth. Dylid cyfeirio at yr amcanion strategol sy'n adeiladu ar y weledigaeth yn ogystal â'r polisiau a'r dynodiadau yng ngweddill y Cynllun. Gyda'i gilydd fe fyddant yn hyrwyddo datblygu a fydd</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy yn y Weledigaeth, sy'n un o gonglfeini Polisi Cynllunio Cymru.	<p>yn golygu y bydd ardal y Cynllun yn un sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
1104	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	5.6	Gwrthwynebu	Er mwyn rhoi sylw priodol i Brosiect Wylfa Newydd, mae Horizon yn credu y dylai gael ei adlewyrchu yn y Weledigaeth.	<p>Derbyn y sylw - Cytunir bod Prosiect Wylfa Newydd yn un o'r gyrwyr pwysig sy'n mynd i gyfrannu at daclo nifer o faterion yn ardal y Cynllun, ac felly mae llwyddiant y Prosiect yn tanategu'r Cynllun. Bydd ychwanegu geiriad at weledigaeth y Cynllun yn cadarnhau hynny a sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ychwanegu cyfeiriad at y Prosiect yng ngeiriad y weledigaeth.</p> <p>Newid â Ffocws: NF5</p>
323	Sally Baxter (Ms Sally Baxter) [2883]	5.7	Gwrthwynebu	Croesewir y dull gweithredu o gysylltu amcanion â'r Cynllun Integredig Sengl. Fodd bynnag, nid yw amcanion y Cynllun Datblygu Lleol yn adlewyrchu'n ddigonol amcan y Cynllun Integredig Sengl o gymunedau cynhwysol lle mae iechyd a lles pobl yn dda. Byddai'n ddefnyddiol	<p>Dim yn derbyn - mae'r amcanion strategol yn adeiladu ar y weledigaeth sy'n cyfeirio at y nod i hyrwyddo ardal lle mae yna "rwydweithiau egnïol o gymunedau cynhwysol lle mae'r preswylwyr yn mwynhau iechyd a lles da". Ni chafodd yr amcanion strategol eu paratoi ar</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				pwysleisio hyn yn yr amcanion.	<p>wahân i'w gilydd ac ni ddylid eu hystyried ar wahân i'w gilydd. Mae nifer o'r amcanion strategol gyda'i gilydd yn fynegiant o'r weledigaeth ac maent yn eu tro yn sail i'r polisiau strategol a manwl sydd yn y Cynllun Adnau.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
116	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]	5.8	Gwrthwynebu	Dan thema 3 dylid cyfeirio at yr angen i ddarparu digon o dai addas i gefnogi twf economaidd yr ardal. Mae targedau tai'r cynllun wedi'u seilio ar dwf economaidd ac fel arall, felly mae angen croesgyfeirio at hyn yn well yng ngeiriad y ddogfen.	<p>Derbyn - cytunir y byddai ychwanegu at y geiriad yn SO14 i gyfeirio at y cysylltiad rhwng y lefel twf tai a'r twf economaidd yn ychwanegu at werth yr amcan strategol.</p> <p>Argymhelliad – diwygio SO14 i gyfeirio at yr angen i gyfarch twf economaidd yn ystod cyfnod y Cynllun.</p> <p>Newid â Ffocws: NF7</p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun.</p>
134	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	5.8	Gwrthwynebu	Amcan strategol arall y Cynllun yw: "I roi cyfle i bawb gael mynediad i gartref sy'n bodoli i'w hanghenion." Cytunwn ond beth am y tai gweigion sy'n bodoli'n barod. Hyd y gwelwn y	Dim yn derbyn - Pwrpas yr amcanion strategol ydi rhoi mwy o fanylion am y weledigaeth, gan ddweud sut fydd y Cynllun yn mynd ati i'w gyfarch. Yn hyn o beth nid rôl yr amcanion

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				bwriad yw creu stadau unffurf a gor-ganoli mewn ychydig o lefydd yn hytrach na chefnogi datblygiad naturiol sy'n ymateb i anghenion lleol. Mae'r stadau hyn ar draul datblygiadau yng nghefn gwlad, a chefnogir y sylwadau gan y pwyntiau o dan y pennawd "Poblogaeth, Demograffeg a Thai (t. 35/36) sef Kl.1 a Kl.5 a Kl.33	<p>strategol ydi rhoi manylion sydd i'w cynnwys mewn rhannau eraill o'r Cynllun, e.e. polisïau strategol a manwl, neu mewn dogfennau tystiolaeth, e.e. Papur Testun 3 Poblogaeth a Thai</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
135	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	5.8	Gwrthwynebu	Dywedir mai amcan strategol y Cynllun hwn yw "Cynnal a chreu cymunedau diogel, iach a bywiog." Yn ôl ein tystiolaeth ni (Adroddiad Arolwg Anghenion Tai Ardal Cyngor Llanystumdwy) mae 61.4% yn methu fforddio prynu tŷ. Yr unig symudiad sydd ei angen yw o dy mawr i un llai neu deulu mawr i dy mwy. O adeiladu 40 o dai yn Chwilog ychydig o bobl leol fyddai'n medru eu prynu. Pwy felly fyddai'n dod i fyw ynddynt gan nad oes cyfleoedd cyflogaeth yma? Mae'n debygol felly mae pobl hyn fyddai'n dod yno, ac ni fyddid yn creu cymdeithas fywiog.	<p>Dim yn derbyn - Pwrpas yr amcanion strategol ydi rhoi mwy o fanylion am y weledigaeth, gan ddweud sut fydd y Cynllun yn mynd ati i'w gyfarch. Yn hyn o beth nid rôl yr amcanion strategol ydi rhoi manylion sydd i'w cynnwys mewn rhannau eraill o'r Cynllun, e.e. polisïau strategol a manwl, neu mewn Canllawiau Cynllunio Atodol, neu mewn dogfennau tystiolaeth, e.e. Papur Testun 3 Poblogaeth a Thai, Papur Testun 17 Tai Marchnad Leol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
276	Mr Aled Evans [2646]	5.8	Cefnogi	Amcanion Strategol	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
301	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	5.8	Gwrthwynebu	<p>Mae SO16 yn cynnwys ystod eang iawn o faterion; ceid mwy o eglurder trwy wahanu'r materion hyn yn amcanion gwahanol. Dylai asedau naturiol a threftadaeth fod ar wahân er mwyn adlewyrchu gwerth cynhenid yr amgylchedd naturiol.</p> <p>Newid SO16 hefo dau amcan.</p> <p>1. Gwarchod, gwella a rheoli'r asedau naturiol ardal y cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwylt a chymeriad y dirwedd.</p> <p>2. Gwarchod, gwella a rheoli'r asedau diwylliannol ardal y cynllun a chymeriad y dirwedd a'r amgylchedd adeiledig.</p>	<p>Nodi'r sylw - Cytunir bod amcan strategol SO16 yn cynnwys y ddau bwnc. Ni chredir bod hynny yn tansellio pwrpas yr amcan. Dylid cyfeirio at sut mae'r amcan wedi cael ei drosglwyddo i bolisiau manwl y Cynllun sydd yn ymdrin â'r pynciau ar wahân.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
306	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	5.8	Gwrthwynebu	<p>Dylid rhoi mwy o bwyslais ar warchod safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol yn allbynnau allweddol thema 5. Ychwanegu " neu ddifrod i'w nodweddion".</p>	<p>Derbyn - Cytunir y byddai ychwanegu "neu ddifrod i'w nodweddion" yn egluro'r allbwn yn well.</p> <p>Argymhelliad – diwygio'r trydydd allbwn o dan Thema 5 yn unol â'r uchod.</p> <p>Newid â Ffocws: NF8</p> <p>Er mwyn gwella eglurder a chysondeb mewnol</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					y Cynllun.
349	WYG/Alliance Planning (Mr Mark Walton) [2905]	5.8	Cefnogi	Mae ein Cleient, Admiral Taverns, yn cefnogi amcan strategol SO14 ac SO15 i gyflawni ystod briodol a chymysgedd o safleoedd tai y mae modd eu codi mewn lleoliadau cynaliadwy i gwrdd ag anghenion tai'r holl boblogaeth.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid
855	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	5.8	Gwrthwynebu	Nid oes un amcan cyffredinol o gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae Polisi Cynllunio Cymru (paragraff 3.1.2 a 4.2), yn darparu rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ac mae hyn wrth galon dull Llywodraeth Cymru o greu cynllun a gwneud penderfyniadau. Caiff hyn ei egluro yn Adran 4.2 PCC ac yn benodol ym mharagraff 4.2.2. Mae hyn yn rhywbeth mawr i'w adael allan, ac wrth astudio polisïau'r Cynllun mae'n glir nad yw'r Cynllun yn ymgorffori dull Llywodraeth Cymru fel mae wedi'i amlinellu yn PCC, sef rhagdybio o blaid datblygu cynaliadwy a Chynllunio Cadarnhaol. Dylid ymgorffori'r rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy trwy'r Cynllun cyfan.	Dim yn derbyn - Ni chafodd yr amcanion strategol eu paratoi ar wahân i'w gilydd ac ni ddylid eu hystyried ar wahân i'w gilydd. Mae nifer o'r amcanion strategol gyda'i gilydd yn fynegiant o'r weledigaeth ac maent yn eu tro yn sail i'r polisiau strategol a manwl sydd yn y Cynllun Adnau. Gyda'i gilydd fe fyddant yn hyrwyddo datblygu a fydd yn golygu y bydd ardal y Cynllun yn un sy'n gynaliadwy yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol heb fod angen cyfeiriad penodol at ragdybio o blaid datblygu cynaliadwy. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
871	Ffrindiau Borth-y-Gest (Tom Brooks) [3036]	5.8	Cefnogi	Mae nodau ac amcanion Ffrindiau Borth y Gest yn cynnwys: "ceisio gwarchod natur arbennig yr ardal fel pentref glan môr prydferth, tawel sydd wedi'i	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				leoli mewn ardal wledig eithriadol o hardd". Yn y cyswllt hwn cymeradwywn Thema 1 yn y Datganiad Ysgrifenedig - cefnogi a chreu cymunedau diogel, iach, nodedig a bywiog, a Thema 5 - gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig.	
1090	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521]	5.8	Cefnogi	Mae'n cael ei ystyried y bydd y gyfres o Amcanion Strategol yn rhan 5.8 o'r Cynllun o gymorth i sicrhau y cyflawnir gweledigaeth y Cynllun a bod hyn yn gosod y cefndir sy'n sail i Bolisiau Strategol a Pholisiau Manwl.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid
1097	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521]	5.8	Cefnogi	Mae'n cael ei gydnabod bod Amcan Strategol Thema 5 rŵan yn cynnwys yr angen i warchod, gwella a rheoli asedau naturiol.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid
1105	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	5.8	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn credu y byddai'n briodol cynnwys amcan strategol newydd o dan Thema 3 sy'n cefnogi datblygu Prosiect Wylfa Newydd, i sicrhau bod y CDLI ar y Cyd yn cynnwys fframwaith polisi cydlynol i reoli Prosiect Wylfa Newydd. Gweler hefyd os gwelwch yn dda'r Fframwaith Polisi Arfaethedig ar gyfer Wylfa Newydd, sydd wedi cael ei baratoi i ddangos y fframwaith polisi penodol yn ei gyfanrwydd ar gyfer Wylfa Newydd.	Derbyn - nodi'r bod Thema 3 a'r amcanion strategol a'r prif ganlyniadau gyda'i gilydd yn rhoi'r fframwaith sy'n fynegiant o elfen o weledigaeth y Cynllun sy'n ymwneud a datblygu'r economi leol. Maent fel nifer o'r amcanion strategol eraill yn rhoi'r bachau ar gyfer y polisiau a fydd yn hyrwyddo'r datblygiadau a fydd eu hangen i gyfarch gofynion Prosiect Wylfa Newydd. Er hynny, cytunir y byddai ychwanegu amcan strategol arall yn cryfhau'r rhan yma o'r Cynllun, gan sicrhau ei gysondeb mewnol. Argymhelliad – ychwanegu amcan strategol arall o dan Thema 3 i gyfeirio at gefnogi a

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>gwneud yn fawr o'r cyfleoedd ddaw i'r ardal yn sgil Prosiect Wylfa Newydd.</p> <p>Newid â Ffocws: NF6</p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun</p>
1111	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	5.8	Gwrthwynebu	<p>Mae'n cael ei ddatgan fel allbwn allweddol "ni fydd datblygiadau a gafodd ganiatâd cynllunio wedi arwain at golli safle o werth cadwraeth natur ryngwladol neu genedlaethol".</p> <p>Mae'r geiriad yma'n rhy anhyblyg. Er enghraifft mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) Tre'r Gof tu mewn i ffiniau safle Gorsaf Bŵer Niwclear y Wylfa ac mae CSYM yn ymwybodol o'r potensial i waith adeiladau Prosiect Wylfa Newydd gael effaith andwyol arno. Nid yw'r allbwn y ceisir ei gael yn dangos digon o hyblygrwydd ar gyfer newidiadau mewn amgylchiadau ac nid yw'n cydnabod bod proses yn bodoli ar gyfer dileu dynodiad SoDdGA.</p>	<p>Dim yn derbyn - Cytunir y gallai datblygiad mewn eithriadau arwain at golli safle o werth cadwraeth natur ryngwladol neu genedlaethol. Byddai hynny ond yn digwydd ar ôl dilyn proses gydnabyddedig o asesu'r cynnig. Ni chredir bod hynny yn tansilio'r prif ganlyniad anelir ei gyrraedd, sy'n gyson ag amcan strategol SO16. Dylid cyfeirio at sut mae'r amcan wedi cael ei drosglwyddo i bolisiau manwl y Cynllun sydd yn adlewyrchu gofynion statudol a pholisi cynllunio cenedlaethol, gan nodi y byddai angen cyfiawnhad clir ac argyhoeddiadol neu fudd gor-redol i gyfiawnhau colli safle neu effeithio'n andwyol ar ei nodweddion pwysig.</p> <p>Noder bod y gwrthwynebydd yn cyfeirio at ddileu dynodiad SoDdGA. Os fydd y SoDdGA yn cael ei ddileu ni fyddai'n safle a fyddai'n destun gwarchodaeth o dan y Polisi. Felly, nid yw'n glir pam fod angen cyfeiriad at y broses ddileu yn y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
1407	Admiral Taverns [3348]	5.8	Cefnogi	SO14 a SO15 - Mae ein cleientiaid yn cefnogi'r cynsail y dylai'r CDLI ar y Cyd Adnau ddarparu ystod a chymysgedd digonol a phriodol o dai y mae modd eu datblygu mewn lleoliadau cynaliadwy er mwyn diwallu gofynion tai pob rhan o'r boblogaeth, cefnogi gwead cymdeithasol a diwylliannol yr ardal a chyfrannu at gyflawni amcanion economaidd y Cynllun.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid

PENNOD 6 – Y STRATEGAETH

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
67	Cyngor Cymuned Llanddyfnan (Mr Graham Owen) [1378]	6.1	Gwrthwynebu	Gweler uchod Mae'r aelodau hefyd yn cynnig bod cyngorau Gwynedd a Môn yn mynd yn ôl i'r dechrau gyda'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, ac yn ailedrych yn ddifrifol ar y cynigion.	Dim yn derbyn Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
216	PAWB (Robat	6.1	Gwrthwynebu	Mae cynsail y Cynllun yn wallus, gan ei fod yn	Dim yn derbyn - mae'r galw am atomfeydd ynni

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Idris) [2814]			rhagdybio y bydd gorsaf niwclear Wylfa B yn cael ei hadeiladu. Gan fod y strategaeth yn wallus, mae'r holl Gynllun yn annilys. Credir bod methiant i adeiladu pwerdy Hinkley hyd yma yn arwydd na fydd Wylfa B yn cael ei adeiladu. Cyfeirir at ystyriaethau'n ymwneud a chael gwared o'r gwastraff yn ddiogel. Yn ogystal a hyn cyfeirir at symudiadau i beidio dibynnu ar nifer fechan o ddarprwyr, gan edrych ar brosiectau i gyfarch galw yn lleol, buddsoddi mewn ynni adnewyddol a dulliau i leihau'r galw am ynni. Oherwydd yr ansicrwydd ynglyn a dyfodol y pwerdy arfaethedig dylid cael dau gynllun: un i gyfarch senario efo'r pwerdy a'r llall heb y pwerdy. Byddai hyn yn osgoi rhoi caniatad i ormodedd o dai heb eu hangen yn Ynys Mon a fyddai'n cael effaith andwyol ar gymunedau lleol.	niwclear wedi cael ei sefydlu gan Lywodraeth Prydain. Mae Datganiad Polisi Cenedlaethol EN-6 wedi adnabod safle Wylfa Newydd fel lleoliad sydd o bosib yn addas i ddatblygu pwerdy newydd erbyn diwedd 2025. Mae'n bwysig bod y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn rhoi fframwaith bolisi cynllunio lleol yn ei le i gefnogi a rheoli elfennau pwysig o Brosiect Wylfa Newydd. Bydd rhaid i'r Cynllun gael ei fonitro'n flynyddol a bydd rhaid ei adolygu ar ôl 4 mlynedd, oni bai bod y gwaith monitro yn dangos bod angen un cynharach. Bydd y gwaith monitro ac adolygu yn cofnodi os bydd Wylfa Newydd yn digwydd ai pheidio. Os na fydd Wylfa Newydd yn cael ei adeiladu yn ystod oes y Cynllun, bydd angen i'r Cyngor ddangos trwy'r adolygiad sut fydd yn ymdopi â hynny. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
863	Cymdeithas Ddinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988]	6.1	Gwrthwynebu	Credwn fod angen i'r Cynllun amlygu pynciau allweddol: * poblogaeth sy'n heneiddio: mae sawl agwedd i hwn ac mae'n anodd dod i gasgliad ynghylch dull holistaidd y Cynllun; * plant a phobl ifanc - fel yr uchod;	Dim yn derbyn - Bydd y mathau o unedau tai ar safleoedd a chynllun/ dyluniad y safleoedd yn faterion a gaiff eu trafod adeg cais cynllunio. Nid yw hyn yn gwahardd datblygu ar gyfer yr henoed neu grwpiau eraill o'r gymuned. Mae Polisi TAI 1 yn hyrwyddo cymysgedd o fathau o dai ac mae

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>* pobl anabl - fel yr uchod. Mae gan Gymru gyfran uwch o bobl anabl na gwledydd a rhanbarthau eraill y DU ac yn 2010 fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan fod lefelau anabledd (o dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd) yn un o bob pump o'r boblogaeth weithio.</p> <p>* lliniaru tlodi - maes arall lle mae Cymru yn tanberfformio ac a ddylai fod yn greiddiol i ddiben y Cynllun.</p>	<p>Polisi TAI4 yn son am gartrefi preswyl, tai gofal ychwanegol neu lety gofal ychwanegol ar gyfer yr henoed. Mae'r Cynllun yn cynnwys cyfres o bolisiau safle penodol a meini prawf yn rhan 7.3 sydd yn hyrwyddo gwahanol fathau o gyfleoedd cyflogaeth mewn mannau sy'n hygyrch i gymunedau'r ardal er mwyn trawsnewid yr economi leol. Mae Polisi PS5 a Pholisi PCYFF2 yn rhoi'r fframwaith i ofalu am anghenion pobl anabl.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
1003	Cyngor Sir Ceredigion (Mrs Llinos Quelch) [1286]	6.1	Cefnogi	<p>Ar ôl ystyried strategaethau a pholisiau CDLI adnau Gwynedd ac Ynys Môn, nid yw Cyngor Sir Ceredigion o'r farn fod angen cyflwyno sylwadau ar unrhyw bolisiau na materion penodol. Mae'r strategaeth arfaethedig yn cyfateb yn fras i Gynllun Datblygu Lleol Ceredigion, gyda hierarchaeth aneddiadau a strategaeth cyfraniadau tai fforddiadwy yn seiliedig ar raddfa 'symudol'. Ni fyddai'r CDLI adnau yn gwrthdaro â strategaeth a pholisiau CDLI Ceredigion nac yn cael unrhyw effaith</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				niweidiol arnynt, nac i'r gwrthwyneb, ac felly rydym yn croesawu'r drafft arfaethedig.	
848	Mr Rob Booth [3033]	6.3	Gwrthwynebu	Ar dudalen 46 yn nhabl 8 un o brif elfennau'r strategaeth yw twf economaidd. Nid yw twf economaidd yn gynaliadwy. Awgrymaf y dylai'r brif strategaeth geisio cynnal statws economaidd.	<p>Dim yn derbyn - Mae'r strategaeth ac felly'r polisiau a'r cynigion sydd yn y Cynllun Adnau yn gadarn ac yn gallu cael eu gwredu oherwydd eu bod nhw'n seiliedig ar dystiolaeth rymus ac wedi cael eu hystyried yn erbyn yr Asesiad Cynaliadwyedd a pholisiau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
133	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	6.4	Gwrthwynebu	Cefnogwn y sylw "Hyrwyddo cymunedau ffyniannus a chynaliadwy sy'n cefnogi gwasanaethau lleol gan gynnwys darparu tai ychwanegol a datblygiadau cysylltiedig yn gymesur a gofynion lleol." Mae casgliadau'r "Arolwg Anghenion Tai Ardal Cyngor Cymuned Llanystumdwy" yn gymesur a'r gofyn lleol ac yn cadarnhau nad oes angen y math o ddatblygiad a gynigir yn y Cynllun Adnau yn Chwilog.	<p>Dim yn derbyn - Mae'r galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddiwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Cafodd ei ddatblygu ar ôl ystyried yr Asesiad Cynaliadwyedd a pholisiau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
128	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	6.5	Gwrthwynebu	<p>Dywedir "Gosodir lefel o dwf yr ystyrir sy'n cynrychioli'r dull mwyaf cadarn, cytbwys a phriodol, o ystyried yr holl ffactorau perthnasol, yn cynnwys gwaith a wnaed gan ragolygon tai ac economaidd annibynnol." Anghytunwn, eto ar sail Adroddiad Anghenion Tai Ardal Cyngor Cymuned Llanystumdwy.</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae'r galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddiwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Cafodd ei ddatblygu ar ôl ystyried yr Asesiad Cynaliadwyedd a pholisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
278	Mr Aled Evans [2646]	6.5	Gwrthwynebu	<p>Strategaeth</p> <p>Nid yw'r dystiolaeth yr wyf i wedi ei weld yn cefnogi'r gosodiadau a geir yma.</p>	<p>Nodi'r sylw - Mae'r sail dystiolaeth a welir mewn cyfres o Bapurau Testun, Papurau Cefndir yn ogystal â dogfennau a gyhoeddwyd gan eraill wedi goleuo'r Cynllun. Mae'r gofynion a gafodd eu hadnabod ydynt yn cael eu hadlewyrchu ym mholisïau a dynodiadau'r Cynllun Adnau. Credir felly bod tystiolaeth rymus wedi cael ei</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>ddefnyddio i oleuo strwythur a chynnwys y Cynllun a, lle mae'n briodol i wneud hynny, mae'r Cynllun yn cyfeirio at y dogfennau cefndir perthnasol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
834	Cyngor Cymuned Tudweiliog (Mrs Glenys Peters) [1236]	6.8	Gwrthwynebu	Dylai'r pentrefi sydd ddim ar y rhestr gael eu hystyried yn ôl y galw lleol.	<p>Dim yn derbyn - Mae'r Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o dreffi a phentrefi sydd gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a'i gyhoeddi i adnabod yr aneddeledd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Aneddeledd.</p> <p>Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafniadaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddeledd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
1029	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	6.8	Gwrthwynebu	<p>Mae angen mwy o gyfiawnhad i esbonio nifer y pentrefi rydych wedi'u cynnwys yn y polisi hwn. Mae rhai o'r clystyrau hyn wedi cael sgôr isel iawn yn y matrices cynaliadwyedd a welwch ym mhapur testun 5 (Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd). Mae'r sgoriau is yn awgrymu eu bod yn ddatblygiadau diarffordd llai cynaliadwy, heb gysylltiad da â gwasanaethau a chyfleusterau - ac felly angen egluro pam eu bod wedi'u henwi. Mae Llywodraeth Cymru'n gwrthwynebu bod cymaint o 'glystyrau' wedi'u henwi heb ddigon o gyfiawnhad.</p>	<p>Derbyn yn rhannol - Mae'r Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o aneddleoedd sydd gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a'i gyhoeddi i adnabod yr aneddleoedd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd. Mae'n bwysig bod y strategaeth ofodol yn cydnabod bod yr ardal yn un gwledig iawn ac yn un sy'n cynnwys rhwydwaith o wahanol aneddleoedd gwasgaredig. Mae'r Cynghorau wedi ceisio sicrhau y bydd datblygiad yn y dyfodol wedi ei leoli mewn llefydd lle ceir mynediad i gludiant cyhoeddus. Mae'r clystyrau sydd wedi cael eu hadnabod yn rhai lle gall preswylwyr fynd at wasanaethau a chyfleusterau mewn aneddleoedd sy'n uwch i fyny yn y goeden Aneddleoedd heb orfod defnyddio'r car. Mae adnabod y Clystyrau hefyd yn mynd i fod yn cyfrannu at gynnal cymunedau lle mae'r iaith Gymraeg yn gryf. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisiâu strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau ar raddfa briodol sy'n cyfarch disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun.</p> <p>Felly, mae'r Cynghorau o'r farn bod y categori</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Clwstwr mewn ardal sydd yn wledig iawn ei natur yn mynd i hyrwyddo canran bychan o'r twf i aneddeleoedd bychan yn mynd i gyfarch yr elfen gymdeithasol o'r amcanion cynaliadwyedd</p> <p>Er hynny, cytunir bod lle i esbonio sut cafodd y clystyrau eu hadnabod ac fe wneir hynny trwy ychwanegu at Bapur Testun 5.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen newid y Cynllun Adnau i ymateb i'r gwrthwynebiad yma, ond dylid cyfeirio at Bapur Testun 5 diwygiedig.</p> <p>Dim newid</p>
403	Rheilffordd Eryri (Mr Graham Farr) [254]	6.10	Cefnogi	Cefnogi	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
1093	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521]	6.10	Cefnogi	Mae CNC yn fodlon efo nod y strategaeth o ddsbarthu datblygiad yn gymesur o gwmpas ardal y cynllun. Y canolbwynt yn hyd ydi lleoli datblygiad yn y mannau hynny sy'n darparu'r cyfle gorau i gael datblygiad cynaliadwy h.y. datblygu'r canolfannau isranbarthol, trefol a gwasanaeth lleol, a swm priodol o ddatblygiad yn y pentrefi, gan ganolbwyntio ar bentrefi	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				gwasanaeth ac wedyn rywfaint o ddatblygiad mewn Clystyrau.	
302	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	6.11	Gwrthwynebu	Dylai'r frawddeg olaf bwysleisio'r themâu sydd mewn rhan arall o'r cynllun o ran gwarchod yr amgylchedd naturiol. Newid "cefn gwlad" i "amgylchedd naturiol" yn y frawddeg ddiwethaf.	<p>Derbyn - Cytunir y byddai cynnwys "amgylchedd naturiol" yn y rhan yma o'r Cynllun yn cynorthwyo i gynnal cysondeb mewnol y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad – diwygio'r frawddeg trwy ychwanegu "amgylchedd naturiol" ar ol "cefn gwlad".</p> <p>Newid â Ffocws NF9</p> <p>Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.</p>
856	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	6.13	Gwrthwynebu	Mae paragraff 6.13 yn cyfeirio at Astudiaeth Capasiti Trefol y Canolfannau, lle mai'r nod a'r flaenoriaeth yw ailddefnyddio tir llwyd a ddatblygwyd o'r blaen pan fo hynny'n bosib. Fodd bynnag, roedd yr astudiaeth hon wedi'i chyfyngu'n llwyr i ganolfannau trefol presennol. Roedd yn anwybyddu cyn safle Friction Dynamics sy'n fawr, yn segur ac yn llygredig. Fodd bynnag, yn nhermau cynladwyedd mae'r safle wedi'i leoli'n agos at Gaernarfon. Caiff ei wasanaethu'n dda gan lwybrau bysus sy'n bodoli, a thaith 5 munud ydyw i'r orsaf bws, ac mae wedi'i gysylltu â Chaernarfon gan lwybr beicio o ansawdd da - taith feic o 10 munud. Mae yna hefyd balmant o'r safle i Gaernarfon. Mae'r safle yn dir a ddatblygwyd o'r blaen, mae'n llygredig ac mae strwythur congrid a dur anferth arno sy'n dominyddu'r safle a'r ardal	<p>Dim yn derbyn - Wrth baratoi'r Cynllun fe roddwyd sylw i ofynion polisi cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru. Mae'r ddogfen yma yn cynghori awdurdodau cynllunio lleol i gyfeirio datblygiad i leoliadau cynaliadwy, gan gynnwys ystyried tir a ddefnyddiwyd o'r blaen ac adeiladau sydd du mewn i aneddeleodd yn gyntaf, yna estyniadau i aneddeleodd ac yn olaf datblygiad newydd o gwmpas aneddeleodd sydd â chysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus dda. Cafodd y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr Astudiaeth Capasiti Trefol ei ddatblygu gyda hynny mewn golwg.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				ehangach o amgylch - gweler y gwrthwynebiadau i safleoedd penodol.	cadernid y Cynllun. Dim newid
1674	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	6.14	Gwrthwynebu	Methodoleg Asesu Safleoedd - Er mwyn i'r asesiad hwn fod yn effeithiol, bydd angen i'r awdurdodau egluro faint yn union o'r safle sydd ar dir a ddynodwyd fel Tir Gorau a Mwyaf Amlbwrpas, a sut mae hyn wedi effeithio ar benderfyniadau ynghylch defnydd o dir o'r fath.	Nodi'r sylw - Wrth ddewis safleoedd i'w cynnwys fe wnaeth y Cynghorau geisio adnabod ansawdd amaethyddol y safleoedd ac fe gafwyd gwybodaeth gan Adran Amgylchedd Naturiol ac Amaeth Llywodraeth Cymru. Rhoddwyd ystyriaeth i ofynion polisi cynllunio cenedlaethol a fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd. Mae blaenoriaeth wedi cael ei roi hefyd i ddod o hyd i safleoedd ac adeiladau a ddefnyddiwyd o'r blaen sydd du mewn i anedlleoedd. Lle mae angen i ymestyn anedlleoedd rhoddwyd blaenoriaeth i dir sydd yn y categorïau isaf oni bai bod cyfiawnhad clir ac argyhoeddedig i beidio gwneud hynny, e.e. oherwydd y byddai cyfeirio datblygiad i safleoedd sydd mewn categori is yn groes i strategaeth ofodol y Cynllun. Wrth weithredu yn y modd yma credir bod y Cynghorau wedi isafu'r golled o dir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas. Er hynny, cytunir bod lle i wella sut caiff y wybodaeth ei gyflwyno. Cyfeirir at Bapur Testun 1A sydd yn rhoi gwybodaeth allweddol am ddynodiadau'r Cynllun. Argymhelliad – Nid oes angen newid y Cynllun Adnau i ymateb i'r gwrthwynebiad yma, ond dylid

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					cyfeirio at Bapur Testun 1A diwygiedig. Dim newid
404	Rheilffordd Eryri (Mr Graham Farr) [254]	6.17	Cefnogi	Nid yw'r Cwmni'n dymuno gweld y ffin ddatblygu ar ochr ogleddol Porthmadog yn cael ei hymestyn.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid
1112	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	6.19	Gwrthwynebu	Mae cyfeiriad at "Habitats Regulation Appraisal" ac mae hynny'n gamgymeriad teipio, ddylai ddweud "Habitats Regulation Assessment" ("HRA"). Dylai'r testun hwn fod yn eglur beth bynnag o ran ba gamau o Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yr ymgwymerwyd â nhw (h.y. sgrinio, asesu priodol ayyb).	Derbyn yn rhannol – cytunir nad ydi'r fersiwn Saesneg o'r Cynllun Adnau yn cynnwys yr enw cywir. Mae'r paragraff yma o ran 6 o'r Cynllun yn enwi'r asesiadau sydd wedi goleuo'r penderfyniad i gyfeirio twf a fyddai fel arall wedi mynd i Borthmadog. Nid yw'n briodol cynnwys manylion am yr asesiadau yma yn y rhan yma o'r Cynllun. Mae'r adroddiadau am yr asesiadau yn darparu'r wybodaeth berthnasol. Felly, nid oes angen diwygio'r Cynllun i ymateb i'r rhan yma o'r gwrthwynebiad. Argymhelliad – cywiro'r fersiwn Saesneg o'r Cynllun i ddweud "Habitat Regulation Assessment" er mwyn sicrhau cywirdeb. Newid Bychan: NB1 Er mwyn sicrhau cywirdeb.
873	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom	6.20	Gwrthwynebu	Nodwn y testun cefnogol i 6.20 ac rydym yn cefnogi llunio'r ffiniau datblygu yn dynn o	Derbyn - Cytunir y byddai cynnwys geiriad sy'n nodi bod sawl math o 'bentrefi' wedi cael eu

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Brooks) [3036]			amgylch ymyl gwirioneddol yr aneddleoedd. Mae ein gwrthwynebiad yn gofyn am addasu a darparu eglurder a chysondeb yn y cynllun. Rydym yn bryderus fod y diffiniad o ffiniau datblygu yn cyfeirio at "y Ganolfan Is-ranbarthol, Canolfan Gwasanaeth Trefol, Canolfannau Gwasanaeth Lleol a phentrefi". Nodwn nad oes categori a elwir yn bentrefi ym mholisiâu ffurfiol y datganiad ysgrifenedig, ond mae categorïau a elwir yn "bentrefi lleol" a "phentrefi arfordirol/gwledig". Byddai'r testun yn well pe bai'n rhoi egluro bod y ffiniau datblygu yn berthnasol i bob un o'r pentrefi hyn.	hadnabod yn y Cynllun yn gwella eglurder a sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun. Argymhelliad Cywiro ail frawddeg ym mharagraff 6.20 i gyfeirio at bentrefi lleol, pentrefi gwledig a phentrefi arfordirol. Newid Bychan NB1 Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.
909	Tom Brooks [3034]	6.20	Gwrthwynebu	Rwy'n cefnogi llunio'r ffiniau datblygu yn dynn o amgylch ymyl gwirioneddol yr aneddleoedd. Mae'r gwrthwynebiad hwn yn gofyn am addasu a darparu eglurder a chysondeb yn y cynllun. Rwyf yn bryderus fod y diffiniad o ffiniau datblygu yn cyfeirio at "y Ganolfan Is-ranbarthol, Canolfannau Gwasanaeth Trefol, Canolfannau Gwasanaeth Lleol a phentrefi". Nodwn nad oes categori a elwir yn bentrefi ym mholisiâu ffurfiol y datganiad ysgrifenedig, ond mae categorïau a elwir yn "bentrefi lleol" a "phentrefi arfordirol/gwledig". Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, byddai'r testun yn well pe bai'n egluro bod y ffiniau datblygu yn berthnasol i bob un o'r pentrefi hyn. Ymofyn am gysondeb mewn diffiniadau mewn	Derbyn - Cytunir y byddai cynnwys geiriad sy'n nodi bod sawl math o 'bentrefi' wedi cael eu hadnabod yn y Cynllun yn gwella eglurder a sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun. Argymhelliad Cywiro ail frawddeg ym mharagraff 6.20 i gyfeirio at bentrefi lleol, pentrefi gwledig a phentrefi arfordirol. Newid Bychan NB1 Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				perthynas â phentrefi. Nid ydwyf yn ystyried y 10 prawf cydnabyddedig yn brofion cadernid cynhwysfawr. Gall anghysondebau mewn terminoleg creu ansicrwydd a bod hynny yn brawf cadernid cyfartal.	
1434 1455	Cyngor Tref Penrhyndeudraeth (Mr Glyn Roberts) [1261] Cyng/Counc Gareth Thomas [402]	6.24	Gwrthwynebu	Nid yw'r strategaethau a'r bwriadau arfaethedig wedi'u seilio ar sail tystiolaeth gredadwy yn unol â Phrawf Cadernid CE2. Mae yma anghysondebau a chroesddweud ac anallu i sylweddoli arwyddocâd ystadegau. Mae yna ddatganiadau yn yr Asesiad Effaith Ieithyddol am Benrhyndeudraeth ar gyfeirion yn llwyr. Hefyd, lle y cyfeirir at y ganran o boblogaeth Penrhyndeudraeth sy'n medru'r Gymraeg, mae'r trydydd pwynt bwled yn nodi bod 74.8% o'r boblogaeth yn ei medru, sydd yn 4.8% yn uwch na'r trothwy, ond yn yr adran 'Casgliadau' nodir mai 76.5% a 6.5 % ydyw'r canrannau. Pa un sy'n gywir?	<p>Derbyn yn rhannol - Mae'r sail dystiolaeth a welir mewn cyfres o Bapurau Testun, Papurau Cefndir yn ogystal â dogfennau a gyhoeddwyd gan eraill wedi goleuo'r Cynllun. Mae'r gofynion a gafodd eu hadnabod ydynt yn cael eu hadlewyrchu ym mholisiau a dynodiadau'r Cynllun Adnau. Credir felly bod tystiolaeth rymus wedi cael ei ddefnyddio i oleuo strwythur a chynnwys y Cynllun a, lle mae'n briodol i wneud hynny, mae'r Cynllun yn cyfeirio at y dogfennau cefndir perthnasol.</p> <p>Cytunir bod angen cywiro'r rhan berthnasol o'r adroddiad am yr Asesiad Effaith Ieithyddol er mwyn sicrhau cysondeb. Dylid cyfeirio at yr adroddiad diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Cytunir i gywiro'r rhan berthnasol o'r adroddiad am yr Asesiad Effaith Ieithyddol, sy'n cael ei gyhoeddi ar wahân i'r Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Dim Newid
1429	Cyngor Tref Penrhyddeudraeth (Mr Glyn Roberts) [1261]	6.25	Gwrthwynebu	Mae diwylliant y maes cynllunio yn mynnu bod rhywogaethau o greaduriaid ac o blanhigion sydd wedi bod o dan warchae a rhai mathau o adeialadau i'w trin gyda gofal a pharch rhag eu niweidio ymhellach gan gynlluniau adeiladu a pheirianegol ac ati. Mewn gwrthgyferbyniad llwyr, rhwystrir y drefn gynllunio rhag rhoi yr un ystyriaeth a pharch i'r Gymraeg. Er ei bod hithau dan warchae trwm ac ar encil, gorfodir hi i fod y tu allan i'r diwylliant cynllunio. Dylid ei chynnwys o fewn y diwylliant cynllunio a'i hamddiffyn trwy naws statudol. Gyda hynny mewn golwg, adeiladu tai yn ol anghenion ein cymunedau yn unig ac nid yn ol rhagamcanion y system.	<p>Nodi'r sylw - Yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol rhoddwyd ystyriaeth fanwl trwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun i anghenion a buddiannau'r Gymraeg er mwyn gallu sicrhau bydd y Cynllun yn cyfrannu at ei lles. Mae'r Asesiad Cynaliadwyedd o'r Cynllun wedi cynnwys yr angen i hyrwyddo datblygiad sy'n cynnal neu gryfhau'r iaith Gymraeg o fewn y fframwaith gynaliadwyedd. Mae gofynion adran 11 ac 31 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) wedi arwain at ychwanegiad sy'n rhoi statws statudol i'r Gymraeg.</p> <p>Mae'r galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigur sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Cafodd ei ddatblygu ar ôl ystyried yr Asesiad Cynaliadwyedd a pholisiau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. Dylid cyfeirio at yr ystod o bolisiau strategol a manwl sy'n mynd i gynorthwyo'r Cynllun i gyfrannu at les y Gymraeg.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
1436	Cyng./Counc Gareth Thomas][402]	6.25	Gwrthwynebu	<p>Mae yna deimlad bod yr iaith Gymraeg dan warchae trwm ac yn cael ei bygwth, ac mae yna deimlad nad ydi'r broses a'r diwylliant cynllunio yn ei hystyried yn bwysig. Gyda hyn mewn golwg, fe ddylai adeiladu tai ddim ond cyfarch anghenion ein cymunedau lleol ac nid y system rhagolygon, sydd yn groes i hyn.</p>	<p>Nodi'r sylw - Yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol rhoddwyd ystyriaeth fanwl trwy gydol y broses o baratoi'r Cynllun i anghenion a buddiannau'r Gymraeg er mwyn gallu sicrhau bydd y Cynllun yn cyfrannu at ei lles. Mae'r Asesiad Cynaliadwyedd o'r Cynllun wedi cynnwys yr angen i hyrwyddo datblygiad sy'n cynnal neu gryfhau'r iaith Gymraeg o fewn y fframwaith gynaliadwyedd. Mae gofynion adran 11 ac 31 o Ddeddf Cynllunio (Cymru) wedi arwain at ychwanegiad sy'n rhoi statws statudol i'r Gymraeg.</p> <p>Mae'r galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigur sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu. Cafodd ei ddatblygu ar ôl ystyried yr Asesiad Cynaliadwyedd a pholisïau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. Dylid cyfeirio at yr ystod o bolisïau strategol a manwl sy'n mynd i gynorthwyo'r Cynllun i gyfrannu at les y Gymraeg.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
1113	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	6.26	Gwrthwynebu	Nid oes digon o gefnogaeth i Brosiect Wylfa Newydd yn y Cynllun. Dylai'r paragraffau hyn gynnwys cefnogaeth i Brosiect Wylfa Newydd, fel y datblygiad sy'n gyrru fwyaf ar y trawsnewid economaidd mae awydd amdano.	<p>Derbyn y sylw – mae'r Cynllun Adnau yn cyfeirio at bwysigrwydd Prosiect Wylfa Newydd i Ynys Mon a'r ardal ehangach sawl gwaith, gan gynnwys y paragraff yma. Er hynny, cytunir y byddai ychwanegu geiriad i'r paragraff yn unol ag awgrymiad y gwrthwynebydd yn atgyfnerthu hynny.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio'r paragraff yn unol ag awgrymiad y gwrthwynebydd.</p> <p>Newid â ffocws NF11, NF12</p> <p>I sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun</p>
1114	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	6.28	Gwrthwynebu	'Does dim digon o gefnogaeth i Brosiect Wylfa Newydd yn y Cynllun. Dylai'r paragraffau hyn gynnwys cefnogaeth i Brosiect Wylfa Newydd, fel y datblygiad sy'n gyrru fwyaf ar gyfer y trawsnewid economaidd mae awydd amdano. Awgrymir y dylid cyfeirio at hyrwyddwyr prosiectau yn y bedwaredd frawddeg.	<p>Derbyn – Er nad oedd bwriad i'r frawddeg gynnwys rhestr lawn o bobl fydd y Cynghorau yn cydweithio â hwy, cytunnir y byddai ychwanegu cyfeiriad at 'hyrwyddwyr prosiectau' yn rhoi darlun llawnach.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Ychwanegu 'hyrwyddwyr prosiectau' at y rhestr o bobl fydd y Cyngor yn cydweithio er mwyn gwella eglurder.</p> <p>Newid a Ffocws NF12</p>
203	John Brinley Jones [2087]	6.31	Gwrthwynebu	<p>Mae hi hefyd yn hanfodol fod perchenogion busnes sy'n creu cyflogaeth a chyfoeth yn yr ardal yn cael eu hannog i symud i mewn i'r ardal neu os oes angen cartref arnynt yn un o'r pentrefi hyn a bod ganddynt ddarn o dir, ni ddylent orfod codi anheddau maint fforddiadwy caeth iawn gan y byddai o bosib angen cyfleusterau ychwanegol arnynt yn eu cartrefi, megis gofod swyddfa neu fannau lle gallent weithio o'r cartref. I ystyried bob cais cynllunio ar eu rhinweddau yn hytrach na chael polisi cyffredinol sy'n amlwg methu cwrdd â'r holl anghenion.</p>	<p>Dim yn derbyn – mae'r galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafndiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
214	Ffedarasiwn Adeiladwyr	6.40	Gwrthwynebu	<p>Nid ystyrir ei bod yn glir pam y dewiswyd y ffigwr tai gan nad yw'n ffitio i mewn gyda'r un</p>	<p>Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]			<p>o'r senarios a brofwyd (pwynt a wnaed yn nogfennau'r Cyngor ei hun). At hyn, nid yw'n ymddangos fod y ffigwr yn cynnwys lwfans cyfradd gwacter o 4% sy'n ofynnol i'r farchnad dai weithredu'n arferol. Mae ffigwr Gwynedd hefyd yn is na'r ffigwr a ragwelwyd sy'n mynd yn groes i gyngor Carl Sargeant AC sy'n cyngori mai'r pwynt cychwyn y dylai'r rhain fod.</p> <p>Angen eglurhad pellach ar yr opsiwn dewisol. Cynyddu'r angen tai i 7471 i adlewyrchu'r 4% graddfa'r unedau gwag. Angen egluro pam fod y ffigwr tai yng Ngwynedd llai na'r ffigwr rhagamcaniad tai 2011 .</p>	<p>ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics "Rhogolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario" (2014), "Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd" (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Mae'r broses o drosi cyfanswm nifer aelwydydd i gyfanswm nifer unedau tai wedi rhoi sylw i'r</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>raddfa unedau gwag, sy'n uwch na 4%.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
117	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]	6.41	Gwrthwynebu	<p>Ni cheir unrhyw gyfeiriad at lwfans am eiddo gwag. Mewn Cynlluniau Datblygu Lleol diweddar, derbyniwyd yn gyffredinol y dylid gwneud lwfans o 4% ar gyfer hyn oherwydd bod angen lefel penodol o eiddo gwag ar y farchnad i weithredu. Fodd bynnag, mae gwahaniaeth rhwng eiddo gwag tymor hir y mae modd i bolisi Cyngor roi sylw iddynt ac eiddo sy'n wag am gyfnod byr.</p>	<p>Derbyn yn rhannol - Mae Cyfrifiad 2011 yn rhoi ffigwr 12.2% i Wynedd a 10.5% i Ynys Môn o ran bodolaeth tai gwag. Mae'r lefel yma wedi cael ei gymhwyso ar gyfer y</p> <p>senarios ystadegol i gyd ac wedi ei gofnodi yn y Papur Cefndir am ragolygon poblogaeth, aelwydydd a thai.</p> <p>Cytunnir y byddai ychwanegu cyfeiriad at y wybodaeth yma yn y Cynllun Adnau ac ym Mhapur Testun 4A cynorthwyo i wella dealltwriaeth o'r cyfanswm unedau tai.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio paragraff 6.40 i gyfeirio at lwfans tai gwag ac ychwanegu at Bapur Testun 4A yn unol â hynny.</p> <p>Newid â ffocws: NF13</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Er mwyn sicrhau eglurder
293	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]	6.42	Gwrthwynebu	Cred y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi y dylai mwy o'r gofynion tai ddod o Ganolfannau Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaethau Trefol gan y byddai hyn yn gwneud y cynllun yn fwy cynaliadwy ac ymateb i'r galw yn y farchnad. Cynyddu'r niferoedd o dai yn y ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Gellid gwneud hyn drwy ddynodi fwy o safleoedd a fydd hefyd yn rhoi'r niferoedd ychwanegol a awgrymir yn ein sylwadau ar ddarnau arall y cynllun	<p>Dim yn derbyn - Mae'n bwysig bod y strategaeth ofodol yn cydnabod bod yr ardal yn un gwledig iawn ac yn un sy'n cynnwys rhwydwaith o wahanol aneddleoedd gwasgaredig. Cafodd y strategaeth ddsbarthu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisïau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Mae'n mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafndiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
118	Ffederasiwn	6.43	Gwrthwynebu	Codir pryder ynghylch y ddibyniaeth drom ar	Dim yn derbyn – Mae'r Cynghorau o'r farn bod y

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]			safleoedd sydd eisoes wedi cael caniatâd. Mae nifer o'r rhain wedi cael caniatâd ers tro ac efallai bod rhesymau eraill ar wahân i'r farchnad pam nad ydynt wedi cyflawni hyd yn hyn. A gynhaliwyd asesiad o'r tebygolrwydd y bydd y rhain yn cyflawni? Caiff hyn ei gefnogi gan Gydastudiaeth argaeledd tir ar gyfer tai i bob ardal eleni a nodwyd ganddo nifer o safleoedd oedd wedi bod i mewn er dros bum mlynedd a llawer mwy oedd wedi dangos eu bod wedi dechrau ar y safle er mwyn cadw'r caniatâd yn fyw neu adnewyddu'r caniatâd.	<p>safleoedd a ddynodwyd yn gyson a strategaeth y Cynllun ac y gallant ildio tai o fewn oes y Cynllun er mwyn cwrdd â'r galw hyd at 2026. Mae gwybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn yr Astudiaeth Tir ar gyfer Tai wedi goleuo'r Cynllun. Mae'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf yn un o'r partneriaid sydd wedi cytuno i'r dadansoddiad a welir yn yr adroddiadau am yr Astudiaethau blynyddol. Nid yw pob safle sydd gan ganiatâd cynllunio wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun oherwydd tystiolaeth sy'n awgrymu na fyddant yn cael eu datblygu o fewn oes y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
896	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	6.43	Gwrthwynebu	Mae paragraff 6.43 yn cadarnhau y byddai oddeutu 50% o'r gofyniad tai yn cael ei ddiwallu drwy ymrwymadau a chaniatâd cynllunio sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, nid oes unrhyw sicrwydd y bydd y caniatâd a'r ymrwymadau hyn yn cael eu gwireddu. Mae nifer eang o resymau pam nad yw caniatâd cynllunio ac ymrwymadau presennol yn cael eu gwireddu, gan gynnwys tir sydd ym mherchnogaeth trydydd parti, mynediad, cyfyngiadau'r safle, gwerth y tir, diffyg marchnad, cyfyngiadau	<p>Dim yn derbyn - Mae'r Cynghorau o'r farn bod y safleoedd a ddynodwyd yn gyson a strategaeth y cynllun ac y gallant ildio tai o fewn oes y Cynllun er mwyn cwrdd â'r galw hyd at 2026. Mae gwybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn yr Astudiaeth Tir ar gyfer Tai wedi goleuo'r Cynllun. Nid yw pob safle sydd gan ganiatâd cynllunio wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun oherwydd tystiolaeth sy'n awgrymu na fyddant yn cael eu datblygu o fewn oes y Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				cytundebau 106 etc. Dylid darparu gwybodaeth am bob safle a'u hasesu, yn hytrach na chynnwys yr holl safleoedd fel ymrwymiad heb eu cwestiynu. Nid yw'n eglur pa lefel o'r tai sydd wedi'u hymrwymo a'u cynnig fydd ar safleoedd tir glas a safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen.	<p>Mae'r Cynllun yn dosbarthu datblygiad yn unol â'r goeden Aneddleoedd ac yn unol â gallu'r aneddleoedd i ymdopi gyda thwf.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
204	John Brinley Jones [2087]	6.45	Gwrthwynebu	<p>Mae'n hanfodol fod perchenogion busnes sy'n creu cyflogaeth a chyfoeth yn yr ardal yn cael eu hannog i symud i mewn i'r ardal neu os oes angen cartref arnynt yn yr ardal a bod ganddynt ddarn o dir, ni ddylent orfod codi anheddau maint fforddiadwy caeth iawn gan y byddai o bosib angen cyfleusterau ychwanegol arnynt yn eu cartrefi, megis gofod swyddfa neu fannau lle gallent weithio o'r cartref.</p> <p>I gysidro pob cais cynllunio ar ei deilyngdod yn hytrach na chael yr un polisi sydd wrth reswm dim yn gallu cyrraedd pob gofyniad.</p>	<p>Dim yn derbyn – mae'r galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafniadaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid

PENNOD 7.1 CYMUNEDAU DIOGEL, IACH, NODEDIG A BYWIOG

Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig

PS 1 – Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
763	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	7.1.1	Gwrthwynebu	Mae Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig yn cytuno y dylid rhoi pwyslais ar gefnogi cymunedau, gan gynnwys yn arbennig rhoi uchafiaeth i bolisiau sy'n cynnal ac yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig. Mae YDCW yn bryderus bod y rhan fwyaf o'r polisiau 'cymunedol' eraill a geir yn ymwneud â darparu isadeiledd ffisegol gan gynnwys ffyrdd. Er bod y rhain yn berthnasol nid ydynt yn mynd i'r afael â'r canfyddiad fod tuedd tuag at ganoli mwy ar bolisiau a phenderfyniadau cynllunio yn lleihau'r dylanwad sydd gan gymunedau bychain gwledig dros eu hamodau byw lleol a datblygiad eu cymunedau, a bod ymgyngoriadau lleol gwirioneddol yn wan a bod cynrychiolaeth leol trwy gynghorau cymuned yn aneffeithiol. Mae angen rhoi mwy o sylw i fecanweithiau i gynyddu dylanwad cymunedau bychain gwledig dros eu hamodau	<p>Dim yn derbyn – Cafodd y Cynllun Adnau ei baratoi yn dilyn sawl cyfnod cyfranogiad ac ymgyngoriad cyhoeddus, a roddodd gyfle i gymunedau fynegi barn. Mae gorfodi bod cynghorau cymuned i gyfrannu i ymgyngoriadau cyhoeddus yn fater du hwnt i gylch gorchwyl proses paratoi'r Cynllun.</p> <p>Mae'r Cynllun yn darparu cyfres o bolisiau a chynigion a fydd yn sail i asesu amrediad o ddatblygiadau yn ystod oes y Cynllun. Credir eu bod yn hyrwyddo datblygiad a fydd er lles cymunedau gwledig.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				byw lleol a datblygiad eu cymunedau.	Dim newid
72	Cyngor Tref Nefyn (Liz Saville Roberts) [2710]	PS1	Cefnogi	<p>Cymeradwyir bod PS1 yn nodi bod modd gwrthod cynigion ar sail eu potensial i achosi niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned.</p> <p>Dylai canlyniadau Cyfrifiad 2011 parthed newidiadau mewn proffil iaith cymuned gael eu hystyried yn dystiolaeth ar gyfer dod i farn ar botensial cynigion i newid cymeriad ieithyddol.</p> <p>Dylai effaith ar gymunedau Cymraeg eu hiaith fod yn ystyriaeth cynllunio gadarn yng Ngwynedd, a thu hwnt.</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol - Bydd proffiliau aneddeleodd a fydd yn cael eu cyhoeddi fel Papur Testun ychwanegol ar gyfer y cam cyflwyno yn cofnodi canlyniadau Cyfrifiad 2011. Gallir diweddarau'r wybodaeth ar adegau priodol pan ddaw gwybodaeth fwy cyfredol am yr aneddeleodd i law.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
73	Adran Cynllunio a Thai, Cyngor Sir Ddinbych (Angela Loftus) [2719]	PS1	Cefnogi	Cefnogi cynnwys polisi yn y Cynllun	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
125	Cyngor Cymuned	PS1	Cefnogi	Dywed 2 "Gwrthod cynigion fyddai oherwydd ei faint, raddfa neu leoliad yn achosi niwed	Nodi'r sylw cefnogol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]			sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned' a 4 "Annog defnydd o enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd, enwau tai a strydoedd." Rydym yn llwyr gefnogi'r polisiau hyn.	Argymhelliad Dim newid
127	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	PS1	Gwrthwynebu	<p>Ystyrir bod pwynt 2 yn rhy feichus ac mae angen rhagor o eglurhad yn ei gylch. Byddai angen profi ac asesu'r cyfryw asesiad a châi hyn ei wneud fel arfer trwy ryw fath o 'asesiad ar effaith'. Yn hytrach, dylai'r polisi osod trothwyon uwchlaw'r hyn y mae angen asesiad ar eu cyfer. Mae angen meintioli'r geiriau 'maint a graddfa'. Wrth osod trothwy ar gyfer datblygu tai rhaid cymryd gofal i beidio â'i osod yn rhy isel gan y bydd hyn yn cadw adeiladwyr bychain draw oherwydd y gwaith ychwanegol a'r gost sy'n gysylltiedig â'r datblygiad newydd.</p> <p>Dileu pwynt 2 neu ail-eirio er mwyn ychwanegu eglurder fel yr uchod.</p>	<p>Derbyn - Mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth roi strategaeth a pholisiau'r Cynllun at ei gilydd, ac mae effeithiau posib y Cynllun ar y Gymraeg wedi cael eu hasesu trwy gydol y broses Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.</p> <p>Credir y byddai meintioli'r geiriau 'maint, graddfa a lleoliad' yn sicrhau bod y polisi yn fwy tryloyw. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ynglŷn â beth fydd disgwyliadau'r Cynghorau o ran darparu gwybodaeth pan fydd y trothwyon yn cael eu cyrraedd. Anelir i baratoi drafft cychwynnol o'r CCA erbyn cyfnod gwrandawiaidau'r Archwiliad Cyhoeddus.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio meini prawf y Polisi i gyfeirio at drothwyon penodol.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Newid â Ffocws NF 15, NF19, NF21</p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun.</p>
279	Mr Aled Evans [2646]	PS1	Gwrthwynebu	<p>Yr iaith Gymraeg</p> <p>Cyfangu ar ddatblygiadau mawr yn gyffredinol.</p>	<p>Dim yn derbyn – Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith leithyddol.</p> <p>Dylid rhoi sylw i bolisiâu'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
339	Miss Ffion Jones	PS1	Gwrthwynebu	Dyweder bydd y Cyngor yn gwrthod cynigion a	Dim yn derbyn - Mae strategaeth y Cynllun yn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	[2856]			fydd oherwydd eu graddfa, maint neu leoliad yn achosi difrod arwyddocaol i gymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymuned. Mae'n fwriad adeiladu stadau mawr o dai yn ein pentrefi a threfi lleol. Heb amheuaeth fe fydd hyn yn newid cymeriad a chydbwysedd ieithyddol cymunedau. Heb astudiaeth addas, pwy a wŷyr pwy fydd yn prynu'r tai newydd - ac yn fwy pwysig pwy fydd yn gallu fforddio nhw? Mae cyflogau pobl ifanc lleol yn isel iawn ac mae llawer yn brwydro i gael morgais. Bydd llenwi'r stadau newydd yma efo mewnfudwyr di-gymraeg yn siŵr o gael ardrawiad andwyol ar ein cymunedau ac iaith.	<p>anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.</p> <p>Dylid rhoi sylw i bolisiau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
392	Dr Richard Roberts [2938]	PS1	Gwrthwynebu	Ni ellir cysoni 'SO1 Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg' a tharged tai o 7902 (sy'n seiliedig ar fewnfudo) yn wyneb rhagolygon twf poblogaeth naturiol statig ac yng ngoleuni canlyniadau iaith Cyfrifiad 2011. Gellid nodi'n onest effeithiau niweidiol tebygol y CDLI ar y Gymraeg, gan ymhelaethu ar	Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario” (2014), “Egluro'r gwahaniaeth rhwng

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>dderbynioldeb yr effeithiau niweidiol oherwydd y flaenoriaeth a roir i ryw amcan strategol arall. Byddai hynny'n rhagdybio dadansoddiad mwy soffistigedig o flaenoriaethau mewn sefyllfa real (awgrymir yn naïf yn fersiwn adnau'r CDLI fod yr holl amcanion yn gydnaws a'i gilydd). Dewis arall fyddai ailystyried nifer y tai yr argymhellir eu codi yng nghyfnod y cynllun.</p>	<p>rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a’r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy’n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy’n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae’n rhoi ffigwr sy’n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a’i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
793	Cymdeithas Ddinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988]	PS1	Cefnogi	Cefnogir Polisi PS1.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid
794	Tom Brooks [3034]	PS1	Cefnogi	Rwy'n cefnogi PS1 ar yr iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig yn enwedig pan noda "Bydd y Cynghorau'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Gellir sicrhau hyn trwy: 1. Ddefnyddio mecanweithiau priodol i sicrhau y darperir mesurau addas sy'n lleddfu effeithiau negyddol neu i sicrhau y gwneir cyfraniad atynt"	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid
797	Cyngor Cymuned Botwnnog (Mrs Gwenda Roberts) [1541]	PS1	Gwrthwynebu	Mae'r Cynllun yn cyfeirio fod yn rhaid i bopeth fod yn ddwyieithog, oni ddylai hyn fod "Y Gymraeg" neu ddwyieithog. Rhaid cofio ein bod yng nghadarnle'r iaith Gymraeg ym Mhen Llyn.	Dim yn derbyn - Noder y sylw. Mae Cymru yn wlad ddwyieithog, gyda dwy iaith swyddogol. Mae'r Polisi yn cydnabod y safonau a ddisgwylir i gyrff cyhoeddus gyrraedd, ac yn annog busnesau masnachol preifat i roi run statws i'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Gymraeg are u arwyddion.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
800	Jina Gwyrfai [3092]	PS1	Gwrthwynebu	<p>Hyrwyddo'r iaith yn egwyddor sylfaenol? Ac yn yr un gwynt mae yn son am 'liniaru effeithiau negyddol'. Nid yw'r iaith a ddefnyddir yn ddigon cryf - annog' arwyddion dwyieithog, 'annog' defnydd o lefydd Cymraeg. Nid yw 'annog' yn hyrwyddo cadarn. Y casgliad yw nad yw'r iaith Gymraeg yn rhan bwysig o'r Cynllun Adnau.</p> <p>Does dim tystiolaeth gadarn yn dangos eich gwir gonsyrn dros y Gymraeg Rheidrwydd defnyddio'r iaith Gymraeg gyda'r Cynghorau'n cydweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i orfodi enwau ac arwyddion, asesiad effaith ar yr iaith yn orfodol ar bob un datblygiad, pob un datblygiad i fod yn nwylo pobl leol.</p> <p>Defnydd o'r iaith Gymraeg yn orfodol.</p>	<p>Derbyn yn rhannol - Mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth roi strategaeth a pholisïau'r Cynllun at ei gilydd, ac mae effeithiau posib y Cynllun ar y Gymraeg wedi cael eu hasesu trwy gydol y broses Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.</p> <p>Bydd Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ynglŷn â beth fydd disgwyliadau'r Cynghorau o ran darparu gwybodaeth pan fydd y trothwyon yn cael eu cyrraedd. Anelir i baratoi drafft cychwynnol o'r CCA erbyn cyfnod gwrandawiaidau'r Archwiliad Cyhoeddus.</p> <p>Cytunir byddai cryfhau'r eirfa yn rhoi mwy o</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Cynghorau yn cydweithio gyda'r Comisiynydd Iaith i ymofyn am enwau/arwyddion Cymraeg; Aseiad Ardrowiad Iaith yn ofynnol ar gyfer pob datblygiad. Dylai pob dyblygiad fod ar gyfer pobl leol h.y. fforddiadwy.	<p>sicrwydd ynglŷn â disgwyliadau'r Cynghorau o ran defnyddio arwyddion dwyieithog.</p> <p>Argymhelliad - diwygio'r maen prawf i ddweud 'sicrhau' yn lle 'annog'.</p> <p>Newid â Ffocws NF 15, NF16, NF19, NF21</p> <p>Er mwyn gwella eglurder y Cynllun.</p>
874	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036]	PS1	Cefnogi	Mae SO1 yn ceisio "diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig a hyrwyddo ei defnydd fel rhan hanfodol o fywyd cymunedol". Rydym yn cefnogi PS1 yn enwedig lle mae'n cofnodi "Bydd y Cynghorau yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn ardal y Cynllun. Caiff hyn ei gyflawni trwy: ddefnyddio mecanweithiau priodol i sicrhau y darperir mesurau addas sy'n lleddfu effeithiau negyddol neu i sicrhau y gwneir cyfraniad atynt."	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
885	Mr John Tripp [252]	PS1	Gwrthwynebu	Cofio'r angen i warchod yr iaith. Dim digon yn cael ei wneud. Cyswllt i Agenda 21 Lleol.	Dim yn derbyn - Yn unol â'r Cynllun Integredig Sengl mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth roi strategaeth a pholisiau'r Cynllun at ei gilydd, ac mae effeithiau posib y Cynllun ar y Gymraeg wedi cael eu hasesu trwy gydol y broses Aseiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
937	Cyng/Counc Alwyn Gruffydd [381]	PS1	Gwrthwynebu	<p>Mae'r Polisi Strategol i'w groesawu ond mae angen edrych ar y Cynllun yn fwy cydlynol i sicrhau y gweithredir y polisi hwn i sicrhau nad oes elfennau eraill o'r cynllun, fel y polisi ar y nifer o dai yn milwrio yn ei erbyn. Oherwydd natur unigryw'r Sir mae'n rhaid i'r Gymraeg fod yn ystyriaeth bwysig yn y drefn gynllunio. Credir bod angen ymestyn y ffiniau er mwyn amddiffyn y Gymraeg a'n cymunedau.</p>	<p>Derbyn yn rhannol - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.</p> <p>Credir y byddai meintioli'r geiriau 'maint, graddfa a lleoliad' yn sicrhau bod y polisi yn fwy tryloyw. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ynglŷn â beth fydd disgwyliadau'r Cynghorau o ran darparu gwybodaeth pan fydd y trothwyon yn cael eu cyrraedd. Anelir i baratoi drafft cychwynnol o'r CCA erbyn cyfnod gwrandawliadau'r Archwiliad Cyhoeddus.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio meini prawf y Polisi i gyfeirio at drothwyon penodol.</p> <p>Newid â Ffocws NF15, NF16, NF19, NF21</p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun.</p>
955 958	Menter Môn (Helen Thomas) [1615] Hunaniaith (Debbie A. Williams Jones) [3037]	PS1	Gwrthwynebu	<p>Mae'r Polisi Strategol i'w groesawu ond mae angen edrych ar y Cynllun yn fwy cydlynus i sicrhau y gweithredir y polisi hwn i sicrhau nad oes elfennau eraill o'r cynllun, fel y polisi ar y nifer o dai yn milwrio yn ei erbyn.</p> <p>Oherwydd natur unigryw'r Sir mae'n rhaid i'r Gymraeg fod yn ystyriaeth bwysig yn y drefn gynllunio. Credir bod angen ymestyn y ffiniau er mwyn amddiffyn y Gymraeg a bywiogrwydd a hyfywedd y Gymraeg yng nghymunedau Môn a Gwynedd. Mae angen i'r Cynllun Adnau adlewyrchu'r ffaith fod y Gymraeg yn thema lorweddol ar draws yr holl Gynllun. Mae angen eglurder o'r modd y bwriedir diogelu'r iaith</p>	<p>Derbyn yn rhannol - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.</p> <p>Credir y byddai meintioli'r geiriau 'maint, graddfa a lleoliad' yn sicrhau bod y polisi yn fwy tryloyw. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ynglyn a beth fydd disgwyliadau'r Cynghorau o ran darparu gwybodaeth pan fydd y trothwyon yn cael eu cyrraedd. Anelir i baratoi drafft cychwynnol o'r</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Gymraeg.	<p>CCA erbyn cyfnod gwrandawriadau'r Archwiliad Cyhoeddus.</p> <p>Dylid rhoi sylw i bolisiâu'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.</p> <p>Er hynny, credir bod sail i wneud rhai newidiadau â ffocws i amlygu'n well sut fydd y Cynllun yn hyrwyddo datblygiad, a fydd ar y cyd a mesurau eraill, er lles yr iaith Gymraeg. Noder hefyd cynnwys dogfennau cefndir sy'n berthnasol i'r iaith Gymraeg.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio meini prawf y Polisi i gyfeirio at drothwyon penodol er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun.</p> <p>Diwygio geiriad i amlygu'n well sut bwriedir diogelu'r iaith Gymraeg.</p> <p>Newid â Ffocws NF15, NF16, NF19, NF21</p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					y Cynllun
1115	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	PS1	Gwrthwynebu	<p>Mae Horizon yn credu ei bod, yn absenoldeb y Canllawiau Cynllunio Atodol (sydd i ddod, fel y dywedwyd ym mharagraff 7.1.4), yn aneglur sut bydd y prawf polisi hwn yn cael ei ddefnyddio. Fel mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, mae perygl i'r elfen hon o'r Polisi Strategol ddod yn rhwystr i dwf economaidd a dyheadau eraill yn y Cynllun. Barn Horizon ydi bod angen newid y paragraff i gynnwys mwy o hyblygrwydd ac egluro, ymysg pethau eraill, beth ydi ystyr "andwyo sylweddol", y ffactorau perthnasol wrth asesu andwyo posibl, a sut bydd amcanion polisi eraill yn y Cynllun yn cael eu pwysu yn erbyn yr amcan polisi hwn.</p>	<p>Derbyn - Mae'r Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth roi strategaeth a pholisiau'r Cynllun at ei gilydd, ac mae effeithiau posib y Cynllun ar y Gymraeg wedi cael eu hasesu trwy gydol y broses Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.</p> <p>Credir y byddai meintioli'r geiriau 'maint, graddfa a lleoliad' yn sicrhau bod y polisi yn fwy tryloyw. Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig yn rhoi arweiniad ynglyn a beth fydd disgwyliadau'r Cynghorau o ran darparu gwybodaeth pan fydd y trothwyon yn cael eu cyrraedd. Anelir i baratoi drafft cychwynnol o'r CCA erbyn cyfnod gwrandawiaidau'r Archwiliad Cyhoeddus.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio meini prawf y Polisi i gyfeirio at drothwyon penodol.</p> <p>Newid â Ffocws NF15, NF16, NF19, NF21</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun.
1432	Cyngor Tref Penrhyndeudraeth (Mr Glyn Roberts) [1261]	PS1	Gwrthwynebu	Mae Cyngor Tref Penrhyndeudraeth o'r farn nad yw'r ystyriaeth a roir yn y Cynllun hwn i'r strategaeth gymunedol (Prawf Cadernid C4) yn llesol i'r gymuned hon, hynny yw:- os na fydd y tai a gaiff eu codi yn cael eu prynu gan drigolion y ganolfan, y mae pob siawns y bydd yr adeiladwyr yn eu gwerthu i bwy bynnag â'i myn e.e. mewnfudwyr, a byddai hynny'n golygu gostyngiad arall yng nghanran y siaradwyr Cymraeg.	<p>Dim yn derbyn - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Aseiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Aseiad Effaith leithyddol.</p> <p>Dylid rhoi sylw i bolisiau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
1438	Cyng/Counc Gareth Thomas	PS1	Gwrthwynebu	Rwyf o'r farn nad yw'r ystyriaeth a roir yn y Cynllun hwn i'r strategaeth gymunedol (Prawf Cadernid C4) yn llesol i'r gymuned hon, hynny	Dim yn derbyn - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	[402]			<p>yw:- os na fydd y tai a gaiff eu codi yn cael eu prynu gan drigolion y ganolfan, y mae pob siawns y bydd yr adeiladwyr yn eu gwerthu i bwy bynnag a'i myn e.e. mewnfudwyr, a byddai hynny'n golygu gostyngiad arall yng nghanran y siaradwyr Cymraeg. Felly ni ddylid adeiladu tai ac eithrio ar gyfer anghenion lleol sef cymuned Penrhyndeudraeth.</p>	<p>Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.</p> <p>Dylid rhoi sylw i bolisiâu'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
107	CPERA (Cyngorydd Elin Walker Jones) [2760]	7.1.4	Cefnogi	<p>Argymhelliad LLC i ystyried effaith ar y Gymraeg ym Mangor.</p> <p>Darn o waith wedi ei gwblhau yn edrych ar wardiau ar draws Gwynedd, felly yn edrych ar Hirael ond nid ar Fangor fel endid. Angen ymchwil manwl ar yr iaith a chynllunio ym Mangor er mwyn darparu gwybodaeth i'r broses gynllunio, a'r effaith ar y Gymraeg</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle.</p> <p>Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Dylid rhoi sylw i bolisiau'r Cynllun o ran hyrwyddo cymysgedd briodol o unedau tai ac i'w darparu cam wrth gam.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
120	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	7.1.4	Gwrthwynebu	<p>Dywedir yma "Bydd yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo drwy wahanol bolisiau yn y Cynllun." Pa bolisiau yw'r rhain? Pam na'u rhestrwyd? Dywedir ymhellach hefyd "Cyhoeddir Canllawiau Cynllunio Atodol i roi arweiniad pellach am y mater." Credwn y dylai'r canllawiau hyn fod yn rhan weithredol o'r Cynllun gwreiddiol.</p>	<p>Derbyn yn rhannol - Dylid rhoi sylw i Dabl 7 yn rhan 5 y Cynllun, sydd yn darparu rhestr o bolisiau a fydd yn cefnogi'r amcanion unigol. Er hynny, cytunir y byddai newid i'r rhan yma o'r Cynllun yn gwella eglurder. Nid yw CCA yn rhan o gynlluniau datblygu lleol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio'r paragraffau cyn y polisi i roi trosolwg o bolisiau eraill perthnasol.</p> <p>Newid â ffocws NF14</p>

Isadeiledd a Chyfraniadau Datblygwr

Cyflwyniad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
1433	Cyngor Tref Penrhyndeudraeth (Mr Glyn Roberts) [1261]	7.1.5	Gwrthwynebu	<p>Mae rhwydwaith / isadeiledd presennol Penrhyndeudraeth a Minffordd e.e. ffyrdd, parcio, gwasanaethau meddygon teulu dan bwysau. Am</p> <ul style="list-style-type: none"> • nad oes dir cyfagos i ymestyn yr ysgol bresennol; • y byddai cynnydd yn nifer y cleifion yn cynyddu'r pwysau, sydd eisoes yn sylweddol, ar feddygon teulu; • am y bydd y cynnydd sylweddol yn y drafnidiaeth drwy Benrhyndeudraeth pan gwblheir y Bont Briwet newydd yn sicr o arafu symudiad cerbydau ar hyd y briffordd drwy'r pentref, ni ddylid disgwyl iddynt allu ymdopi â 152 o dai ychwanegol. Bydd ymdopi â 59 yn hen ddigon. Y mae'r Rheoliadau sy'n caniatáu i awdurdodau godi ar ddatblygwyr i '(d)defnyddio arian (ar gyfer) amrediad eang o isadeiledd yn amherthnasol yng nghyswllt yr uchod. 	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Mae Polisi Strategol PS2 yn sicrhau y bydd disgwyl i gynigion sicrhau bod darpariaeth ddigonol o isadeiledd er mwyn bod yn dderbyniol. Hefyd, mae Polisi ISA1 yn sicrhau y bydd y datblygwr yn cyflwyno ceisiadau am gyfraniadau ariannol i sicrhau isadeiledd hanfodol oddi ar y safle os nad oes modd sicrhau isadeiledd hanfodol ar y safle.</p> <p>Hefyd, mae Dangosydd D8 ar gyfer Thema 1 yn y fframwaith monitro yn sicrhau y bydd y Cynllun yn monitro unrhyw faterion sy'n codi ar safleoedd sydd wedi'u dynodi yn y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau ac yn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
1454	Cyng/Counc Gareth Thomas [402]				

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
1118 1119 1120	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	7.1.7 & 7.1.8 & 7.1.9	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn credu y dylid gwella eglurdeb y paragraffau hyn. Dylid dangos yn llawn sut bydd y Cynghorau yn rheoli cyfyngiadau cronni wrth symud ymlaen ar ôl 6 Ebrill 2015 gan fod hyn yn hollbwysig i ddatblygwyr, yn cynnwys Horizon, fedru ei ddeall. Mae Horizon yn gwneud sylwadau pellach ar y termau efo arian Ardoll Seilwaith Cymunedol a'r defnydd o'r arian hwnnw, cytundebau adran 106 a buddion cymunedol yn gysylltiedig â Pholisïau PS2 ac ISA1.	Derbyn Cytunir y dylid diwygio'r paragraffau hyn yn unol â'r awgrym, er mwyn i'r Cynllun fod yn fwy clir a chywir. Argymhelliad Diwygio paragraffau 7.1.8-7.1.10 i nodi'r cyfyngiadau ar gyfuno o ran CIL. Newid â Ffocws NF17
416	Rheilffordd Ucheldir Cymru (Mr Graham Farr) [254]	7.1.9	Gwrthwynebu	Rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i effaith andwyol bosib Ardoll Seilwaith Cymunedol ar hyfywedd datblygiadau newydd megis yr un y gallai'r Cwmni ei gynnig yn unol â Safleoedd Arfaethedig cyfeirnodau cyflwyniad: SP552 ac SP870 (copïau o ffurflenni ynghlwm).	Nodi'r sylw Mesur gwirfoddol yw cyflwyno trefn CIL a dim ond os bydd tystiolaeth gadarn i ddangos bod y farchnad leol yn hyfyw y bydd yn cael ei gyflwyno. Bydd y Cynghorau'n cynnal yr ymchwil angenrheidiol yn ystod 2016 - 2017. Yn y cyfamser, ac os na fydd y farchnad yn hyfyw, bydd y Cynghorau'n parhau i geisio cyfraniadau perthnasol drwy Gytundebau Adran 106 os ydynt yn bodloni'r profion statudol sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau CIL.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					<p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>

PS2 – Isadeiledd a Chyfraniadau gan Ddatblygwyr

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
144	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI STRATEGOL PS2	Gwrthwynebu	Nid oes diffiniad o ba ddatblygiad fydd â pharwmedigaethau cynllunio. Wrth ystyried nodweddion penodol echdyniad mwynau, ni ddylai datblygu mwynau fod yn destun CIL.	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Pan fydd yr isadeiledd angenrheidiol i alluogi cynllun i fynd yn ei flaen wedi'i ystyried(megis mynediad a gwasanaethau), bydd y blaenoriaethau a roddir i ddarparu mathau gwahanol o isadeiledd a buddion cymdeithasol yn amrywio, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau.</p> <p>Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu gwybodaeth fanylach ar drothwyon a fformwlâu a fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu ar faterion sy'n berthnasol i wahanol fathau o ddatblygiadau.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					<p>Mae cyflwyno system CIL (Ardoll Seilwaith Cymunedol, ASC) yn fesur gwirfoddol, a dim ond pan fo tystiolaeth gref i ddangos bod y farchnad leol yn hyfyw y caiff ei gyflwyno. Bydd y Cynghorau yn ymgymryd â'r ymchwil angenrheidiol yn ystod 2016 – 2017. Yn y cyfamser, ac os bydd y farchnad yn parhau'n anhyfyw, bydd y Cynghorau yn parhau i chwilio am gyfraniadau perthnasol drwy Gytundebau 106 pan fyddant yn cwrdd â'r profion statudol a bennir yn y Rheoliadau ASC.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
119	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	POLISI STRATEGOL PS2	Gwrthwynebu	Gwneud i ffwrdd â'r ail frawddeg gan nad oes angen hon yn y polisi a dylai fod yn y testun cefnogi. Wrth gyfeirio at symiau a gyfnewidiwyd, mae angen i hwn hefyd gyfeirio at fabwysiadu gan nad oes modd cael un heb y llall. Mae angen diffinio 'Seilwaith Hanfodol'. Mae angen eglurder rhwng seilwaith megis gwasanaethau a ffyrdd sy'n hanfodol a	<p>Derbyn</p> <p>Ystyrir y dylid cynnwys cyfeiriad at daliadau cynnal posibl yn y polisi er mwyn sicrhau eglurder ac i sicrhau bod modd dehongli'r polisi'n rhwydd.</p> <p>Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol ar</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				<p>chyfraniadau eraill Datblygwyr fel y'u rhestrir ym mholisi ISA1 y dylid negodi yn eu cylch yn seiliedig ar effaith /hyfywedd y cynllun ac na ddylent fod yn 'ddisgwyliedig'.</p> <p>Dileu'r ail frawddeg. Cynnwys cyfeiriad tuag at fabwysiadu. Diffinio 'isadeiledd angenrheidiol'.</p>	<p>Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu gwybodaeth ynghylch â'r lefelau trothwy a'r fformiwlas fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu ar faterion sy'n benodol i fathau gwahanol o ddatblygiadau.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio'r Polisi i adlewyrchu'r angen i gyfeirio at y gofyn posib am fathau gwahanol o isadeiledd er mwyn galluogi i gynllun fynd ymlaen yn lle 'isadeiledd hanfodol'.</p> <p>Newid â Ffocws NF18</p>
145	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI STRATEGOL PS2	Gwrthwynebu	<p>Nid oes diffiniad o ba ddatblygiad fydd â pha rwymedigaethau cynllunio.</p> <p>O ystyried nodweddion penodol cloddio mwynau, ni ddylai datblygiadau mwynau fod yn destun ASC.</p>	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Pan fydd yr isadeiledd angenrheidiol i alluogi cynllun i fynd yn ei flaen wedi'i ystyried(megis mynediad a gwasanaethau), bydd y blaenoriaethau a roddir i ddarparu mathau gwahanol o isadeiledd a buddion cymdeithasol yn amrywio, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau.</p> <p>Bydd y Canllaw Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu gwybodaeth ynghylch â'r lefelau trothwy</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					<p>a'r fformiwlas fydd yn cael eu defnyddio i benderfynu ar faterion sy'n benodol i fathau gwahanol o ddatblygiadau.</p> <p>Mae cyflwyno system CIL (Ardoll Seilwaith Cymunedol, ASC) yn fesur gwirfoddol, a dim ond pan fo tystiolaeth gref i ddangos bod y farchnad leol yn hyfyw y caiff ei gyflwyno. Bydd y Cynghorau yn ymgymryd â'r ymchwil angenrheidiol yn ystod 2016 – 2017. Yn y cyfamser, ac os bydd y farchnad yn parhau'n anhyfyw, bydd y Cynghorau yn parhau i chwilio am gyfraniadau perthnasol drwy Gytundebau 106 pan fyddant yn cwrdd â'r profion statudol a bennir yn y Rheoliadau ASC.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
1088	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI STRATEGOL PS2	Gwrthwynebu	Mae ANC yn dymuno tynnu sylw at fod ansicrwydd a fydd capasiti digonol o adnodd dŵr ar gael yn ystod gweithrediad yr Wylfa Newydd arfaethedig. Gallai'r gofynion i gynyddu capasiti dŵr gael effeithiau ar yr	<p>Nodi'r sylw</p> <p>Bydd capasiti'r adnoddau dŵr yn cael ei ystyried fel rhan o Orchymyn Caniatâd Datblygiad ar gyfer prosiect Wylfa</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				amgylchedd. Dylai eich Awdurdod chi fod yn ymwybodol y gallai fod angen i'r newidiadau mewn beth mae'r CDLI yn canolbwyntio arno, neu ei waith yn monitro'r cynllun, fod yn ystyried unrhyw wybodaeth wedi'i diweddaru sy'n dod oddi wrth Horizon o ran y gofynion am gapasiti dŵr.	<p>Newydd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
1122	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI STRATEGOL PS2	Gwrthwynebu	<p>Nid ydi bwriad y Cynghorau'n eglur o ran ehangder y polisiau hyn. Roedd y newidiadau'n dangos yn eglur bod rhaid i rwymedigaethau adran 106 y gofynnwyd amdanynt gael eu gosod yn unol efo'r profion rheoleiddio h.y. rhaid i gyfraniadau ateb profion rheoliad 122 y Rheoliadau Ardoll Cymunedol 2010 sef bod:</p> <ul style="list-style-type: none"> * yn angenrheidiol er mwyn gwneud y datblygiad yn dderbyniol mewn termau cynllunio; * yn ymwneud yn uniongyrchol efo'r datblygiad; a hefyd * yn ymwneud yn deg a rhesymol efo graddfa a math y datblygiad. <p>Dylai'r polisiau hyn gael eu hailystyried i wneud hyn yn eglur.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Cytunir y bydd y newid sy'n cael ei argymhell yn gwneud y polisi'n fwy clir a chywir yn unol â'r rheoliadau.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio'r polisi er mwyn cyfeirio at y gofyniad posibl am daliadau statudol.</p> <p>Newid â Ffocws NF18</p>

ISA 1 - Darpariaeth Isadeiledd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
146	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	Polisi ISA1	Gwrthwynebu	Nid oes diffiniad o ba ddatblygiad fydd â pha rwymedigaethau cynllunio.	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu gwybodaeth fanylach ynghylch pa fathau o ddatblygiadau fydd yn dod o dan ba rwymedigaethau cynllunio. Mae cyflwyno system CIL (Ardoll Seilwaith Cymunedol, ASC) yn fesur gwirfoddol, a dim ond pan fo tystiolaeth gref i ddangos bod y farchnad leol yn hyfyw y caiff ei gyflwyno. Bydd y Cynghorau yn ymgymryd â'r ymchwil angenrheidiol yn ystod 2016 – 2017. Yn y cyfamser, ac os bydd y farchnad yn parhau'n anhyfyw, bydd y Cynghorau yn parhau i chwilio am gyfraniadau perthnasol drwy Gytundebau 106 pan fyddant yn cwrdd â'r profion statudol a bennir yn y Rheoliadau ASC.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
147	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]			O ystyried nodweddion penodol cloddio mwynau, ni ddylai datblygiadau mwynau fod yn destun ASC.	
303	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd	Polisi ISA1	Cefnogi	Rydym yn croesawu cynnwys cadwraeth natur yn rhestr y pwrpasau y gellid ceisio cyfraniadau	Nodi'r sylw cefnogol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
	Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]			iddynt	Argymhelliad Dim newid
439	Rheilffordd Ucheldir Cymru (Mr Graham Farr) [254]	Polisi ISA1	Gwrthwynebu	Rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r effaith andwyol y gallai unrhyw ofyn yng nghyswllt cyfraniadau datblygwyr ei gael ar hyfywedd datblygiadau newydd y gallai'r Cwmni eu cynnig yn unol â chyflwyniadau Safleoedd Arfaethedig cyfeirnodau: SP552 a SP870 (Copïau o'r ffurflenni ynghlwm). Dileu'r frawddeg "Os yw cynnig...datblygiad gael ei ariannu."	Derbyn yn Rhannol Pan fo perygl na fydd datblygiad yn cael ei wireddu o ganlyniad i faint y rhwymedigaethau cynllunio a chostau eraill, efallai y bydd angen astudiaeth hyfywedd. Dylai hyn gynnwys manylion am amgylchiadau penodol y safle a'r datblygiad arfaethedig sydd o dan sylw. Wrth asesu hyfywedd safle penodol mae angen dadansoddiad manylach nag ar lefel y cynllun. Cytunir y dylid egluro hyn yn yr esboniad i'r Polisi. Bydd rhagor o ganllawiau yn y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio. Argymhelliad Diwygio'r eglurhad i'r Polisi er mwyn egluro bydd hyfywdra'n cael ei ystyried mewn cam rheoli datblygu, er mwyn ychwanegu eglurder. Newid â Ffocws NF20

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
469	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	Polisi ISA1	Gwrthwynebu	Nid oes cyfeiriad at yr angen i asesu hyfywedd y datblygiad er mwyn rhoi'r cyfraniadau y gofynnwyd amdanynt a hefyd yr angen i benderfynu rhwng gofynion cystadleuol nad oes modd i'r datblygiad eu darparu i gyd. Mae angen nodi'r gwahaniaeth rhwng seilwaith gofynnol megis gwasanaethau a chyfraniadau A106 eraill.	<p>Derbyn</p> <p>Pan fydd yr isadeiledd angenrheidiol i alluogi cynllun i fynd yn ei flaen wedi'i ystyried(megis mynediad a gwasanaethau), bydd y blaenoriaethau a roddir i ddarparu mathau gwahanol o isadeiledd a buddion cymdeithasol yn amrywio, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau. Yn ogystal, bydd y flaenoriaeth a roddir i wahanol fathau o isadeiledd yn amrywio yn ôl y maint, y math a'r polisïau penodol sy'n berthnasol i'r datblygiad. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y gofyniad ar gyfer rhwymedigaethau cynllunio yn ceisio mynd i'r afael â materion allweddol y Cynllun, gyda darparu tai fforddiadwy yn fater o'r pwys mwyaf.</p> <p>Pan fo perygl na fydd datblygiad yn cael ei wireddu o ganlyniad i faint y rhwymedigaethau cynllunio a chostau eraill, efallai y bydd angen astudiaeth hyfywedd. Dylai hyn gynnwys manylion am amgylchiadau penodol y safle a'r datblygiad arfaethedig sydd o dan sylw. Wrth asesu hyfywedd safle penodol mae angen dadansoddiad manylach nag ar lefel y cynllun. Cytunir y dylid egluro hyn</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					<p>yn yr esboniad i'r Polisi. Cytunir y dylid egluro hyn yn yr esboniad i'r Polisi</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Newid yr esboniad i'r Polisi i adlewyrchu'r angen i ystyried hyfywedd a nodi y bydd yr angen i flaenoriaethu yn amrywio o safle i safle, yn amodol ar ystyried y blaenoriaethau corfforaethol. Hefyd, newid y Polisi i wahaniaethau rhwng isadeiledd hanfodol / galluogi, ac isadeiledd angenrheidiol.</p> <p>Newid â Ffocws NF20</p>
511	Gwasanaeth Cynllunio Archeoleogol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959]	Polisi ISA1	Gwrthwynebu	Dylid ystyried dehongli, cadwraeth a gwella nodweddion hanesyddol, henebion, adeiladau neu elfennau tirwedd yn y rhestr hon	<p>Derbyn</p> <p>Bydd y gofynion isadeiledd yn amrywio mewn gwahanol leoliadau, ac yn dibynnu ar raddfa a natur y datblygiad arfaethedig. Efallai y bydd angen isadeiledd i hwyluso datblygiad, neu i sicrhau bod datblygiad yn dderbyniol. Gall gynnwys elfennau o'r rhestr a gynhwysir fel rhan o'r Polisi. Ni fwriedir i'r rhestr isod fod yn gynhwysfawr, na chyfyngu ar y dewisiadau, ond mae'n awgrymu beth yw amrediad yr isadeiledd a allai fod yn angenrheidiol.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					<p>Fodd bynnag , byddai cynnwys y nodweddion sy'n cael eu hawgrymu gan y gwrthwynebydd, yn y polisi, yn sicrhau cywirdeb.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ychwanegu pwynt bwled ychwanegol at y polisi.</p> <p>Newid â Ffocws NF19</p>
697	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	Polisi ISA1	Gwrthwynebu	<p>Mae'r polisi hwn yn ceisio sicrhau bod cyfraniadau ariannol neu isadeiledd yn cael eu darparu gan gynigion datblygu pan fo angen er mwyn eu gwneud yn dderbyniol a galluogi'r datblygiad fynd yn ei flaen.</p> <p>Fodd bynnag, mae'n ceisio cyfraniadau ar gyfer ystod eang o ddibenion posib nad ydynt yn cael eu diffinio'n glir nac yn gysylltiedig â chynllunio, neu nad ydynt o dan reolaeth ymgeisydd neu'n wir y Cyngor i'w cyflawni.</p> <p>Mae'r polisi yn methu a bodloni'r rheoliadau CIL a dylid ei addasu'n unol â hynny.</p> <p>Felly nid yw'r polisi yn cydymffurfio â Phrawf Cadernid C2 gan nad yw'n cydymffurfio â</p>	<p>Derbyn</p> <p>Cytunir fod 'Adfywio' a 'Cyfraniad arall yr ystyrir sy'n briodol i'r cynnig' yn enghreifftiau amhenodol a dylent gael eu gadael allan o'r polisi er mwyn osgoi amwysedd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dileu 'Adfywio' a 'Cyfraniad arall yr ystyrir yn briodol i'r cynnig'. Cynnwys 'Tir y Cyhoedd' a diwygio'r eglurhad ei egluro nad yw'r rhestr yn gyfyngiedig neu'n drwyadl.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				Pholisi Cynllunio Cymru a CE2.	Newid â Ffocws NF19
948	CPERA (Cyngorydd Elin Walker Jones) [2760]	Polisi ISA1	Gwrthwynebu	Mae angen sicrhau fod isadeiledd Bangor yn medru ymdopi efo'r anheddau ychwanegol. Nid yw'r heolydd, ysgolion, meddygfeydd, system ddŵr, system garthffosiaeth, gwasanaethau heddlu, ysbyty, heb son am y mwynderau cyffredinol yn addas ar gyfer y boblogaeth sydd ym Mangor yn barod heb son am ychwanegu mwy atynt. Ni ddylid adeiladu dim os nad oes angen y trigolion fynediad rhwydd i isadeiledd addas gan gynnwys ysgolion, meddygon, siopau, mwynderau cymunedol.	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried sut bydd isadeiledd presennol yn ymdopi ag unrhyw ddatblygiad newydd fel rhan o broses y cais cynllunio yn ddarostyngedig ar Bolisi ISA a'r Rheoliadau CIL.</p> <p>Petai angen isadeiledd ychwanegol mae'r polisi hwn yn caniatáu i gynghorau ofyn am isadeiledd o'r fath fel rhan o'r datblygiad.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
1060	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	Polisi ISA1	Gwrthwynebu	Mae angen pa seilwaith sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni'r safleoedd a ddynodwyd, a dangos sut a phryd y bydd hyn yn cael ei gyflawni yn ystod cyfnod y cynllun, ac ystyried p'un oes angen datblygu graddol. Nid yw'n glir a yw Polisi ISA1 yn blaenoriaethu'r seilwaith gofynnol neu ai rhestr yn unig yw hon. Mae'r	<p>Derbyn yn rhannol</p> <p>Mae Papur Testun 13 'Seilwaith Cymunedol' yn nodi'r isadeiledd presennol a'r hyn sydd yn yr arfaeth yn ardal y Cynllun. Bydd y broses o baratoi'r Papur Testun hwn yn ailadroddus, a</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				<p>gwaith ar hyfywedd safle mewn perthynas â'r gallu i gyflawni hefyd yn wan. Dylai'r awdurdod hefyd fedru dangos rhestr flaenoriaeth gyffredinol ynghylch y rhwymedigaethau y bydd yn eu ceisio gan ddatblygiad a baich ariannol rhwymedigaethau o'r fath ynghyd ag effaith hyfywedd. Os nad oes Ardoll Seilwaith Cymunedol mewn lle, mae perygl bydd bwllch yn y polisi ac yng ngallu'r cynllun i gasglu arian i helpu gyda'r datblygiadau.</p>	<p>chaiff ei adolygu pan dderbynnir gwybodaeth newydd. Mae'r broses o asesu Safleoedd Arfaethedig hefyd wedi darparu gwybodaeth ddefnyddiol iawn ar lefel y safleoedd penodol. Felly, mae'r holl isadeiledd sydd ei angen i gyflawni Strategaeth y Cynllun eisoes wedi'i asesu. Ar hyn o bryd, rhagwelir y daw'r cyllid o fecanweithiau y tu allan i gylch gorchwyl ASC, ac felly ni ragwelir y bydd cyfuno 5 neu ragor o gyfraniadau i gynorthwyo i ddarparu isadeiledd yn broblem. Dyma'r dull a fydd yn cael ei ddilyn ar hyn o bryd, ond bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r sefyllfa. Bydd y Papur Testun sy'n ymwneud ag isadeiledd cymunedol a'r gwaith a wneir i gyfiawnhau'r dyraniadau yn y Cynllun yn ffurfio man cychwyn defnyddio i ystyried a oes angen atodlen ffioedd ASC. Byddai'r ystyriaethau hyn yn cael eu hasesu mewn astudiaeth i ba mor hyfyw fyddai mabwysiadu atodlen ffioedd ASC. Pan fo datblygiadau'n arwain at angen i wella isadeiledd neu greu isadeiledd o'r newydd, megis gwelliannau i briffyrdd, hyrwyddo teithio llesol, cyfrannu at gyfleoedd cyflogaeth, darpariaeth addysg, yr iaith Gymraeg, gwelliannau amgylcheddol neu wella ardaloedd</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					<p>cyhoeddus a mannau agored, fe'u cynhwysir fel rhan o'r datblygiad a rhoddir esboniad manylach yn y Rhwymedigaethau Cynllunio a'r Canllawiau Cynllunio Atodol arfaethedig.</p> <p>Ni fwriedir i'r rhestr yn y Polisi fod yn gynhwysfawr, na chyfyngu ar y dewisiadau, ond mae'n awgrymu beth yw amrediad yr isadeiledd a allai fod yn angenrheidiol. Ni ystyrir ei bod yn briodol i adnabod a blaenoriaethu'r union ofynion isadeiledd, y gellid eu defnyddio ymlaen llaw i bennu pa fath o gyfraniad fyddai'r datblygwr yn ei ddarparu. Er hyn, ystyrir y gellid gwella dealltwriaeth y darllenydd o'r Cynllun yn sylweddol petai'r wybodaeth am y gofynion isadeiledd yn cael ei nodi. I'r perwyl hwn, bydd papur testun ar aneddiadau yn cynnwys briffiau datblygu fydd yn amlinellu pa isadeiledd fydd yn ofynnol ar gyfer pob safle sydd wedi'i ddynodi a bydd yn nodi a fydd gofyn cyflwyno unrhyw ddatblygiad fesul cam. Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch pa rwymedigaethau y bydd yr Awdurdod Cynllunio yn eu ceisio gan ddatblygiad.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					<p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio'r esboniad i'r polisi i ddatgan nad yw'r rhestr yn un drwyadl neu gyfyngedig ac i gynnwys cyfeiriad at y papur testun newydd.</p> <p>Newid â Ffocws NF20</p>
1173	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	Polisi ISA1	Cefnogi	<p>Er mwyn sicrhau bod digon o seilwaith yn bodoli ar gyfer datblygiadau domestig, byddwn yn ceisio ateb diffygion trwy wneud buddsoddiad cyfalaf yn ein Cynllun Rheoli Asedau 5 mlynedd. Bydd cael Cynllun Lleol wedi'i fabwysiadu, efo twf wedi'i ddangos ynddo, o gymorth i gryfhau'r achos y gall y cwmni ei roi ymlaen o ran prosiectau sydd angen eu hariannu yn y Cynllun Rheoli Asedau. Mae'r fframwaith reoli mae'n rhaid i DCWW weithio tu mewn iddi'n golygu y gallai fod gwahaniaeth rhwng amserlenni ein Cynllun Rheoli Asedau ni a'r Cynllun Datblygu Lleol. Gallai ddigwydd ei bod yn cymryd cyfnod o amser cyn cael prosiect isadeiledd a'r ariannu sy'n gysylltiedig efo fo at ei gilydd a chwblhau'r gwaith. Lle bydd angen gwelliannau penodol yn yr isadeiledd a hynny cyn cael buddsoddiad o'r Cynllun Rheoli Asedau, rydan ni'n cefnogi'r ddarpariaeth o fewn y polisi o geisio cael</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				cyfraniadau ariannol oddi wrth ddatblygwyr er mwyn gwneud y gwelliannau sydd eu hangen.	
109	CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]	7.1.10	Cefnogi	Dim digon o sylw wedi ei roi i isadeiledd Bangor wrth adeiladu. Ni allwch adeiladu'r un tŷ arall ym Mangor heb ystyried isadeiledd - heolydd, carthffosiaeth, cyflenwad dwr, meddygfeydd, ysgolion, siopau, parciau, heddlu, ysbytai, canolfannau cymunedol a chwarae ayb	Dim yn derbyn Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried sut bydd isadeiledd presennol yn ymdopi ag unrhyw ddatblygiad newydd fel rhan o broses y cais cynllunio. Argymhelliad Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. Dim newid
1125 1126 1127	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	7.1.10 – 7.1.12	Gwrthwynebu	Credir y dylid gwella eglurder y paragraffau hyn. Ychydig o gysondeb sydd yn y termau a ddefnyddir, fel bod y Cynllun yn aneglur yn y disgwyliadau o ran beth mae'r Cynghorau'n ei fwriadu wrth gyfeirio at y "buddion cymunedol". Mae'n ymddangos bod gorgyffwrdd yn y defnydd o'r term yma i gynnwys nifer o gysyniadau: * Rhwymedigaethau Adran 106 (fel y cyfeiriwyd atynt yn PS2). * "cyfraniadau seilwaith cymunedol" (7.1.10) a "darpariaeth seilwaith" (7.1.11)	Derbyn Cytunir y dylai'r derminoleg a ddefnyddir yn y polisi fod yn fwy cyson. Argymhelliad Diwygio'r polisi yn unol â'r awgrym i sicrhau eglurder a chysondeb. Newid â Ffocws NF20

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				<p>* Rhwymedigaethau cynllunio (7.1.10 a 7.1.11)</p> <p>* Taliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (7.1.10)</p> <p>* "Buddion cymunedol" gwirfoddol a gynigir gan ddatblygwyr.</p> <p>Cynigir termau a diffiniadau.</p>	
121	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	7.1.10	Gwrthwynebu	<p>Achosir dryswch trwy ddefnyddio nifer o dermau sy'n ymddangos eu bod yn gysylltiedig â'r un peth, sef 'seilwaith', 'budd cymunedol' a 'cyfraniadau i seilwaith y gymuned'. Nid oes cyfeiriad at y ffaith bod angen asesu hyfywedd y cynllun er mwyn darparu'r 'buddion cymunedol'.</p> <p>Angen geirfa ychwanegol neu baragraff newydd i drafod asesiadau hyfywedd ar gyfer y nifer a'r amrediad o fudd cymdeithasol y gofynnir amdano. Defnyddio un gair i ddisgrifio cyfraniadau C106 i osgoi dryswch.</p>	<p>Derbyn yn rhannol</p> <p>Cytunir y dylid cael mwy o gysondeb o ran y derminoleg a ddefnyddir. Gweler yr ymateb i sylw 1125-1127 uchod.</p> <p>O ran y sylw sy'n ymwneud â'r angen i asesu hyfywdra cynllun, gweler yr ymateb i sylw 439.</p> <p>Bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Rwymedigaethau Cynllunio yn darparu rhagor o wybodaeth ynghylch pa rwymedigaethau y bydd yr Awdurdod Lleol yn eu ceisio gan ddatblygiad.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio'r geiriad i wella eglurder a chysondeb gyda'r Rheoliadau.</p> <p>Newid â Ffocws NF20</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
1087	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521]	7.1.13	Gwrthwynebu	Mae Paragraff 7.1.13 o'r Cynllun Adnau'n nodi yr ymgysylltwyd efo Dŵr Cymru / Welsh Water yn ystod paratoi'r Cynllun. Mae CNC'n ymwybodol y gallai fod materion o ran capasiti gwaith Trin Dŵr Gwastraff Treborth, sy'n gwasanaethu Bangor, Y Felinheli, Bethel a rhan o dde Ynys Môn. Gallai hynny gyfyngu ar ddatblygiad yn yr ardaloedd hyn, ac felly rydan ni'n argymhell yn gryf y dylid gofyn barn Dŵr Cymru / Welsh Water ar y mater penodol hwn.	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Ymgynghorwyd â Dŵr Cymru wrth ddynodi safleoedd posibl i'w datblygu. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ymgynghori â Dŵr Cymru ynghylch sut gall yr isadeiledd presennol ymdopi â datblygiad fel rhan o broses cais cynllunio.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>

ISA2 – Cyfleusterau Cymunedol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
267	Ymddiriedolaeth Theatr (Ross Anthony) [2825]	Polisi ISA2	Cefnogi	Mae Ymddiriedolaeth y Theatrau'n cefnogi'r polisi hwn. Bellach mae'n rhoi datganiad clir ar gyfer gwarchod a gwella eich cyfleusterau cymunedol a diwylliannol hanfodol ac, ynghyd â pholisi ISA1, anogaeth i ddarparu cyfleusterau newydd ac ychwanegol.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
1128	Pwêr Niwclear	Polisi ISA2	Gwrthwynebu	Ar y cyfan yn cefnogi Polisi ISA2, ond mae	Dim yn derbyn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
	Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]			angen cydnabod na ddylai'r polisïau fod yn weithredol ar gyfer unrhyw gyfleusterau y gallent gael eu dosbarthu fel cyfleusterau cymunedol y gallent ddod ymlaen tu mewn i gampysau llety gweithwyr fel rhan o'i Strategaeth Llety Gweithwyr. Yn hytrach na chwilio am newidiadau penodol i ISA2, fodd bynnag, mae Horizon yn dibynnu ar y polisïau penodol arfaethedig isod ar gyfer Wylfa Newydd. Rheiny fydd y polisïau perthnasol ar gyfer penderfynu ar ei geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm yma, nid ydi Horizon yn cynnig y dylid cau allan yn benodol o'r polisïau hyn ei ddatblygiad cysylltiedig (h.y. llety dros dro i weithwyr).	Bydd unrhyw gynigion sy'n gysylltiedig â phrosiect arfaethedig Wylfa Newydd, yn cael eu hasesu yn unol â Pholisi PS9 a nifer o bolisiau eraill y Cynllun. Argymhelliad Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. Dim newid
1394	Cyng/Counc RH Wyn Williams [367]	Polisi ISA2	Gwrthwynebu	Oherwydd bod y cynllun am fod dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy, fe hoffwn i chwi ystyried y canlynol i Abersoch: Ardal gyda ffin yn cael ei adnabod fel lleoliad Gwasanaethau heb unrhyw gynnydd.	Dim yn derbyn Mae'r Polisi yn cydnabod mewn rhai achosion, na fydd modd lleoli ôl-troed cyfleuster cymunedol arfaethedig o fewn y ffin ddatblygu sydd wedi'i diffinio. Felly, mae'n darparu rhywfaint o hyblygrwydd rhesymol i leoli unrhyw ddatblygiad cymunedol hanfodol. Mae'r esboniad i'r Polisi yn egluro fod yn rhaid i gynigion sydd y tu allan i anheddiad ddangos mai'r lleoliad arfaethedig yw'r un gorau sydd ar gael, a'i fod yn hygyrch i'r gymuned leol.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					<p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
1417	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	Polisi ISA2	Gwrthwynebu	<p>Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y Polisiâu Rheoli Datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun drafft</p> <p>Cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol:-</p> <p>* Byddai'n darparu cyfleusterau cymunedol sy'n diwallu angen lleol</p>	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Nod Polisi ISA2 yw gwarchod cyfleusterau cymunedol presennol ac annog datblygu cyfleusterau newydd pan fo hynny'n briodol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>

ISA3 – Datblygiadau Addysg Bellach ac Uwch

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
1129	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI ISA3	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn nodi bod y cyfyngiadau hyn ar ddewis safleoedd o bosibl yn cyfyngu gormod os defnyddir nhw ar gyfer ei ddatblygiad	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Bydd unrhyw gynigion ar gyfer</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				cysylltiedig. Yn hytrach na chwilio am newidiadau penodol i ISA3, fodd bynnag, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisiâu penodol arfaethedig isod ar gyfer Wylfa Newydd, a'r rheiny fyddai'r polisiâu perthnasol y bydd ei geisiadau datblygu cysylltiedig yn cael eu penderfynu. Am y rheswm yma, nid ydi Horizon yn cynnig y dylid cau allan yn benodol o'r polisiâu hyn ei ddatblygiad cysylltiedig (h.y. adeilad efelychydd).	datblygiadau sy'n ymwneud â'r maes niwclear, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â phrosiect arfaethedig Wylfa Newydd, yn cael eu hasesu yn unol â Pholisi PS9 a pholisiau eraill y Cynllun. Argymhelliad Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. Dim newid

ISA4 - Diogelu Llecynnau Agored Presennol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
110	CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]	7.1.20	Cefnogi	Ni ddylid adeiladu na dinistrio llecynnau agored presennol o gwbl	Nodi'r sylw'n cefnogi Argymhelliad Dim newid

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
1071	Mr Mark Newey, Llywodraeth Cymru	Polisi ISA 4 (paragraff 7.1.21)	Gwrthwynebu	'gormodedd' neu 'orddarpariaeth' - Nid yw'n glir sut y bydd Cynghorau'n dangos bod gorddarpariaeth o ofod agored, fel sy'n cael ei ddisgrifio yng nghymal 1 a pharagraff 7.1.21.	<p>Dim yn derbyn - ceir canllaw yn rhan 2 o NCT 16 ar gyfer ymgymryd ag Aseiad Mannau Agored er mwyn adnabod ardaloedd sydd hefo gorddarpariaeth neu tan ddarpariaeth o fannau agored cyhoeddus. Yn ogystal bydd CCA yn cael ei baratoi i roi canllaw pellach i ddatblygwyr ar gyfer ymgymryd ag aseiad mannau agored yng nghydestun unrhyw ddatblygiad tai yn y dyfodol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

ISA5 – Darparu Llecynnau Agored Mewn Datblygiadau Tai Newydd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
122	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	Polisi ISA5	Gwrthwynebu	Mae pwynt 1 yn annerbyniol gan nad oes modd disgwyl i ddatblygwr ddarparu gofod agored oddi ar y safle ar dir nad yw'n berchen arno. Os nad oes modd cael darpariaeth ar y safle yna	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Mae Pwynt 1 yn nodi efallai na fyddai darpariaeth oddi ar y safle'n ymarferol</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				<p>dylid cymryd cyfraniad oddi ar y safle er mwyn gwella'r cyfleusterau sydd eisoes yn yr ardal ym mhwynt 2. Nid oes cyfeiriad at fabwysiadu/rheoli'r cyfryw ofodau.</p> <p>Dylid dileu neu ail-eirio pwynt 1. Mae angen cyfeirio yn y rhinweddau a dangos gyda'r gwybodaeth cefnogol gyda cais cynllunio y gall hyn weithio gyda neu heb lliniaru. Ail-eirio i ganiatau hyblygrwydd.</p>	<p>mewn rhai amgylchiadau, ac os mai dyma'r achos, dylai datblygwyr gyfrannu tuag at gyfleusterau newydd neu well.</p> <p>Bydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar ddarparu manau agored mewn datblygiadau tai newydd yn rhoi manylion ynghylch mabwysiadu/rheoli manau o'r fath.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
304	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	Polisi ISA5	Gwrthwynebu	<p>Dylid rhoi mwy o bwyslais ar ddarparu gofod agored anffurfiol yn y polisi hwn ac ym mharagraff 7.1.23 ac eraill. Ar adeg pan fo gan bobl ifanc fwy o wybodaeth am faterion amgylcheddol ond sy'n gynyddol â dim cysylltiad uniongyrchol â natur, credwn fod angen darparu cyfleoedd i weld yr awyr agored gyda'ch llygaid eich hun. Trwy gysylltiadau â pholisiau a strategaethau eraill, gall y Cynllun Datblygu Lleol ganiatáu i bobl ifanc ymwneud mwy â'u hamgylchedd gydag enghreifftiau o gadwraeth a chynaliadwyedd ar waith.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Mae Polisi ISA5 yn cyfeirio'n benodol at y gofyn i ddatblygiadau tai o faint penodol i gyfarch yr angen am gyfleon ar gyfer adloniant iach a gweithgareddau hamdden ar gyfer preswylwyr datblygiadau newydd. Derbynnir nad yw'r Polisi yn ddigon clir o ran hwyluso mynediad gwell i fannau agored presennol, manau gwyrdd ffurfiol nac anffurfiol.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					<p>Argymhelliad</p> <p>Newid maen prawf 2 i gyfeirio at y cyfraniad tuag at wella mynediad i gyfleusterau mannau agored neu lecynnau gwyrdd sydd eisoes yn bodoli.. Mae hyn yn gyson â pholisi PS5, sy'n cynnwys yr angen i wella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r amgylchedd naturiol o ran ei gyfraniad cymdeithasol.</p> <p>Newid â Ffocws NF22</p>
1130	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	Polisi ISA5	Gwrthwynebu	<p>Mae Horizon yn nodi nad ydi'r cyfyngiadau yn y polisi hwn yn briodol ar gyfer ei lety i weithwyr adeiladu dros dro. Er enghraifft byddai'n safon amhriodol i'r bobl fyddai'n debygol o breswyllo yno e.e. gweithwyr adeiladu, myfyrwyr mewn llety person sengl dros dro, i fynnu bod angen llefydd chwarae i blant.</p> <p>Yn hytrach na chwilio am newidiadau penodol i ISA5, i geisio atal defnyddio'r polisi hwn ar gyfer llety i weithwyr, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisiau penodol arfaethedig isod ar gyfer Wylfa Newydd. Rheiny fyddai'r polisiau perthnasol ar gyfer penderfynu ar ei geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm yma, nid ydi Horizon yn cynnig y dylid cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig yn benodol o'r polisiau hyn.</p>	<p>Dim yn Derbyn</p> <p>Bydd unrhyw gynigion ar gyfer datblygiadau sy'n gysylltiedig â phrosiect arfaethedig Wylfa Newydd, yn cael eu hasesu yn unol â Pholisi PS9 a nifer o bolisiau eraill y Cynllun gan gynnwys Polisi TAI3.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

PS3 – Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
533	Mobile Operators Association (Mr John Cooke) [1638]	POLISI STRATEGOL PS3	Cefnogi	Rydym yn cefnogi cynnwys Polisi Strategol PS3 yr ydym yn ystyried i fod yn unol â pholisi ac arweiniad cenedlaethol.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
1415	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	POLISI STRATEGOL PS3	Cefnogi	Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y Polisiau Rheoli Datblygu yn y Cynllun drafft. Angen cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol: * caniatáu datblygiad technolegol i hwyluso datblygiad cyflogaeth mewn ardaloedd gwledig; * cefnogi gweithio o gartref a mesurau a fydd yn gwella'r band eang a chyfathrebu yn yr ardaloedd anghysbell yn arbennig.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Mae Polisi PS3 yn hwyluso hygyrchedd ardaloedd gwledig drwy gyfrwng technoleg gwybodaeth.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd

PS4 – Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
-----------	-----	------	------	--	-------------------------------------

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
664	Mr Noel Davey, Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig	Polisi Strategol PS4	Gwrthwynebu	Rydym yn cefnogi'r hierarchaeth drafndiaeth yn PS4 a pharagraff 7.1.28 sy'n rhoi blaenoriaeth i fynediad trwy gerdded a beicio, er mwyn lleihau'r angen i deithio mewn car preifat. Mae PS4 #3 yn anelu i "wneud ychwanegiadau neu welliannau i'r rhwydwaith llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio er mwyn gwella diogelwch a hygyrchedd trwy'r dulliau teithio hyn". Byddem yn ychwanegu "ac i gynyddu buddion iechyd, hamdden, lles a thwristiaeth i drigolion lleol ac i ymwelwyr". Ymddengys bod y strategaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar fynediad ar gyfer prosiectau datblygu newydd, ond dylai hefyd roi sylw i faterion ehangach sy'n ymwneud â'r rhwydwaith hawliau tramwy.	Derbyn – Yn cytuno â'r sylw, a bod angen diwygio'r testun yn unol â hynny. Credir y byddai'r geiriad ychwanegol yn ychwanegu gwerth at y polisi drwy amlygu budd cerdded a beicio. Argymhelliad – Cynnwys y diwygiad arfaethedig yn fersiwn ddiwygiedig Polisi Strategol PS4. Newid â Ffocws NF23 Newid Bychan NB3
1131	Horizon	Polisi Strategol PS4	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn croesawu'r gofyn yn y polisi bod datblygiad wedi'i leoli er mwyn lleihau gymaint ag y bo modd ar yr angen i deithio. Mae hyn yn cefnogi rhan gyntaf yr ymgynghori gan Horizon cyn gwneud cais, sydd wedi seilio'r gwaith o ddewis safleoedd ar gyfer llety ar (ymysg ffactorau eraill) agosrwydd ar safle'r Wylfa. Mae'r ddarpariaeth o gyfleusterau a gwasanaethau ar y safle yn cefnogi	Derbyn yn rhannol – Cytuno gyda'r sylw, a bod angen newid y testun yn unol â hynny. Fodd bynnag byddai diwygio'r polisi gyda chyfeiriad at brofion penodol o fewn y Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol yn ychwanegu manylion diangen i'r polisi. Rhoddir sylw i'r mater hwn yn y cyflwyniad i bolisi PS2 Seilwaith a Chyfraniadau Datblygwyr. Argymhelliad – Diwygio'r geiriad mewn perthynas â gwelliannau sy'n gysylltiedig â

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				ymhellach y ffordd yma o weithredu, lle mai ystyriaeth eilaidd ydi'r cysylltiad efo aneddiadau eraill sy'n bodoli'n barod. Mae gwelliant Horizon yn ceisio tynnu ymaith y cysylltiad, fel na fydd gwelliannau rheilffordd sy'n dod efo'r prosiect hwn yn cael eu cysylltu efo'r polisi'n benodol ar seilwaith rheilffordd. Mae Horizon wedi egluro bod rhaid i welliannau seilwaith sy'n ofynnol fod yn rhai mae angen amdanynt yn unol efo'r Rheoliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol.	rheilffyrdd a chyfeiriad at rwymedigaethau Adran 106. Newid â Ffocws NF23
148	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited	Polisi Strategol PS4	Gwrthwynebu	Wedi nodi Bodychain, Llanllyfni fel ardal chwilio a ffafirir am dywod a gro dan Bolisi MWYN3, gellid defnyddio'r safle peiriannau presennol yng Nghefn Graianog pe bai'r ardal hon yn profi'n fasnachol hyfyw ac y ceid caniatâd cynllunio, ond byddai angen cysylltiad dan y llwybr troed/beicio presennol. Fel y cyfryw, efallai y byddai rhai yn ystyried na fyddai hyn yn gwella'r llwybr troed/beicio. Ym mhwynt 3 dechrau efo "Ble yn bosib diwygio a gwella...."	Derbyn – Yn cytuno â'r sylw, a bod angen diwygio'r testun yn unol â hynny. Teimlir bod y geiriad ychwanegol yn ychwanegu hyblygrwydd at Bolisi Strategol PS4. Argymhelliad – Ychwanegu'r geiriad ychwanegol at Bwynt 3 ym Mholisi Strategol PS4. Newid â Ffocws NF23
448	Bourne Leisure Ltd	Polisi Strategol PS4	Gwrthwynebu	Ystyrir dylid ychwanegu'r frawddeg ganlynol i PS4: "Mewn ardaloedd gwledig, mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes dewis amgen i deithio efo car	Dim yn derbyn – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymhell unrhyw newid. Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn hyrwyddo

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				preifat."	<p>datblygiad cynaliadwy. Ym mharagraff 4.7.7 o PCC ceir cyfarwyddyd y dylid lleoli'r rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn yr aneddiadau hynny sy'n gymharol hygyrch drwy ddulliau heblaw ceir. Mae strategaeth ofodol y Cynllun yn seiliedig ar yr egwyddorion ym mharagraff 4.7.7 o PCC.</p> <p>Argymhelliad – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
527	Cymdeithas Ddinesig Bangor	Polisi Strategol PS4	Cefnogi	PS4 - Trafnidiaeth Gynaliadwy	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
617	Mr Mark Roberts, Barton Willmore, Cardiff	Polisi Strategol PS4	Gwrthwynebu	Cefnogi nodau ac amcanion y polisi, fodd bynnag ni yw'r datganiad "caiff datblygiad ei leoli i leihau'r angen i deithio" yn adlewyrchu PCC. Yn hytrach mae PCC yn cyfeirio tuag at "lleihau'r angen i deithio a chynyddu hygyrchedd trwy ddulliau heblaw'r car preifat" (paragraff 4.7.4) a dim lleihau'r angen i deithio yn unig. Oherwydd hyn mae'r polisi yn rhy anhyblyg, ddim yn hyrwyddo darpariaeth bositif a ddim yn adlewyrchu gallu bysiau, beiciau a chysylltiadau	<p>Dim yn derbyn – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymhell unrhyw newid.</p> <p>Teimlir bod y polisi yn adlewyrchu dyheadau Polisi Cynllunio Cymru o ran lleihau'r angen i deithio wrth geisio cael gwelliannau trafndiaeth fydd yn cynyddu mynediad i bob math o ddull trafndiaeth.</p> <p>Argymhelliad – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				cerdded i gynnig mynediad cynaliadwy a chyfleus i wahanol wasanaethau.	Dim newid
1280	Bourne Leisure	Polisi Strategol PS4	Gwrthwynebu	Dylai polisiâu trafndiaeth newydd adnabod, oherwydd lleoliadau sawl cyfleuster ac atyniad twristiaeth, yn aml nid oes opsiwn dichonadwy arall ar gael heblaw am ddefnyddio car preifat i gyrraedd rhai datblygiadau twristiaeth. Mae Bourne Leisure wedi siomi fod PS4 yn methu â chydabod fod rhai safleoedd twristiaeth wedi'u lleoli mewn ardaloedd cefn gwlad ble nad oes cludiant cyhoeddus yn bodoli. Nid yw PS4, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn gadarn ac nid yw'n unol â pholisi cenedlaethol. Mae TAN18: Trafndiaeth (Mawrth 2007) yn benodol yn adnabod fod rhai datblygiadau twristiaeth yn ddibynnol ar deithio mewn car ac yn cynghori: "..mewn ardaloedd gwledig mae angen cydbwysio diffyg mynediad i gludiant cyhoeddus yn erbyn y cyfraniad y mae twristiaeth yn ei wneud i'r economi wledig yn yr ardal benodol..." (para. 3.15) Mae Bourne Leisure yn ystyried y dylid ychwanegu'r frawddeg hon i PS4: "mewn ardaloedd gwledig, mae'r Cyngor yn cydnabod nad oes llawer o ddewis ond defnyddio car preifat i deithio."	<p>Dim yn derbyn – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymhell unrhyw newid.</p> <p>Gallai'r datganiad hwn gael ei ddehongli fel hyrwyddo'r defnydd o geir preifat. Mae hyn yn groes i ddyheadau Polisi Cynllunio Cymru o ran y defnydd o drafnidiaeth. Yn unol â pharagraff 3.11 o TAN 18 sy'n cyfeirio at ymgorffori egwyddorion cynaliadwyedd, mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau y dylai'r rhan fwyaf o ddatblygiadau gael eu lleoli mewn mannau sy'n hygyrch drwy amrywiaeth o ddulliau teithio.</p> <p>Argymhelliad – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

TRA1 – Datblygiadau Rhwydwaith Cludiant

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
1091	Cyfoeth Naturiol Cymru	Polisi TRA1	Gwrthwynebu	Mae'r Cynllun yn rhoi amlinelliad o 4 cynllun cludiant fydd yn digwydd yn ystod cyfnod y Cynllun, yn cynnwys ffordd osgoi'r A487 Caernarfon i Bontnewydd, Ffordd Gyswllt Llangefni, darpariaeth newydd i groesi'r Fenai a gwelliannau ar yr A5025 o'r Fali i Wylfa Newydd. Byddai ANC yn gwerthfawrogi'r cyfle i fod yn rhan o'r trafodaethau ar y cynlluniau arfaethedig yma mor fuan ag y bo modd, er mwyn gweld beth ydi'r cyfyngiadau allweddol ar ddatblygiad a chael darparu cyngor. Mae ANC wedi darparu cyngor Cwmpasu yn barod ar y cynlluniau sydd wedi'u henwi uchod.	<p>Dim yn derbyn - Fel rhan o'r Broses Gynllunio ymgynghorir ag ymgynghorwyr statudol fel Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai cynnwys cyfeiriad yn y polisi yn ychwanegu manylion diangen i'r polisi.</p> <p>Argymhelliad – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
1132	Pwêr Niwclear Horizon	Polisi TRA1	Gwrthwynebu	Mae camgymeriad teipio yn 2. (ii) a (iii) lle yn y ddau achos dylid newid "facilitates" i ddarllen fel "facilities". (Nid ydi hyn wedi'i ddangos yn y newidiadau penodol y gofynnir amdanynt). Cynigiwyd newidiadau i 3(i) er mwyn eglurder, yn cynnwys dod â'r tabl i mewn i'r polisi er mwyn bod yn eglur ar ba ddatblygiad byddai hyn yn effeithio. Mae 3(ii) newydd wedyn yn codi o ail gangen y testun presennol (ar ôl y tabl). Gofynnir	<p>Derbyn yn rhannol – Bydd y gwallau sillafu yn cael eu cywiro.</p> <p>Cytuno y byddai adran 3 o'r polisi yn elwa o fân aiddrafftio i wella eglurder. Fodd bynnag, teimlir ei bod yn fwy priodol cadw'r tabl ym mharagraff 7.1.31.</p> <p>Mae'r rhestr yn rhan 4 o bolisi TRA 1 yn adnabod cynlluniau cludiant mae'r Cynllun yn ceisio ei warchod trwy eu dangos ar y mapiau</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				am newidiadau i 4(iii) i sicrhau nad oes unrhyw awgrym bod y Cynllun yn penderfynu ymlaen llaw ar yr asesiadau effaith amgylcheddol mae Horizon yn eu gwneud ac y dylai'r angen am welliannau i'r seilwaith cludiant fod yn deillio ohonynt.	<p>cynigion. Yng ngoleuni sylwadau Horizon bod gwaith asesu effaith amgylcheddol ar gyfer yr angen am welliannau i'r seilwaith cludiant yn cymryd lle ar hyn o bryd yna dylai cyfeiriad tuag at rain, ynghyd ar map cynigion ohonynt, gael ei dynnu allan o bolisi TRA 1.</p> <p>Argymhelliad – Diwygio adrannau 3 a 4 (iii) i wella eglurder.</p> <p>Newid â Ffocws NF24</p>
1133 & 1134	Pwêr Niwclear Horizon	Paragraffau 7.1.30 i 7.1.44	Gwrthwynebu	Yn ymwneud efo'r sylwadau ar TRA1, darparwyd geiriad newydd i fynd yn lle'r paragraff 7.1.41 presennol, er mwyn osgoi pennu ymlaen llaw ac i gyfeirio at ddatblygiad Strategaeth Traffig a Chludiant Integredig Horizon. Mae Horizon yn cefnogi cynnwys datganiad wedi'i eirio'n addas i gefnogi ei fod yn gweithio mewn partneriaeth efo'r Cynghorau i ddatblygu Strategaeth Traffig a Chludiant Integredig wedi'i chytuno ar gyfer y Prosiect, i gael ei chefnogi trwy bolisi TRA1.	<p>Derbyn - Cytuno i aralleirio'r teitl cyn paragraff 7.1.41 a pharagraff 7.1.44 i ddangos lle'r amlygwyd angen i uwchraddio'r seilwaith trafndiaeth.</p> <p>Eisoes ceir cyfeiriad at Gynlluniau Teithio ym mharagraffau 7.1.30 a 7.1.32, fodd bynnag mae'r ymateb blaenorol wedi cytuno i gynnwys cyfeiriad at gynlluniau teithio ym mholisi TRA 1.</p> <p>Argymhelliad – Diwygio'r teitl i baragraff 7.1.41 a pharagraff 7.1.44.</p> <p>Newid â Ffocws NF25</p> <p>Newid Bychan NB2</p>
1185,	Dwr Cymru	Polisi TRA1	Gwrthwynebu	Mae'r llwybr arfaethedig yn mynd dros	Dim yn derbyn - Fel rhan o'r Broses Gynllunio

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
1186, 1187				asedau DCWW mewn nifer o lefydd (yn garthffosydd cyhoeddus a phrif bibelli dŵr). O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 mae gan Ddŵr Cymru Welsh Water hawliau i gael mynediad at ei gyfarpar gydol yr amser. Bydd angen mesurau amddiffyn ar gyfer yr asedau hyn, naill ai ar ffurf hawddfrait dros led benodol o dir neu efallai gael gwyriad ar yr ased.	ymgynghorir ag ymgyngorwyr statudol fel Dŵr Cymru Welsh Water. Byddai cynnwys cyfeiriad yn y polisi yn ychwanegu manylion diangen i'r polisi. Argymhelliad – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
525	Cymdeithas Ddinesig Bangor	Polisi TRA1	Gwrthwynebu	TRA1: Rhwydweithiau Cludiant 4) 'Cynlluniau Cludiant' - nid oes unrhyw sôn am gynigion rheilffordd.	Dim yn derbyn – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymhell unrhyw newid. Mae diogelu rheilffyrdd presennol wedi ei gynnwys yn TRA3. Argymhelliad – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
876	Mr John Tripp, Porthaethwy	Polisi TRA1	Gwrthwynebu	* gormod o bwyslais ar geir; * llwybrau beic sydd i'w gweithredu (ddim yn ddigon positif); * rheilffyrdd a bysiau. Rheilffordd drydan - fel rhan o estyniad yr HS3 Caergybi i Hull.	Dim yn derbyn – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymhell unrhyw newid. Teimlir bod Polisi TRA1 yn cydymffurfio â dyheadau Polisi Cynllunio Cymru o ran y defnydd o drafnidiaeth. Argymhelliad – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
1055	Mr Mark Newey, Llywodraeth Cymru	Polisi TRA1	Gwrthwynebu	Gallai'r dyraniadau tir olygu colli tua 40 hectar o'r Tir Gorau a Mwyaf Hyblyg am byth. Mae mwyafrif y tir wedi'i gynnwys yn nyraniadau TRA1, C14 a C15 a phrin yw'r dystiolaeth yn y cynllun i ddangos bod paragraff 4.10 wedi cael ei ystyried o gwbl wrth ddyrannu'r safleoedd hyn ar gyfer datblygu.	Dim yn derbyn – Mae'r tir a nodir ym mholisi TRA 1 yn gynlluniau gwella priffyrdd a nodwyd fel llwybrau sydd angen eu diogelu o fewn y cynllun. Cydnabyddir bod ffordd gyswllt Llangefni yn croesi tir amaethyddol o ansawdd uchel yng nghyffiniau Llangefni, fodd bynnag, mae gan y cynnig hwn fudd caniatâd cynllunio o dan 34LPA1013/FR/EIA/CC. Felly, aseswyd colli tir amaethyddol o ansawdd uchel fel rhan o'r cais. Byddid wedi ymgynghori â phob corff perthnasol ynglŷn â'r holl ddatblygiadau a amlygwyd ym Mholisi TRA1, a byddai colled barhaol o dir amaethyddol o ansawdd uchel wedi cael ei drafod ar adeg y cam ymgeisio. Argymhelliad – Dim newid i Bolisi TRA1. Dim newid
683	Barton Willmore	7.1.31	Gwrthwynebu	Mae paragraffau 7.1.31 a 7.1.32 yn cynnwys sylwebaeth eang am y gofyniad a'r angen am Asesiadau Trafnidiaeth, ond	Dim yn derbyn – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymhell unrhyw newid.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				yn dyblygu Polisi Cynllunio Cymru. Mae hyn yn ddianghenraid.	<p>Mae paragraffau 7.1.31 a 7.1.32 yn darparu cyd-destun i Bolisi TRA1.</p> <p>Argymhelliad – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
530	Cymdeithas Ddinesig Bangor	7.1.37	Gwrthwynebu	Rhwydwaith Traws Ewrop E22 - Mae angen eglurhad o p'un a yw Pont Britannia a rhannau o ogledd Cymru dal yn rhan o E22.	<p>Dim yn derbyn – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymhell unrhyw newid.</p> <p>Teimlir bod paragraff 7.1.37 yn egluro bod yr A55 ar yr E22.</p> <p>Argymhelliad – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
877	Mr John Tripp, Porthaethwy	7.1.37	Gwrthwynebu	<p>Croesfan ar draws y Fenai - beth am roi twnnel o dan y Fenai o Griffiths Crossing? Ydych chi wedi meddwl am:</p> <p>* ddefnyddio dwy lôn i groesi ar yr A55, i'w cyfnewid rhwng naill ochr y ffordd a'r llall</p> <p>* nid yw'r dec rheilffordd o dan yr A55 ond yn cael ei ddefnyddio 50% o'r amser.</p>	<p>Dim yn derbyn – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymhell unrhyw newid.</p> <p>Mae opsiynau ar drydedd bont dros Afon Menai yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru ond hyd yma nid oes penderfyniad ffurfiol wedi ei wneud.</p> <p>Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
512	Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd	7.1.42 (Polisi TRA1)	Cefnogi	Bydd angen ymgynghoriad ffurfiol ar y gwelliannau hyn gan ei bod yn bosib y gallai rhai o'r ardaloedd hyn gael effaith ar yr adnodd archeolegol.	Dim yn derbyn Fel rhan o'r broses Gynllunio ymgynghorir ag ymgynghorwyr fel Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd. Byddai cynnwys cyfeiriad yn y polisi yn ychwanegu manylion diangen i'r polisi. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid

TRA2 – Safonau Parcio

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
1096	Mr Mark Newey, Llywodraeth Cymru	Polisi TRA2 (paragraff 7.1.45)	Gwrthwynebu	Dylid nodi bod Polisi Cynllunio Cymru'n datgan y dylai awdurdodau lleol sicrhau bod datblygiadau newydd yn darparu lefelau is o ofod parcio na'r hyn a wnaed yn y gorffennol. Mae TAN 18 yn datgan y	Derbyn – Rydym yn cytuno â'r sylw, a bod angen diwygio'r testun yn unol â hynny. Rhoddir cyfeiriad at Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 18 ym mharagraffau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				dylid defnyddio uchafswm safonau parcio ceir fel ffordd o reoli'r galw.	<p>esboniad 7.1.45 a 7.1.46.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Gwneud newidiadau i baragraff 7.1.45 yn seiliedig ar y sylwadau a gyflwynwyd.</p> <p>Newid â Ffocws NF26</p>

TRA3 – Diogelu Rheilffyrdd Segur

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
161	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited	Polisi TRA3	Gwrthwynebu	<p>Fel gyda Pholisi PS4, wedi nodi Bodychain, Llanllyfni fel ardal chwilio a ffafrir am dywod a gro dan Bolisi MWYN3, gellid defnyddio'r safle peiriannau presennol yng Nghefn Graianog pe bai'r ardal hon yn profi'n fasnachol hyfyw ac y ceid caniatâd cynllunio ond byddai angen cysylltiad dan y llwybr troed/beicio presennol.</p> <p>Cynnig ail eirio a dyfynnu: "Ble yn briodol a hyfyw dylid hyrwyddo ac annog y posibilrwydd o ail agor isadeiledd segur rheilffyrdd ar gyfer defnydd fel</p>	<p>Derbyn – Rydym yn cytuno â'r sylw, a bod angen diwygio'r testun yn unol â hynny.</p> <p>Teimlir y dylid ychwanegu geiriad ychwanegol at y polisi, yn hytrach na disodli'r geiriad gwreiddiol, gan ei fod yn ychwanegu gwerth at amcan cynaliadwyedd y polisi. Fodd bynnag, dylid cadw'r geiriad gwreiddiol, oherwydd mae'n bwysig peidio ag annog datblygiadau a allai atal ailagor seilwaith rheilffordd segur neu nas defnyddir.</p> <p>Argymhelliad – Gwneud newidiadau i Bolisi TRA3 yn seiliedig ar y sylwadau a gyflwynwyd.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				rheilffordd neu bwrpas trafndiaeth arall.”	Newid â Ffocws NF27
440	Cyngor Tref Ffestiniog	Polisi TRA3	Cefnogi	Gobeithio y gall Cyngor Gwynedd helpu i ddatrys y broblem hon.	Nodi'r sylwadau cefnogol Argymhelliad Dim newid

TRA4 – Rheoli Ardrowiadau Cludiant

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
150	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	Polisi TRA4	Gwrthwynebu	Ystyrir bod y polisi'n rhy gaeth ac nid yw'n caniatáu cyfle ar gyfer gwaith lliniaru posib trwy rwymedigaethau ac amodau cynllunio. Dylid ymdrin â phob cais yn ôl ei haeddiant a dylai ddangos trwy wybodaeth gysylltiedig gyda chais cynllunio y gall weithio gyda gwaith lliniaru neu hebdo. Diwygio'r geiriad i er caniatáu hyblygrwydd.	Derbyn – Yn cytuno â'r sylw, a bod angen diwygio'r testun yn unol â hynny. Bydd y diwygiad a awgrymir yn ychwanegu hyblygrwydd at y polisi.
151	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]				Argymhelliad – Ychwanegu brawddeg ychwanegol at y polisi, er mwyn caniatáu ar gyfer hyblygrwydd pellach wrth benderfynu ar geisiadau. Newid Bychan NB3
598	Mr Mark Roberts, Cardiff	Polisi TRA4	Gwrthwynebu	Rydym yn pryderu nad yw'r prawf "ni chaniateir datblygiadau a fyddai'n peri	Derbyn yn rhannol – Cytuno y dylid diwygio'r Rhestr Termau i esbonio sut fath o ddatblygiad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>niwed annerbyniol i weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd..." yn un manwl gywir ac nad yw wedi'i baratoi'n bositif. Nid oes unrhyw sôn yn y polisi am yr hyn a ystyrir yn "annerbyniol". Bydd y datblygiad yn effeithio ar rwydweithiau priffyrdd drwy gynyddu traffig. Yn ogystal, nid yw'r polisi yn ystyried gallu cynigion datblygu i leddfu neu leihau effeithiau ar y rhwydwaith.</p> <p>Newid: Ystyriwn y dylai'r polisi ddatgan mai datblygiadau fyddai'n peri "effaith weddilliol annerbyniol ddifrifol/sylweddol" yw'r prawf gofynnol.</p>	<p>fuasai yn cael ei ystyried yn annerbyniol o fewn gwahanol bolisiau yn y Cynllun.</p> <p>Dim yn cytuno efo'r newidiadau a chynigiwyd ar gyfer 'effaith gweddilliol difrifol/arwyddocaol annerbyniol...' gan y gall hyn alluogi datblygiad a fuasai'n effeithio ar weithrediad diogel ac effeithlon y briffordd, cludiant cyhoeddus a rhwydweithiau cludiant eraill.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Cynnwys cyfeiriad i annerbyniol yn y Rhestr Termau.</p> <p>Newid â Ffocws NF111</p>
529	Cymdeithas Ddinesig Bangor	Polisi TRA4	Gwrthwynebu	<p>TRA4: Ardrawiadau cludiant. Dileu 'fel sy'n briodol'. Dylid sicrhau darpariaeth ddiogel i'r grwpiau hyn pob amser.</p>	<p>Derbyn yn rhannol - Pwrpas yr eirfa yn y polisi oedd adlewyrchu nad oedd darpariaeth ar gyfer pob dull o deithio ddim yn berthnasol efo pob math o geisiadau. Fodd bynnag, cytunir bod y term 'ble bo'r angen' ychydig yn gamarweiniol.</p> <p>Yng ngoleuni hyn cynigir newid i 'Ble yn briodol' a bydd hyn yn golygu bod y polisi yn unol â'r eglurhad ym mharagraff 7.1.51 sydd yn cyfeirio tuag at fesurau sy'n briodol i gynnig</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					penodol. Argymhelliad – Gwneud newidiadau i Bolisi TRA4 i ddarllen 'Ble yn briodol' . Newid Bychan NB3
1835	Mr Noel Davey, Council for the Protection of Rural Wales	Polisi TRA4	Gwrthwynebu	Mae'r polisi yn eithaf gwan ac yn rhoi sylw brysiog o ymrwymadau cynllunio i hawliau tramwy cyhoeddus. Dylid cael geirfa yn y CDLI ar y cyd yn debyg i'r hyn oedd ym mholisi CH22 o'r CDU Gwynedd 'Rhwydwaith Beicio, Llwybrau a Hawliau tramwy' yn rhoi ymrwymiad mwy manwl a phenodol i warchod a hybu'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus. Dylai'r CDLI ar y cyd gydnabod eu pwysigrwydd i'r economi ymwelwyr, budd hamdden, iechyd cenedlaethol a lles efo pwyslais cryf ar warchod a hybu'r Llwybr Arfordirol Cenedlaethol.	Dim yn derbyn - Pwrpas polisi TRA 4 yw sicrhau bod datblygiad newydd yn creu darpariaeth ddiogel a chyfleus ar gyfer pob dull o deithio ble bod hyn yn briodol. Mae polisi PS4 yn cyfeirio tuag at yr angen i ychwanegu a gwella rhwydwaith llwybrau cyhoeddus a llwybrau beicio a theimlir bod hyn yn rhoi cefnogaeth ddigonol i llwybrau cyhoeddus yn y Cynllun. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid

PENNOD 7.2 BYW'N GYNALIADWY

Datblygiad Cynaliadwy a Newid Hinsawdd

Cyd-destun a Chyflwyniad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
770	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	7.2.4	Gwrthwynebu	Gwerthfawrogn fod polisiau cenedlaethol newydd yn gweld 'datblygu cynaliadwy' fel prif bwrpas y system cynllunio defnydd tir ac yn gofyn i'r Cynllun Datblygu Lleol roi'r egwyddorion hyn wrth galon ei strategaeth leol. Fodd bynnag, cwestiynwn a fydd modd cymhwyso'r polisiau datblygu cynaliadwy arfaethedig yn effeithiol ar raddfa fwy lleol yn y system gynllunio. Mae gennym bryder mawr y bydd cymaint o bwyslais yn cael ei roi ar dri pholisi cyffredinol sy'n ymwneud â datblygu cynaliadwy (PCYFF1-3). Credwn y gallai profi pob un cynnig yn erbyn yr egwyddorion cyffredinol hyn yn hawdd iawn fynd yn ymarfer diddim heb fawr o ystyr ym mhob Datganiad Dyluniad a Mynediad. Ar yr un pryd, gallai penderfyniadau cynllunio fynd yn fwy mympwyol ac yn llai gwrthrychol pan gânt eu profi yn erbyn y datganiadau cyffredinol iawn hyn. Byddwn yn colli'r pwyslais a geir mewn meini prawf cwbl glir sydd ynghlwm â pholisiau unigol ar gyfer pob math o gynigion. Mewn nifer o achosion ni fydd yna bolisi cwbl benodol, dim ond gofyn i gyfeirio at y polisiau	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Ystyrir y Cynllun yn ei gyfanrwydd wrth asesu cynigion datblygu ac ni ddylid ystyried polisiau PCYFF 1-3 ar eu pen eu hunain. Rhoddir yr un pwysau ar holl bolisiau manwl y Cynllun. Mae cynnwys y tri pholisi yn golygu bod pob cais cynllunio'n dod o dan bolisi cynllunio cenedlaethol, ac mae'n osgoi ailadrodd diangen yn y cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				datblygu cynaliadwy ehangach.	
1056	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.2.4	Gwrthwynebu	Mae Asesiad Effaith Ynni Adnewyddadwy wedi'i gynnal yn y ddwy ardal. Er hynny, nid yw'r Cynllun Adnau yn manteisio ar y cyfle i ystyried y cyfraniad y gallai'r ardal ei wneud at ddatblygu a hwyluso ynni adnewyddadwy a charbon isel ac i gynllunio'n bositif ar gyfer datblygiad addas. Mae angen ystyried yn fanylach sut i droi'r dystiolaeth yn set o bolisiau sy'n llywio datblygu addas. Er enghraifft, a allai'r asesiadau roi tystiolaeth i ddarparu cyfleoedd ar gyfer cynnal safonau adeilad cynaliadwy uwch ar safleoedd strategol neu a allai lleoli datblygiadau yn yr un lle wella'r cyfleoedd ar gyfer ynni adnewyddol?	<p>Derbyn yn rhannol</p> <p>Mae gan y Pecyn Cymorth newydd i Gynllunwyr ar Gynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel (Medi 2015) adran ychwanegol i asesu'r potensial ar gyfer datblygiadau ffermydd solar. Yn ogystal, mae llythyr gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, dyddiedig 10 Rhagfyr 2015, yn disgwyl dyraniadau neu ardaloedd chwilio ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy neu dechnolegau carbon isel ar raddfa awdurdod lleol (5MW - 25MW).</p> <p>O ganlyniad, mae'r Cynghorau wedi comisiynu gwaith ychwanegol i ganfod unrhyw ardaloedd arfaethedig ar gyfer datblygiadau ffermydd solar. Yn ogystal, bydd asesiad yn erbyn astudiaeth Capasiti a Sensitifrwydd y Dirwedd ar gyfer yr ardal yn fodd o benderfynu a ddylid nodi unrhyw ardaloedd chwilio ar raddfa awdurdod-lleol yn y Cynllun.</p> <p>Newidiwyd y cyflwyniad i bolisi PS7 i adlewyrchu'r gwaith hwn sydd ar y gweill.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					<p>Ni nodwyd unrhyw safleoedd strategol yn y Cynllun Adnau.</p> <p>Cytuno y gellid cynnwys meini prawf ychwanegol o fewn polisi PS5 mewn perthynas â hyrwyddo cyd-leoli datblygiadau er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd am ynni adnewyddadwy.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ychwanegu maen prawf ychwanegol o fewn Polisi PS5 mewn perthynas â chyd-leoli datblygiad.</p> <p>Newid â Ffocws NF28</p>

PS5 – Datblygu Cynaliadwy

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
111	CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]	POLISI STRATEGOL PS5	Cefnogi	Dylid adeiladu ar dir llwyd ac nid ar dir gwyrdd. Argymhellir edrych ar sut i aildefnyddio safleoedd tir llwyd cyn adeiladu o'r newydd ar safleoedd tir gwyrdd, gan gynnwys dymchwel tai os nad ydynt yn ffit i bwrpas. Dylid gwneud gwell defnydd o safleoedd tir llwyd er mwyn gwarchod safleoedd tir gwyrdd a chaeau. Er	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				enghraifft, mae ardal gyfagos i gylchfan Parc siopa Dewi Sant sy'n ddifffraith oherwydd dymchwel tai; Hendrewen; safle cornel gyferbyn ag Ysbyty Gwynedd. e.e. gellid adeiladu fflatiau wrth ymyl Parc siopa Dewi Sant efo llawr parcio i osgoi problemau llifogydd.	
167	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI STRATEGOL PS5	Gwrthwynebu	Nid yw'r polisi cyffredinol hwn yn eglur o ran yr hyn y mae'n berthnasol iddo e.e. nid pob ased tirwedd a bioamrywiaeth sydd â'r un gwerth ac ni fydd wastad yn bosib 'gwarchod a gwella' asedau. Os credir ei fod yn berthnasol i safleoedd cloddio mwynau, awgrymu newidiadau fel y nodir isod.	<p>Derbyn yn Rhannol</p> <p>Bydd y polisi yn gymwys ar gyfer pob math o ddatblygiad. Derbynnir nad oes yr un gwerth i bob tirwedd ac ased bioamrywiaeth, a rhoddir ystyriaeth i hyn wrth asesu unrhyw geisiadau.</p> <p>Mae Ffigur 4.4 PCC yn diffinio tir a ddatblygwyd eisoes. Ni ystyrir y byddai'n briodol i gyfeirio at fathau penodol o ddefnyddiau o fewn y polisi. Mae'r cyfeiriad at ffiniau datblygu yn cynnig dull dilyniannol tuag at ddatblygu, ac nid yw'r maen prawf yn cyfeirio at y lleoedd mwyaf addas y tu allan i'r ffiniau.</p> <p>Er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i ddatblygiadau cyflogaeth, dylid ychwanegu cyfeiriad at PS10 a PS11 at faen prawf 3.</p>
168	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]			Ystyried hierarchaeth i asesu effaith amgylcheddol datblygiadau arfaethedig (nid yw pob tirlun nag asedau bioamrywiaeth gyda'r un gwerth) ac yn ddi ystyriaeth i bolisiau eraill o fewn y cynllun datblygu. Ym mhwynt 3 dylid cynnwys safleoedd cyn chwareli yn niffiniad tir sydd eisoes wedi ei ddatblygu gan dynnu'r cyfeiriad tuag at ffiniau datblygu. Ym mhwynt 6 a 7 dechrau gyda "Ble'n bosibl..."	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					<p>Argymhelliad</p> <p>Ychwanegu cyfeiriad at PS10 a PS11 ym maen prawf 3.</p> <p>Newid â Ffocws NF28</p>
397	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI STRATEGOL PS5	Cefnogi	Mae Dŵr Cymru'n cefnogi cynnwys y polisi hwn a'i bwyslais ar ostwng cyfaint y dŵr a ddefnyddir ac a gaiff ei wastraffu, a gostwng yr effaith ar adnoddau ac ansawdd dŵr, a gwneud y defnydd mwyaf posib o gynlluniau draeniau cynaliadwy. Rydym yn llwyr gefnogi hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac edrychwn at eich awdurdod i sicrhau bod dyluniau priodol yn cynnwys effeithlonrwydd dŵr, cadwraeth dŵr a draenio cynaliadwy er mwyn cydymffurfio â safonau uchel y Côt Cartrefi Cynaliadwy a BREEAM.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
766	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS5	Gwrthwynebu	Mae gofyn i bob datblygiad gwrdd â naw o amcanion. Cytunwn yn llwyr gyda'r amcanion mewn egwyddor, ond nid ydym yn gweld sut all pob cynnig, megis estyniadau bychain i dai, ddangos yn ymarferol sut y byddent yn cyfrannu at bob un ohonynt, yn enwedig rhif 6 'cadw a 'gwella' ansawdd...asedau' a rhif 7 'gwarchod a 'gwella' ansawdd yr amgylchedd naturiol'. Mae'n debyg bod angen ychwanegu rhyw fath o amod e.e. 'lle bynnag y byddo'n	<p>Dim yn derbyn.</p> <p>Derbynnir na all pob cynnig, fel estyniadau bychan, gyfrannu at yr egwyddorion sydd wedi'u rhestru yn y polisi. Ystyrir pob cynnig datblygu ar wahân a byddant yn cael eu hasesu fesul achos.</p> <p>Teimlir y byddai ychwanegu maen prawf</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				bosib'. Nodir fod y cyflwyniad i amcanion 10-14 yn cynnwys y geiriau 'pan fo hynny'n briodol, dylai cynigion hefyd:'	<p>fel yr awgrymwyd yn dibrisio'r gofyn i gynigion fabwysiadu egwyddorion datblygu cynaliadwy mewn mathau eraill o ddatblygiadau.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
767	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS5	Gwrthwynebu	Maen prawf 4 'Hyrwyddo Canolfannau a Phentrefi mwy hunangynhaliol drwy gyfrannu at gymunedau cytbwys sy'n cael eu cefnogi gan ddigonedd o wasanaethau; gweithgareddau diwylliannol, celfyddydol, chwaraeon ac adloniant; ystod amrywiol o gyfleoedd gwaith, isadeiledd ffisegol a chymdeithasol; a dewis o ddulliau teithio.' Bydd yr ymagwedd hon yn gwrthdaro â'r pwysau am 'arbedion maint' e.e. y dadleuon cyfredol am grynodiad gwasanaethau yn GIG Gogledd Cymru.	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Mae'n bwysig hyrwyddo aneddiadau hunangynhwysol er mwyn sicrhau bod cymunedau'n gytbwys, ac felly, yn hyrwyddo datblygiadau cynaliadwy yn ardal y Cynllun, sy'n cael ei hyrwyddo mewn polisiau cynllunio cenedlaethol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
768	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr	POLISI STRATEGOL	Gwrthwynebu	Maen prawf 13, gellid gwneud mwy o synnwyr ohono trwy roi 'car' i mewn a dileu 'means of'	Derbyn yn rhannol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
	Noel Davey) [1169]	PS5		yn y fersiwn Saesneg. 'Lleihau'r angen i deithio mewn car ac annog cyfleoedd i bob defnyddiwr deithio yn ôl y gofyn ac mor aml â phosib drwy ddefnyddio dulliau amgen'.	Bydd y newid a awgrymir yn gwneud y polisi'n fwy clir. Fodd bynnag, dylid nodi 'cludiant preifat' yn lle 'car'. Argymhelliad Cynnwys cyfeiriad ar gludiant preifat yn y polisi. Newid â Ffocws NF28
852	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI STRATEGOL PS5	Gwrthwynebu	Mae hwn yn bolisi gydag 14 rhan, ac mae gofyn cydymffurfio â thoreth o faterion. Nid yw'n ymgorffori rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy fel sydd wedi'i amlinellu yn PCC. Nid yw'n galluogi cydbwysu'r buddion a ddaw yn sgil datblygiad gyda themâu cymdeithasol, economaidd ac yn wir, amgylcheddol (adfer ac ailddatblygu safle llygredig a ddatblygwyd o'r blaen, er enghraifft) ac unrhyw effeithiau negyddol yn y meysydd hynny. Ar y cyfan mae'r polisi wedi'i eirio'n negyddol. Mae PCC yn darparu rhagdybiaeth glir o blaid datblygu cynaliadwy. Nid yw'n ymgorffori unrhyw agwedd o'r dull hwn a dylid ei ailysgrifennu i ddarparu polisi positif sy'n rhagdybio o blaid datblygu cynaliadwy. Dylid ei ail ysgrifennu er darparu polisi positif a rhagdybiaeth o blaid datblygiad cynaliadwy.	Derbyn Cytunir y byddai'n fuddiol i wneud rhai mân newidiadau golygyddol i eiriad y polisi er mwyn dangos y bydd y Cynllun yn mynd ati'n positif i ganfod datblygiadau cynaliadwy. Disgrifir yn fanwl sut y caiff yr egwyddorion hyn eu rhoi ar waith mewn adrannau eraill o'r Cynllun. Mae'r meini prawf yn y Polisi yn arwain y darlennydd at y man priodol yn y Cynllun lle gellir canfod y polisïau. Argymhelliad Aralleirio brawddeg gyntaf ac ail frawddeg y polisi i sicrhau eu bod yn cadarnhau rhagdybiaeth y Polisi o blaid datblygu cynaliadwy yn unol â

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					chanllawiau polisi cynllunio cenedlaethol. Newid â Ffocws NF28
853	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI STRATEGOL PS5	Gwrthwynebu	Nodwn nad oes unrhyw bolisi sy'n mynegi yn nhermau cyffredinol ac sy'n sail i'r holl bolisiau eraill yn rhagdybio o blaid datblygu cynaliadwy. Mae hwn yn ddull sylfaenol gan Lywodraeth Cymru a PCC. Mae yna bolisi datblygu cynaliadwy, Polisi PS5, fodd bynnag, nid yw'n darparu "rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy." Mae'r diffyg hwn yn ddiffyg amlwg ac yn colli rhywbeth arwyddocaol sydd wrth wraidd polisiau'r Cynllun hwn a'r dull mae'n ei ddefnyddio. Polisi sy'n rhoi rhagdybiaeth o blaid datblygiad cynaliadwy.	Derbyn Gweler ymateb i sylw 852 Argymhelliad Gweler yr argymhelliad i sylw 852 uchod. Newid â Ffocws NF28
986	Welsh Slate Ltd [3147]	POLISI STRATEGOL PS5	Gwrthwynebu	Tra'n rhestru 13 o amcanion mae yna fethiant llwyr i gynnwys unrhyw gyfeiriad i fwynau, waeth unrhyw gyfeiriad at Bolisi Strategol PS18.	Dim yn derbyn Mae Polisi PS18 yn ymwneud yn benodol â'r angen i sicrhau bod mwynau'n cael eu defnyddio'n gynaliadwy. Ystyrir fod y polisi hwn yn ddigonol yn hyn o beth. Argymhelliad Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					Dim newid
1135	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI STRATEGOL PS5	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn credu y byddai'n fuddiol cael gwared â rhywfaint o'r ail adodd, cylchogrwydd ac anghysonderau posibl yn deillio o gyfeiriadau at bolisiau eraill. Enghreifftiau o hynny ydi bod meini prawf 5, 6, 16, 10, 11, 12, 13, 14 ddim ond yn croes gyfeirio at bolisiau eraill fydd yn gymwys ar gyfer y materion hyn ac yn eu rheoli.	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Mae'r polisiau strategol yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer y polisiau manwl yn y Cynllun. Byddai cael gwared ar y meini prawf fel yr awgrymir yn dibrisio ac yn gwanhau'r polisi o ran sicrhau bod cynigion yn mabwysiadu egwyddorion datblygu cynaliadwy.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>

PS6 – Lliniaru Effeithiau Newid Hinsawdd ac Addasu Iddynt

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
126	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	POLISI STRATEGOL PS6	Gwrthwynebu	Nid yw'n glir sut mae'r gofynion hyn yn cysylltu â Rheoliadau Adeiladu. Os ydynt, fel mae'n ymddangos, yn edrych ar gael safonau uwch na Rheoliadau Adeiladu yna mae hyn yn debygol o gael effaith ar hyfywedd cynllun. A roddwyd	<p>Dim yn Derbynt</p> <p>Mae paragraff 4.12.6 PCC yn ceisio annog ceisiadau sy'n adlewyrchu prif egwyddorion datblygiadau sy'n ymateb</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				<p>caniatâd yn y cynllun ar gyfer effaith ariannol cwrdd â'r gofynion hyn wrth brofi hyfywedd darparu tai/tai fforddiadwy?</p> <p>Darparu eglurhad.</p>	<p>i'r hinsawdd sy'n rhagori ar y safonau a nodir mewn rheoliadau adeiladu.</p> <p>Bydd hyfywedd yn ystyriaeth ar gyfer pob cais, ac mae'r geiriad yn y polisi yn nodi 'rhoi ystyriaeth lawn' mewn perthynas i ystyried lliniaru ac addasu i effaith newid hinsawdd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim tystiolaeth gadarn wedi ei dderbyn fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adneuo a sicrhau cadernid.</p> <p>Dim newid</p>
169	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI STRATEGOL PS6	Gwrthwynebu	<p>Unwaith eto nid oes diffiniad yn y polisi cyffredinol yn nodi lle mae'n berthnasol iddo. Os ystyrir ei fod yn berthnasol i safleoedd cloddio mwynau, awgrymu newidiadau fel y nodir isod.</p> <p>Awgrymu hierarchaeth ar gyfer asesu effeithiau cynigion datblygu ac er gwaethaf polisiâu yn y cynllun datblygu.</p> <p>Pwynt 6 "Ble'n bosib..."</p> <p>Pwynt 10 " Ble'n bosib..."</p>	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Bydd y polisi yn gymwys ar gyfer pob math o ddatblygiad. Yn unol â pholisi cynllunio cenedlaethol, un o swyddogaethau craidd y Cynllun yw sicrhau bod yr holl ddatblygiad yn ardal y Cynllun yn gynaliadwy, gan roi ystyriaeth lawn i'r oblygiadau o leihau'r defnydd o adnoddau a mynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae'r Polisi hwn yn rhan o fframwaith ar gyfer twf gynaliadwy drwy hyrwyddo datblygiad sy'n lliniaru</p>
170	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]				

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					<p>effeithiau newid hinsawdd ac yn gallu addasu i'r effeithiau tebygol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
398	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI STRATEGOL PS6	Cefnogi	Mae Dŵr Cymru'n cefnogi cynnwys y polisi hwn a'r gofyn i ddatblygwyr anelu am y safon uchaf bosib o ran effeithlonrwydd dŵr a defnyddio systemau draenio addas. Mae mynd i'r afael â dŵr wyneb yn y man mae'n tarddu yn elfen hanfodol o ddatblygu cynaliadwy a bydd yn mynd yn bell iawn i liniaru yn erbyn carthffosydd sydd wedi gorlwytho a all, yn y pen draw, arwain at lifogydd. Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ategu'r rhwymedigaethau i ddatblygwyr ymgorffori systemau draenio cynaliadwy fel rhan o'u datblygiadau.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
451 845	Bourne Leisure Ltd [2768] Nathaniel Lichfield & Partners (Mr Arwel Evans)	POLISI STRATEGOL PS6	Gwrthwynebu	Dylai'r Cynllun Lleol gydnabod bod defnyddiau penodol, fel twristiaeth, yn defnyddio ac maen nhw'n aml wedi eu lleoli'n barod ar yr arfordir neu mewn parth llifogydd afon a bod defnyddiau o'r math yma angen eu lleoli ger yr afon er mwyn cario'n mlaen i ddenu ymwelwyr.	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Yn unol â TAN15, nod y polisi yw cyfeirio datblygiadau newydd i ffwrdd oddi wrth ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
	[2767]			<p>Fe ddylai Cynllun Lleol felly ganiatáu cynigion am welliannau/ estyniadau i lety ymwelwyr a chyfleusterau i'w hystyried yn fwy hyblyg o'i gymharu â datblygiad newydd mewn lleoliadau o'r math yma.</p>	<p>Cydnabyddir fod llawer o ddatblygiadau wedi bod wrth ochr afonydd ac ar wastadedd arfordirol. Felly mae'n anochel, er gwaethaf y nod cyffredinol o geisio osgoi ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, y bydd rhai datblygiadau presennol mewn perygl o lifogydd.</p> <p>Er y byddai datblygiadau pellach mewn ardaloedd o'r fath o bosibl yn cael rhywfaint mwy o warchodaeth, ni fyddent yn rhydd o'r perygl ac mewn rhai achosion, gallent waethygu canlyniadau llifogydd ar gyfer datblygiadau sydd eisoes yn bodoli, felly mae gofyn dod i farn gytbwys.</p> <p>Bydd tuedd tir i ddiodef llifogydd yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar gais cynllunio. Ar gyfer cynigion mewn ardaloedd parth C, bydd yn rhaid i ddatblygwyr ddangos bod modd cyfiawnhau unrhyw ddatblygiad yn y lleoliad hwnnw, a bod y canlyniadau sy'n gysylltiedig â llifogydd yn dderbyniol, a bodloni'r awdurdod cynllunio o hynny.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					unol â sylw'r gwrthwynebydd. Dim newid
661	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS6	Cefnogi	Cytunwn fod mynd i'r afael â newid hinsawdd a lleihau allyriadau carbon yn amcan allweddol. Cefnogwn y cysyniad o 'hierarchaeth ynni' a gynigir yn PS6 lle rhoddir blaenoriaeth raddol i 1) lleihau'r angen 2) defnydd a chyflenwad effeithlon, cyn 3) defnyddio ynni adnewyddadwy. Cytunwn hefyd y dylid defnyddio ynni adnewyddadwy lle bynnag bo hynny'n 'ymarferol ac yn hyfyw' ac y dylai fod 'yn gyson â'r angen i ymgysylltu ac ymwneud â chymunedau lleol, gwarchod mwynderau gweledol, yr amgylchedd naturiol, adeiledig a hanesyddol a'r dirwedd'.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid
769	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS6	Cefnogi	Cefnogir yr hierarchaeth ynni'n llwyr.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid
846	Nathaniel Lichfield & Partners (Mr Arwel Evans) [2767]	POLISI STRATEGOL PS6	Gwrthwynebu	Mae Bourne Leisure yn cefnogi datblygu cynaliadwy yn ei adeiladau, ei leoliadau cyhoeddus a'i unedau llety. Mae pob adeilad newydd, gwaith ailwampio lleoliadau presennol a fflyd y cwmni o dai gwyliau i'w llogi yn ymgorffori nifer o'r nodweddion a ddyluniwyd i	Dim yn derbyn Mae Paragraffau 4.11.5 a 9.1.2 yn PCC yn hyrwyddo effeithlonrwydd ynni gyda datblygiad newydd.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				gyflawni datblygiad cynaliadwy. Ystyrir y dylid ceisio sicrhau dylunio ac adeiladu cynaliadwy yn y lle cyntaf trwy'r Rheoliadau Adeiladu. Cynigir y dylai'r Cynllun ei gwneud yn glir y bydd angen i ddyluniad cychwynnol adeilad ystyried y gallu i gwrdd â gofynion y Rheoliadau Adeiladu yn y dyfodol. Ar sail y ffaith fod TAN22 wedi cael ei ganslo nid yw'n angenrheidiol i'r Cynllun wneud cyfeiriad at fesurau a nodweddion effeithlonrwydd ynni.	<p>Mae'r geiriad o fewn PS6 yn ddisgwyliad fod datblygwyr wedi 'cymryd i ystyriaeth' y ffactorau sy'n lliniaru ac addasu datblygiad i effeithiau newid hinsawdd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim tystiolaeth gadarn wedi ei dderbyn byddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adneuo a sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
859	Cymdeithas Ddinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988]	POLISI STRATEGOL PS6	Cefnogi	Cefnogir Polisi PS6	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
1057	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI STRATEGOL PS6	Gwrthwynebu	Gellid defnyddio'r asesiad ynni i wella geiriad polisiau PS6 a PCYFF4, gan eu bod fel y maen nhw, yn aneglur. Gallai'r asesiad ynni ei gwneud hi'n glir beth yn union a ddisgwyliir ac ar gyfer pa fath/faint o ddatblygiad y mae'r polisiau yn ymwneud â nhw.	<p>Derbyn yn rhannol</p> <p>Byddai cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r asesiad ynni adnewyddol ym Mholisi PS6 yn ychwanegu manylion dianghenraid i'r Polisi Strategol. Fodd bynnag, cytunir y dylid ychwanegu gwybodaeth ychwanegol ym mholisi PCYFF4. Gweler ymateb i sylw rhif 1058.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					<p>Gwybodaeth ychwanegol i'w gynnwys ym Mholisi PCYFF4.</p> <p>Newid â Ffocws NF32</p>

PCYFF1 – Meini Prawf Datblygu

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
123	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	<p>Ym mhwynt 4, mae angen seilio'r gallu i godi nifer lai o dai nid yn unig ar amgylchiadau lleol ond hefyd mae angen iddo gadw mewn cof gyfyngiadau safle megis lefelau ar safleoedd neu hawddfreintiau gwasanaethau.</p> <p>Ychwanegu mewn cromfachau ym mhwynt 4 ar ôl 'lleol': "neu gyfyngiadau safle".</p>	<p>Derbyn</p> <p>Cydnabyddir y dylid ystyried cyfyngiadau safle wrth benderfynu ar ddwysedd datblygiad.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Cynnwys cyfeiriad at gyfyngiadau safle yn y polisi er mwyn sicrhau eglurder.</p> <p>Newid â Ffocws NF29</p>
1136	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	<p>Mae gan Horizon bryderon yn parhau bod maen prawf 3 yn cyfyngu mwy o ran lleoliad datblygiad nag y mae rhannau eraill o'r Cynllun yn ei wneud. Nodir bod Polisi PS15 yn ymwneud ddim ond efo tai, lle mae geiriad PCYFF1 yn awgrymu ei fod yn ymwneud efo</p>	<p>Derbyn yn Rhannol</p> <p>Cytunir y dylid adlewyrchu rhywfaint o ddisgresiwn yn y polisi. Cydnabyddir y byddai'r newid sy'n cael ei argymhell yn golygu bod y Cynllun yn fwy clir a chywir.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				<p>pob math o ddatblygiad, felly mae perygl o achosi dryswch.</p> <p>Nid yw maen prawf 4 yn gyson efo'r ffordd mae'r meini prawf eraill wedi'u drafftio.</p> <p>Gofynion meini prawf 9 a 10, sy'n cael sylw mewn rhan arall o'r Cynllun ac y gellid eu dileu o'r rhan hon. Nid ydi maen prawf 14 yn ddigon eglur.</p>	<p>Argymhelliad</p> <p>Defnyddio rhywfaint o ddisgresiwn ym mhwyntiau bwled 1 a 2; a diwygio pwynt bwled 14.</p> <p>Newid â Ffocws NF29</p>
774	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	<p>Mae'r polisi yn bolisi ag iddo 14 maen prawf, a'r ddau ofyn cyntaf yw "Rhaid i gynnig gydymffurfio â holl bolisiau perthnasol y Cynllun", a "rhaid cydymffurfio â pholisiau a chanllawiau cynllunio cenedlaethol". Ystyrir hyn yn dasg amhosib, oherwydd nid yw'r Polisi yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> * ystyried y rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy ac nid yw wedi cael ei baratoi'n bositif. * caniatáu ar gyfer defnyddio'r prif ofyn cynllunio, sef y cydbwysedd o amcanion sydd yn aml yn cystadlu â'i gilydd ac yn anghyson, gan felly ystyried: pa bolisiau sydd o berthnasedd allweddol, faint o bwysau ddylid ei roi ar amcanion sy'n cystadlu â'i gilydd a sut mae'r cynnig yn cydymffurfio â "rhagdybiaeth Llywodraeth Cymru o blaid datblygiad cynaliadwy", ac * mae'n ailadrodd polisiau eraill yn y Cynllun e.e. tirwedd, priffyrdd, dylunio ayb. 	<p>Derbyn</p> <p>Cytunir y dylid adlewyrchu rhywfaint o ddisgresiwn yn y polisi.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Gweler yr ymateb i sylw 1136 uchod.</p> <p>Newid â Ffocws NF29</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				Mae angen aillysgrifennu'r Polisi mewn modd sydd wedi'i baratoi'n bositif gyda rhagdybiaeth o blaid datblygu cynaliadwy.	
124	Ffederasiwn Adeiladwyr Tai (Mr Mark Harris) [1470]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	<p>Ni ddylid defnyddio'r gair 'rhaid' gan nad yw hyn yn caniatáu'r hyblygrwydd i ystyriaethau cynllunio eraill o bwys fod yn rhan o'r broses benderfynu. Mae'r gallu hwn i ystyried ystyriaethau cynllunio eraill o bwys yn rhan sylfaenol o ddeddfwriaeth gynllunio genedlaethol.</p> <p>Newid y gair 'rhaid' i 'dylid' yn y pwyntiau lle defnyddir.</p>	<p>Derbyn</p> <p>Cydnabyddir y dylai'r cynllun ddangos rhywfaint o hyblygrwydd a dangos rhywfaint o ddisgresiwn mewn rhai amgylchiadau.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio geiriad y polisi yn unol â'r awgrym er mwyn sicrhau cywirdeb. Gweler yr ymateb i sylw 1136 uchod.</p> <p>Newid â Ffocws NF29</p>
171 172	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	Mae'r polisi cyffredinol yn debygol o fod wedi'i anelu at ddatblygu trefol ond nid yw'n mynd i fanylion. Nid oes cydnabyddiaeth i amgylchiadau penodol cloddio mwynau a'r angen lleoliadol i gloddio am fwynau lle ceir hyd iddynt. Awgrymu hierarchaeth ar gyfer asesu effeithiau amgylcheddol cynigion datblygu gan nad pob un ased amgylcheddol sydd â'r un gwerth. Os caiff ei ddefnyddio'n rhy gaeth yng nghyswllt safleoedd cloddio mwynau	<p>Derbyn yn Rhannol</p> <p>Cytuno gall fod amgylchiadau ble gellid cyfiawnhau angen lleoliad penodol ar gyfer lleoli datblygiad penodol..</p> <p>Er mwyn caniatáu ystyriaeth amgylchiadau o'r fath dylid diwygio maen prawf 3 o fewn polisi PCYFF1 i gynnwys cyfeiriad at angen lleoliad penodol ar</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				<p>yna ceir risg o steryllu diangen.</p> <p>Dylai'r polisi ymdrechu i gyflawni amcanion y polisi. Mewn eithriadau, ni fydd rhai datblygiadau fel mwynau yn gallu cydymffurfio gyda dyheadau'r polisi ond fe ddylai'r cynlluniau hynny dal fod yn ganiataol. Awgrymu dechrau'r polisi gyda: "Ble'n briodol, dylai bob cynnig ymdrechu..."; a dileu pwyntiau 1,2 ac 8 gan eu bod yn drwsogl a dianghenraid.</p>	<p>gyfer cynnig.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio maen prawf 3 ym mholisi PCYFF 1.</p> <p>Newid â Ffocws NF29</p>
307	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	<p>Dylid rhoi mwy o bwyslais ar warchod yr amgylchedd naturiol yn y polisi hwn i adlewyrchu pwysigrwydd y mater hwn trwy'r Cynllun Datblygu Lleol drwyddi draw. Ychwanegu pwynt 15: "amgylchedd naturiol"</p>	<p>Dim yn Derbyn</p> <p>Mae'r eglurhad i'r polisi yn nodi mai pwrpas y polisi yw codi materion nad yw'n cael eu hystyried â hwy mewn mannau eraill o'r Cynllun. Mae'r amgylchedd naturiol (fel yr amgylchedd adeiledig) yn cael sylw mewn rhannau eraill o'r Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
399	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI PCYFF1	Cefnogi	<p>Mae Dŵr Cymru yn cefnogi'r ddarpariaeth yn y polisi hwn y bydd caniatâd cynllunio'n cael ei wrthod pe bai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ac annerbyniol ar iechyd, diogelwch neu fwynder preswylwyr tai lleol, ar</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				ddefnyddiau eiddo a thir eraill neu ar nodweddion yr ardal leol oherwydd llygredd o draeniau.	
437	Rheilffordd Ucheldir Cymru (Mr Graham Farr) [254]	POLISI PCYFF1	Cefnogi	Cefnogi.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid
772	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	Maen prawf 4, Dwysedd Tai. Er ein bod yn cytuno y gall datblygiad dwysedd uchel fod yn effeithlon yn nhermau defnydd ti ac ati, mae'r argraff ar y dirwedd o stadau dwys o dai ar wahân yn rhywbeth estron i dirwedd draddodiadol Gogledd Cymru lle nad yw aneddeleoedd wedi cael eu crynhoi'n sylweddol, heblaw am ardaloedd chwarelyddol yr 19eg ganrif. (Gweler PCYFF2) Os mai'r bwriad yw annog dwysedd, dylid gwneud hynny trwy adeiladu tai teras, yn hytrach na bocsys bach. Mae tai teras neu hyd yn oed unedau pâr yn cynhyrchu blociau adeiladu sy'n llawer mwy cymesur. Ni ddylid anghofio am werth cymdeithasol (ac economaidd) gerddi.	Dim yn derbyn Bydd polisïau eraill yn y Cynllun yn sicrhau y bydd unrhyw gynigion datblygu a allai, o bosibl, gael effaith andwyol ar y dirwedd yn cael eu gwrthod. Argymhelliad Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. Dim newid
881	Mr John Tripp [252]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	Yr ucheldiroedd - llawer yn cael eu pori'n ormodol. Hoffwn weld mwy o lefydd yn cael eu hadfer yn wyrdd er mywn atal dwr yn llifo a llifogydd. Hefyd, mae coed yn cadw Co2	Dim yn derbyn Byddai diwygio yn unol â'r awgrym yn ychwanegu manylion diangen at y polisi.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					<p>Fodd bynnag, cytunir y dylid ystyried yr amgylchedd naturiol. Gweler yr ymateb i sylw 307.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
1015	Gweinyddiaeth Amddiffyn (MOD Safeguarding) [1275]	POLISI PCYFF1	Gwrthwynebu	<p>Prif ystyriaeth y MOD o ran datblygiad yn Ynys Môn a Gwynedd ydi sicrhau nad ydi strwythurau, yn arbennig adeiladau uchel, yn creu rhwystr i symudiadau trafndiaeth awyr ym maes awyr y MOD neu'n cyfaddawdu cyfleusterau/ derbynfeydd llywio hedfan yn yr ardal. Mae parthau gwarchod uchder a thechnegol y MOD ar gyfer RAF Y Fali a Môn yn ymestyn dros Ynys Môn. Mae'r ardal hefyd yn destun y parth gwarchod statudol taro adar sy'n berthnasol i RAF Y Fali a Mona. Felly os yw/ pan fydd datblygiad yn digwydd fe ddylid ymgynghori gyda MOD i sicrhau bod asesiad cywir ac effeithiol yn cael ei wneud. Nid yw Gwynedd o fewn parthau gwarchod ymgynghori statudol.</p>	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Bydd Cyngor Sir Ynys Môn yn ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amddiffyn fel rhan o unrhyw gais cynllunio, yn arbennig pan allai'r cynnig effeithio ar weithgareddau y mae'n gyfrifol amdanynt o bosibl. Byddai cynnwys cyfeiriad at yr angen i ymgynghori â'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn y polisi yn ychwanegu manylion diangen at y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>

PCYFF2 – Dylunio a Siapio Lle

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad									
173	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI PCYFF2	Gwrthwynebu	Mae'n debygol y caiff polisi cyffredinol ei anelu at ddatblygu trefol ond nid yw'n mynd i fanylion e.e. (nid pob tirwedd sydd â'r un gwerth). Os ystyrir ei fod yn berthnasol i safleoedd cloddio mwynau, awgrymu newidiadau a nodir isod.	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Dylid ystyried datblygiadau sy'n gysylltiedig ag echdynnu mwynau o dan bolisiau eraill sydd wedi'u nodi yn y cynllun, sef Polisiau PS19, MWYN1-10. Mae'r polisi yn nodi fod rhaid cydymffurfio â'r holl feini prawf, dim ond pan fo hyn yn berthnasol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>									
174	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]			Dylai bob cynnig gael ei drin ar ei rinweddau ei hun. Fodd bynnag, os yw'r polisi hwn yn cael ei gymhwyso i safleoedd echdynnu mwynau, fe fyddai'n anodd iawn cydymffurfio ag ef. Awgrymu dechrau'r polisi gyda "Ble'n bosib..."; a diwygio pwynt 2 i ddechrau "Ble'n bosib..."		400	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI PCYFF2	Cefnogi	Mae Dŵr Cymru'n cefnogi'r gofyn bod systemau draenio'n cael eu dylunio i gyfyngu ar ddŵr wyneb yn llifo oddi ar y wyneb a pherygl llifogydd ac atal llygredd.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>	436	Rheilffordd Eryri (Mr Graham Farr) [254]	POLISI PCYFF2
400	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI PCYFF2	Cefnogi	Mae Dŵr Cymru'n cefnogi'r gofyn bod systemau draenio'n cael eu dylunio i gyfyngu ar ddŵr wyneb yn llifo oddi ar y wyneb a pherygl llifogydd ac atal llygredd.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>									
436	Rheilffordd Eryri (Mr Graham Farr) [254]	POLISI PCYFF2	Cefnogi	Cefnogi.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p>									

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					Dim newid
775	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI PCYFF2	Gwrthwynebu	Maen prawf 1 - Pa mor ymarferol fydd hi i brofi 'gwella' yn ogystal a gweddu. Pryd fydd hi'n briodol ei fod yn 'berthnasol'.	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Ystyrir y gall cynigion gyfrannu at gymeriad safle yn ogystal â gwella cymeriad safle.</p> <p>Tra bo dyluniad a 'gwneud lle' yn mynd y tu hwnt i ystyriaethau esthetig a dylid ei fod yn brif amcan bob datblygiad, mae'r Polisi'n adnabod na fydd bob maen prawf yn berthnasol ar gyfer pob math o ddatblygiadau e.e. bydd blaenau actif ar lefel llawr daear yn fwy perthnasol i ddatblygiad wedi ei leoli yng nghanol trefi.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
776	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI PCYFF2	Gwrthwynebu	5,9,11,12 Y defnydd o jargon dylunio - 'Diogelu trwy ddylunio.. dylunio cynhwysol.. hawdd i'w ddeall.. wyneb bywiog' - efallai nad yw'r ystyron yn ddealladwy i'r darllenwr llyg; dylech aralleirio, darparu testun eglurhaol neu restr	<p>Derbyn yn rhannol</p> <p>Ail-edrych ar y testun a darparu eglurhad ble'n ofynnol e.e. Dylid diffinio Diogelwyd trwy Ddyluniad a'i gynnwys yn yr eirfa er</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				termau.	<p>mwyn bod yn fwy clir.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio'r Rhestr Termau i gynnwys testun ychwanegol.</p> <p>Newid â Ffocws NF111</p>
778	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI PCYFF2	Gwrthwynebu	Mae'n rhaid bod maen prawf 7ii yn golygu DIM yn gwahardd defnydd rhesymol o dir cyfagos.	<p>Derbyn</p> <p>Cytunir nad yw eithrio datblygiad rhesymol tir cyfagos arall oherwydd gosodiad neu ffurf y datblygiad yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ail-eirio'r pwynt bwled.</p> <p>Newid â Ffocws NF30</p>
943	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090]	POLISI PCYFF2	Gwrthwynebu	Credir y dylai fod cyfeiriad penodol at ddylunio safonol sy'n gweddu i'r cyd-destun yn yr AHNE.	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Mae nodweddion arbennig tirwedd Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn Ardal y Cynllun wedi'u gwarchod o dan Bolisi Strategol PS16 a deddfwriaeth a pholisiau cenedlaethol a amlinellir yn nhabl 23. Fodd bynnag,</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					<p>ystyrir byddai Polisi CYFF3 yn elwa gyda chyfeiriad at “neu asesiadau manwl eraill sydd wedi eu mabwysiadu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol “er mwyn adlewyrchu cyhoeddiad asesiad o nodweddion a all fod yn benodol i’r AHNE, a fyddai’n ystyriaethau cynllunio materol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid i bolisi PCYFF2. Diwygio Polisi PCYFF3 fel y cyfeirir uchod.</p> <p>Newid â Ffocws NF31</p>
1425	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	POLISI PCYFF2	Gwrthwynebu	<p>Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y Polisiâu Rheoli Datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun drafft</p> <p>Cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> * Adeiladau amaethyddol newydd sy'n addas ar gyfer amaethu cyfoes wedi ystyried eu graddfa, lleoliad, dyluniad a'r deunyddiau lleihau'r effaith weledol ar y dirwedd * Lle mae'n bosib dylai adeiladau newydd yn cael eu grwpio gydag unrhyw adeiladau presennol er mwyn lleihau eu heffaith weledol 	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Ystyrir fod y materion y mae'r gwrthwynebydd yn eu codi wedi derbyn sylw mewn polisiâu eraill yn y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				ar y dirwedd. Fodd bynnag, dylai adeiladau ynysig cael eu caniatáu lle mae eu lleoliad yn hanfodol i'r gweithgaredd amaethyddol sy'n cael ei wneud lle nad ydynt yn cael eu lleoli mewn man amlwg	
779	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	7.2.9	Cefnogi	Byddwn yn cytuno na ddylai agosrwydd at ddatblygiad gwael gyfiawnhau datblygiad newydd o safon wael.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid
780	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	7.2.10	Gwrthwynebu	Mae hyn yn awgrymu na fydd angen Datganiad Dylunio a Mynediad ar rai cynigion - eglurwch pa rai a beth sydd ei angen yn ei le.	Dim yn derbyn Byddai cynnwys gwybodaeth ynghylch ym mha amgylchiadau y byddai gofyn cael datganiad Dylunio a Mynediad yn ychwanegu manylion diangen at y Cynllun. Argymhelliad Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. Dim newid

PCYFF3 – Dylunio a Thirweddu

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
175 176	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI PCYFF3	Gwrthwynebu	<p>Mae'n debygol y caiff y polisi cyffredinol ei anelu at ddatblygu trefol ond nid yw'n mynd i fanylion e.e. (nid pob tirwedd sydd â'r un gwerth). Os ystyrir ei fod yn berthnasol i safleoedd cloddio mwynau, awgrymu'r newidiadau a nodir isod.</p> <p>Ni ddylai echdyniad mwynau gael ei gynnwys yn y polisi hwn ac awgrymir diwygio'r geiriad i gychwyn: "Ble'n bosib, ac mewn cytundeb â pholisiau eraill yn y cynllun..."</p>	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Rhoddir ystyriaeth i effeithiau cynlluniau penodol, gyda thirlunio i liniaru unrhyw effeithiau, fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.</p> <p>O ran safleoedd cloddio mwynau, lle na ellir tirlunio, rhoddir ystyriaeth i raglen adfer safle mewn perthynas ag unrhyw effaith gweledol byrdymor o'r datblygiad.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
781	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI PCYFF3	Gwrthwynebu	<p>Rydym yn cytuno gyda'r amcanion, ond mae gennym bryderon am y gallu i fonitro a gorfodi cynlluniau tirweddu ac amcanion mewn gwirionedd.</p>	<p>Nodi'r sylw</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>
773	Ymgyrch Diogelu	POLISI	Gwrthwynebu	Maen Prawf 1 Nid ydym wedi gallu dod o hyd i'r	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
	Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	PCYFF3		Asesiad Cymeriad Morlun manwl.	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Mae gwybodaeth ynghylch Asesiadau Ardal Cymeriad y Forwedd ar gael yn y Cyngor.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd.</p> <p>Dim newid</p>

PCYFF4 – Rheoli Carbon

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
81	Adran Cynllunio a Thai, Cyngor Sir Ddinbych (Angela Loftus) [2719]	POLISI PCYFF4	Cefnogi	Cefnogi'r polisi manwl a phosib hwn.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
385	Cyfeillion y Ddaear Môn a Gwynedd (Mr Richard Mills) [2937]	POLISI PCYFF4	Gwrthwynebu	Mae'n ymddangos bod yna fethiant i adnabod unrhyw safleoedd strategol lle dylai mesurau effeithlonrwydd ynni ragori ar safonau adeiladu safonol. Mae Polisi Cynllunio Cymru, cyfrol 5, para 6.6 a 6.7 yn berthnasol yn hyn o beth, yn ogystal â llythyr gan Carl Sargeant, dyddiedig 5	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Nid oes safle strategol wedi'i ddynodi yn y Cynllun. Felly, nid oes angen rhoi sylw i fesur effeithlonrwydd ynni yn hyn o beth.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				Mehefin 2014, sy'n dweud y dylai ACLI wrth baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol barhau i asesu eu safleoedd strategol i adnabod cyfleoedd i gael safonau uwch na beth sydd eu hangen o dan reoliadau (adeiladu cynaliadwy). Rydym felly yn ystyried nad yw'r CDLI ar y Cyd Adnau yn cyd fynd a phrofion cadernid C2 a CE2 o ran tai/ effeithlonrwydd ynni.	Argymhelliad Nid oes gofyn gwneud unrhyw newid yn unol â sylw'r gwrthwynebydd. Dim newid
438	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	POLISI PCYFF4	Cefnogi	Mae Cyngor Tref Ffestiniog yn cefnogi'r polisi pwysig yma am reoli carbon. Dylid cefnogi cynlluniau cyffrous i greu tai a chyfleusterau sydd yn ateb anghenion y dyfodol.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid
453	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI PCYFF4	Gwrthwynebu	Mae Bourne Leisure yn nodi y dylia cael dyluniad ac adeiladu cynaliadwy yn bennaf trwy Reolaeth Adeiladu. Serch hynny, mae'r cwmni hefyd yn nodi y dylia dyluniad cynnar adeilad yn y cyfnod cynllunio ystyried y gallu i gyrraedd gofynion Rheolaeth Adeiladu yn y dyfodol. Dylia'r pwynt yma gael ei osod yn y CDLI i sicrhau na fydd yna unrhyw gamddealltwriaeth. Felly, nid oes angen i CDLI wneud cyfeiriad i nodweddion a mesurau effeithlonrwydd ynni.	Dim yn Derbyn Tra bo'r Rheoliadau Adeiladu yn chwarae rôl arwyddocaol wrth sicrhau fod dyluniad ac adeiladwaith datblygiadau newydd yn gynladwy, mae gan y system gynllunio rôl wrth wireddu datblygiad cynladwy. Argymhelliad Dim newid
1058	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI PCYFF4	Gwrthwynebu	Gellid defnyddio'r asesiad ynni i wella geiriad polisiau PS6 a PCYFF4, gan eu bod fel y maen nhw, yn aneglur. Gallai'r	Derbyn Cytunwn gyda'r sylw a dylid diwygio'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
				asesiad ynni ei gwneud hi'n glir beth yn union a ddisgwylir ac ar gyfer pa fath/faint o ddatblygiad y mae'r polisiâu yn ymwneud â nhw.	<p>testun yn unol. Mae'r geiriad ychwanegol yn ychwanegu gwerth i'r polisi.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ychwanegu'r frawddeg ganlynol i'r polisi i sicrhau eglurder bellach:</p> <p>"Gall asesiad ynni helpu i adnabod yr opsiynau rheoli carbon mwyaf priodol ar gyfer datblygiad a dylid ymgymryd ag ef cyn penderfynu ar y dull fwyaf addas i'w gymryd. Rhestrir yr opsiynau posib ar gyfer effeithlonrwydd ynni a chynhyrchiad ynni adnewyddadwy isod:"</p> <p>Newid â Ffocws NF32</p>
1137	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI PCYFF4	Gwrthwynebu	Nid ydi'n eglur pa ofyn mae'r polisi yma'n ei osod ar ddatblygwyr o ran y "Dewisiadau Posibl". Er enghraifft, a oes angen ystyried pob dewis a gweithredu o leiaf un, ynte a ydi'n dderbyniol i beidio gweithredu unrhyw un o'r dewisiadau os bydd tystiolaeth i ddangos nad ydi unrhyw un o'r dewisiadau'n ymarferol? Byddai'n fuddiol ail eirio'r polisi hwn er mwyn dangos y rhwymedigaeth(au) penodol yn fwy eglur.	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Dim yn cytuno gyda'r sylw.</p> <p>Mae'r Dewisiadau Posibl yn ddewisiadau posib i ymgeiswyr, nid ymrwymiadau. Mae lefel effeithlonrwydd sydd ei angen mewn datblygiad newydd wedi ei osod gan y Rheoliadau Adeiladu. Pwrpas y polisi yw i osod paramedrau o ran pa fesurau rheoli carbon sydd yn debygol o</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
					fod yn dderbyniol yn nhermau cynllunio. Argymhelliad Dim newid

PCYFF5 – Cadwraeth Dŵr

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau Swyddogion ac Argymhelliad
401	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI PCYFF5	Cefnogi	Mae Dŵr Cymru'n cefnogi'r gofyn y dylai cynigion ymgorffori mesurau cadwraeth dŵr lle bo'n ymarferol, gan gynnwys Systemau Traeniau Trefol Cynaliadwy. Mae mynd i'r afael â dŵr wyneb yn y man mae'n tarddu yn elfen hanfodol o ddatblygu cynaliadwy a bydd yn mynd yn bell iawn i liniaru yn erbyn carthffosydd sydd wedi gorlwytho a all, yn y pen draw, arwain at lifogydd. Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn ategu'r rhwymedigaethau i ddatblygwyr ymgorffori systemau draenio cynaliadwy fel rhan o'u datblygiadau.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid

Technoleg Adnewyddol

PS7 – Technoleg Adnewyddadwy

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
1080	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.2.23	Gwrthwynebu	Mae'n cyfeirio at Ddatganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cymru (2010). Mae bellach wedi'i ddisodli gan Ynni Cymru: Newid Carbon Isel (2012).	<p>Derbyn – cytuno i newid y cyfeiriad tuag at y ddogfen newydd briodol i sicrhau cywirdeb yn y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Newid paragraff 7.2.23 i gyfeirio tuag at ddogfen Ynni Cymru 2012.</p> <p>Newid Bychan NB4</p>
180, 181	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686] Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI PS7	Gwrthwynebu	Ystyrir bod y polisi hwn yn ailadrodd y polisi cenedlaethol (e.e. nid pob tirwedd sydd â'r un gwerth). Mae'r polisi'n rhy gaeth ac nid yw'n gadarnhaol o ran technolegau ynni adnewyddadwy ar safleoedd cloddio mwynau cyfredol neu yng nghyswllt tir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio.	<p>Dim yn derbyn – mae'r ardal efo asedau amgylcheddol hynod o arbennig, sydd wedi'u cydnabod a'u dynodi'n genedlaethol a rhyngwladol. Oherwydd hyn mae'r ardal yn denu nifer fawr o dwristiaid / ymwelwyr sy'n gwneud cyfraniad pwysig i'r economi leol.</p> <p>Tra bod polisiau Ynni Adnewyddol yn hybu mentrau technoleg adnewyddadwy neu garbon isel mae'n bwysig nad yw datblygiadau o'r fath yn cyfaddawdu amcanion dynodiadau tirwedd neu fioamrywiaeth yn yr ardal.</p> <p>Mae polisi ADN1 'Ynni Gwynt ar y Tir' yn cyfeirio tuag at ffermydd / tyrbinau gwynt raddfa ganolig (5MW i 25MW) ar safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol a fuasai yn gallu cynnwys safleoedd cloddio mwynau. Ar gyfer unrhyw fath arall o ynni adnewyddol mae polisi ADN2 yn gallu</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>cefnogi cynigion ar raddfa fawr mewn amgylchiadau eithriadol ble gellid cyfiawnhau angen holl bwysig am y cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
607	Mr Paul Madden [3032]	POLISI PS7	Gwrthwynebu	<p>Nid oes unrhyw sôn am warchod mwynderau i dwristiaid / ymwelwyr. Twristiaeth yw'r diwydiant pwysicaf ar Ynys Môn ac felly dylid ei ddiogelu.</p> <p>Newid meini prawf (i) a (iii) drwy ychwanegu 'twristiaeth' at y cyfeiriad at fwynderau preswyl'.</p> <p>Newid maen prawf (ii) i ddarllen "ii. nad yw cyfarpar mewn ardaloedd sy'n destun dynodiadau cadwraeth natur ryngwladol, genedlaethol a lleol yn unol â PS16 yn cyfaddawdu amcanion y dynodiadau un ai'n unigol neu'n gronnus."</p>	<p>Derbyn yn rhannol - nid oes tystiolaeth gadarn wedi cael ei gyhoeddi sydd yn dangos effaith arwyddocaol ar dwristiaeth mewn ardal oherwydd effaith tyrbinau gwynt. Ceir cyhoeddiad ar safle we Llywodraeth Cymru sydd yn cyfeirio tuag at 'Effaith Economaidd ffermydd gwynt ar dwristiaeth' (Chwefror 2014) oedd yn dod i'r casgliad mae prin iawn yw'r dystiolaeth sy'n profi fod ffermydd gwynt yn cael effaith ar dwristiaeth Cymru.</p> <p>Buasai asesiad o unrhyw gais am dyrbin yn asesu ei effaith ar unrhyw adeilad yn y cyffiniau bod hyn yn un preswyl neu dwristiaeth. Mae'r sail tystiolaeth cyflogaeth y Cynllun yn amlinellu pwysigrwydd y diwydiant twristiaeth o fewn ardal y Cynllun a bod y diwydiant efo nifer o wahanol gyfleusterau ar draws cefn gwlad ardal y Cynllun. Yng ngoleuni hyn ac er mwyn sicrhau cysondeb</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>gyda Pholisi Strategol PS11 (Yr Economi Ymwelwyr) fe argymhellir bod cymal (i) a (iii) yn cael ei newid i ddarllen amwynder preswyl neu dai a ddefnyddir gan ymwelwyr.</p> <p>Credir bod geirfa maen prawf (ii) fel y maent yn bresennol yn addas a ni dderbynnir y cynnig gan y gwrthwynebydd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Bod cymal (i) a (iii) yn cael ei ddiwygio trwy gynnwys cyfeiriad i amwynder tai a ddefnyddir gan ymwelwyr.</p> <p>Newid a Ffocws NF34</p>
662	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI PS7	Cefnogi	Rydym hefyd yn cefnogi'r egwyddorion yn PS7 sy'n disgrifio na ddylai cyfarpar ynni adnewyddadwy yn unigol neu gyda'i gilydd gyfaddawdu amcanion ardaloedd dynodedig lle caiff y dirwedd ei gwarchod, yn cynnwys ardaloedd 'sydd i'w gweld tu draw i'w ffiniau', ac 'yn enwedig o ran cymeriad y dirwedd, bioamrywiaeth neu amwynder preswyl'.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
765	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS7	Gwrthwynebu	Mae PS3 yn datgan yng nghyd-destun isadeiledd technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, 'i leihau effaith weledol gwifrau newydd uwchben sy'n gysylltiedig â datblygiadau, yn enwedig mewn mannau sensitif, fe ddylid eu gosod dan ddaear'. Dylai hyn hefyd fod yn berthnasol i geblau	<p>Derbyn – fel mae'r gwrthwynebydd yn ei nodi mae yna gymal wedi ei gynnwys ym mholisi PS3 i hybu gosod gwifrau newydd tan ddaear i leihau eu heffaith gweledol. Ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad i hyn yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Cynllun Adnau.</p> <p>Tra bod yna achosion pan nad oes angen caniatâd</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				trosglwyddo trydan, yn enwedig mewn perthynas â datblygiadau ynni adnewyddadwy newydd, lle mae'n arbennig o bwysig lleihau'r effaith weledol ar y dirwedd. Yn fwy na hyn, mae angen sefydlu'n glir y goblygiadau llwytho cronnus posib i brosiectau newydd yng nghyd-destun capasiti'r llinellau trosglwyddo sy'n bodoli, er mwyn osgoi unrhyw angen nas ragwelwyd i uwchraddio'r llinellau uwchben yn nes ymlaen gyda'r risg o effaith weledol andwyol o ganlyniad. Nid yw'n ddigon gadael y materion hyn yn nwylo Gweithredwr Rhwydwaith yr Ardal.	<p>cynllunio ar gyfer gosod gwifrau credir bod cyflwyno'r egwyddor yma o fewn polisi PS7 yn rhoi cyfle i'r Cynghorau ofyn am hyn er mwyn lleihau effaith gweledol isadeiledd newydd i wasanaethu datblygiadau ynni adnewyddol, yn ddarostyngedig i ystyriaethau cydnabyddedig eraill a hyfywdra'r cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ychwanegu cymal i bolisi PS7 i gyfeirio tuag at osod gwifrau newydd tan ddaear.</p> <p>Newid a Ffocws NF34</p>
1420	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	POLISI PS7	Gwrthwynebu	<p>Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y Polisiau Rheoli Datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun drafft</p> <p>Cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol:-</p> <p>* Byddai'n gwneud darpariaeth ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy, sy'n briodol o ran graddfa a dyluniad i'w leoliad.</p>	<p>Dim y derbyn – credir bod y polisi presennol y cefnogi datblygiadau ynni adnewyddol sydd briodol o ran maint a dyluniad i'w lleoliad.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

ADN1 – Ynni Gwynt ar Tir

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
71	Cyngor Tref Nefyn (Liz Saville Roberts) [2710]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	Mae Cyngor Tref Nefyn yn gadarn o'r farn bod angen glynu wrth bolisi C26 parthed maint tyrbinau gwynt yn AHNE Llyn, ac ni ddylid caniatáu cynnydd ym maint tyrbinau gwynt yno.	<p>Dim yn derbyn – mae astudiaeth ‘Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau’ (2014) yn asesu addasrwydd gwahanol fathau o deipoleg tyrbinau mewn gwahanol ardaloedd yn ardal y Cynllun. Canfyddiadau'r gwaith yma oedd y gellid cefnogi bwriadau raddfa ddomestig (hyd at 15m i'r llafn) yn yr AHNE cyn belled a bod y meini prawf (i) i (vii) yn cael eu bodloni.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
74	Mr David Coucill [2629]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	<p>Nid oes modd ystyried tyrbinau gwynt sy'n mesur 50m i bigyn y tyrbinau fel tyrbinau bychain. Mae hyn yn arbennig o wir yn nhirwedd gymharol wastad Môn lle mae modd gweld strwythur 50m, uchder adeilad wyth llawr, o filltiroedd i ffwrdd.</p> <p>Ar ôl ymgynghoriad lle cymerodd bron i 10% o boblogaeth Môn ran, mabwysiadodd Cyngor Sir Môn bellter sylfaenol o 20 gwaith uchder y brig rhwng y tyrbinau ac eiddo domestig. Mae hyn wedi'i anwybyddu'n llwyr.</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae'r uchder a ddefnyddir o fewn y polisi yn gyson gyda'r hyn a geir o fewn y Papur Cefndir ‘Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau’. Yn y papur testun yma ceir asesiad am addasrwydd gwahanol uchderau o fewn y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd. Felly mae'r polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth yn y papur cefndir a'r gwahanol deipoleg y gellid ei ystyried o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn ardal y Cynllun. Buasai cyflwyno uchderau gwahanol o fewn y polisi yn golygu na fuasai gan y Cynllun sail tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau cyfyngu maint datblygiadau o fewn gwahanol is ardaloedd o fewn ardal y Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>Caiff effaith sŵn tyrbîn gwynt ar eiddo cyfagos ei anwybyddu yn adroddiad Gillespies er y caiff ei chydabod yn broblem mewn ardaloedd eraill e.e. Dyfnaint. Ni ddylid anwybyddu'r CCA ar drybîn gwynt gafodd ei fabwysiadu gan Gyngor Môn ar ôl ymgynghoriad eang, yn hytrach fe ddylid ei ymgorffori o fewn y Cynllun Adnau.</p>	<p>Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLI ar y cyd. Canllaw i bolisiâu presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLI yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisiâu. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLI ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi.</p> <p>Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisiâu Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion.</p> <p>Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbînau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbînau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael eu penderfynu yn lleol achos wrth achos.</p> <p>Mae'r gwrthwynebydd yn cyfeirio tuag at nifer o esiamplau ble mae effaith sŵn o dyrbinau gwynt ar dai cyfagos fel rheswm ar gyfer cyflwyno pellteroedd gwahanu. Safbwynt Llywodraeth Cymru (LIC) ym mholisi cynllunio Cymru a TAN 8 yw y dylid defnyddio ESTU-R-97 i asesu effaith sŵn unrhyw ddatblygiad (gan gynnwys unrhyw effaith gronnol) ar dai cyfagos. Mae llythyr dyddiedig 25 Tachwedd 2015 gan LIC sydd yn benodol yn cyfeirio tuag at TAN 11 yn sôn am ESTU-R-97 ar chwe nodyn canllaw ategol sydd wedi ei chyhoeddi i gefnogi'r canllaw a bod gwaith pellach ar fodyliad osgled yn cymryd lle ar hyn o bryd.</p> <p>Fel rhan o'r sail tystiolaeth i'r Cynllun cafwyd gwaith ar 'Tyrbinau Gwynt a Pheilonau - Canllaw a'r Gymhwyso Pellteroedd Gwahanu oddi wrth eiddo Preswyl (2014). Canfyddiadau'r gwaith yma oedd nad oes tystiolaeth derfynol i gefnogi cymhwyso'r isafswm pellteroedd gwahanu rhwng eiddo preswyl a thyrbinau gwynt neu beilonau o ran mwynder preswyl gweledol. Am y rheswm hwn, argymhellwyd y dylid ystyried pob datblygiad arfaethedig ar ei rinweddau ei hun ar sail achos wrth achos. Er nad argymhellir pellteroedd gwahanu llym, ystyrir bod y defnydd o bellteroedd dangosol i gychwyn asesiad mwynder gweledol preswyl (o fewn hyn mae</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>posibilrwydd y ceir ardrawiadau gweledol ar raddfa fawr iawn), yn declyn gwerthfawr i adnabod unrhyw leoliadau ble y dylid ymgymryd ag asesiad mwynder gweledol preswyl i nodi'r ardrawiadau annerbyniol posib o ran mwynder gweledol preswyl. Mae hwn wedi ei gynnwys o fewn yr eglurhad i bolisi ADN 1.</p> <p>Nid yw'r gwrthwynebwr wedi cyflwyno rhesymau dilys na thystiolaeth amlwg i gyfiawnhau cynnwys pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau a thai ac felly ni argymhellir newid i'r polisi ar gyfer hyn.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
75	Mrs Carolyn Williams [2721]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	<p>Rwyf yn gwrthwynebu Polisi ADN1. Mae'r rhan fwyaf o Wynedd wedi'i gwarchod rhag datblygiadau trwy fod yn Barc Cenedlaethol (Eryri) neu'n Ardal Tirwedd Arbennig (Penrhyn Llŷn). Dim ond Môn sy'n agored i gael ei cham-drin ar draws ardal helaeth.</p> <p>Fe ddaru 8000 o drigolion yr Ynys arwyddo deiseb yn 2012 yn galw am bellteroedd gwahanu o 1.5km rhwng tyrbeini masnachol a thai a mae hyn</p>	<p>Dim yn derbyn –Bydd rhaid ystyried pob bwriad cais wrth gais er mwyn gallu rhoi sylw i'r ffactorau sy'n berthnasol i'r bwriad. Gall effaith gronol bod yn ffactor bwysig mewn rhai ardaloedd ym Môn ble mae datblygiadau presennol wedi cael eu datblygu neu dderbyn caniatâd.</p> <p>Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLI ar y cyd. Canllaw i bolisiâu presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>ynghyd ar CCA a gafodd ymgynghoriad trwyadl wedi cael ei daflu allan. Rwyf yn gwrthod y polisi ynni gwynt fel mae wedi cael ei gyflwyno yn y cynllun anddemocrataidd ac anghynnaladwy yma.</p> <p>Dylid cadw'r pellter gwahanu o 1.5km ar CCA ar ynni gwynt ar y tir. Dim mwy o dyrbeini 50m (mawr). Dylai Cynghorwyr Môn wrando a chefnogi eu cymunedau lleol, a gwrthod y polisi ynni gwynt drafft yma. Ni yw'r cymunedau wedi cael eu hymgyngori nac wedi cytuno i fod yn ynys ynni.</p>	<p>Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLI yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisiau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLI ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi.</p> <p>Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisiau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion.</p> <p>Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael ei phenderfynu yn lleol achos wrth achos.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim Newid
99	Mr Nigel Ayliffe [2639]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	<p>1. Pellter o Eiddo Preswyl. Bu ymgynghori eang ar y pwynt hwn gyda'r cyhoedd a'r Cynghorwyr hefyd wrth ddrafftio a chytuno ar y Canllaw Cynllunio Atodol. Er gwaethaf y dystiolaeth hon o ewyllys y bobl nid yw wedi'i gynnwys yn y Cynllun uchod. Ni ddylid ei anwybyddu. Dylid rhoi'r lleiafswm pellteroedd a gytunwyd i mewn.</p> <p>2. Ail-bweru tyrbinau/ffermydd gwynt sy'n bodoli. Dylai'r ystyriaethau cynllunio ar gyfer y rhain fod yr un fath ag ydynt i dyrbinau newydd arfaethedig, neu bydd y difrod a wnaed eisoes i gefn gwlad ac atyniadau i dwristiaid yn cael eu gwaethygu gan y tyrbinau newydd llawer mwy.</p>	<p>Dim yn derbyn - Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLI ar y cyd. Canllaw i bolisiau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLI yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisiau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLI ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi.</p> <p>Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisiau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion.</p> <p>Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael ei phenderfynu yn lleol achos wrth achos.</p> <p>Mae'r gefnogaeth i ffermydd / tyrbinau gwynt ar raddfa ganolig o fewn safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol yn adlewyrchu'r cyfarwyddyd o fewn paragraffau 2.11 i 2.14 yn TAN 8.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
100	Mr Christopher Marjot [2624]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	<p>1. Gwrthwynebu categoreiddio tyrbinau gwynt 50m fel rhai 'bach', ymddengys bod hyn yn seiliedig ar yr allbwn pŵer yn hytrach na'r uchder. Mae'r effaith amgylcheddol a'r effaith ar fwynderau yn cyfateb yn uniongyrchol i uchder y tyrbinau gwynt, nid yr allbwn pŵer . Nid yw tyrbinau 50m yn 'fach' mewn perthynas â maint yr aneddiadau a'r amgylchedd lleol. Dylid ailddiffinio'r dosbarthiad i adlewyrchu'n gywir eu graddfa mewn</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae'r uchder a ddefnyddir o fewn y polisi yn gyson gyda'r hyn a geir o fewn y Papur Cefndir 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau'. Yn y papur testun yma ceir asesiad am addasrwydd gwahanol uchderau o fewn y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd. Felly mae'r polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth yn y papur cefndir a'r gwahanol deipoleg y gellid ei ystyried o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn ardal y Cynllun. Buasai cyflwyno uchderau gwahanol o fewn y polisi yn golygu na fuasai gan y Cynllun sail tystiolaeth</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>perthynas ag aneddiadau a'r amgylchedd lleol.</p> <p>2. Roedd CCA Môn ar 'Ynni Gwynt ar y Tir' yn argymhell pellteroedd llawer mwy rhesymol rhwng aneddiadau a thyrbinau gwynt. Dylai'r CDLI ar y Cyd gydymffurfio â phellteroedd gwahanu'r CCA.</p>	<p>gadarn i gyfiawnhau cyfyngu maint datblygiadau o fewn gwahanol is ardaloedd o fewn ardal y Cynllun.</p> <p>Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael ei phenderfynu yn lleol achos wrth achos.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
131	Mr Mark Edwards [2769]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	Profwyd bod tyrbinau gwynt yn cadw twristiaid draw. Mae Gogledd-orllewin Cymru yn hynod ddibynnol ar y busnes a roddir gan ei ymwelwyr. O'r herwydd,	Dim yn derbyn - Nid oes tystiolaeth gadarn wedi cael ei gyhoeddi sydd yn dangos effaith arwyddocaol ar dwristiaeth mewn ardal oherwydd effaith tyrbinau gwynt. Ceir cyhoeddiad ar safle we LIC sydd yn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>dylid diystyru unrhyw beth ac eithrio tyrbinau graddfa ficro.</p> <p>Mae diffinio "tyrbin gwynt bychan" fel un hyd at uchder o oddeutu 50m yn gamgymeriad mawr. Mae hyn oddeutu deg gwaith uchder crib bwthyn traddodiadol.</p> <p>Mae pellteroedd oddi wrth dai yn nhabl 14 oddeutu 50% o'r hyn sy'n rhesymol.</p> <p>Mae'r geiriau "niwed sylfaenol" yng nghymalau iii ac i y meini prawf cydymffurfio'n methu dangos digon o barch ac ystyriaeth at anghenion trigolion lleol ac mae angen eu diwygio.</p> <p>Ar gyfer cyfyngu i dyrbinau micro a domestig angen newid eitemau 1, 2 a 3. Angen newid tabl 13 i roi categorïau uchderau realistig. Angen dyblu'r pellteroedd yn nhabl 14. Geirfa newydd ar gyfer meini prawf iii. a iv. wedi ei gynnig.</p>	<p>cyfeirio tuag at 'Effaith Economaidd ffermydd gwynt ar dwristiaeth' (Chwefror 2014) oedd yn dod i'r casgliad mae prin iawn yw'r dystiolaeth sy'n profi fod ffermydd gwynt yn cael effaith ar dwristiaeth Cymru. Mae'r uchder a ddefnyddir o fewn y polisi yn gyson gyda'r hyn a geir o fewn y Papur Cefndir 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau'. Yn y papur testun yma ceir asesiad am addasrwydd gwahanol uchderau o fewn y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd. Felly mae'r polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth yn y papur cefndir a'r gwahanol deipoleg y gellid ei ystyried o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn ardal y Cynllun. Buasai cyflwyno uchderau gwahanol o fewn y polisi yn golygu na fuasai gan y Cynllun sail tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau cyfyngu maint datblygiadau o fewn gwahanol is-ardaloedd o fewn ardal y Cynllun.</p> <p>Fel rhan o'r sail tystiolaeth i'r Cynllun cafwyd gwaith ar 'Tyrbinau Gwynt a Pheilonau - Canllaw a'r Gymhwyso Pellteroedd Gwahanu oddi wrth eiddo Preswyl (2014). Canfyddiadau'r gwaith yma oedd nad oes tystiolaeth derfynol i gefnogi cymhwyso'r isafswm pellteroedd gwahanu rhwng eiddo preswyl a thyrbinau gwynt neu beilonau o ran mwynder preswyl gweledol. Am y rheswm hwn, argymhellwyd y dylid ystyried pob datblygiad arfaethedig ar ei rinweddau ei hun ar sail achos wrth achos. Er nad argymhellir pellteroedd gwahanu llym, ystyrir bod y defnydd o bellteroedd dangosol i gychwyn asesiad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>mwynder gweledol preswyl (o fewn hyn mae posibilrwydd y ceir ardrawiadau gweledol ar raddfa fawr iawn), yn declyn gwerthfawr i adnabod unrhyw leoliadau ble y dylid ymgymryd ag asesiad mwynder gweledol preswyl i nodi'r ardrawiadau annerbyniol posib o ran mwynder gweledol preswyl. Mae hwn wedi ei gynnwys o fewn yr eglurhad i bolisi ADN 1.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
166	Mr DAVID THOMAS [2775]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	<p>Wedi ymgynghoriad sylweddol ceir Canllawiau Cynllunio Atodol y cytunwyd arnynt a'u derbyn ond nid yw'n ymddangos y gweithredir arnynt yn y Cynllun Adnau. Pam? Dylai pellter sylfaenol oddi wrth adeiladau preswyl fod wedi'i nodi. Beth sydd nawr i rwystro rhagor o dyrbinau rhag cael eu codi ar draws Ynys Môn? Yn fy marn i, mae'r ynys eisoes wedi'i llwytho â thyrbinau gwynt a bydd mwy yn difetha ei chymeriad a'i hatyniad i dwristiaid ddod i ymweld.</p> <p>Mabwysiadu'r ddarpariaeth sydd yn y CCA. Pellter o leiaf 1.5km rhwng tŷ a</p>	<p>Dim yn derbyn - Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLI ar y cyd. Canllaw i bolisiau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLI yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisiau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLI ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi.</p> <p>Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisiau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				thyrbin.	<p>Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael ei phenderfynu yn lleol achos wrth achos.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
177, 194	Rod Dixon [2774] Mrs Irene Stott [2780]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	ADN1 pwynt 2. Dylai hwn gyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol Ynni Gwynt ar y Tir y ddau Gyngor - canllawiau y cytunwyd arnynt - sy'n nodi na fydd uchder y pigyn	Dim yn derbyn - Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLI ar y cyd. Canllaw i bolisiau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>ar gyfer meintiau dynodedig y tyrbinau yn ddim uwch na: micro - 11m; bychan - 20m; canolig - 65m; mawr - 135m.</p> <p>Cafodd y cynghorau sicrwydd y câi'r rhain eu trosglwyddo i'r Cynllun Datblygu Lleol. Nid ydynt wedi'u trosglwyddo ac mae'r categorïau newydd yn llawer uwch na'r rhai gwreiddiol. Defnyddio'r hen feintiau sydd eisoes wedi eu cytuno.</p>	<p>arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLI yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisiau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLI ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi.</p> <p>Mae yna fwiad i baratoi CCA newydd i bolisiau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion.</p> <p>Mae'r uchder a ddefnyddir o fewn y polisi yn gyson gyda'r hyn a geir o fewn y Papur Cefndir 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau'. Yn y papur testun yma ceir asesiad am addasrwydd gwahanol uchderau o fewn y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd. Felly mae'r polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth yn y papur cefndir a'r gwahanol deipoleg y gellid ei ystyried o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn ardal y Cynllun. Buasai cyflwyno uchderau gwahanol o fewn y polisi yn golygu na fuasai gan y Cynllun sail tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau cyfyngu maint datblygiadau o fewn gwahanol is-ardaloedd o fewn ardal y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Dim Newid
201	Kingsbridge Caravan Park (Mr Andrew Bate) [2778]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	<p>Dylai tyrbinau gwynt ar y tir ym Môn gael eu cyfyngu i ddefnydd 'domestig' a'u gosod ger yr annedd gysylltiedig.</p> <p>Byddai toreth o beiriannau mwy o amgylch yr ynys yn cael effaith negyddol ar y dirwedd a gallent beri i ymwelwyr geisio lleoliadau eraill, llai diwydiannol.</p> <p>Ceir effaith weledol sylweddol andwyol gyda chodi llinellau trosglwyddo ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r gallu i greu trydan ychwanegol o Wylfa B.</p> <p>Bydd y gallu i greu trydan o ffermydd gwynt arfaethedig yn y môr a Wylfa B yn troi'r fantol yn gryf yn erbyn yr hyn y gellid ei greu ar y tir felly'n diogelu'r dirwedd o 'gefn gwlad ac arfordir nad ydynt wedi'u difethaf' fel y tynnir sylw ato yn y Cyflwyniad ar yr Economi Ymwelwyr.</p> <p>Cyfyngu maint trybini gwynt ar y tir i'r raddfa "Domestig"</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae'r uchder a ddefnyddir o fewn y polisi yn gyson gyda'r hyn a geir o fewn y Papur Cefndir 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau'. Yn y papur testun yma ceir asesiad am addasrwydd gwahanol uchderau o fewn y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd. Felly mae'r polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth yn y papur cefndir a'r gwahanol deipoleg y gellid ei ystyried o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn ardal y Cynllun. Buasai cyflwyno uchderau gwahanol o fewn y polisi yn golygu na fuasai gan y Cynllun sail tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau cyfyngu maint datblygiadau o fewn gwahanol is-ardaloedd o fewn ardal y Cynllun. Nid oes yna sail tystiolaeth wedi ei gyflwyno gan y gwrthwynebydd i gyfiawnhau cyfyngu datblygiad i raddfa ddomestig yn unig drwy ardal y Cynllun. Nid oes tystiolaeth gadarn wedi cael ei gyhoeddi sydd yn dangos effaith arwyddocaol ar dwristiaeth mewn ardal oherwydd effaith tyrbinau gwynt. Ceir cyhoeddiad ar safle we LIC sydd yn cyfeirio tuag at 'Effaith Economaidd ffermydd gwynt ar dwristiaeth' (Chwefror 2014) oedd yn dod i'r casgliad mae prin iawn yw'r dystiolaeth sy'n profi fod ffermydd gwynt yn cael effaith ar dwristiaeth Cymru.</p> <p>Mae cymal (vi) yn y polisi yn cyfeirio tuag at effeithiau cronus sydd yn cynnwys unrhyw nodweddion amlwg arall yn y dirwedd.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
299	Mr Owain Evans [2837]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	<p>Yn 2012/13 casglodd Cyngor Môn ynghyd Ganllawiau Cynllunio Atodol, ymgynghori yn eu cylch a chytuno arnynt. Roedd y Canllawiau hyn yn nodi'n benodol derfynau penodol ar dwf tyrbinau gwynt. Mae'r Cynllun Adnau hwn yn anwybyddu'r penderfyniadau hynny'n llwyr.</p> <p>'Rwyf eisiau gweld cynnwys y CCA yn nhermau tyrbeini gwynt i oresgyn beth sydd yn y cynllun.</p>	<p>Dim yn derbyn - Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLI ar y cyd. Canllaw i bolisiau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLI yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisiau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLI ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi.</p> <p>Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisiau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
305	Mr Barry Roberts	POLISI	Gwrthwynebu	Rwyf yn gwrthwynebu'r cynllun gan ei	Dim yn derbyn - Mae'r uchder a ddefnyddir o fewn y

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	[2878]	ADN1		fod yn dosbarthu tyrbinau gwynt hyd at 3, 50 metr yn rhai ar raddfa fach. At hyn, mae'r cynllun yn nodi fod y rhan fwyaf o Wynedd wedi'i gwarchod rhag datblygiadau trwy fod yn Barc Cenedlaethol (Eryri) neu'n Ardal Tirwedd Arbennig (Penrhyn Llŷn). Dim ond Môn sy'n agored i gael ei cham-drin ar raddfa eang, a bydd hyn yn digwydd. Bu cytundeb y byddai cynllunwyr a chynghorwyr Môn yn ystyried pellter sylfaenol unwaith y câi Canllawiau Cynllunio Atodol 2013 eu mabwysiadu yn sgil deiseb wedi'i llofnodi gan 8,000 o bobl yn mynnu pellter sylfaenol. Unwaith eto mae pellter sylfaenol wedi'i anwybyddu. Dyna i chi werth ddemocratiaeth!	<p>polisi yn gyson gyda'r hyn a geir o fewn y Papur Cefndir 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau'. Yn y papur testun yma ceir asesiad am addasrwydd gwahanol uchderau o fewn y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd. Felly mae'r polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth yn y papur cefndir a'r gwahanol deipoleg y gellid ei ystyried o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn ardal y Cynllun. Buasai cyflwyno uchderau gwahanol o fewn y polisi yn golygu na fuasai gan y Cynllun sail tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau cyfyngu maint datblygiadau o fewn gwahanol is-ardaloedd o fewn ardal y Cynllun. Bydd rhaid ystyried pob bwriad cais wrth gais er mwyn gallu rhoi sylw i'r ffactorau sy'n berthnasol i'r bwriad. Gall effaith gronol bod yn factor bwysig mewn rhai ardaloedd ym Môn ble mae datblygiadau presennol wedi cael eu datblygu neu dderbyn caniatâd.</p> <p>Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael eu penderfynu yn lleol achos wrth achos.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
312	Cyfeillion Llŷn (Mrs Sian Parri) [2871]	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	<p>Gwahardd tyrbinau yn yr AHNE Dim tyrbinau uwch na 11.1 yn y ATA a Thirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol.</p> <p>Gwrando ar gyngor Cydbwyllgor Ymgynghorol yr AHNE sydd yn ystyried fod yn rhaid cadw at yr uchod er mwyn cyd-fynd ar ddyletswydd statudol sydd ar y Cyngor o dan y ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000</p>	<p>Dim yn derbyn – mae sail tystiolaeth i'r Cynllun Adnau o fewn astudiaeth 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau' (2014) yn asesu addasrwydd gwahanol fathau o deipoleg tyrbinau mewn gwahanol ardaloedd yn ardal y Cynllun.</p> <p>Canfyddiadau'r gwaith yma oedd y gellid cefnogi bwriadau raddfa ddomestig (hyd at 15m i'r llafn) yn yr AHNE ac ATA cyn belled a bod y meini prawf (i) i (vii) yn cael ei bodloni.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
388	Mon a Gwynedd Friends of the Earth (Mr Richard Mills)	POLISI ADN1	Gwrthwynebu	Ymddengys fod ADN1 a'r meini prawf yn nhabl cysylltiedig 13 yn cyfyngu nifer o ddatblygiadau ynni gwynt sy'n llai na	<p>Dim yn derbyn – mae sail tystiolaeth i'r Cynllun Adnau o fewn astudiaeth 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau' (2014) yn asesu addasrwydd</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	[2937]			5MW i Ardaloedd Chwilio Strategol a safleoedd gwledig/diwydiant, tir llwyd. Byddai hyn yn groes i NCT8 sy'n nodi, "...the Assembly Government would support local planning authorities in introducing local policies in their development plans that restrict almost all wind energy developments, larger than 5 MW, to within SSAs and urban/industrial brownfield sites." Rydym hefyd yn ystyried nad yw ADN1 yn gadarn gan iddo fethu rhoi ystyriaeth bwysig i brosiectau cymunedol a phrosiectau ym mherchenogaeth y gymuned a chynlluniau ail-bweru.	<p>gwahanol fathau o deipoleg tyrbinau mewn gwahanol ardaloedd yn ardal y Cynllun.</p> <p>Casgliadau'r gwaith yma oedd y gellid cefnogi bwriadau raddfa ficro a bychan (h.y. hyd at 5MW) y tu allan i'r AHNE, ATA a gosodiad y Parc Cenedlaethol a Safle Treftadaeth y Byd. Er mwyn cysondeb efo'r sail tystiolaeth rydym hefyd yn cynnig newid a ffocws i gyfeirio tuag at osodiad yr AHNE ac ATA.</p> <p>Felly mae'r Cynllun yn cefnogi datblygiadau hyd at 5MW y tu allan i ardaloedd sydd efo dynodiad tirwedd neu ardal sydd yn effeithio ar eu gosodiad, cyn belled bod yr holl feini prawf yn y polisi yn cael eu bodloni.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
573	Angela Williams [3016]	7.2.33	Gwrthwynebu	<p>Yn iawn, dylid disgrifio unrhyw dyrbin gwynt nad yw'n ddomestig fel 'diwydiannol', er mwyn i'w wir bwrpas fod yn amlwg. Gwrthwynebu ailddiffinio unedau maint canolig fel rhai 'bychan' am y rhesymau yr wyf wedi'u hamlinellu, a defnyddio'r gair 'micro' i ddisgrifio strwythur >65 troedfedd.</p> <p>Newidiadau: Ailgynnwys terminoleg gywir a defnyddiol i wahaniaethu rhwng unedau domestig ac unedau masnachol diwydiannol. Addasu tabl 13 i adlewyrchu disgrifiad realistig o'r meintiau.</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae'r uchder a ddefnyddir o fewn y polisi yn gyson gyda'r hyn a geir o fewn y Papur Cefndir 'Asesiad Sensitifrwydd a Chapasiti Tirweddau'. Yn y papur testun yma ceir asesiad am addasrwydd gwahanol uchderau o fewn y gwahanol ardaloedd cymeriad tirwedd. Felly mae'r polisi yn adlewyrchu'r sail tystiolaeth yn y papur cefndir a'r gwahanol deipoleg y gellid ei ystyried o fewn ardaloedd cymeriad tirwedd o fewn ardal y Cynllun. Buasai cyflwyno uchderau gwahanol o fewn y polisi yn golygu na fuasai gan y Cynllun sail tystiolaeth gadarn i gyfiawnhau cyfyngu maint datblygiadau o fewn gwahanol is-ardaloedd o fewn ardal y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
1066	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.2.33	Gwrthwynebu	<p>Tabl 13 - Mae dau o'r meini prawf atodol yn debyg iawn 'mawr/ yn fawr iawn', mae angen egluro'r gwahaniaeth rhwng y ddau.</p>	<p>Derbyn - Cytuno bod y maen prawf deg neu fwy o dyrbinau gwynt yn y teipoleg Mawr ac Mawr iawn yn golygu dryswch. I sicrhau bod yna wahaniaeth clir cynnig bod y cyfeiriad tuag at nifer o dyrbinau yn cael ei dynnu allan o'r deipoleg Mawr iawn.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Bod y cyfeiriad i'r nifer o dyrbinau fel maen prawf yn cael ei dynnu allan o'r deipoleg Mawr lawn.</p> <p>Newid a Ffocws NF36</p>
1069	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.2.34	Gwrthwynebu	<p>Er bod Llywodraeth Cymru'n cefnogi'r egwyddor o sicrhau manteision cymunedol cynaliadwy drwy drefniadau gwirfoddol, rhaid iddynt beidio ag amharu ar y broses benderfynu ac ni ddylid eu trin fel ystyriaeth berthnasol oni bai eu bod yn bodloni'r profion a nodir yng Nghylchlythyr 13/97.</p>	<p>Dim yn derbyn - Pwrpas y paragraff yma yw amlygu'r egwyddor o gael budd cymdeithasol efo datblygiadau am dyrbeini gwynt yn hytrach na'i gyflwyno fel ystyriaeth berthnasol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
92	Mr Jon Cottrell [2734]	7.2.37	Gwrthwynebu	<p>Mae'r pellteroedd gwahanu a gyhoeddwyd yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Môn yn cael eu hanwybyddu'n llwyr ac roeddynt yn fwy priodol i Fôn nag i'r cynigion hyn. Cadw'r CCA sydd wedi ei gytuno a gwrandu ar 8,000 o drigolion yr Ynys ddaru arwyddo deiseb yn 2012.</p>	<p>Dim yn derbyn - Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLI ar y cyd. Canllaw i bolisiau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLI yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisiau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLI ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi.</p> <p>Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisiau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Adnau am fanylion.</p> <p>Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yr arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael eu penderfynu yn lleol achos wrth achos.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
575	Angela Williams [3016]	7.2.37	Gwrthwynebu	Rhaid cofio fod topograffi Ynys Môn a Gwynedd yn wahanol (yn ogystal â'u hardaloedd gwarchodaeth). Newid: Cynnwys lleiafswm pellter rhwng tyrbinau/eiddo preswyl i atal sefyllfa o	Dim y derbyn - Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				anrhefn ar Ynys Môn.	<p>o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael eu penderfynu yn lleol achos wrth achos.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
179	Rod Dixon [2774]	7.2.38	Gwrthwynebu	Mae'r pellter gwahanu'n fypwyl ac yn ddim gwell na'r pellteroedd y cytunwyd arnynt yn y Canllawiau Cynllunio Atodol presennol yr oeddynt i fod i gael eu trosglwyddo i'r Cynllun Datblygu Lleol. Defnyddio'r pellteroedd gwahanu fel y cytunwyd yn CCA Ynys Môn.	<p>Dim yn derbyn - Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLI ar y cyd. Canllaw i bolisiau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLI yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Aseiad Cynaliadwyedd o'i bolisiau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLI ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisiau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion.</p> <p>Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael eu penderfynu yn lleol achos wrth achos.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
196	Mrs Irene Stott [2780]	7.2.38	Gwrthwynebu	Mae'r pellter gwahanu'n fypwyl ac yn ddim gwell na'r pellteroedd y cytunwyd	Dim yn derbyn - Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>arnynt yn y Canllawiau Cynllunio Atodol presennol yr oeddynt i fod i gael eu trosglwyddo i'r Cynllun Datblygu Lleol a dylid eu defnyddio. Y defnydd o bellterau gwahanu fel cytunwyd yn SPG Môn.</p>	<p>fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLI ar y cyd. Canllaw i bolisiau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLI yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisiau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLI ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi.</p> <p>Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisiau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion.</p> <p>Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>cael eu penderfynu yn lleol achos wrth achos.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
571	Angela Williams [3016]	7.2.38	Gwrthwynebu	<p>Mae Adroddiad Gillespie yn wallus gan ei fod yn dibynnu ar fanylder mathemategol yn hytrach nac ystyried bod amwynder yn seiliedig ar bobl. Ni chafodd ymatebion i'r CCA 2012/13 eu hystyried.</p> <p>Newidiadau: i) Cymryd darpariaethau'r CCA i ystyriaeth ii) Rhaid diystyru'r pellteroedd gwahanu yn Adroddiad Gillespie oherwydd cyfyngiadau eu gwaith ymchwil.</p>	<p>Dim yn derbyn - Cyfeirir tuag at y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Ynni Gwynt ar y Tir a gafodd ei fabwysiadu yn 2013 ym Môn ac yn ôl y gwrthwynebydd dylid defnyddio hwn ar gyfer y polisi yma yn y CDLI ar y cyd. Canllaw i bolisiau presennol Ynys Môn oedd CCA 2013 a dim dogfen sydd yn arwain polisi yn y Cynllun newydd. Mae cyfarwyddyd ar gyfer paratoi CDLI yn glir ei fod ar sail tystiolaeth gadarn efo Asesiad Cynaliadwyedd o'i bolisiau. Oherwydd hyn ni ellid defnyddio'r CCA fel polisi yn y CDLI ar y cyd. Yn hytrach rhaid asesu'r sail tystiolaeth ar gyfer materion priodol i'w gynnwys yn y polisi.</p> <p>Mae yna fwriad i baratoi CCA newydd i bolisiau Ynni Adnewyddol y Cynllun, gweler Atodiad 9 o'r Cynllun Adnau am fanylion.</p> <p>Mae tystiolaeth yn cael ei gyflwyno ar gyfer lefel y gwrthwynebiad i'r CCA gan oddeutu 8,000 o wrthwynebwyr oedd eisio gweld pellteroedd gwahanu rhwng tyrbinau masnachol a thai o 1.5km. Cafodd hwn ei gynnwys yn y CCA yn ystod cyfarfod</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>o'r Cyngor Llawn oedd yn ei fabwysiadu. Gan nad oedd hyn yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus ni yw arolygwyr cynllunio wedi rhoi pwysau iddo wrth benderfynu apeliadau am dyrbinau gwynt (gweler ceisiadau 38C267B a 38C185C). Cyfeiria'r gwrthwynebydd tuag at ddyhead i gyflwyno pellteroedd gwahanu gan y 'Petitions Committee' yn 2012, fodd bynnag ymateb Llywodraeth Cymru oedd buasai pellteroedd gwahanu'n anhyblyg ac yn atal prosiectau ynni adnewyddol a bod ceisiadau yn well cael eu penderfynu yn lleol achos wrth achos.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

ADN2 – Technoleg Ynni Adnewyddadwy Arall

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
182, 183	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686], Lafarge Tarmac	POLISI ADN2	Gwrthwynebu	Ystyrir bod y polisi hwn yn ailadrodd y polisi cenedlaethol (e.e. nid pob tirwedd sydd â'r un gwerth). Mae'r polisi'n rhy gaeth ac nid yw'n gadarnhaol o ran technolegau ynni adnewyddadwy ar safleoedd cloddio mwynau	Dim yn derbyn – mae'r ardal efo asedau amgylcheddol hynod o arbennig, sydd wedi'u cydnabod a'u dynodi'n genedlaethol a rhyngwladol. Oherwydd hyn mae'r ardal yn denu nifer fawr o dwristiaid / ymwelwyr sy'n

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Trading Limited [2735]			<p>presennol neu yng nghyswllt tir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio.</p> <p>Cael gwared ar y cyfeiriad i ffiniau datblygu. Cyfeirio at ddefnydd dros dro ar gyfer ffynonellau ynni adnewyddol ar safleoedd echdynnu mwynau presennol gyda phwyslais cadarnhaol ar ffynonellau ynni adnewyddol ar dir sydd eisoes wedi ei ddatblygu.</p>	<p>gwneud cyfraniad pwysig i'r economi leol. Tra bod polisiau Ynni Adnewyddol yn hybu mentrau technoleg adnewyddadwy neu garbon isel mae'n bwysig nad yw datblygiadau o'r fath yn cyfaddawdu amcanion dynodiadau tirwedd neu fioamrywiaeth yn yr ardal.</p> <p>Mae polisi ADN1 'Ynni Gwynt ar y Tir' yn cyfeirio tuag at ffermydd / tyrbinau gwynt raddfa ganolig (5MW i 25MW) ar safleoedd tir llwyd trefol / diwydiannol a fuasai yn gallu cynnwys safleoedd cloddio mwynau. Ar gyfer unrhyw fath arall o ynni adnewyddol mae polisi ADN2 yn gallu cefnogi cynigion ar raddfa fawr mewn amgylchiadau eithriadol ble gellid cyfiawnhau angen holl bwysig am y cynllun.</p> <p>Tra bod y polisi yn fwy cefnogol i ddatblygiadau o fewn ffiniau datblygu nid yw'n ceisio cadw datblygiad o fewn fath ffiniau. Yn hytrach mae'r polisi yn amlinellu fod angen tystiolaeth briodol i gyfiawnhau lleoliadau y tu allan i'r ffin datblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Dim Newid
656	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI ADN2	Gwrthwynebu	Mae angen polisi arbennig ar wahân ar gyfer cynigion ynni solar a ddylai flaenoriaethu'r defnydd o doeau adeiladau masnachol ac adeiladau amaethyddol, rhagdybio o blaid rhesi micro-solar mewn caeau ar safleoedd addas a chaniatáu rhesi ar raddfa fwy mewn ardaloedd gwledig tu allan i'r AHNE a'r ATA yn unig a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol pan fo sgrinio naturiol da yn bodoli ar y safle ac nad oes modd gôr edrych arno o dir uwch cyfagos. Newid: Ychwanegu polisi arbennig sy'n ymdrin â rhesi solar mewn caeau.	Dim yn derbyn - Nid yw'r Uned o'r farn y dylid cael polisi ar wahân ar gyfer ynni solar. Mae'r meini prawf presennol o fewn y polisi ynghyd a pholisiau cenedlaethol am yr AHNE a pholisi'r Cynllun ar gyfer y ATA (AMG1) yn golygu bydd unrhyw effaith arnynt oherwydd bwriad cais solar yn cael ystyriaeth gofalus. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim Newid
878	Mr John Tripp [252]	POLISI ADN2	Gwrthwynebu	Nid yw rheoli carbon yn derbyn digon o sylw. Anelu am ddim allyriadau. Enghraifft - Wiltshire	Dim yn derbyn – Mae polisi PCYFF4 o fewn y Cynllun yn ymwneud a Rheoli Carbon. Mae'r polisi yma yn destun newid er mwyn cyflwyno geirfa ychwanegol am yr angen am asesiad ynni i gefnogi ceisiadau. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim Newid

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
879	Mr John Tripp [252]	POLISI ADN2	Gwrthwynebu	Paneli haul - ar raddfa fawr, gadael digon o le rhyngddynt er mwyn cael gwyrddni oddi tanynt, defaid yn pori.	<p>Dim yn derbyn – Mae polisi PCYFF1 yn cyfeirio tuag at warchod tir amaethyddol gorau a mwyaf amlbwrpas.</p> <p>Bydd ystyriaeth efo unrhyw gais unigol yn ystyried dyluniad a gosodiad y bwriad a'r cyfle i ddefnyddio'r tir o dan y paneli ar gyfer tir pori.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
944	AONB Joint Advisory Committee (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090]	POLISI ADN2	Gwrthwynebu	Technoleg Ynni Adnewyddadwy arall. Credir fod y polisi hwn yn rhy benagored o ran cynigion tu allan i ffiniau datblygu a dylid ei gryfhau.	<p>Dim yn derbyn - credir bod y polisi yn ei ffurf bresennol yn taro cydbwysedd trwy hyrwyddo datblygiadau o fewn ffin datblygu ond yn cefnogi datblygiadau eraill addas pan mae yna gyfiawnhad priodol ar eu cyfer y tu allan i'r ffin datblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
1059	Llywodraeth	POLISI ADN2	Gwrthwynebu	Mae Polisi ADN2 yn ceisio cadw technolegau ynni	Dim yn derbyn - Credir bod y

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Cymru (Mr Mark Newey) [1561]			anadnewyddadwy o fewn ffiniau datblygu. Mae hyn yn cyfyngu gormod ac yn groes i bolisi cynllunio cenedlaethol. Dylai'r asesiad ynni roi'r dystiolaeth sydd ei hangen i allu cynllunio'n bositif ar gyfer pob math o ddatblygiad adnewyddadwy ac ynni isel.	gwrthwynebydd wedi camddehongli'r polisi. Tra bod y polisi yn fwy cefnogol i ddatblygiadau o fewn ffiniau datblygu nid yw'n ceisio cadw datblygiad o fewn fath ffiniau. Yn hytrach mae'r polisi yn amlinellu fod angen tystiolaeth briodol i gyfiawnhau lleoliadau y tu allan i'r ffin datblygu. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim Newid
93	Mr Jon Cottrell [2734]	7.2.45	Cefnogi	Mae Solar Ffotofoltäig yn llawer mwy derbyniol nag ynni gwynt oherwydd y bydd uchder llwyr y tyrbinau'n hawlio'r dirwedd am filltiroedd ac yn cael effaith negyddol ar dwristiaeth.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid

Rheoli Newid Arfordirol

ARNA1 –

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
760	Cymdeithas Ddinesig Bangor 1 (Don	POLISI ARNA1	Cefnogi	Cefnogir Polisi ARNA1 Rheoli Newid Arfordirol.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Mathew) [2988]				Dim newid
762	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	Mae Polisi ARNA1 yn cael ei gefnogi mewn egwyddor. Dylai polisi sy'n ceisio ymdrin â materion ac amcanion rheoli traethlin adlewyrchu'n llawn ganlyniadau ymgysylltu â pherchnogion tir yn gynnar yn y broses, a hefyd sicrhau digon o hyblygrwydd i alluogi perchnogion tir arfordirol a busnesau ar yr arfordir i adleoli adeiladau a chyfleusterau eraill i wagle agored o fewn safleoedd presennol, neu i dir sydd gyfochrog yn uniongyrchol â'u daliadau tir, pan fo angen, oherwydd erydu arfordirol. Dylai gyfeirio'n benodol at ganiatáu i berchnogion tir a busnesau gyfrannu at ariannu a chadw amddiffynfeydd arfordirol yn unol â'r polisi cenedlaethol ar gyfer cyfrannu at ariannu, yn ogystal â darparu a chynnal a chadw amddiffynfeydd.	Dim yn derbyn – mae maen prawf 7 Polisi ARNA1 yn hwyluso cynigion i ail-ddatblygu neu ymestyn eiddo neu ddwyschau defnyddiau ar safleoedd cyfredol sydd du mewn i ardaloedd rheoli newid arfordirol, yn ddarostyngedig i dystiolaeth ynglyn a risgiau i bobl ac eiddo. Mae Polisi TWR3 yn hwyluso cynigion i adleoli safle carafan statig neu siales presennol sydd mewn ardal rheoli newid arfordirol. Mae'r Polisi yn cyfeirio at amddiffynfeydd newydd neu amnewid rhai blaenorol. Yn hyn o beth credir bod y cymal yma yn ddigonol heb orfod ychwanegu cyfeiriad at bwy fydd yn ariannu'r gwaith. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
771	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey)	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	Maen prawf 8 a'i arwyddocâd. (tu allan i'r cyfnod polisi dangosol at 2025)? Mae angen i chi egluro o dan ba amgylchiadau y bydd y datblygiadau dibreswyl hyn (cytiau traeth,	Derbyn yn rhannol - Cytuno nad ydi geiriad maen prawf 8 yn eglur. Mae'n son am ddatblygiadau newydd dibreswyl ar safleoedd sydd o fewn ardal lle mae polisi'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	[1169]			siopau, meysydd gwersylla ac ati) yn cael eu caniatáu. Nid ydym wedi medru dod o hyd i'r mapiau CCMA ar-lein. Mae'r mapiau yn y Cynllun Rheoli Traethlin yn dangos lleoliad rhannau o'r arfordir, ond nid lled yr ardal oedd rheoli yr effeithir arnynt sy'n ymestyn tuag at yn ôl o'r arfordir. Maen prawf 3 - un ai ei glirio neu ei wneud yn ddiogel. (yn hytrach na 'a').	<p>Cynllun Rheoli Traethlin fabwysiedig yn dweud 'dim ymyrraeth weithredol' neu 'ail-lunio dan reolaeth' neu'r ddau hyd at 2025 ac yn ystod 2026 - 2055. Dewiswyd yr ail gyfnod polisi i adlewyrchu'r posibilrwydd y gallai cais am ddatblygiad gael ei gyflwyno cyn diwedd oes y Cynllun a fyddai'n golygu ei ddechrau yn ystod blwyddyn olaf oes y Cynllun.</p> <p>Ar hyn o bryd dim ond mapiau'r Cynllun Rheoli Traethlin sydd ar gael. Bwriedir edrych i mewn i allu darparu haen briodol o wybodaeth ym Map Cyfyngiadau'r Cynllun ar gyfer y cam mabwysiadu.</p> <p>Cytuno bod angen cynnwys 'a' ar ddiwedd maen prawf 3.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio maen prawf 3 trwy ychwanegu 'a' ar ei ddiwedd. Diwygio maen prawf 8 fel ei fod yn fwy eglur. Diwygio paragraff 7.2.49 i egluro bod y polisi yn berthnasol i ddau gyfnod polisi cyntaf y Cynllun Rheoli Traethlin, sef hyd at 2025 ac o 2026 i 2055.</p> <p>Newid â ffocws NF37, NF38</p> <p>Er mwyn gwella eglurder y Cynllun</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
864	Haulfryn Group Ltd [2986]	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	Mae paragraff 8(i) yn cyfeirio at safleoedd gweryslla ond nid yw'n cyfeirio at safleoedd carafanau gwyliau. Pan fo safleoedd carafanau gwyliau wedi eu lleoli mewn Ardal Rheoli Newid Arfordirol, ymddengys nad yw'r geiriad presennol yn caniatáu safleoedd carafanau gwyliau, dim ond safleoedd gweryslla. Dylid diwygio'r geiriad i gynnwys safleoedd carafanau gwyliau.	<p>Derbyn - nid bwriad 8(i) oedd darparu rhestr drwyadl o fathau o ddatblygiadau dibreswyl sydd â chysylltiad uniongyrchol gyda'r arfordir a allai fod yn dderbyniol ar safle sydd du mewn i ardal lle rhagwelir risg iddo yn ystod 2026 - 2055. Er hynny, cytunir byddai ychwanegu cyfeiriad at safleoedd carafanau gwyliau yn gwella dealltwriaeth o'r polisi. Byddai ceisiadau am y math yma o ddatblygiad yn destun nifer o bolisiau eraill yn y Cynllun, e.e. Polisi TWR3 neu Bolisi TWR4.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio geiriad maen prawf 8(i) i gyfeirio at safleoedd carafanau gwyliau.</p> <p>Newid Â Ffocws NF38</p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder y Cynllun.</p>
865	Haulfryn Group Ltd [2986]	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	Pan fo parciau gwyliau wedi eu lleoli oddi mewn i'r ardal rheoli newid arfordirol (o fewn yr AHNE) a bod angen adleoli lleiniau er mwyn symud y safle'n ôl o'r draethlin, dylid caniatáu cynnydd bychan yn nifer y lleiniau er mwyn cynorthwyo ag ariannu'r gwaith o adleoli lleiniau gwyliau.	<p>Derbyn – gweler yr ymateb i wrthwynebiadau am TWR3</p> <p>Argymhelliad - diwygio Polisi TWR3 i gyfeirio at gynnydd bychan yn nifer y lleiniau yn ddarostyngedig i dystiolaeth am hyfywdra'r cynnig.</p> <p>Newid â ffocws NF54</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Er mwyn sicrhau cysondeb mewnol y Cynllun.
872	Ffrindiau Borth-y-Gest (Tom Brooks) [3036]	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	<p>Dymunwn i'r polisi ei gwneud yn glir fod ARNA1 yn dibynnu'n llym ar y diffiniad CYFREDOL o "Gynllun Rheoli Traethlin 2 Gorllewin Cymru".</p> <p>Nodwn yng Nghynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru fod Borth y Gest wedi'i marcio'n glir fel ardal "dal y llinell" a'i bod yn elwa o'r polisi hwn tan 2055 o leiaf. Ystyriwn y dylai'r polisi ei gwneud yn glir ar ôl i'r cynllun lleol gael ei fabwysiadu, na fydd unrhyw newid dilynol i Gynllun Rheoli Traethlin 2 Gorllewin Cymru yn newid yr ardaloedd y mae ARNA1 yn berthnasol iddynt.</p>	<p>Dim yn derbyn - ar ôl i'r Cynllun gael ei fabwysiadu fe gaiff Adroddiad Monitro Blyneddol ei gyhoeddi. Bydd yr AMB yn cofnodi cynnydd yn erbyn cyfres o ddangosyddion yn y fframwaith fonitro. Fe fydd hefyd yn cofnodi newidiadau arwyddocaol mewn amgylchiadau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol sy'n berthnasol i strategaeth a pholisïau'r Cynllun. Byddai angen adolygu Polisi ARNA1 pe fyddai yna newid arwyddocaol i'r Cynllun Rheoli Traethlin. Byddai angen ymgynghori ynglŷn ag unrhyw newidiadau i bolisïau yn sgil y gwaith monitro neu adolygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
940	Cyng./Counc Alwyn Gruffydd [381]	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	Mae angen i'r cynllun fod yn fwy cydlynol. Nid yw'n synhwyrol nodi ardal fel un sydd o risg llifogydd ar y naill law wrth nodi niferoedd o dai sydd ei angen ynddo ar y llall. Dylid cysidro Cynllun Rheoli Arfordir	Dim yn derbyn - Nid oes gan y Cynllun ddynodiadau tai du mewn i'r Ardal Rheoli Newid Arfordirol. Nid yw Polisi ARNA1 yn cefnogi tai newydd du mewn i ffiniau aneddeleoedd sydd du mewn i Ardal Rheoli

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Gorllewin Cymru (SMP) 2 a'i alinio hefo'r cynllun.	<p>Newid Arfordirol, e.e. Fairbourne. Byddai gofynion Polisi PS5, Polisi PS6 a Pholisi PCYFF1, yn ogystal â Pholisi Cynllunio Cymru a NCT15 yn berthnasol i gynigion am dai newydd mewn ardaloedd o risg llifogydd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
1070	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	Cefnogir y Polisi mewn egwyddor ond byddai'n fuddiol ei fân olygu i sicrhau eglurder. Cymal 1 - awgrymir cynnwys "y rhagwelir y bydd dan fygythiad" yn lle "sydd dan fygythiad", er mwyn sicrhau cysylltiad â'r SMP. Cymal 2 - egluro a oes rhaid i'r cynigion fodloni'r ddau is-gymal, (i) a (ii), neu ddim ond un neu'r llall. Cymal 6 - nid yw'n glir pam fod y gofyniad am ganiatâd Cyfoeth Naturiol Cymru yn benodol ac yn unigryw i'r cymal hwn. Cymal 8 - Mae'r testun o fewn y cromfachau'n aneglur, ymddengys fel petai'n awgrymu y byddai rhai datblygiadau penodol yn dderbyniol ar ôl y cyfnod polisi cychwynnol (2025). Nid yw'n glir sut mae hynny'n cyfateb i bolisi sy'n dod i ben yn 2026.	<p>Derbyn – Cytuno y byddai'r Polisi yn fwy eglur trwy wneud newidiadau bychan. Cytunir bod angen cysoni'r Polisi gyda'r Cynllun Rheolaeth Traethlin trwy gyfeirio at y posibilrwydd o fod dan fygythiad. Cytunir y dylid gwneud yn fwy eglur os ydi'r meini prawf i gyd yn berthnasol ac nad oes y cyfeiriad manwl at ofynion CNC. Byddai golygu'r polisi trwy gyfeirio at ddatblygiadau dibreswyl gyda'i gilydd yn golygu byddai'r polisi fwy darllenadwy. Credir bod angen gwahaniaethu rhwng ardaloedd lle rhagwelir risg tymor byr a'r llefydd a ragwelir risg tymor canolig.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Diwygio'r Polisi trwy fan olygu yn unol ar sylwadau uchod.</p> <p>Newid â Ffocws NF38, NF39</p>
1138	Pŵer Niwclear Horizon (Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI ARNA1	Gwrthwynebu	<p>Yn hytrach na chwilio am newidiadau penodol i bolisi ARNA1 sy'n ceisio atal defnyddio'r polisi hwn ar gyfer y datblygiad cysylltiedig yn y môr, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar bolisiau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig isod. Rheiny fyddai'r polisiau perthnasol ar gyfer penderfynu ar geisiadau cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig bod ei ddatblygiad cysylltiedig yn cael ei gau allan yn benodol oddi wrth y polisiau hyn.</p>	<p>Dim yn derbyn - gweler yr ymateb i wrthwynebiadau eraill o ran addasrwydd cynnwys y polisiau newydd awgrymwyd gan y gwrthwynebydd. Pe fyddai safle ar gyfer datblygiad arfaethedig gan y gwrthwynebydd du mewn i ardal sy'n cael ei adnabod yn y Cynllun Rheoli Traethlin fel un dan fygythiad yn ystod oes y Cynllun, byddai'r cynnig yn cael ei asesu yn erbyn gofynion Polisi ARNA1.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

PENNOD 7.3 ECONOMI AC ADFYWIO

Cynigion am Brosiectau Isadeiledd Mawr

Cefndir a Cyflwyniad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
866	Grid Cenedlaethol (Mrs Rebecca Evans) [2961]	7.3.1	Gwrthwynebu	Byddai National Grid yn disgwyl gweld cyfeiriad at Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol (NPSs) o fewn cefndir polisi'r CDLI ar y Cyd ar brosiectau isadeiledd mawr, er enghraifft, gallai paragraffau 7.3.1 i 7.3.17 gynnwys gwybodaeth bellach ar rôl y Datganiadau Polisi Cenedlaethol, sy'n cael ei grybwyll yn fras ar ddechrau Polisi Strategol PS8.	<p>Derbyn - Fe fydd yna wybodaeth ychwanegol yn cael ei gynnwys yn y testun cefndirol er mwyn amlygu rôl y Datganiad Polisi Cenedlaethol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>I ddangos bod ystyriaeth briodol wedi ei roi i Bolisiau a Chanllawiau Cenedlaethol cynigir cynnwys gwybodaeth bellach yn ymwneud a rôl y Datganiadau Polisi Cenedlaethol.</p> <p>Newid â Ffocws: NF40, NF41, NF42, NF45</p>
1139 1156 1140 1141 1142 1143 1144	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	7.3.1 7.3.2 7.3.3 7.3.4 7.3.5 7.3.6 7.3.7	Gwrthwynebu	Credir y gellid gwella eglurder y paragraffau yma, yn enwedig beth sy'n cael ei olygu gan y gwahaniaeth rhwng "prosiectau isadeiledd mawr" a phrosiectau isadeiledd o bwysigrwydd cenedlaethol fel sydd wedi'u diffinio gan Ddeddf Cynllunio 2008. Mae'r bennod hon yn amrywio rhwng bod wedi'i hysgrifennu i'w defnyddio'n gyffredinol efo "prosiectau isadeiledd mawr" a bod wedi'i hysgrifennu'n benodol am Brosiect Wylfa Newydd. Mae rywfaint o'r testun sy'n egluro a pholisi yn cynnwys cymalau wedi'u drafftio ddim ond ar gyfer fersiynau cyn mabwysiadu (h.y. adnau) y Cynllun (a fydd felly'n dod i ben ar adeg mabwysiadu) ac eraill yn cynnwys cymalau ar gyfer y cyfnod cyn mabwysiadu, cyfnod y cais a'r cyfnod ôl adeiladu. Mae angen adolygu a safoni hyn er mwyn osgoi dryswch wrth	<p>Derbyn yn rhannol - Ystyrir fod yna bwyslais digonol o fewn y Cynllun yn cael ei roi i gynlluniau Wylfa Newydd a'r manteision economaidd a fyddai'n deillio ohono yn y Cynllun.</p> <p>Ystyrir fodd bynnag fod y rhan yma o'r Cynllun angen ei ail-strwythuro er mwyn gwahaniaethu rhwng Wylfa Newydd a datblygiadau eraill o Brosiectau Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol yn ogystal cytunir fod angen cysoni'r derminoleg a ddefnyddir o fewn y Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1145		7.3.9		ddehongli. Yn ogystal â hynny, ceir man wallau yn y disgrifiad o'r drefn PSCA a'r disgrifiad o "ddatblygiad cysylltiol".	Argymhellion I sicrhau cysondeb o fewn y Cynllun ac eglurder cynigir ail-eirio ac ailstrwythuro geiriad y Polisi (PS8 a PS9). Fe fydd y derminoleg a ddefnyddir hefyd yn cael ei ddiwygio yn unol. Newid â Ffocws: NF40, NF41, NF42, NF45
1146		7.3.10			
1147		7.3.11			
1148		7.3.12			
1149		7.3.13			
1150		7.3.14			
1151		7.3.15			
1152		7.3.16			
1153		7.3.17			
867	Grid Cenedlaethol (Mrs Rebecca Evans) [2961]	7.3.13	Gwrthwynebu	Mae gan Y Grid Cenedlaethol rai pryderon ynghylch y disgrifiad o gyfraniadau cynllunio, yn enwedig buddiannau cymunedol, ym mharagraffau 7.3.13 i 7.3.17. Bydd National Grid bob tro yn ceisio lleihau effeithiau negyddol ei ddatblygiadau arfaethedig trwy iteriadau dylunio sy'n cael eu hystyried yn ofalus ac sy'n seiliedig ar asesiadau ac ymgynghoriad; a thrwy adnabod mesurau lliniaru cynhwysfawr. Cydnabyddir mewn rhai achosion na fydd amodau cynllunio o bosib yn ddigon i sicrhau'r dyluniad cynhenid a mesurau lliniaru pellach ac felly efallai y byddai angen eu sicrhau yn nhermau cynllunio trwy gytundeb Adran 106. Yn achos Prosiectau Isadeiledd sydd o Bwysigrwydd Cenedlaethol, mae EN-1 yn gosod yr amgylchiadau pan ellir defnyddio rhwymedigaethau cynllunio ar gyfer isadeiledd ynni, ac mae'n pwysleisio na ellir ond rhoi pwysau i rwymedigaethau sy'n bodloni'r holl brofion ar gyfer eu	Ddim yn derbyn - Er nad yw Buddiannau cymunedol gwirfoddol yn orfodol i'r Grid Cenedlaethol mae'n berthnasol i gynlluniau Prosiectau Cenedlaethol Isadeiledd Mawr eraill a chan hynny ni ddylid dileu'r meini prawf. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				defnyddio. Diwygiwch faen prawf 4 yn PS8 a dilêwch faen prawf 5.	

PS8 – Cynigion am Brosiectau Isadeiledd Mawr

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
466	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI STRATEGOL PS8	Cefnogi	Mae Bourne Leisure yn credu y gallai'r stoc bresennol o lety gwyliau, gan gynnwys yr hyn a ddarperir yn Greenacres a Hafan-y-Môr fod o gymorth i gwrdd â'r gofyn am dai ar gyfer y 8,500 o weithwyr adeiladu a fydd ar y safle yn ystod y cyfnodau adeiladu brig. Mae'r Cynllun Adnau yn datgan y bydd llety ar gyfer y gweithlu trwy amryfal ffyrdd gan gynnwys llety gwyliau presennol a llety gwyliau pwrpasol a adeiladir gan Horizon	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim Newid
843	Nathaniel Lichfield & Partners (Mr Arwel Evans) [2767]	POLISI STRATEGOL PS8	Cefnogi	Mae Bourne Leisure yn ystyried y byddai modd i'r stoc llety gwyliau presennol, yn cynnwys yr un a ddarperir yn Greenacres a Hafan-y-Môr, gynorthwyo i gwrdd â'r gofyn am dai i 8,500 o weithwyr adeiladu fydd yn gweithio ar y safle yn ystod y cyfnodau adeiladu prysuraf. Mae'r Cynllun Adnau yn nodi y byddai'r gweithlu yn cael lle i fyw trwy amryw o ffyrdd gan gynnwys llety gwyliau presennol a llety gwyliau pwrpasol fydd yn cael ei adeiladu gan Horizon.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim Newid
1154	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI STRATEGOL PS8	Gwrthwynebu	Mae sylwadau Horizon yn dymuno cael eglurhad mai PS9 sy'n gymwys ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd yn hytrach na chymysgedd o PS8 a PS9. Wedi cau PS8 allan o'r fframwaith polisi ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd, nid oes angen felly i Horizon wneud sylwadau penodol ar PS8 heblaw am nodi y gallai fod yn fuddiol i unrhyw newidiadau i PS9 (yn unol efo'i sylwadau isod) barhau trwodd i PS8 er mwyn cysondeb.	Derbyn yn rhannol - Ystyrir yn briodol i ailstrwythuro y rhan yma o'r Cynllun er mwyn sicrhau fod yna ddiffiniad mwy clir rhwng yr adrannau sydd yn ymwneud a Wylfa Newydd a'r rhai sydd yn ymwneud a phrosiectau sydd yn cyfeirio at Brosiectau Isadeiledd Cenedlaethol Mawr.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					<p>Argymhelliad</p> <p>I sicrhau cysondeb o fewn y Cynllun fe fydd y polisiau yn cael ei ail-eirio a'i ail-strwythuro (PS8 and PS9).</p> <p>Newid â Ffocws: NF41</p>

PS9 – Datblygiad yn Ymwneud â Wylfa Newydd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
464	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI STRATEGOL PS9	Cefnogi	Mae Bourne Leisure yn credu y gallai'r stoc bresennol o lety gwyliau, gan gynnwys yr hyn a ddarperir yn Greenacres a Hafan-y-Môr fod o gymorth i gwrdd â'r gofyn am dai ar gyfer y 8,500 o weithwyr adeiladu a fydd ar y safle yn ystod y cyfnodau adeiladu brig. Mae'r Cynllun Adnau yn datgan y bydd llety ar gyfer y gweithlu trwy amryfal ffyrdd gan gynnwys llety gwyliau presennol a llety gwyliau pwrpasol a adeiladir gan Horizon.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim Newid</p>
844	Nathaniel Lichfield & Partners (Mr Arwel Evans) [2767]	POLISI STRATEGOL PS9	Cefnogi	Mae Bourne Leisure yn ystyried y byddai modd i'r stoc llety gwyliau presennol, yn cynnwys yr un a ddarperir yn Greenacres a Hafan-y-Môr, gynorthwyo i gwrdd â'r gofyn am dai i 8,500 o weithwyr adeiladu fydd yn gweithio ar y safle yn ystod y cyfnodau adeiladu prysuraf. Mae'r Cynllun Adnau yn nodi y byddai'r gweithlu yn cael lle i fyw trwy amryw o ffyrdd gan gynnwys llety gwyliau presennol a llety gwyliau pwrpasol fydd yn cael ei adeiladu gan Horizon.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim Newid</p>
862	Cymdeithas Ddinesig Bangor 1 (Don Mathew)	POLISI STRATEGOL PS9	Gwrthwynebu	Mae angen 'cynllun amgen' rhag ofn na wnaiff y prosiect yma, sydd flynyddoedd i ffwrdd oddi ar gael penderfyniad terfynol, gael ei weithredu.	Dim yn derbyn – Mae'r polisi yma'n benodol berthnasol i ddatblygiad Wylfa Newydd. Os ydi Wylfa Newydd ddim yn mynd yn ei flaen yna ni

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	[2988]				fydd angen defnyddio'r polisi yma. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
882	Mr John Tripp [252]	POLISI STRATEGOL PS9	Gwrthwynebu	Angen i gontractwyr Wylfa B gyflogi 85%+ o bobl leol. Mae angen ysgol hyfforddiant mawr.	Dim yn derbyn - Mae yna fuddsoddiad presennol yn mynd yn ei flaen i ddarparu cyfleusterau hyfforddi ar gyfer gweithwyr adeiladu ynghyd a gweithwyr gweithredol. Mae yna bolisiau o fewn y Cynllun a fydd angen cyfeirio atynt wrth ystyried ceisiadau ar gyfer cyfleusterau hyfforddi. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
930	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI STRATEGOL PS9	Cefnogi	Efallai bydd angen buddsoddi yn rhai o'n hasedau ni er mwyn hwyluso twf yn ymwneud efo Wylfa Newydd. Mae ein buddsoddi Cynllunio Rheoli Asedau (AMP) yn cael ei reoleiddio, o ran faint o arian a hefyd amseriad y gwaith sydd wedi'i gynllunio. Felly gallai fod enghreifftiau'n digwydd lle na fydd anghenion datblygwyr yn cyd-fynd efo amseriad ein buddsoddiad ni. Pe byddai angen gwella'r seilwaith cyn gallu mynd ymlaen efo buddsoddiad sydd wedi'i gynllunio, fe fyddem ni'n edrych ar ffyrdd eraill o lenwi'r bwlch ariannu hwnnw, fel trwy gael cyfraniadau oddi wrth ddatblygwyr	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim Newid

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				trwy rwymedigaethau cynllunio. Unwaith y bydd lleoliad y datblygiad cysylltiedig wedi cael ei gadarnhau, byddwn yn asesu'r effaith ar ein hasedau ni ac yn cynghori yn unol efo hynny.	
1155	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI STRATEGOL PS9	Gwrthwynebu	Er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cydnabod y cyfle unigryw i drawsnewid economi a chymunedau Môn dylid datblygu polisiau penodol i Horizon ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd a ddylent ynghyd â PS9 siapia'r ffordd o weithredu tuag at Brosiect Wylfa Newydd ac yn arbennig y cynigion ar gyfer datblygiad cysylltiedig. Gan gydnabod statws unigryw'r datblygiad, tra dylai polisiau eraill y Cynllun gael eu hystyried yn iawn, dylai PS9 a pholisiau arfaethedig penodol ar gyfer Wylfa Newydd gael blaenoriaeth lle mae anghysondeb neu wrthdaro rhwng y rhain a pholisiau eraill. Awgrymir newidiadau penodol i feini prawf 3, 7, 9, 11 & 12.	<p>Dim yn derbyn- Ystyrir fod yna ystyriaeth briodol yn cael ei roi i gynlluniau Wylfa Newydd a'r manteision economaidd a fyddai'n deillio o'r Cynlluniau. Mae yna bolisiau eraill o fewn y Cynllun sydd yn cynnwys yr egwyddorion polisi cynllunio a fyddai angen derbyn ystyriaeth wrth ymdrin â cheisiadau cysylltiedig â Wylfa Newydd.</p> <p>Fe fydd yna waith pellach yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y Cynllun a'r Canllaw Cynllunio Atodol sydd yn ymwneud a Wylfa Newydd, sydd yn debygol o arwain at adolygu'r Canllaw.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Darparu Cyfleoedd ar Gyfer Economi Ffyniannus

PS10 – Darparu Cyfle ar Gyfer Economi Ffyniannus

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
-----------	-----	------	------	--	--------------------------

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
455	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI STRATEGAE TH PS10	Gwrthwynebu	Dylid ychwanegu cyfeiriad penodol i PS10 i adlewyrchu pwysigrwydd rôl twristiaeth i sicrhau economi sy'n ffynnu. Dylid ychwanegu 4ydd pwynt bwled i ddarllen: "4 Cefnogi datblygiad twristiaeth newydd neu ailddatblygiad rhai presennol lle'n briodol, er mwyn cymryd mantais lawn y budd economaidd mai datblygiad twristiaeth yn dod i ardal y Cynllun Lleol."	<p>Dim yn derbyn - Ystyrir fod rhannau eraill o'r Cynllun yn ymdrin yn ddigonol a buddiannau economaidd sydd yn deillio o fentrau twristiaeth.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
803	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI STRATEGOL PS10	Gwrthwynebu	<p>Yn seiliedig ar yr 807 ha o dir cyflogaeth ac eiddo cyflogaeth a neilltuwyd yn y CDLI Adnau, mae dros 66 mlynedd o gyflenwad tir ac eiddo cyflogaeth o fewn ardal y Cynllun. Er y cydnabyddir y gallai Wylfa Newydd gael effaith economaidd sylweddol ar yr angen a'r gofyn am dir ac eiddo cyflogaeth, ni fydd angen y lefel hon o dir nac eiddo cyflogaeth.</p> <p>Felly, mae'r Cynllun yn gôr ddynodi a gôr ddiogelu tir ac eiddo cyflogaeth yn sylweddol ac yn enwedig safleoedd sy'n annhebygol o ddarparu cyflogaeth oherwydd nad yw'r safleoedd yn diwallu anghenion diwydiant, neu eu bod yn destun cyfyngiadau safle sylweddol.</p> <p>Felly, nid yw'r Polisi yn cydymffurfio â Phrawf Cadernid 2 gan nad yw'n cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru a CE2 gan nad yw'n realistig wrth ystyried dewisiadau eraill neu'n seiliedig ar dystiolaeth gredadwy.</p> <p>Dylid diwygio'r polisi fel nad yw ond yn cynnwys tir cyflogaeth ddigonol fydd ei angen ac sydd ar gael, ac sy'n addas ac y gellir ei ddarparu yn ystod Cyfnod y Cynllun.</p>	<p>Derbyn - Derbynnir fod angen eglurhad pellach o'r angen i warchod/dynodi 807ha o dir cyflogaeth. Credir fod y ffaith fod y polisi yn gwarchod ynghyd a dynodi safleoedd cyflogaeth yn creu dryswch.</p> <p>Roedd y fersiwn adnau o'r Cynllun hefyd yn dynodi tir cyflogaeth newydd, h.y. Safleoedd tir gwyrdd lle nad oes isadeiledd yn bodoli. Mae'r rheini hefyd wedi cael eu cynnwys yn y rhestr ym Mholisi CYF1. Mae PS10 gan hynny yn adnabod safleoedd er mwyn diwallu anghenion cyflogaeth bresennol ac i'r dyfodol. Mae'r ddarpariaeth wedi gwasgaru ar draws ardal y Cynllun ac yn cynnig dewis o ran lleoliad a maint. Mae'r ddarpariaeth o dir cyflogaeth yn rhoi elfen o hyblygrwydd o ran y dewis sydd ar gael.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Er mwyn gwella eglurder cynigir fod y Polisi Strategol yn cael ei ddiwygio i gynnwys eglurhad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					<p>pellach ynglŷn â sut mae'r ffigwr o dir cyflogaeth wedi ei bennu. Cynigir fod y polisi yn cael ei ddiwygio er mwyn gwahaniaethu rhwng tir a ddynodir a beth sydd yn cael ei warchod.</p> <p>Newid â Ffocws: NF46</p>
825	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS10	Gwrthwynebu	PS10 Sylw ar gasgliad yr anghenion am dir cyflogaeth o astudiaethau amgen.	<p>Derbyn yn rhannol - Mewn ymateb i sylwadau gan wrthwynebwyr arall fe fwriedir diwygio'r polisi er mwyn cynnwys mwy o wybodaeth ynglŷn â chasgliadau Arolwg Tir Cyflogaeth.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>I sicrhau eglurder cynigir diwygio'r Cynllun er mwyn cynnwys eglurhad pellach o ran y tir cyflogaeth a warchodir.</p> <p>Newid â Ffocws: NF46</p>
828	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	POLISI STRATEGOL PS10	Gwrthwynebu	<p>Rydym yn falch fod Parc Amaeth Llanystumdwy wedi'i gynnwys o dan Safleoedd Eilaidd ond teimlwn fod safleoedd eraill y gellid eu hystyried e.e. hen Olchdy Afonwen.</p> <p>Credwn y dylid gwneud mwy i gadw safleoedd diwydiannol pan maent yn newid dwylo ac nad oes digon yn y Cynllun i gefnogi busnesau bychain, y enwedig busnesau teuluol cefn gwlad.</p>	<p>Dim yn derbyn - Cydnabyddir fod gan fusnesau bychain gwledig rôl bwysig i chwarae o fewn yr economi leol a chredir fod Polisi CYF5 i o'r Cynllun yn ymdrin â'r mater yma'n ddigonol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
902	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI STRATEGOL PS10	Gwrthwynebu	Nid yw PS10 yn gyson gyda gweddill y CDLI gan nad yw'n cydnabod budd economaidd sylweddol yr ardal leol o ganlyniad i dwristiaeth. Mae paragraff 4.3 yn datgan bod	Dim yn derbyn - Ystyrir fod rhannau eraill o'r Cynllun yn ymdrin yn ddigonol a buddiannau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				<p>twristiaid/ymwelwyr yn gwneud cyfraniad pwysig i'r economi leol. Felly, mae Bourne Leisure yn datgan y dylai PS10 adlewyrchu'r cyfraniad sylweddol i'r economi leol a ddaw yn sgil twristiaeth.</p> <p>Yn ogystal, mae cydnabyddiaeth o rôl bwysig twristiaeth o fewn Polisi Strategol PS10 yn angenrheidiol i sicrhau cysondeb â PCC (para 11.1.1). Byddai hyn hefyd yn unol â Chynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd (2013 - 2020).</p> <p>Felly, mae Bourne Leisure yn datgan y dylid ychwanegu cyfeiriad penodol i PS10 er mwyn adlewyrchu rôl bwysig twristiaeth wrth sicrhau economi sy'n ffynnu.</p>	<p>economaidd sydd yn deillio o fentrau twristiaeth.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
1046	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI STRATEGOL PS10	Gwrthwynebu	<p>Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf economaidd, ond mae'n hanfodol bod y twf economaidd hwn yn gwireddu amcanion yr awdurdodau. Dylai'r awdurdodau esbonio sut na fydd gorgyflenwi'r farchnad fel hyn (tua 300ha) yn cael effaith negyddol ar werthoedd tir; na rhwystro datblygiad rhag dod i fod yna pheryglu dyheadau am dwf.</p>	<p>Derbyn - Derbynnir fod angen eglurhad pellach o'r angen i warchod/dynodi 807ha o dir cyflogaeth. Credir fod y ffaith fod y polisi yn gwarchod ynghyd a dynodi safleoedd cyflogaeth yn creu dryswch.</p> <p>Roedd y fersiwn adnau o'r Cynllun hefyd yn dynodi tir cyflogaeth newydd, h.y. safleoedd tir gwyrdd lle nad oes isadeiledd yn bodoli. Mae'r rheini hefyd wedi cael eu cynnwys yn y rhestr ym Mholisi CYF1. Mae PS10 gan hynny yn adnabod safleoedd er mwyn diwallu anghenion cyflogaeth bresennol ac i'r dyfodol. Mae'r ddarpariaeth wedi gwasgaru ar draws ardal y Cynllun ac yn cynnig dewis o ran lleoliad a maint. Mae'r ddarpariaeth o dir cyflogaeth yn rhoi elfen o hyblygrwydd o ran y dewis sydd ar gael.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					<p>Er mwyn gwella eglurder cynigir fod y Polisi Strategol yn cael ei ddiwygio er mwyn cynnwys eglurhad pellach ynglŷn â sut mae'r ffigur o dir cyflogaeth wedi ei bennu. Cynigir fod y polisi yn cael ei ddiwygio er mwyn gwahaniaethu rhwng tir a ddynodir a beth sydd yn cael ei warchod.</p> <p>Newid â Ffocws: NF45, NF46, NF47</p>
199	Kingsbridge Caravan Park (Mr Andrew Bate) [2778]	POLISI TWR5	Gwrthwynebu	<p>Dylid caniatáu i feysydd carafanau teithiol storio carafanau i gwsmeriaid ar yr amod y cânt eu cadw mewn mannau nad ydynt yn tynnu sylw.</p> <p>Mae hyn yn elfen allweddol o weithgareddau carafanau teithiol ac nid oes cyfeiriad tuag at y mater yn y ddogfen polisi. Bydd storio unedau yn cael effaith positif ar leihau'r traffig ar brif ffyrdd ac ar ffyrdd cefn gwlad. Bydd hefyd yn lleihau llygredd ceir oherwydd ni fydd y car yn tynnu carafán.</p>	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbynol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol, gydol y flwyddyn ar yr amgylchedd lleol.</p> <p>Argymhelliad Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
226	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI TWR5	Cefnogi	Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis cyfleoedd llety, gweryllfeydd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol	Nodi'r Sylw Cefnogol Argymhelliad Dim Newid
227	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI TWR5	Cefnogi	Mae defnyddiau hamdden a thwristiaeth yn ddefnyddiau hyfyw o dir sydd eisoes wedi'i ddefnyddio ar safleoedd cloddio mwynau y mae modd iddynt, unwaith y byddant wedi'u hadfer, ddarparu cyfleusterau megis cyfleoedd llety, gweryllfeydd, cabanau coed a meysydd carafanau lle bo'n briodol	Nodi'r Sylw Cefnogol Argymhelliad Dim Newid
467	Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366]	POLISI TWR5	Gwrthwynebu	Rydym yn gwrthwynebu meini prawf 3 a 7 polisi TWR 5. Dylid diwygio maen prawf 3 i ddarllen: gellir ei symud odd ar y safle os nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach.	Dim yn derbyn Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol, gydol y flwyddyn ar yr amgylchedd lleol. Argymhelliad Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun. Dim newid
784	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd	POLISI TWR5	Gwrthwynebu	Roedd aeoldau wedi sylw fod cynydd mewn ceisiadau a chryn bwysedd gan y math yma o ddatblygiad yn ardal Llŷn. Gofynwyd os sail i; r polisi ac oedd yna ddadansoddiad o gynydd mewn unedau/effaith datblygiadau newydd wedi ei wneud? Credir y dylia'r polisi fod yn fwy caeth oddi mewn, a	Dim yn derbyn Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	Williams) [3090]			gerllaw, yr ardal ddynodedig. Credir fod blaenoriaeth i fonitro cydymffurfiaeth hawl cynllunio, amodau cynllunio, amodau tirweddu ac amodau preswyliaeth.	<p>safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol, gydol y flwyddyn ar yr amgylchedd lleol. Mae'r cynllun yn cydnabod bod pwysau trwm yn bodoli mewn llawer o gymunedau sydd ar neu ger yr arfordir, yn cynnwys rhannau helaeth o'r ddau AHNE. Bydd y Cynghorau yn gofyn am dystiolaeth gref na fydd ceisiadau ar gyfer unedau pellach mewn ardaloedd o'r fath yn ychwanegu at broblemau gwasanaethu nac yn niweidio cymeriad neu adnoddau naturiol yr ardaloedd hyn.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
788	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI TWR5	Gwrthwynebu	Gwrthwynebw'n barhad polisi sy'n caniatáu safleoedd carafanau teithiol yn ardaloedd mwyaf sensitif y dirwedd, yn absenoldeb dystiolaeth sy'n dangos ei effaith. Credwn nad yw effaith weledol carafanau teithiol, gan gynnwys yr effaith gronnus, yn cael ei lawn werthfawrogi, ac mae risg y bydd mor fawr â'r effaith gydnabyddedig o safleoedd sefydlog yn y gorffennol. Fel polisi rhagofalus gofynnwn am foratoriwm ar safleoedd teithiol newydd o fewn ardaloedd AHNE, ATA ac o fewn 2km i'r arfordir, a pheth cyfyngiad ar faint estyniadau i safleoedd presennol. Cefnogwn bolisiâu ar gyfer ymestyn safleoedd presennol, cyn belled ag y caiff cyfyngiadau manwl eu gosod yn gyfnewid am welliannau amgylcheddol gwirioneddol, a bod y rhain yn cael eu monitro a'u gorfodi.	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbynol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol, gydol y flwyddyn ar yr amgylchedd lleol. Mae'r cynllun yn cydnabod bod pwysau trwm yn bodoli mewn llawer o gymunedau sydd ar neu ger yr arfordir, yn cynnwys rhannau helaeth o'r ddau AHNE. Bydd y Cynghorau yn gofyn am dystiolaeth gref na fydd ceisiadau ar gyfer unedau pellach mewn</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				O fewn yr ardaloedd AHNE, ATA ac mewn ardaloedd eraill o fewn 2km i'r arfordir, caiff cynigion am garafanau teithiol newydd eu gwrthod. Caniateir cynigion am safleoedd teithiol newydd mewn ardaloedd eraill, cynigion am feysydd gweryslla sydd wirioneddol dros dro ym mhob ardal, a chynigion am estyniadau cyfyngedig i safleoedd presennol neu leiniau ychwanegol ym mhob ardal cyn belled ag y byddant yn cydymffurfio â'r meini prawf a ganlyn: [1-7 fel yn nhestun y cynllun drafft adnau.]	ardaloedd o'r fath yn ychwanegu at broblemau gwasanaethu nac yn niweidio cymeriad neu adnoddau naturiol yr ardaloedd hyn. Argymhelliad Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun. Dim newid
468	Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366]	7.3.74	Gwrthwynebu	Dylid gwneud i ffwrdd â'r geiriau "Dylid symud pob uned oddi ar y safle pan nad yw'n cael ei defnyddio ac yn ystod misoedd y gaeaf" gan fod carafanau teithiol, pebyll a phodiau gweryslla yn cael aros ar y tir "pa na chânt eu defnyddio". At hyn, mae nifer o'r meysydd carafanau teithio a gwerysllfeydd amgen yn agored yn ystod rhai o "fisoedd y gaeaf" ond nid i gyd. O'r herwydd mae'r testun sy'n gofyn am eu symud yn ystod misoedd y gaeaf yn byrhau'r tymor gwyliau, yn groes i'r polisi cenedlaethol.	Dim yn derbyn Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbynol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodwedddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol ar yr amgylchedd lleol. Mae canllawiau cenedlaethol yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 13: Twristiaeth yn nodi y dylai awdurdodau roi ystyriaeth gydymdeimladol i geisiadau i ymestyn y cyfnod agor a ganiateir o dan ganiatadau sydd eisoes yn bodoli. Byddai amod meddiannaeth gwyliau yn ymddangos yn fwy priodol nag amod meddiannaeth dymhorol lle mae angen lleihau'r pwysau ar wasanaethau lleol. Dylai awdurdodau barhau i ddefnyddio amodau meddiannaeth dymhorol i atal defnydd preswyl parhaol o lety sydd, yn ôl cymeriad ei adeiladwaith neu ei ddyluniad, yn anaddas ar gyfer meddiannaeth barhaol yn enwedig yn ystod

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					<p>misoedd y gaeaf.</p> <p>Dylai safleoedd carafanau a gwersylla gael eu sgrinio'n effeithiol, a'u cynllunio fel nad ydynt yn weledol ymwithiol. Mae sgrinio naturiol yn llai effeithiol yn ystod misoedd y gaeaf oherwydd ei bod yn debygol y bydd llai o sgrinio gwyrdd naturiol megis coed a llwyni.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
472	Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366]	7.3.75	Gwrthwynebu	Mae modd asesu maint a derbynioldeb ardaloedd llecynnau caled yn ddigonol dan Bolisi TWR 5 heb fod angen "gwaharddiad" effeithiol fel y nodir ym mharagraff 7.3.75	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad ydynt golygu effeithiau parhaol ar yr amgylchedd lleol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
470	Cadnant Planning (Mr	7.3.76	Gwrthwynebu	Nid yw geiriad paragraff 7.3.76 yn gyson ag amcanion Polisi TWR5 sy'n hyrwyddo sefydlu safleoedd teithiol a phebyll o	Dim yn derbyn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	Rhys Davies) [1366]			safon uchel mewn lleoliadau priodol ac yn cydnabod cyfraniad mae safleoedd teithiol a phebyll yn ei wneud i'r ystod o lety gwyliau sydd ar gael i ymwelwyr. Bydd y bwriad i gyfyngu unrhyw isadeiledd dros dro i gyfleusterau basig gyda dim dreiniau na dwr yn mynd i gyfyngu darpariaeth o safleoedd teithiol a phebyll o safon uchel. Mae angen i safleoedd teithiol a phebyll o safon uchel ddarparu cysylltiadau dwr a dreinio mae ymwelwyr sy'n gwario llawer yn gofyn amdano.	Bydd unedau gwersylla amgen sydd â rhywfaint o sefydlogrwydd yn cael eu trin o dan bolisi TWR3. Mae Polisi TWR5 yn ymwneud â llety nad yw'n gorfodi effeithiau parhaol, gydol y flwyddyn ar yr amgylchedd lleol. Argymhelliad Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun. Dim newid
473	Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366]	7.3.77	Gwrthwynebu	Nid ydy unedau campio teithiol neu amgen yn cael ei gategoreiddio fel carafán sefydlog pan maent wedi cysylltu gyda phrif wasanaeth dŵr a gwastraff. Dileu 7.3.77	Dim yn derbyn Nid ystyrir bod unedau gwyliau sydd wedi'u cysylltu â'r prif ddraeniad, ac na ellir eu tynnu pan nas defnyddir hwy neu eu symud i ran arall o'r parc, yn unedau dros dro, ac felly byddant yn cael eu trin o dan bolisi TWR3 y Cynllun. Argymhelliad Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun. Dim newid
475	Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366]	7.3.78	Gwrthwynebu	Mae'r polisi hwn yn gyfyngol heb fod rhaid ac yn groes i Bolisi Cynllunio Cenedlaethol gan fod modd ymestyn manteision economaidd o nifer o ffurfiau o wersyllfeydd amgen i gyfnodau sy'n ymestyn dros 12 mis bron a bod.	Dim yn derbyn Caiff safleoedd carafanau teithiol eu hystyried yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio defnydd tir, fel rhai sy'n cael llai o effaith ar y tirlun na safleoedd carafanau sefydlog oherwydd, yn ôl eu natur, mae ganddynt nodweddion dros dro nad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					<p>ydynt golygu effeithiau parhaol ar yr amgylchedd lleol.</p> <p>Mae canllawiau cenedlaethol yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 13: Twristiaeth yn nodi y dylai awdurdodau roi ystyriaeth gydymdeimladol i geisiadau i ymestyn y cyfnod agor a ganiateir o dan ganiatadau sydd eisoes yn bodoli. Byddai amod meddiannaeth gwyliau yn ymddangos yn fwy priodol nag amod meddiannaeth dymhorol lle mae angen lleihau'r pwysau ar wasanaethau lleol. Dylai awdurdodau barhau i ddefnyddio amodau meddiannaeth dymhorol i atal defnydd preswyl parhaol o lety sydd, yn ôl cymeriad ei adeiladwaith neu ei ddyluniad, yn anaddas ar gyfer meddiannaeth barhaol yn enwedig yn ystod misoedd y gaeaf.</p> <p>Dylai safleoedd carafanau a gweryslla gael eu sgrinio'n effeithiol, a'u cynllunio fel nad ydynt yn weledol ymwithiol. Mae sgrinio naturiol yn llai effeithiol yn ystod misoedd y gaeaf oherwydd ei bod yn debygol y bydd llai o sgrinio gwyrdd naturiol megis coed a llwyni.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nid oes angen y newid arfaethedig i sicrhau cadernid y cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Canol Trefi a Datblygiadau Manwethu

Cyd-destun a Chyflwyniad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
112	CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]	7.3.81	Cefnogi	Dylid defnyddio'r Stryd Fawr a chanol y ddinas hefyd ar gyfer anheddau, yn ogystal â masnach ac adloniant. Ni ddylid adeiladu yn uwch na thri llawr wrth adeiladu fflatiau neu neuaddau myfyrwyr mewn safleoedd nad ydynt ar gampws.	<p>Nodi</p> <p>Mae'r pwynt bwled cyntaf ym mharagraff 7.3.81 yn cyfeirio at Bolisi Cynllunio Llywodraeth Cymru. Nid yw polisiau'r Cynlluniau yn atal defnydd preswyl yng nghanol trefi. Mae'r Cynllun yn cynnwys polisiau ar wahân sy'n cyfeirio at ddylunio ac integreiddio datblygiadau newydd yn eu hamgylchedd.</p> <p>Dim Newid</p>

PS12 – Canol Trefi a Manwerthu

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
432	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	POLISI STRATEG OL PS12	Cefnogi	Mae map y Cynllun Lleol yn dynodi canol y dref yn anghywir, yn ein barn ni. Mae yna lawer o siopau rhwng yr orsaf a Thafarn y Commercial. Mae nifer o siopau pwysicaf y dref ar y rhan yma o'r Stryd Fawr, gan gynnwys McColls, un siop bapurau ac un siop fwyd Tseinaid. Dylid cadw'r adeiladau hyn fel siopau, yn ein barn ni.	<p>Nodi</p> <p>Mae Map Blaenau Ffestiniog sy'n dangos canol y dref yn seiliedig ar yr Astudiaeth Manwerthu (2013). Mae Polisi MAN3 yn diogelu siopau y tu allan i ganol trefi diffiniedig oni bai y gellir dangos y gall meini prawf rhestredig penodol gael eu bodloni.</p> <p>Dim Newid</p>
606	Menter Iaith	POLISI	Cefnogi	Cytuna Menter Iaith Bangor gyda'r Polisi PS12	Nodi

	Bangor (Mrs Branwen Thomas) [2762]	STRATEG OL PS12		Canol Trefi a Manwerthu, a phwynt 1 - Annog cymysgedd amrywiol o ddefnyddiau addas (fel y diffinnir yn PCC a NCT 4) mewn amgylcheddau o ansawdd uchel sy'n denu ystod eang o bobl ar wahanol amseroedd o'r dydd, sy'n ddiogel ac yn hygyrch i bawb. Mae gormodedd o defnyddiau bwyd poeth i'w gario allan yng nghanol Bangor a phrinder gwestai a bwytai. Byddai'r Fenter yn croesawu busnesau cynhenid Cymreig a fyddai'n defnyddio'r Gymraeg ac yn rhoi awyrgylch Gymreig i'r prif strydoedd sydd ar hyn o bryd yn brin iawn o unrhyw arlliw o'r Gymraeg a Chymreictod.	Mae Polisi MAN7 yn darparu meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni wrth ystyried ceisiadau am siopau cludfwyd bwyd poeth, gan gynnwys ystyried gor-grynhoad. Mae Polisi Strategol PS1 yn ceisio hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Dim Newid
840	Cyngor Dinas Bangor (Mr Gwyn Hughes) [1523]	POLISI STRATEG OL PS12	Gwrthw ynebu	Croesawir polisiâu sy'n gwarchod bywiogrwydd a hyfywdra Bangor fel Canolfan Fanwerthu Isranbarthol, a pholisiâu sy'n diogelu Bangor wrth gyfyngu ar ehngiad datblygiadau manwerthu a hamdden allan o'r dref ac allan o ganol y dref. Fodd bynnag, dylid adnabod ardaloedd ailddatblygu arfaethedig o fewn canol y dref neu wrth ei ymyl, i sicrhau nad ydym yn colli cyfle manwerthu neu hamdden. Ymddengys bod nifer o safleoedd yn barod i'w datblygu: -Ochr dde-ddwyrain y Stryd Fawr rhwng Plas Llwyd a Chyffordd Stryd y Deon, gan gynnwys maes parcio Plas Llwyd. -Ochr ogledd-orllewin y Stryd Fawr gan gynnwys y Rose and Crown a'r White Lion. -Adeiladau'r brifysgol a'r maes parcio oddi ar Stryd James, yng nghefn Stryd y Deon, gan gynnwys adeilad Octagon gynt.	Dim yn derbyn Yn hytrach na dyrannu safleoedd penodol i gwrdd â'r arwynebedd llawr cyfleus a chymharol newydd ychwanegol a amcangyfrifir sydd ei angen dros gyfnod y Cynllun, mae'r Cynghorau o'r farn y byddai mwy o hyblygrwydd yn cael ei gyflawni drwy adael i rymoedd y farchnad ddod â safleoedd addas ymlaen ar gyfer datblygu neu ailddatblygu. Gellid hwyluso'r gwaith o ailddatblygu'r safleoedd a awgrymir yn yr Astudiaeth Manwerthu (2013), yn unol â Pholisi MAN1 a MAN3 a pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim Newid
861	Cymdeithas Dinesig Bangor 1 (Don Mathew)	POLISI STRATEG OL PS12	Cefnogi	Cefnogir Polisi PS12 (gan nodi pwysigrwydd is-ranbarthol Bangor).	Nodi Amend text to provide explanation of the reason for using different hierarchies for retail and settlements. The retail hierarchy is based on the different retail roles of the centres and information in the Retail Study (2013). The settlement

	[2988]				<p>hierarchy is based on a number of factors including the number, type and scale of existing services within each community. It is explained in greater detail in Topic Paper 5 Developing the Settlement Hierarchy</p> <p>Argymhelliad</p> <p>To ensure clarity the text within the policy will be amended to further explain how the retail hierarchy has been determined.</p> <p>Dim Newid</p>
1067	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI STRATEG OL PS12	Gwrthw ynebu	Gwahanol hierarchaeth i fanwerthu a thai - beth yw'r rhesymeg dros y gwahaniaeth?	<p>Derbyn</p> <p>Newid â Ffocws: NF:55</p>
1068	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI STRATEG OL PS12	Gwrthw ynebu	Nid yw'n glir ble fydd y ddarpariaeth o ofod manwerthu'n cael ei leoli.	<p>Derbyn</p> <p>Yn hytrach na dyrannu safleoedd penodol i gwrdd â'r arwynebedd llawr cyfleus a chymharol newydd ychwanegol a amcangyfrifir sydd ei angen dros gyfnod y Cynllun, mae'r UPCC o'r farn y byddai mwy o hyblygrwydd yn cael ei gyflawni drwy adael i rymoedd y farchnad ddod â safleoedd addas ymlaen ar gyfer datblygu neu ailddatblygu, yn unol â Pholisi MAN1 a MAN3 a pholisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol. Er hynny, ystyrir y dylid diwygio geiriad y Cynllun i ddangos canfyddiadau'r Astudiaeth Manwerthu, sy'n nodi sut y dylai'r gofyniad cyffredinol am arwynebedd llawr ychwanegol gael ei ddarparu ar sail anheddle unigol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio'r Polisi a'r testun perthnasol i nodi pa ganolfannau manwerthu y disgwylir iddynt ddarparu arwynebedd manwerthu ychwanegol dros gyfnod y Cynllun.</p> <p>Newid â Ffocws: NF: 56 a NF57</p>

1172	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI STRATEG OL PS12	Gwrthw ynebu	Mae'n bwysig gan Horizon y gallai Maen Prawf 6 "gwrthsefyll ymestyn datblygiadau manwerthu a hamdden y tu allan i ganol trefi" gyfyngu'n ormodol ar ddatblygu cyfleusterau hamdden ar safleoedd llewly i weithwyr dros dro. Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisi hwn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisiâu penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisiâu perthnasol ar gyfer penderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisi hwn.	Dim yn derbyn Mae Polisi PS12 yn cyd-fynd â chanllawiau polisi manwerthu a chanol trefi cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7) 2014 a TAN 4 (1996). Ni ystyrir ei fod yn angenrheidiol cynnwys polisiâu manwl yn y cynllun sy'n ymwneud yn benodol â datblygiadau sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd; mae polisiâu perthnasol eraill yn y Cynllun y bydd yn rhaid eu defnyddio wrth ystyried datblygiad cysylltiedig. Argymhelliad Dim Newid
------	--	------------------------	--------------	--	--

MAN1 – Datblygiadau Arfaethedig Mewn Canol Trefi

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
536	Cyngor Tref Biwmares (Prof TW Ashenden) [1267]	POLISI MAN1	Gwrthw ynebu	Nid yw Canol Tref Biwmares fel ag y mae ar y map hwn yn rhoi darlun cywir o ardal canol y dref go iawn y dref. Mae'n bwysig bod yr ardaloedd hyn yn cael eu nodi'n gywir yn y Cynllun Adnau fel bod swyddogaeth Biwmares fel canolfan gwasanaethau lleol a chyrchfan twristiaeth pwysig yn cael ei sicrhau gan y cynllun. Newidiadau i'r Cynllun: Newid yr ardaloedd sydd wedi'u marcio ar y map fel y nodwyd yn yr atodiad	Dim yn derbyn Mae Map Canol Tref Biwmares yn seiliedig ar yr Astudiaeth Manwerthu (2013). Mae Polisi MAN3 yn diogelu siopau y tu allan i ganol trefi diffiniedig oni bai y gellir dangos y gall meini prawf rhestredig penodol gael eu bodloni. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun Dim Newid

MAN2 – Prif Ardaloedd Manwerthu (Y Craidd Manwethu)

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1392	Cyng/Counc RH Wyn Williams [367]	POLISI MAN2	Gwrthw ynebu	Oherwydd bod y cynllun am fod dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy, fe hoffwn i chwi ystyried y canlynol i Abersoch:- Cais i gael cynnydd mewn ffin ardal siopau, oherwydd erbyn hyn mae yna sawl busnes ar hyd Lôn Engan yn barod, ac fe fydd angen ychydig o gynnydd gyda datblygiadau newydd yn ôl y galw a phrysurdeb Abersoch dros y 10 mlynedd nesaf ac fel cyrchfan Twristiaeth Lleol.	Dim yn derbyn Mae Map Canol Abersoch yn seiliedig ar yr Astudiaeth Manwerthu (2013). Mae Polisi MAN3 yn diogelu siopau y tu allan i ganol trefi diffiniedig oni bai y gellir dangos y gall meini prawf rhestredig penodol gael eu bodloni. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun Dim Newid
\	Cyng/Counc RH Wyn Williams [367]	POLISI MAN2	Gwrthw ynebu	Oherwydd bod y cynllun am fod dros gyfnod o 10 mlynedd neu fwy, fe hoffwn i chwi ystyried y canlynol i Abersoch: Ardal gyda ffin yn cael ei adnabod fel ardal Fasnachol a fydd yn hybu gwaith yn y diwydiant twristiaeth, budd economaidd.	Dim yn derbyn Mae Map Canol Abersoch yn seiliedig ar yr Astudiaeth Manwerthu (2013). Mae Polisi MAN3 yn diogelu siopau y tu allan i ganol trefi diffiniedig oni bai y gellir dangos y gall meini prawf rhestredig penodol gael eu bodloni. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun Dim Newid

MAN3 – Dim Sylw

MAN4 – Dim Sylw

MAN5 – Datblygiadau Manwethu Newydd Mewn Pentrefi

Rhif	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
------	-----	------	------	--	--------------------------

Sylw					
612	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036]	POLISI MAN5	Gwrthw ynebu	<p>Ystyrir y byddai Borth-y-Gest yn elwa o gael allfa manwerthu gan nad oes siop yn y pentref. Ystyrir bod Maen Prawf 5 MAN5 yn gyfyngol heb fod angen, yn enwedig ar adeg pan mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi ei fod yn mynd i gyflwyno ffioedd parcio yn y manau parcio oddi ar y stryd agosaf.</p> <p>Newid a Awgrymir Diwygio maen prawf 5 MAN5 datblygiadau manwerthu newydd mewn pentrefi (trefniadau parcio i ganiatáu newid defnydd yr eiddo presennol i eiddo manwerthu heb fod angen cyfyngiadau parcio).</p>	<p>Dim yn derbyn Mae Polisi 2 yn seiliedig ar yr Astudiaeth Manwerthu (2013). Mae Polisi MAN3 yn diogelu siopau y tu allan i ganol trefi diffiniedig oni bai y gellir dangos y gall meini prawf rhestredig penodol gael eu bodloni.</p> <p>Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun</p> <p>Dim Newid</p>

MAN6 – Manwerthu yng Nghefn Gwlad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1175	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI MAN6	Gwrthw ynebu	<p>Nid yw'n eglur a fyddai'r polisi hwn yn cynnwys unrhyw ddatblygiad manwerthu sydd wedi'i gynnwys tu mewn i safleoedd llety i weithwyr dros dro.</p> <p>Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisi hwn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisiau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisiau perthnasol ar gyfer penderfynu ar ei geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisiau hyn.</p>	<p>Dim yn derbyn Mae Polisi MAN6 yn cyd-fynd â chanllawiau polisi manwerthu a chanol trefi cenedlaethol a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 7) 2014 a TAN 4 (1996).</p> <p>Ni ystyrir ei fod yn angenrheidiol cynnwys polisiau manwl yn y cynllun sy'n ymwneud yn benodol â datblygiadau sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd; mae polisiau perthnasol eraill yn y Cynllun y bydd yn rhaid eu defnyddio wrth ystyried datblygiad cysylltiedig.</p> <p>Argymhelliad</p>

					Dim Newid
--	--	--	--	--	------------------

MAN7 – Defnyddiau Bwydd Poeth i'w Gario Allan

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
831	Cyngor Dinas Bangor (Mr Gwyn Hughes) [1523]	POLISI MAN7	Gwrthw ynebu	<p>Mae'r Cyngor o'r farn</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y dylid cynnwys cyfyngiad o 10% ar ddarpariaeth siopau sy'n darparu bwyd poeth i'w gario allan yn y ddwy ardal ble mae digon ohonynt ar gael yn barod - yng ngwaelod Stryd Fawr Bangor o dan cyffordd Stryd y Deon ac yn Ffordd Caergybi ym Mangor Uchaf. - Ni ddylid caniatáu siopau sy'n darparu bwyd poeth i'w gario allan yn y brif ardal fanwerthu ddynodedig yng nghanol y dref, gan eu bod yn creu sbwriel, gwastraff a phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a all effeithio ar gymeriad canol y dref yn andwyol. 	<p>Dim yn derbyn</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun</p> <p>Dim Newid</p>

PENNOD 7.4 CYFLENWAD AC ANSAWDD TAI

Datblygiad Tai Cytbwys

PS13 – Darpariaeth Tai

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
313	Cyfeillion Llyn (Mrs Sian Parri) [2871]	7.4.1	Gwrthwynebu	Gormod o dai i Bwllheli a Botwnnog. Dylid gwasgaru'r dyraniad drwy bentrefi'r ardal sydd yn cael ei gwasanaethu gan yr Ysgol Uwchradd a'r Feddygfa sydd wedi eu lleoli ym Motwnnog.	Dim yn derbyn - Mae strategaeth y Cynllun yn anelu i gefnogi datblygiad sydd ar raddfa a natur a fydd yn briodol i'r lleoliad a'r anheddle. Mae'r ffordd yma o fynd o gwmpas y mater wedi cael ei asesu yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd yr Asesiad Cynaliadwyedd, sydd wedi cael ei oleuo gan yr Asesiad Effaith Ieithyddol. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
755	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	7.4.1	Cefnogi	Dywedir yn y trydydd pwynt bwled 'Rhaid i awdurdodau Cynllunio, mewn partneriaeth â'r gymuned... ddatblygu polisiau i gwrdd â'r heriau a'r amgylchiadau unigryw sy'n bresennol yn eu hardaloedd mewn lleoliadau penodol'. Croesawn y sylw yn y datganiad uchod	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				sef 'mewn partneriaeth â'r gymuned', a gobeithio y bydd pawb yn dilyn y canllaw hwn.	
280	Mr Aled Evans [2646]	7.4.2	Gwrthwynebu	Amcanion tai y llywodraeth Amcanion tai y Sir ddylsa gael y flaenoriaeth	<p>Dim yn derbyn - Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigur sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
752	Cyngor Cymuned	7.4.2	Gwrthwynebu	Dywedir "...amcanion tai y Llywodraeth".	Dim yn derbyn - Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
	Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]			<p>Ydi amcanion y Llywodraeth yn cyd-fynd â'r amcanion lleol tybed? Onid yr amcanion lleol ddylai reoli unrhyw ddatblygiad? Pa mor haearnaidd yw amcanion tai y Llywodraeth?</p> <p>Angen gwybodaeth am natur statudol amcanion tai y Llywodraeth.</p>	<p>ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigur sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
282	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]	7.4.3	Gwrthwynebu	<p>Mae angen eglurhad ar y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi os yw'r sylwadau am amodau'r farchnad yn seiliedig ar amodau lleol. Byddai'r Ffederasiwn yn nodi bod pethau'n fwy cadarnhaol trwy Gymru a'r Deyrnas Unedig. Dengys y ffigurau diweddaraf gan y Ffederasiwn y</p>	<p>Nodi'r sylw – mae'r Astudiaethau Tir ar gyfer Tai blynyddol ar gyfer y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol yn parhau i ddangos bod y nifer o unedau tai sy'n cael eu adeiladu yn yr ardal yn gymharol isel ac y rhagwelir y bydd hynny'n parhau am gyfnod. Dengys dadansoddiad o dystiolaeth amrywiol bod nifer o aelwydydd yn yr ardal hefyd yn ei chael hi'n anodd i</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				bu cynnydd o 49% mewn eiddo preswyl a gafodd eu cymeradwyo yng Nghymru yn 2014. Dengys ffigyrau mis Ionawr 15 Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (yr NHBC) gynnydd o 12% mewn tai a gwblhawyd yng Nghymru yn 2014. Mae Cymorth i Brynu wedi cynorthwyo dros 1300 o bobl i brynu cartrefi yng Nghymru yn y flwyddyn ddiwethaf.	<p>allu cael morgais neu rentu tai. Cofnodir hyn ym Mhapur Testun 3 Poblogaeth a Thai.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
751	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	7.4.6	Gwrthwynebu	<p>Dywedir yma "...bod yn berchen ar dŷ ond yn opsiwn i'r rheini sydd ar incwm uchel ac i'r rheini sydd gan ecwiti o ffynonellau eraill, megis aelodau teulu neu etifeddiaeth".</p> <p>Mae 'Adroddiad Arolwg Anghenion Tai ardal Cyngor Cymuned Llanystumdwy' yn dangos fod plant yn dal i fyw adref adref a bod 61.4% yn methu prynu tŷ fforddiadwy.</p> <p>Fe ddylai'r Cynllun Adnau adlewyrchu anghenion lleol</p>	<p>Nodi'r sylw - Mae Papur Testun 3 Poblogaeth a Thai, er enghraifft, yn cofnodi'r sefyllfa o ran y farchnad tai yn ardal y Cynllun. Cyfeiriwn at ystod o bolisiau yn y Cynllun Adnau a fydd yn hyrwyddo cymysgedd o fathau o dai.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
749	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	7.4.7	Cefnogi	Rydym yn cytuno â'r sylw yn y paragraff hwn. Mae lle i ddatblygiadau tebyg ond llai mewn pentrefi gwledig hefyd.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
86	Y Mg. Carl Iwan Clowes [2728]	POLISI STRATE	Gwrthwynebu	Hoffwn weld dau opsiwn i) os yw Wylfa B yn mynd ymlaen ii) os yw'r cynllun yn	Derbyn yn rhannol - Dim ond twf gymharol fychan mae'r Cynllun yn hyrwyddo i fyny at 2018 oherwydd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
		GOL PS13		cael cymeradwyaeth ac nad yw Wylfa B yn mynd ymlaen, beth sy'n digwydd nesaf - tai gwag a gaiff ei lenwi gan pwy?	<p>bod yr economi leol yn dal yn wan. Bydd rhaid i'r Cynllun gael ei fonitro'n flynyddol a bydd rhaid ei adolygu ar ôl 4 mlynedd, oni bai bod y gwaith monitro yn dangos bod angen un cynharach. Bydd y gwaith monitro ac adolygu yn cofnodi os bydd Wylfa Newydd yn digwydd ai pheidio yn ogystal â faint o unedau tai a gaiff eu hadeiladu. Os na fydd Wylfa Newydd yn cael ei adeiladu, bydd angen i'r Cyngor ddangos trwy'r adolygiad sut fydd yn ymdopi â hynny.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Er mwyn gwella eglurder credir byddai newid i greu dolen rhwng Polisi PS13 a'r Fframwaith Fonitro ym Mhennod 8 y Cynllun yn egluro'r sefyllfa yn well.</p> <p>Newid â Ffocws: NF60, NF61</p> <p>I sicrhau eglurdeb</p>
130	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]	POLISI STRATE GOL PS13	Gwrthwynebu	Gwrthwynebu'r gostyngiad o 7,665 yn y ddarpariaeth dai fel y nodir yn y Strategaeth a Ffafirir. Nid oes eglurhad yn y ddogfen pam fod hyn wedi digwydd. Ddim yn deall pam fod nifer yr unedau wedi'u rhannu'n gyfnodau o ddwy flynedd gan nad oes polisi fesul cam i gefnogi'r rhaniad hwn (er yr awgrymir hyn yn D26 y cynllun monitro). Nid oes modd i'r cynllun ei	<p>Derbyn yn rhannol - mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics "Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario" (2014), "Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd" (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				<p>hun gynnal cyflenwad tir pum mlynedd fel y nodir yn y drydedd frawddeg - caiff hyn ei reoli gan rymoedd y farchnad. Angen esbonio pam bod y ffigwr wedi gostwng. Fel isafswm angen cynyddu'r ffigwr i 7471 ac adnabod cyfleoedd hyd at 8189. Tynnu allan y rhaniad tai rhwng y cyfnod o ddwy flynedd, mae'r polisi yn cyfeirio tuag ato fel targed eto mae'r rhan monitro yn themâu 4 D26 yn awgrymu ei fod yn gyfyngiad cam wrth gam. Angen ail eirio'r drydedd frawddeg.</p>	<p>galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddiwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Mae'r dadansoddiad o'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd effaith y dirwasgiad economaidd diweddar yn debygol o barhau i gael effaith yn ystod blynyddoedd cyntaf y Cynllun. Mae diffyg cyllid ar gyfer datblygwyr ac argaeledd morgeisi i ddarpar berchnogion tai yn debygol o wahardd/ gyfyngu ar ddatblygiadau tai gael eu hadeiladu. Mae'r strategaeth tai yn glir nad ellir cyfarch y cyfanswm tai heb fod a dealltwriaeth o'r materion hyfywdra sydd yn yr ardal ar hyn o bryd. Rhagwelir felly y bydd nifer o unedau tai a gaiff eu hadeiladu yn gymharol isel yn ystod blynyddoedd cyntaf y Cynllun, hyd at</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>2018, cyn gweld gwellhad i lefel uwch o unedau tai'r flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod weddill oes y Cynllun. Gwireddu Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau arwyddocaol a fydd y sbardun i'r adferiad. Bydd gwireddu'r cynllunio gam wrth gam yma yn dibynnu hefyd ar sefyllfa ariannol genedlaethol a rhyngwladol. Bydd y gwaith monitro blynyddol yn edrych i weld: ydi'r tai'n cael eu hadeiladu yn gynt neu'n arafach na beth ragwelwyd; ydi'r patrwm datblygu run fath a beth ragwelwyd. Os fydd yr atebion yn wahanol, yna bydd angen ystyried beth mae hynny'n golygu i ardal y Cynllun neu is-ardal.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Er mwyn gwella eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun credir bod sail i ychwanegu at baragraff 7.4.2 - 7.4.4 i ddangos sut cafodd dau gyfnod adeiladu ei adnabod ym Mholisi PS13 a chyfeirio at bwysigrwydd y monitro blynyddol.</p> <p>Newid â Ffocws: NF59, NF60</p> <p>I sicrhau eglurder a chysondeb mewnol y Cynllun.</p>
368	Mr Dave Eccles [269]	POLISI STRATE GOL PS13	Gwrthwynebu	Caiff y gofynion tai cyfredol eu seilio ar ffigyrau sydd bellach yn bedair oed. Mae ffigyrau'r boblogaeth i'w gweld wedi gostwng yn gyffredinol er 2000.	Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				Byddai gorgyflenwi'r un mor niweidiol â thangyflawni mewn ardal sydd mor ddibynnol ar dwristiaeth. Byddai prisiau eiddo'n syrthio yn yr achos cyntaf gan annog mwy o brynwyr 'ail gartref' a/neu boblogaeth sy'n gynyddol fynd yn hŷn. Yn yr ail achos, byddai pobl ifanc ar incwm cymharol is yn ei chael yn anodd prynu eu cartrefi eu hunain wrth i brisiau godi.	<p>senario” (2014), “Egluro’r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a’r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy’n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy’n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae’n rhoi ffigur sy’n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a’i gymunedau a chydnabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio’r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
447	WYG/Alliance	POLISI	Gwrthwynebu	Nid yw'r lwfans llithro 10% mewn twf	Dim yn derbyn - Edrychwyd ar agwedd awdurdodau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
	Planning (Mr Mark Walton) [2905]	STRATE GOL PS13		tai yn ddigon i roi ystyriaeth lawn i rwystrau posib rhag gwireddu safle tai yn yr Ardal y mae'r awdurdodau'n gweithio ar y cyd, un ai trwy ddatblygwyr yn dod â safleoedd ymlaen neu ddarpar brynwyr yn sicrhau cyllid. Dylid darparu yn y Cynllun Datblygu Lleol fwy o hyblygrwydd o ran lleoliad a dewis o safleoedd tai sydd ar gael (dyraniadau).	<p>cynllunio eraill ar draws Cymru. Yn gyffredinol gwelwyd mai 10% a ddefnyddiwyd gan lawer ohonynt er mwyn rhoi hyblygrwydd yn y cyflenwad o dir ar gael ar gyfer cyfarch y gal war gyfer unedau tai newydd. Byddai'n afresymol peidio cynnwys lwfans llithriad oherwydd byddai gwneud hynny'n dweud y bydd pob safle ym mhob man yn ildio 30 uned yr hectar yn union. Gwelwyd hefyd bod Llywodraeth Cymru yn gefnogol mewn egwyddor i'r math yma o lefel. Edrychwyd hefyd ar batrymau'r gorffennol o safleoedd yn yr ardal gyda chaniatâd cynllunio ddim yn cael eu gwireddu a chaniatâd cynllunio ddim yn cael ei adnewyddu. Bydd nifer o unedau tai a gaiff eu hadeiladu yn destun monitro parhaol a fydd yn bwydo'r Astudiaeth Tir ar gyfer Tai Blynyddol a'r Adroddiad Monitro Blynyddol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
647	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATE GOL PS13	Cefnogi	Rydym yn cefnogi'r lefel darpariaeth tai a gynigir, y dyraniadau i gategori fforddiadwy, a'r polisi dyrannu tai cytbwys ac eang.	<p>Nodi'r sylw cefnogol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
657	Robert Llewelyn Jones [3058]	POLISI STRATE GOL PS13	Gwrthwynebu	<p>Rwy'n gofyn am gynllun i gynnwys y tai teras yng Nghaergybi a mannau eraill ar yr Ynys. Dylid cael cynllun yn ??? er mwyn galluogi eu diweddarau ac i drïo gwella'r stoc tai preifat sydd gennym ar hyn o bryd. Mae dinasoedd megis Lerpwl yn y broses o foderneiddio eu canolfannau poblogaeth, mae'n hen bryd i ninnau wneud yr un peth.</p> <p>Dylech gynnwys cynllun radical i edrych ar ddyfodol ein stoc fawr o dai teras a llunio cynllun gweithredu i sicrhau eu bod yn dod yn rhan annatod o'n stoc tai cyfoes.</p>	<p>Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics “Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario” (2014), “Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd” (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Nodir y sylw ynglŷn â gwneud defnydd effeithiol o'r stoc tai presennol. Fodd bynnag, er gall dod a thai</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>sydd wedi bod yn wag ers peth amser gyfrannu i leihau'r galw am unedau tai newydd, mae sicrhau tai presennol yn cael eu huwchraddio tu hwnt i gylch gorchwyl y Cynllun.</p> <p>Bydd cynlluniau yn gysylltiedig ag Ardal Adfywio Caergybi yn gallu hyrwyddo cyfleoedd a fydd yn gwireddu amcanion i adfywio tref Caergybi.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
813	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATE GOL PS13	Cefnogi	<p>Mae PS13 yn cynnig darparu tir ar gyfer 7902 o unedau tai newydd dros y cyfnod 2011-2026 yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd gyda'i gilydd (4084 yng Ngwynedd a 3817 yn Ynys Môn). O'r rhain mae 468 wedi cael eu cwblhau eisoes, mae gan 1476 arall ganiatâd cynllunio eisoes, sy'n gadael angen ychwanegol net o 2140 yng Ngwynedd. Mae hyn yn cynrychioli 3.5% (7% gros) o'r stoc tai presennol (cyfrifiad 2011) yng Ngwynedd. Mae'r nifer yn cymharu gyda 4178 uned (3187 net o safleoedd a gymeradwywyd) a ddarparwyd ar eu cyfer yn CDUG am y cyfnod 2001-2016.</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				Cefnogwn y ddarpariaeth tai yn y CDLI ar y Cyd ac ni welwn unrhyw reswm i ddadlau yn ei herbyn. Rydym hefyd yn cefnogi bod 15-20% o dai yn cael eu dyrannu i gategori 'fforddiadwy'.	
816	Cyngor Cymuned Tudweiliog (Mrs Glenys Peters) [1236]	POLISI STRATE GOL PS13	Gwrthwynebu	Dylid codi tai yn ôl yr angen.	Dim yn derbyn - mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics "Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario" (2014), "Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd" (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigur sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
817	Cyngor Tref Pwllheli (Mr Robin W Hughes) [1235]	POLISI STRATE GOL PS13	Gwrthwynebu	Gwrthwynebir niferoedd y ddarpariaeth tai. Maent yn rhy uchel ac am gael effaith niweidiol ar yr iaith Gymraeg. Lleihau niferoedd darpariaeth tai i adlewyrchu twf yn y boblogaeth leol.	<p>Dim yn derbyn - mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics "Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a Môn, rhagdybiaethau, methodoleg a chasgliadau senario" (2014), "Egluro'r gwahaniaeth rhwng rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 a 2011 i Wynedd" (2014), yn rhoi gwybod am yr ystyriaethau a'r cyfiawnhad am y lefel twf tai yn ardal y Cynllun. Er mwyn gallu asesu ac adnabod y galw am gartrefi newydd yn y Cynllun, rhoddwyd ystyriaeth yn y lle cyntaf i ragolygon poblogaeth a thai gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ardal y ddau Gyngor, sy'n unol a disgwyliadau Polisi Cynllunio Cymru (9.2.2). Fe wnaeth Edge Analytics baratoi cyfres o senarios a oedd yn edrych ar batrymau mudo, adeiladu tai a newid economaidd. Yn ychwanegol i hynny, edrychwyd ar nifer o ffactorau cenedlaethol a lleol sy'n dylanwadu ar y farchnad tai lleol. Credir bod y galw am unedau tai newydd a welir yn y Cynllun Adnau yn ffordd bositif o gynllunio</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>yn nhermau graddfa datblygu. Mae'n rhoi ffigwr sy'n fwy tebygol o gael ei wireddu, gan adlewyrchu nodweddion ardal y Cynllun a'i gymunedau a chydabod newidiadau demograffig, economaidd all ddigwydd a chyfyngiadau amgylcheddol ac eraill i ddatblygu.</p> <p>Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisiau'r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei oleuo gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisiau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymïadau cynllunio, gynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, tai fforddiadwy, math a chymysgedd o dai, a briffiau datblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
818	Cyng./Counc Ann Williams [355]	POLISI STRATE GOL PS13	Gwrthwynebu	Yn gyffredinol nid wyf yn credu fod astudiaeth ddigonol ar ardrawiad adeiladu cymaint o dai ar yr iaith Gymraeg, yng Ngwynedd gyfan, nag yn	Dim yn derbyn – mae Papur Testun 4A, sydd yn cael ei selio ar wybodaeth mewn sawl ffynhonnell, e.e. gan dystiolaeth a gafodd ei baratoi gan Edge Analytics "Rhagolygon poblogaeth a thai Gwynedd a

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1751	Carl Morris [3179]	POLISI STRATE GOL PS13	Gwrthwynebu		
	John Hughes [3202]				
1752	Annis Milner [3205]				
1753	Lowri Ifan [3206]				
1754	Bedwyr a Robert Griffiths [3210]				
1755	Eleri Davies [3211]				
	Seimon Morris [3213]				
1756	Hedd Gwynfor [3214]				
1757	Medwen Brookes [3217]				
	Mared Roberts				

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
	[3222]				
1758	Eiri Sion [3227]				
1759	Hefin Jones [3228]		Gwrthwynebu		
1760	Llio Davies [3237]	POLISI STRATE GOL PS13			
1761	Mair Pierce [3238]				
1762	Mari Roberts [3247]				
1763	Elinor Jones [3248]				
	Maldwyn Owen [3250]				
1764	Andrew Walton [3251]				
1765	Angharad Tomos [3252]				
	Eddie Ladd				

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1766	[3253] Manon James [3255]	POLISI STRATE GOL PS13	Gwrthwynebu		
1767	Colin Nosworthy [3257]				
1768	Robin Farrar [3258]				
1769	Mared Tudur [3259]				
1770	Phil Steele [3260]				
1771	Elinor Gray Williams [3261] Justin Davies [3262]				
1772	Bryn Moseley [3265] Christine Muskin [3266]				

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1773	Gwynfor Jones [3272]	POLISI STRATE GOL PS13	Gwrthwynebu		
1774	Lisa Owen [3275]				
1775	Rhodri Owen [3281]				
1776	Rhys Tudur [3282]				
1777	Tegwen Parri [3283]				
1778	Dafydd Williams [3212]				
1779	Tudur Roberts [3244]				
1780	Shan Ashton [3358]				

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1781		POLISI	Gwrthwynebu		
1782		STRATE			
		GOL			
		PS13			
1783					
1784					
1785					
1786					
1787					
1788					

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1789					
1790		POLISI STRATEGOL PS13	Gwrthwynebu		
1791					
1792					
1793					
1794					
1795					
1796					
1801					

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1802		POLISI STRATE GOL PS1	Gwrthwynebu		
1804					

TAI 1 – Cymysgedd Briodol o Dai

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
215	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mr Mark Harris) [1470]	POLISI TAI1	Gwrthwynebu	<p>Mae Pwynt 4 yn cyflwyno'r syniad o'r gofyn am adeiladu fesul cam. Fodd bynnag, ni roddir eglurhad am hyn na chyfiawnhad drosto yn y paragraffau sy'n cefnogi. Mae'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn gwrthwynebu'r egwyddor o adeiladu fesul cam onid oes modd ei gyfiawnhau, barn a gefnogir gan Bolisi Cynllunio Cymru, paragraff 2.5.</p> <p>Tynnu'r cyfeiriad tuag at fesul cam o bwyt 4 neu ei gyfiawnhau yn y tesun cefnogol.</p>	<p>Derbyn yn rhannol – Fe nodai'r polisi y bydd datblygiad graddol ond yn berthnasol lle fyddai'n briodol gwneud hynny. Mae paragraff 4.13.3 o PCC yn cyfeirio at ddatblygiad graddol yn nhermau gwarchod yr iaith Gymraeg ac mae paragraff 12.1.7 o PCC yn cyfeirio at allu darparu'r seilwaith derbyniol. Mae'r Asesiad Effaith Ieithyddol hefyd yn cyfeirio tuag at ddatblygu cam wrth gam mewn rhai amgylchiadau i leihau unrhyw effeithiau bosib ar yr iaith Gymraeg. Mae sicrhau datblygiad graddol yn bwysig felly o safbwynt agwedd ymarferol ac o ran cynnal</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>cymunedau. Mae'n bwysig felly cadw'r cyfeiriad tuag at ddatblygiad graddol yn y polisi.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Nodir fod Newid â Ffocws NF62, sydd yn deillio o sylwadau a dderbyniwyd o ran effaith y Cynllun ar yr iaith Gymraeg, yn cynnig polisi ychwanegol er mwyn rhoddi mwy o arweiniad am ddatblygu fesul cam. Bydd y newid hwn felly yn berthnasol o ran ymateb i'r sylw hwn.</p> <p>Newid â ffocws NF62</p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder ac i sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn rhwydd.</p>
414	Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]	POLISI TAI1	Cefnogi	Mae geiriad y polisi yn addas i ardal y Cynllun	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
431	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	POLISI TAI1	Cefnogi	Mae eisiau darparu croes-doriad o dai o wahanol fathau o ddyluniad newydd, dyfeisgar ac ynni-ffeithiol, er mwyn sicrhau tai addas ar gyfer pobl ar wahanol adegau trwy eu bywydau. Mae hyn yn bwysig iawn i gadw pobl yn y gymunedol leol, ac felly cadw'r iaith Gymraeg.	<p>Nodi'r sylw - Mae'n bwysig fod y tai sydd yn cael eu darparu yn cwrdd ag anghenion cydnabyddedig er mwyn cynorthwyo i gynnal cymunedau. Tynnir sylw yn ogystal at bolisiau perthnasol eraill yn y Cynllun megis PCYFF2 ('Dylunio a Siapio Lle').</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
734	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	POLISI TAI1	Gwrthwynebu	Dywedir yma y 'Bydd Canllaw Cynllunio Atodol am y maes yma'n cael ei gyhoeddi i roi mwy o arweiniad'. Ail-adroddwn ein sylwadau yn p. 7.1.4.	<p>Derbyn yn rhannol - Nodir fod y sylw am baragraff 7.1.4 yn cyfeirio at Bolisi PS1 'Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig'. Cadarnheir y bydd Canllaw Cynllunio Atodol yn cael ei baratoi ar gyfer y maes 'Cynnal a chreu cymunedau unigryw a chynaliadwy'. Mae Atodiad 9 y Cynllun Adnau (Rhestr Canllawiau Cynllunio Atodol) yn nodi fod y CCA hwn yn berthnasol ar gyfer polisiau PS1, ISA1 a PS5. Credir y gellir ychwanegu cyfeiriad penodol at Bolisi TAI1 i'r rhestr hwn yn ogystal.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ychwanegu cyfeiriad at Bolisi TAI1 i'r golofn 'Polisiau perthnasol yn y Cynllun</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>Adnau' yn Atodiad 9 o safbwynt y Canllaw Cynllunio Atodol 'Cynnal a chreu cymunedau unigryw a chynaliadwy'.</p> <p>Newid bychan NB24</p> <p>Er mwyn sicrhau cysondeb o fewn y Cynllun ac i sicrhau bod y Cynllun yn cynnwys croes gyfeiriadau priodol</p>
735	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	POLISI TAI1	Cefnogi	<p>Dywed pwynt 6 'Gwella ansawdd ac addasrwydd y stoc dai bresennol'.</p> <p>Cytunwn yn llwyr â hyn a dylid ei annog bob tro yn hytrach nag adeiladu rhai newydd.</p>	<p>Nodi'r sylw - Cytuno y dylid annog hyn ond nodi'r bod lle hefyd i ddatblygu tai o'r newydd cyn belled â'u bod yn cwrdd â strategaeth y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
957	CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]	POLISI TAI1	Gwrthwynebu	<p>Mae angen cydweithio efo'r Brifysgol er mwyn cynllunio ar gyfer anghenion tai Bangor. Caniatawyd beth wmbraith o anheddau myfyrwyr dros y blynyddoedd diwethaf ac o ganlyniad, mae fflatiau myfyrwyr ymhob man a thai ar rent o gwmpas y ddinas yn wag. Nid yw'r tai rhent yma yn fforddiadwy ar gyfer y sector gymdeithasol oherwydd fod y rhent wedi ei bennu ar gyfer myfyrwyr. Felly ar hyn o bryd maent yn wag. Felly, dylid ystyried y tai sy'n wag ar hyn o bryd cyn adeiladu mwy o dai.</p>	<p>Dim yn derbyn - Cytuno fod gan y Brifysgol rôl bwysig o ran y farchnad dai ym Mangor ac felly mae'n bwysig cydweithio gyda hwy. Nodir bod cyddrafod gyda swyddogion y Brifysgol wedi digwydd wrth baratoi'r Cynllun. Gweler polisiau penodol yn y Cynllun o safbwynt 'Llety myfyrwyr pwrpasol' (TAI6) a 'Isrannu eiddo presennol i fflatiau hunangynhaliol a thai amlfeddiannaeth' (TAI2).</p> <p>Mae'r sefyllfa o ran tai gwag ym Mangor wedi ei ystyried fel rhan o'r gwaith Astudiaeth Capasiti Trefol sydd yn asesu'r potensial ar gyfer cyfarch y galw am unedau tai mewn aneddleoedd heb orfod dynodi tir gwyrdd du allan i ffiniau. Mae'r wybodaeth hyn yn bwydo mewn i'r ffigyrau anghenion tai a nodir yn y Cynllun a sut fydd y galw yn cael ei gyfarch fesul Canolfan.</p> <p>Os nad oes galw am dai rhent gan fyfyrwyr yna bydd dylanwad y farchnad yn golygu bydd symudiad yn y galw o ran pwy fydd yn byw yn yr unedau hyn.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
962	Cyngor Cymuned Botwnnog (Mrs Gwenda Roberts) [1541]	POLISI TAI1	Gwrthwynebu	Yn wyneb fod y boblogaeth yn heneiddio a'r pwyslais mawr gan y llywodraeth i ofalu amdanynt yn eu cymuned, oni ddylai'r Cynllun arfaethedig ofalu fod tai pwrpasol ar eu cyfer yn y cymunedau lle maent yn byw? Mae'n holl bwysig fod y bobl hŷn yn cael treulio gweddill eu hoes yn eu cynefin a'r amgylchfyd maent wedi arfer erioed.	<p>Dim yn derbyn - Credir fod strategaeth y Cynllun a'r polisiau sydd ynddo, e.e. Polisi TAI1 a Pholisi TAI4 yn hwyluso datblygiadau perthnasol o'r fath er mwyn cynnal a chryfhau cymunedau. Cyfeirir hefyd at y bwriad i gyhoeddi CCA a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth am gymysgedd tai yn ardal y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
965	Cyngor Dinas Bangor (Mr Gwyn Hughes) [1523]	POLISI TAI1	Gwrthwynebu	<p>Mae'r Cyngor o'r farn y dylai'r CDLI ar y Cyd gynnwys polisiau i annog 'Byw Uwchben y Siop' yn Stryd Fawr Bangor. Byddai hyn yn:</p> <p>i) Darparu llety preswyl angenrheidiol mewn lleoliad cynaliadwy;</p> <p>ii) Rhoi defnydd economaidd i lorïau uchaf adeiladau siop y Stryd Fawr, a all arwain at ysgogi landlordiaid i fuddsoddi yn yr adeiladau hyn.</p> <p>iii) Dod a diogelwch a bywiogrwydd yn ôl i ganol y dref.</p>	<p>Dim yn derbyn - Ni chredir fod angen polisi penodol yn y Cynllun o ran hyn. Gellir trosi gofod uwchben siop i un fflat heb ganiatâd cynllunio h.y. mae'n ddatblygiad a ganiateir.</p> <p>Os am drosi gofod i fwy nag un uned breswyl, yna bydd polisiau tai presennol y Cynllun, megis TAI2 a TAI14 yn ystyriaethau perthnasol. Bydd yn bwysig sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad o'r fath yn effeithio'n andwyol ar hyfywedd a bywiogrwydd</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				iv) Helpu adfywio'r Stryd Fawr.	<p>canol y dref yn unol â pholisiau PS12, MAN1 a MAN2.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
969	CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]	POLISI TAI1	Gwrthwynebu	Dylid defnyddio'r Stryd Fawr a chanol y ddinas hefyd ar gyfer anheddau, yn ogystal â masnach ac adloniant. Ni ddylid adeiladu yn uwch na thri llawr wrth adeiladu fflatiau neu neuaddau myfyrwyr mewn safleoedd nad ydynt ar gampws.	<p>Dim yn derbyn – Mae'r Cynllun eisoes yn hwyluso datblygiad preswyl perthnasol yng nghanol trefi cyn belled na fyddent yn effeithio'n andwyol ar eu hyfywedd a'u bywiogrwydd.</p> <p>Bydd Polisi TAI6 ('Llety myfyrwyr pwrpasol') yn ymdrin â cheisiadau cynllunio ar gyfer llety myfyrwyr. Bydd uchder datblygiadau o'r fath yn ffactor a gaiff ei ystyried adeg cyflwyno cais cynllunio. Bydd yn rhaid ystyried manylion penodol cais ar sail haeddiant ei hun yn unol â gofynion polisiâu megis Polisi PCYFF2, 'Dylunio a Siapio Lle'.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1267	Hwylusydd Tai Gwledig (Mr Arfon Hughes) [1189]	POLISI TAI1	Cefnogi	Mae darpariaeth addas o dai mewn ardaloedd gwledig yn bwysig er mwyn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy ac mae newidiadau mewn hawliau lles yn golygu bod pobl yn gorfod symud i eiddo llai. Mae canran uwch o'r boblogaeth wledig yn awyddus i fyw yn eu cynefin ac mae'n bwysig medru cynnig y math o dai ar eu cyfer. Ceir hefyd poblogaeth sy'n heneiddio ar angen i gael tai sydd yn hawdd i'w haddasu ac i bobl allu byw o fewn eu cartrefi a'u cymunedau cyn hired ag sydd bosib. Mae gan Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd rôl ganolog er mwyn sicrhau bod y polisi hwn yn cyfrannu at y math cywir o ddarpariaeth yn y Sir.	<p>Nodi'r sylw - Mae'n hollbwysig fod y cynllun yn cwrdd ag anghenion cydnabyddedig.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1421	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	POLISI TAI1	Gwrthwynebu	<p>Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y Polisiâu Rheoli Datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun drafft</p> <p>Cyfleoedd na fyddai'n rhwystro'r datblygiadau canlynol:-</p> <p>* Mewn amgylchiadau, lle byddai'n helpu i fodloni angen lleol am dai, gan gynnwys cynlluniau sy'n gyson a'r Polisi Tai Fforddiadwy</p>	<p>Dim yn derbyn - Credir fod y Cynllun yn hyrwyddo datblygiadau o'r math cywir yn y lleoliadau cywir. Bydd felly yn hwyluso datblygiadau tai ar gyfer bodloni anghenion lleol, gan gynnwys felly tai fforddiadwy, cyn belled â'u bod yn bodloni strategaeth dai'r Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

TAI 2 – Isrannu Eiddo Presennol i Fflatiau Hunangynhaliol a Thai Amlfeddiannaeth

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
80	Cyngor Cymuned Y Felinheli (Cyng. Sian Gwenllian) [2683]	POLISI TAI2	Cefnogi	Cytuno	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
430	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon)	POLISI TAI2	Cefnogi	Dylid annog adeiladu adeiladau gydag amlfeddiannaeth sy'n addas ar gyfer yr henoed, er enghraifft gydag un boeler biomas.	Nodi'r sylw cefnogol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	[2940]				<p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
523	Cymdeithas Dinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988]	POLISI TAI2	Gwrthwynebu	TAI 2 Tai Amlfeddiannaeth. Beth yw'r sefyllfa os yw llety presennol (nad yw'n cael ei rannu) eisoes yn uwch na'r cyfyngiadau a awgrymir?	<p>Dim yn derbyn – mae maen prawf 3 yn y polisi yn ceisio sicrhau nad yw bwriad yn arwain at grynodiad gormodol o ddefnyddiau o'r fath a fuasai yn niweidio ardal breswyl.</p> <p>Mae'r eglurhad i'r polisi yn gosod gwahanol lefel trothwy o fewn gwahanol Wardiau yn Ninas Bangor. Os yw ardal yn uwch na'r trothwy yma yna buasai disgwyl i gais gael ei wrthod oni bai bod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn gorbwysu'r polisi.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
526	Cymdeithas Ddinesig Bangor 1 (Don Mathew) [2988]	POLISI TAI2	Cefnogi	TAI2: Tai Amlfeddiannaeth - rydym yn croesawu'r ymgais gyntaf i roi cap ar lety nad yw'n cael ei rannu a defnyddio 'parth chwilio a ffafrir'.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
629	Tom Brooks [3034]	POLISI TAI2	Gwrthwynebu	Mae newid defnydd adeiladau sydd yn addas ar gyfer teuluoedd yn y ffordd yma yn tynnu ffwrdd cartrefi sydd yn allweddol i breswylwyr ifanc lleol o'r stoc dai. Newid: Dylai'r gair 'teras' gael ei dynnu allan o faen prawf 1. Dylid ychwanegu maen prawf ychwanegol ar ôl A5 "Nad yw'r eiddo heb ei restru mewn anheddle o fewn polisi TAI5" os yw Borth y Gest yn cael ei ychwanegu i'r rhestr o gymunedau a enwir yn TAI5 neu fe ddylai y maen brawf ddarllen "Nad yw'r eiddo o fewn pentref arfordirol", os nad yw Borth y Gest ym mholisi TAI5.	<p>Dim yn derbyn - mae isrannu tai i fflatiau hunangynhaliol a thai amlfeddiannaeth y gallu helpu i sicrhau bod yna gymysgedd briodol o dai yn cael ei pharatoi o fewn ardal y Cynllun.</p> <p>Fodd bynnag i sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i broblemau all godi o fath ddatblygiadau mae yna gwahanol ffactorau sydd angen ei ystyried efo unrhyw gais sef addasrwydd y tŷ presennol i'r datblygiad arfaethedig a'i effaith ar fwynder defnyddiau cyfagos. Oherwydd hyn ni ystyrir bod tai teras dau lawr yn adeiladau addas i'w isrannu.</p> <p>Mae ymatebion eraill yn delio efo addasrwydd cynnwys Borth-y-Gest ym mholisi TAI 5 fodd bynnag buasai bwriad mewn anheddle ym mholisi TAI 5 neu Bentref Arfordirol yn cael ei ystyried yn erbyn meini prawf y polisi a lefel twf disgwylidig yr anheddle yn hytrach na ar sail pa gategori mae'n disgyn ynddo.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
743	Cyngor Dinas	POLISI	Gwrthwynebu	Mae Cyngor y Ddinas yn croesawu'r rheolaeth	Derbyn y sylw - fe geir cyfeiriad i Dai mewn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Bangor (Mr Gwyn Hughes) [1523]	TAI2		a'r diogelwch a gynhwysir yn y CDLI ar y Cyd ynglŷn â'r math hwn o lety ym Mangor ac mae hefyd yn croesawu'r cyfyngiad a roddir ar ddiwedd y fath lety yng ngwahanol wardiau fel y nodir yn y ddogfen. Fodd bynnag, mae o'r farn bod angen i ddiffiniad y math hwn o lety gael ei wneud yn eglur ac yn ddiamwys yn y Cynllun. Croesawir y Papur Pwnc 'Llety Myfyrwyr' fel y croesawir yr ymrwymiad i ddiweddarau'r data yn y Papur Testun yn flynyddol.	<p>Amlfeddiannaeth yn y tabl Rhestr Termau yn gefn y Cynllun Adnau. Fodd bynnag teimlir y gellid rhoi fwy o eglurhad yma ar gyfer ei chyd-destun efo polisi TAI 2.</p> <p>Yn ogystal ni cheir cyfeiriad i Fflatiau Hunangynhaliol yn y Rhestr Termau yma a chytunir i'w ychwanegu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio Rhestr Termau er mwyn rhoi gwell diffiniad i Dai mewn Amlfeddiannaeth a Fflatiau Hunangynhaliol.</p> <p>Newid a Ffocws NF111</p>
1177	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI TAI2	Gwrthwynebu	Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisi hwn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisiâu penodol ar gyfer Wylfa Newydd (gweler sylwadau Horizon mewn perthynas â'r Cynllun). Rheiny fyddai'r polisiâu perthnasol ar gyfer gwneud ymatebion ymgynghori i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac i benderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisi hwn.	<p>Derbyn yn rhannol - gweler ymateb y Cynghorau i bolisiâu newydd mae Horizon wedi ei gynnig ar gyfer delio efo Wylfa Newydd.</p> <p>Ni chredir bod angen polisi ar wahân ar gyfer delio efo bwriad fuasai yn gysylltiedig efo datblygiad Wylfa Newydd. Bydd y materion allweddol i'w ystyried efo bwriad isrannu eiddo presennol yn gyson pwy bynnag fydd yn defnyddio'r adeilad wedi iddo gael ei isrannu.</p> <p>Cytunir y gellid cynnwys geirfa yn yr eglurhad yn amlygu ystyried adeiladau gwag neu rhai</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>sydd yn cael eu tanddefnyddio ar gyfer llety gweithwyr adeiladu dros dro cyn eu bod yn dod i ddefnydd preswyl. Fodd bynnag buasai yn rhaid ystyried angen ar hap aneddleoedd ac effaith fath ddatblygiadau ar hyn.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Cynnwys geirfa yn yr eglurhad i'r polisi i gadarnhau y gallai defnyddio adeiladau gwag/ rhai sy'n cael eu tanddefnyddio fod yn un o'r opsiynau i gyfrannu at gyfarch galw am lety gweithwyr dros dro.</p> <p>Newid a Ffocws NF63</p>
1269	Partneriaeth Tai Gwynedd / Gwynedd Housing Partnership (Elfyn Owen) [3052]	POLISI TAI2	Cefnogi	<p>Mae maint cyfartalog aelwydydd yn lleihau sy'n golygu newid mewn cyfansoddiad aelwydydd gyda nifer uwch o aelwydydd un person ynghyd a newidiadau mewn polisi lles yn golygu bod mwy o bobl yn chwilio am unedau llai. Mae gwybodaeth o ran nifer o bobl sydd yn chwilio am eiddo 1 llofft sydd wedi eu hadnabod i fod yn ddigartref gan y Cyngor yn dangos hyn yn glir. Yn yr un modd mae angen ar gyfer eiddo 2 llofft er mwyn sicrhau bod teuluoedd sydd yn cael eu heffeithio gan bolisi lles yn gorfod edrych i symud i eiddo llai. Gall y polisi hwn fod o gymorth er mwyn sicrhau bod darpariaeth briodol o eiddo 1 a 2 ystafell wely ar gael.</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

TAI 3 – Llety Pwrpasol Newydd, Tai Amlfeddiannaeth a Thai eraill gyda chyfleusterau a’u Rhennir ar gyfer Gweithwyr Adeiladu dros dro

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newidiadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
1176	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	7:4 Heb ei Gynnwys	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn gofyn am eglurhad o ran pa rai o'r polisiâu ym Mhennod 7.4 sydd wedi'u bwriadu i gynnwys y strategaeth ar lety i weithwyr Wylfa Newydd ac, yn fwy penodol, pa agweddau o'r llety i weithwyr. Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisi hwn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisiâu penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisiâu perthnasol ar gyfer gwneud ymatebion ymgynghori i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac i benderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisi hwn.	<p>Dim yn derbyn –Mae polisi TAI 3 yn cyfeirio yn uniongyrchol ar gyfer llety pwrpasol newydd ar gyfer gweithwyr adeiladu dros dro ar gyfer Wylfa Newydd.</p> <p>Mewn ymateb i sylw arall mae yna newid a ffocws ar gyfer cynnwys brawddeg ychwanegol yn yr eglurhad i bolisi TAI 2 'Isrannu Eiddo Presennol'. Mae hyn yn egluro y gall adeiladau gwag / rhai sy'n cael eu tan-ddefnyddio fod yn cyfrannu at gyfarch rhan o'r galw am lety gweithwyr dros dro.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
1178	Pwêr Niwclear Horizon(Miss Sarah Fox) [2919]	POLISI TAI3	Gwrthwynebu	Ar sail y polisiâu penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod, dylid dileu cyfeiriadau yn y polisi hwn at y "gweithwyr adeiladu dros dro"; yn eu lle, dylid defnyddio'r polisiâu penodol ar gyfer Wylfa Newydd. O ran weddill y polisi TAI3	<p>Derbyn yn rhannol - Tra ddim yn derbyn y polisiâu penodol ar gyfer Wylfa Newydd sydd yn cael e i gynnig gan Horizon, gweler yr ymateb penodol i rain, cytuno i newid polisi TAI 3 trwy dynnu allan y cyfeiriad tuag at 'transient' yn y Saesneg fodd bynnag teimlir bod y term 'gweithwyr adeiladu dros dro' yn derm cywir yn y Gymraeg.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newidiadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion Swyddogion
				hwn hefyd, yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisi, sy'n pennu'n rhy dynn ar gyfer caniatáu'r cyfleusterau y bydd Horizon eu hangen, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisiâu penodol ar gyfer Wylfa Newydd (gweler sylwadau Horizon mewn perthynas â'r Cynllun). Rheiny fyddai'r polisiâu perthnasol ar gyfer gwneud ymatebion ymgynghori i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac i benderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisi hwn.	<p>Mae yna newidiadau i eiriad ac ail-osod meini prawf o fewn y polisi.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Tynnu allan y term 'transient' o'r fersiwn Saesneg a newid geiriad ac ail-osod meini prawf o fewn y polisi.</p> <p>Newid â Ffocws NF64</p>

TAI 4 – Cartrefi Gofal Preswyl, Tai Gofal Ychwanegol neu Lety Gofal Arbenigol ar Gyfer yr Henoed

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
-----------	-----	------	------	--	-------------------------------------

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
424	Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]	Polisi TAI4	Cefnogi	Mae'r boblogaeth yn heneiddio, a rhaid wrth gyflenwad digonol o dai sy'n addas ar eu cyfer. Mae'n bwysig bod hyn yn cynnwys addasu tai presennol rhag gor ddarparu tai ychwanegol. Dylid ceisio galluogi pobl hŷn i aros yn eu cymunedau, sydd yn ei dro yn cyfrannu at gynladwyedd cymdeithasol ac economaidd y cymunedau hynny	<p>Nodi'r sylw - Credir fod y Cynllun yn hwyluso darpariaeth o'r math hwn. Cyfeirir hefyd at Bolisi TAI1.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
1268	Partneriaeth Tai Gwynedd (Elfyn Owen) [3052]	Polisi TAI4	Cefnogi	Mae'r boblogaeth yn heneiddio ac felly mae angen darpariaeth o dai addas megis byngalos, fflatiau neu unedau gellir eu trosi'n hawdd. Mae dau gynllun tai gofal ychwanegol wedi eu datblygu yn y Sir gyda thrydydd cynllun i ddechrau ym mis Medi. Er bod y model hwn yn diwallu ychydig o'r angen mae angen cyflenwad cyson sy'n addas neu gellir ei addasu ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio megis 'lifetime homes' a safon ar gyfer datblygu tai sydd yn derbyn grant tai cymdeithasol. Mae'r Strategaeth Letya Pobl Hŷn wedi ei lunio gyda gwaith dadansoddol wedi ei gynnal i adnabod ardaloedd sydd gyda dwysder uwch o bobl hŷn a all olygu mwy o ddibyniaeth ar wasanaethau gofal yn y dyfodol.	<p>Nodi'r sylw - Credir fod y Cynllun yn hwyluso darpariaeth o'r math hwn.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

TAI 5 – Tai Marchnad Lleol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1031	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	<p>Mae Paragraff 9.2.4 Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn gwneud yn glir na fyddai amod meddiannaeth fel arfer ar gyfer tai marchnad ar gyfer anghenion lleol penodol. Byddai'n rhaid wrth dystiolaeth gref i gyfiawnhau gwro o'r polisi cenedlaethol yn hyn o beth. Felly, dylai'r dystiolaeth fynd ymhellach ac esbonio'n fanwl pam na allai'r polisiau tai fforddiadwy a darparu tai fforddiadwy canolraddol, helpu i ddiwallu'r angen a nodwyd. At hynny, dywed paragraff 7.4.39 y cyfyngir tai'r farchnad leol a ganiateir o dan Bolisi TAI5 i'r rheini sy'n gymwys trwy gytundebau Adran 106 lleol. Nid yw felly yn cydymffurfio â PCC h.y. bod yr ymrwymiad yn angenrheidiol i "wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio" (PCC 3.7.6).</p>	<p>Derbyn yn rhannol – Credir fod geiriad paragraff 9.2.4 o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi'n glir y cyfle i gyflwyno polisi o'r fath. Dyweder bod rhaid i awdurdodau lunio polisiau sy'n cyfarch yr heriau yn lleol ac os oes angen i'r polisiau hynny wyro oddi ar bolisi cenedlaethol bod gwneud hynny'n seiliedig ar dystiolaeth rymus. Credir fod dystiolaeth gref a chadarn yn cael ei ddarparu ym Mhapur Testun 17 i gefnogi a chyfiawnhau'r polisi a'r hyn mae'n ceisio ei gyflawni.</p> <p>Nodir nad ydi'r gwrthwynebydd wedi herio'r fethodoleg/ meini prawf sydd ynghlwm â'r polisi nac wedi atgyfnerthu eu barn gyda thystiolaeth rymus.</p> <p>Credir fod yn rhaid sicrhau fod yr unedau a fyddai'n destun y polisi hwn yn cwrdd ag anghenion lleol cydnabyddedig am byth. Tra nodai'r eglurhad i'r polisi yn y Cynllun Adnau y dylid ymglymu'r unedau drwy</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>gytundeb adran 106, cynigir diwygio'r geiriad er mwyn rhoddi'r cyfle i allu defnyddio dulliau eraill er mwyn sicrhau hyn e.e. amod cynllunio. Gellir ymhelaethu ar hyn yn y Canllaw Cynllunio Atodol perthnasol fydd yn cael ei baratoi o ran y maes hwn. O safbwynt defnyddio ymrwymiad cynllunio, credir fod hyn yn dderbyniol yn unol â geiriad paragraff 9.2.4 o PCC.</p> <p>Derbyn y dylid darparu rhagor o wybodaeth yn y polisi a Phapur Testun 17 i esbonio sut mae'r polisi hwn yn wahanol i'r polisiau tai fforddiadwy o ran diwallu anghenion penodol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dileu'r cyfeiriad at ddefnyddio Cytundeb Adran 106 yn yr eglurhad i'r polisi (paragraff 7.4.39) er mwyn rhoi'r cyfle i ddefnyddio dulliau eraill ar gyfer ymglymu'r tai i fod yn rhai marchnad lleol.</p> <p>Darparu rhagor o wybodaeth yn y polisi a hefyd ym Mhapur Testun 17 i esbonio sut mae'r polisi hwn yn</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>wahanol i'r polisiâu tai fforddiadwy o ran diwallu anghenion penodol.</p> <p>Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus i gyfiawnhau unrhyw ddiwygiad pellach i'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Newid â ffocws NF66</p> <p>Er mwyn sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn rhwydd.</p>
599	Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	<p>Bydd caniatáu tai marchnad leol a thai fforddiadwy yn unig yn gwario cymunedau'n gymdeithasol ac yn economaidd ac yn cynyddu amddifadedd. Mae Polisi Cenedlaethol yn mynnu cymysgedd o dai fforddiadwy a thai ar y farchnad agored er mwyn sicrhau cymunedau cynaliadwy. Bydd cyfyngu datblygiadau i dai marchnad leol yn arwain at anghydbwysedd cymdeithasol.</p> <p>Byddai caniatáu tai angen lleol neu dai fforddiadwy mewn aneddiadau penodol yn debygol o sicrhau na ellir darparu'r lefel gofynnol o dai. Ni ellir cyflawni tai</p>	<p>Ddim yn derbyn - Credir fod y polisi hwn yn cryfhau cymunedau penodol ble mae problemau amlwg o fewn y farchnad dai leol, yn hytrach na'u gwanhau. Mae'n darparu cyfleoedd o fewn marchnadoedd tai lleol a gan hynny yn hybu cynaliadwyedd cymdeithasol. Mae'r lleoliadau hyn wedi eu dewis ar sail methodoleg glir ym Mhapur Testun 17. Nodir nad ydi'r gwrthwynebydd wedi herio'r fethodoleg/ meini prawf sydd ynghlwm â'r polisi nac wedi atgyfnerthu eu barn gyda thystiolaeth rymus. Noder y bydd tai marchnad agored dal ar gael yn y lleoliadau hyn</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				<p>angen lleol a thai fforddiadwy ond drwy ddatblygiadau cytbwys, hyfyw (gan gynnwys tai marchnad agored a thai fforddiadwy yn y datblygiadau). Mae 'tai angen lleol' yn dyblygu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy ac nid oes ei angen ac ni ellir ei gyflawni.</p> <p>Dylid dileu'r Polisi.</p>	<p>o fewn y stoc dai bresennol. Yn hyn o beth credir yn gryf y dylid cadw'r polisi hwn.</p> <p>Credir fod PCC yn rhoddi'r cyfle i gyflwyno polisi o'r fath mewn lleoliadau penodol pan fo tystiolaeth yn cadarnhau hynny. Dyweder bod rhaid i awdurdodau lunio polisiâu sy'n cyfarch yr heriau yn lleol ac os oes angen i'r polisiâu hynny wyro oddi ar bolisi cenedlaethol bod gwneud hynny'n seiliedig ar dystiolaeth rymus. Problemau dwys o fewn rhai aneddeoedd penodol sydd wedi arwain at y Polisi hwn. Bydd yn bosib darparu tai marchnad agored newydd mewn lleoliadau eraill o fewn ardal y Cynllun.</p> <p>Mae tai marchnad leol yn wahanol i dai fforddiadwy. Credir bydd datblygiadau yn yr aneddeoedd a'u henwir yn y polisi yn hyfyw ar sail datblygiadau tai marchnad lleol yn unig neu wrth eu datblygu ar y cyd gyda thai fforddiadwy.</p> <p>Nid oes rheswm i ystyried y bydd y polisi hwn yn golygu na ellir darparu'r</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>lefel gofynnol o dai mewn aneddiadau penodol. Mae Papur Testun 17 yn cyfeirio at lwyddiant polisiau tebyg mewn ardaloedd sydd dan bwysau tai yn Lloegr. Bydd y fframwaith fonitro yn amlygu llwyddiant neu beidio'r Polisi.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
286	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mr Mark Harris) [1470]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	<p>Mae'r Ffederasiwn Adeiladwyr Tai yn gwrthwynebu'r egwyddor o gyfyngu tai marchnad i 'bobl leol' gan ei fod yn gyfyngiad gormodol ar y farchnad breifat. Mae'n ymddangos fod y polisi hwn yn cyfyngu ormod ar ddatblygiad sy'n dderbyniol mewn egwyddor gan ei fod o fewn ffin anheddiad neu ffin ddatblygu sydd wedi'i dynodi. Dylid cyfyngu polisi o'r fath i safleoedd eithrio.</p> <p>Tynnu'r gofyniad 'tai marchnad leol'.</p> <p>Ychwanegu pwynt arall (1 iii.) sydd yn galluogi gwerthiant ar y farchnad agored os nad yw'r ddau faen prawf arall wedi eu cwrdd.</p>	<p>Ddim yn derbyn – Ar sail geiriad PCC, mae'n bwysig cyflwyno'r polisi mewn rhannau penodol iawn o ardal y Cynllun ble mae problemau dwys o fewn y farchnad dai a ble fyddai'n fuddiol yn gymdeithasol ac yn economaidd. Yn hyn o beth credir ei fod yn bwysig fod y polisi yn berthnasol ar gyfer datblygiadau o fewn ffiniau datblygu er mwyn iddo allu cyflawni ei fwriad. Mae Polisi TAI10 yn cynorthwyo i gynyddu'r ddarpariaeth o unedau fforddiadwy i gwrdd ag angen lleol ar safleoedd eithrio gwledig.</p> <p>Nodir nad ydi'r gwrthwynebydd wedi herio'r fethodoleg/ meini prawf sydd ynghlwm â'r polisi nac wedi atgyfnerthu eu barn gyda thystiolaeth rymus.</p> <p>Ni ddylid cael gwared â'r gofyniad am dai marchnad leol gan ei fod yn ceisio sicrhau cyfleoedd mewn ardaloedd ble mae tystiolaeth yn dangos fod gwir broblemau yn bodoli. Ni chredir felly fod y polisi yn cyfyngu yn ormodol ar ddatblygiad yn y manau hynny.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>Ar sail yr hyn mae'r polisi yn ceisio ei gyflawni, ni ddylid ychwanegu maen prawf ychwanegol sydd yn rhoi cyfle i ddiwallu anghenion ar y farchnad agored. Fodd bynnag bydd cyfle i ryddhau eiddo i farchnad ehangach, er enghraifft drwy gymal o fewn cytundeb 106, os nad oes diddordeb yn lleol o fewn cyfnod penodol, er mwyn uchafu'r cyfle i gael morgais.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
611	Tom Brooks [3034]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	<p>Mae TAI5 yn afresymol o ran ei ddewis o "aneddiadau perthnasol". Yn y Papur Testun, priodolir nodweddion ward Gorllewin Porthmadog i Borth-y-Gest. Felly, mae'r dadansoddiad wedi creu canlyniad ffug o ran nodweddion Borth-y-Gest.</p> <p>O gymharu â Mynytho, Sarn Bach ac ati, byddai Borth-y-Gest yn fwy na chymwys i</p>	<p>Derbyn - Mae'r asesiad o ran pa aneddeleoedd sydd yn berthnasol i'w hystyried o fewn y polisi hwn wedi ei seilio ar wybodaeth ar ffurf ddaearyddol wardiau. Derbynnir fod gwahaniaethau amlwg yn gallu bodoli o fewn rhai wardiau o safbwynt eu natur gymdeithasol, economaidd a.y.b.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				<p>fod yn "anheddiad perthnasol".</p> <p>Dylid ychwanegu Borth-y-Gest i'r rhestr o gymunedau a nodir yn TAI 5. Byddai peidio yn debygol o ladd yr elfen honno o'r iaith Gymraeg sydd ar ôl yn y pentref yn gyflym a chreu pentref fyddai'n hollol wag y tu allan i'r tymor twristiaeth.</p>	<p>Ar sail y ffaith fod y polisi yn canolbwyntio ar wardiau ble mae yna broblemau dwys o fewn y farchnad dai, yna cafwyd asesiad o'r aneddeleoedd sydd wedi eu hadnabod fel pentrefi arfordirol yn y Cynllun er mwyn sefydlu os ydynt yn berthnasol ar gyfer eu cynnwys yn y polisi hwn (gan fod y pentrefi arfordirol hyn gyda canran uwch na chyfartaledd yr ardal o gartrefi gwyliau neu ail gartrefi).</p> <p>Ynghyd â Borth-y-Gest, mae'r rhain fel y ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Aberffraw • Llanddona • Llangoed • Malltraeth • Edern • Morfa Bychan • Morfa Nefyn <p>Aseswyd aneddeleoedd ar sail Ardaloedd Allbwn ('Output Areas'), sef yr ardal ddaearyddol lleiaf ar gyfer gwybodaeth o'r Cyfrifiad. Gan nad yw gwybodaeth ar gyfer pob dangosydd ar gael ar gyfer y lefel hwn a gan nad yw'n bosib, ar sail ei faint daearyddol a hefyd yr amrediad o dystiolaeth/</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>gwybodaeth sydd ar gael, gymharu aneddleoedd unigol fel Borth-y-Gest (sydd yn anheddle unigol o fewn ward ehangach) gyda'r sefyllfa o ran wardiau unigol, yna roedd angen gwneud asesiad gwrthrychol ar sail y wybodaeth sydd ar gael os dylid ei gynnwys fel anheddle perthnasol ym Mholisi TAI5.</p> <p>Canfyddiadau'r gwaith yma oedd y dylid cynnwys y Pentrefi canlynol o fewn Polisi TAI 5;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Borth-y-Gest • Morfa Bychan <p>Argymhelliad</p> <p>Cynnwys Borth-y-Gest a Morfa Bychan o fewn polisi TAI 5.</p> <p>Newid â ffocws NF65, NF 66</p> <p>I sicrhau cywirdeb.</p>
70	Cyngor Tref Nefyn (Liz Saville Roberts) [2710]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Gofynnir i bentrefi arfordirol Morfa Nefyn ac Edern gael eu hychwanegu at y rhestr o bentrefi Tai Marchnad Lleol yng Ngwynedd oherwydd y ganran uchel o ail	<p>Dim yn derbyn – Fel y nodwyd eisoes, mae'n rhaid i'r aneddleoedd sydd yn cael eu cynnwys o fewn y polisi hwn gael ei seilio ar dystiolaeth gadarn a</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				<p>gartrefi.</p> <p>Tystiolaeth - yn ôl Cyfrifiad 2011 mae 28.3% o aelwydydd ward Morfa Nefyn (sy'n cynnwys Morfa Nefyn ac Edern) heb breswylwyr arferol. Noder bod hyn yn uwch nag un gymuned a gynhwysir yn barod, sef Tudweiliog gyda 19.6%.</p>	<p>phenodol fel y nodir ym Mhapur Testun 17.</p> <p>Mae Morfa Nefyn ac Edern wedi eu hail-hystyried fel rhan o'r gwaith o asesu is-ardaloedd (gweler achos Borth-y-Gest) er mwyn sefydlu os dylent gael eu cynnwys yn y polisi hwn. Mae hyn ar sail y ffaith eu bod wedi eu hadnabod fel pentrefi arfordirol yn y Cynllun.</p> <p>Nodir mai dim ond un dangosydd yw ail gartrefi o ran dewis yr aneddeleoedd perthnasol. Wedi ymgymryd â'r astudiaeth yn llawn, nid yw Morfa Nefyn nac Edern i'w cynnwys ym Mholisi TAI5.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
628	Iwan Edgar [251]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	<p>Cefnogi egwyddor y polisi, ond nid yw'n mynd yn ddigon pell. Dylid ymestyn y polisi dros Ddwyrfor i gyd (+ Penrhyndeudraeth) ac ystyried hynny dros fwy o ardaloedd yng Ngwynedd a Môn.</p> <p>Dylai'r Cynllun Adnau fod yn rhagweithiol yn amddiffyn yr iaith yn gyson â'r hyn a fynegir yn rhannau eraill o'r Cynllun.</p> <p>Yn atgyfnerthu'r ddadl dros ehangu'r ardal mae adroddiad "tai ac Incwm Gwynedd" sy'n dangos pa mor anfforddiadwy yw tai i'r boblogaeth gynhenid ac adroddiadau Hanfod 1 a Hanfod 2 sy'n dangos bod cryn potensial mewnlifiad eisoes yn Nwyfor yn dilyn y tai a godwyd rhwng 2001 - 2011.</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae paragraff 9.2.4 o PCC yn cyfeirio at "ddatblygu polisiau i gwrdd â'r heriau a'r amgylchiadau hynny sy'n benodol i fannau neilltuol yn eu hardaloedd". Mae angen canolbwyntio felly ar yr ardaloedd penodol hynny o fewn ardal y Cynllun ble ceir y problemau mwyaf dwys o fewn y farchnad dai leol. Mae hyn yn fodd o daclo'r anghydbwysedd o fewn y marchnadoedd tai hynny ac i gynnal a chryfhau cymunedau bregus.</p> <p>Gan fod angen i'r polisi ymdrin yn benodol â'r manau hynny ble ceir y problemau mwyaf dwys, mae'r wybodaeth ym Mhapur Testun 17 yn amlygu sut y dewiswyd yr ardaloedd hynny ar sail methodoleg a dangosyddion clir.</p>
633	Cyngor Tref Pwllheli (Mr Robin W Hughes) [1235]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	<p>Cefnogi yn rhannol y 6 ardal ond angen ehangu i gynnwys gweddill Dwyfor ac ystyried ardaloedd eraill o fewn Gwynedd.</p>	<p>Mae'n rhaid felly i'r ardaloedd a ddewisir gael eu seilio ar dystiolaeth gadarn fel nodir ym mharagraff 9.2.4 o PCC, "Os oes angen i'r polisiau hyn wro o'r polisiau cenedlaethol er mwyn diwallu anghenion penodol lleol am dai ar y farchnad agored (na chyfyngir fel rheol ar feddiannaeth), bydd angen i awdurdodau cynllunio</p>
635	Grŵp Ffocws Cynllun Datblygu Lleol (Mr Iwan Edgar) [3050]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	<p>Cefnogi'r egwyddor sydd y tu ôl i'r polisi hwn - ond yn ei wrthwynebu am nad yw'n mynd yn ddigon pell.</p> <p>Dylai'r polisi weithredu dros Ddwyrfor i gyd a rhannau pellach o'r 2 sir.</p>	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				<p>Dylai fod yn rhagweithiol i amddiffyn y Gymraeg i gyd-fynd â 5.6, 5.8, 6.23, 6.24, 6.25, 7.1.2, 7.1.3, 7.1.4 a Pholisi Strategol PS1.</p> <p>Dylid ymestyn y polisi dros Ddwyfor a mannau pellach yng Ngwynedd a Môn.</p>	<p>lleol gyfiawnhau'r gwyriad hwnnw yn ofalus gyda thystiolaeth gadarn sydd, yn eu barn hwy, yn briodol".</p> <p>Ar sail geiriad Polisi Cynllunio Cymru, dim ond y lleydd hynny ble mae'r problemau o fewn y farchnad dai yn fwyaf dwys a ble mae cyflwyno polisi o'r fath yn wirioneddol angenrheidiol i sicrhau buddiannau cymdeithasol ac economaidd ellir eu hystyried. Nodir fod yna bolisiau eraill o fewn y Cynllun Adnau sydd yn cynorthwyo pobl leol i gael cyfleoedd o fewn marchnadoedd tai eraill yn ardal y Cynllun e.e. darpariaeth berthnasol o dai fforddiadwy a chymysgedd briodol o dai.</p>
941	Cynghorydd Alwyn Gruffydd [381]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	<p>Mae Polisi TAI5, 'Tai Marchnad Leol' yn un i'w groesawu'n fawr ond rhaid ymestyn y nifer o aneddeleoedd penodol a ddynodir ar gyfer polisi o'r fath, y tu hwnt i'r 6 ardal a nodir ar hyn o bryd yn y Cynllun.</p> <p>Mae canlyniadau'r Cyfrifiad diwethaf wedi dangos dirywiad yn y ganran sy'n siarad Cymraeg yn rhan fwyaf o gymunedau'r Sir a byddai ymestyn yr ardaloedd Tai Marchnad Leol yn un arf defnyddiol i gyfarch hyfywdra cymunedol ac ieithyddol.</p> <p>Dylid cynyddu'r nifer o aneddeleoedd penodol a enwir o dan bolisi TAI5 'Tai Marchnad Lleol' er mwyn gwarchod ein cymunedau ac amddiffyn y Gymraeg.</p>	<p>Ni ellir cysylltu polisi o'r fath yn uniongyrchol gyda'r iaith Gymraeg, h.y. ni ellir cyfyngu meddiannaeth unedau tai i siaradwyr Cymraeg yn unig. Nodir hyn ar sail geiriad paragraff 3.7.4 o Nodyn Cyngor Technegol 20 'Cynllunio a'r Iaith Gymraeg' (Hydref 2013) sydd yn datgan y "Dylid gofalu nad yw polisïau'r CDLI sy'n ystyried anghenion</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
534	Hunaniaith (Ms Debbie Ann Williams) [1307]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	<p>Mae Polisi TAI5, 'Tai Marchnad Leol' yn un i'w groesawu'n fawr ond rhaid ymestyn y nifer o aneddeleoedd penodol a ddynodir ar gyfer polisi o'r fath, y tu hwnt i'r 6 ardal a nodir ar hyn o bryd yn y Cynllun.</p> <p>Mae canlyniadau'r Cyfrifiad diwethaf wedi dangos dirywiad yn y ganran sy'n siarad Cymraeg yn rhan fwyaf o gymunedau'r Sir a byddai ymestyn yr ardaloedd Tai Marchnad Leol yn un arf defnyddiol i gyfarch hyfywdra cymunedol ac ieithyddol.</p>	<p>a buddiannau'r Gymraeg yn gwahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail eu gallu ieithyddol. Ni ddylai polisïau cynllunio geisio rheoli pwy sy'n byw mewn tŷ ar sail ieithyddol". Fodd bynnag, mae'n rhesymol dod i gasgliad mai sgil-effaith yr hyn gaiff ei gyflawni trwy weithredu'r polisi fydd rhoi cyfleoedd i bobl sy'n weithgar economaidd aros neu ddychwelyd i'r ardal ac felly bod yn llesol i'r iaith Gymraeg.</p> <p>Pwysleisir mai'r wybodaeth a'r</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
630	Menter Môn (Helen Thomas) [1615]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	<p>Mae Polisi TAI5, 'Tai Marchnad Leol' yn un i'w groesawu'n fawr ond rhaid ymestyn y nifer o aneddeleoedd penodol a ddynodir ar gyfer polisi y tu hwnt i'r 6 ardal a nodir ar hyn o bryd yn y Cynllun.</p> <p>Mae canlyniadau'r Cyfrifiad diwethaf wedi dangos dirywiad yn y ganran sy'n siarad Cymraeg yn rhan fwyaf o gymunedau'r Sir a byddai ymestyn yr ardaloedd Tai Marchnad Leol yn un arf defnyddiol i gyfarch hyfywdra cymunedol ac ieithyddol.</p> <p>Cynyddu'r nifer o aneddeleoedd penodol a enwir o dan bolisi TAI5 'Tai Marchnad Lleol' er mwyn gwarchod cymunedau Gwynedd a hyfywedd y Gymraeg.</p>	<p>fethodoleg a nodir ym Mhapur Testun 17 yw'r sail i ddewis yr aneddeleoedd penodol sydd yn berthnasol ar gyfer y polisi ond fel nodwyd gyda'r ymateb i sylw 611, mae asesiad yn ystyried os dylid cynnwys pentrefi sydd wedi eu lleoli o fewn wardiau ehangach.</p> <p>Bydd Papur Testun 17 yn cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu gwaith ymchwil ychwanegol a gafodd ei wneud ers Chwefror 2015.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Er na chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun, nodir bod gwaith adolygu addasrwydd cynnwys unrhyw Bentrefi Arfordirol a leolir o fewn ward ehangach (fel nodir yn y sylw blaenorol) o fewn y polisi wedi cymryd lle. Bydd Papur Testun 17 yn adlewyrchu'r gwaith ychwanegol yma.</p> <p>Dim Newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
644	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Mae yna bentrefi eraill lle mae pwysau sylweddol gan ail gartrefi, a dylent fod wedi'u cynnwys yn y rhestr hon. Cwestiynwn p'un a fyddai'r mecanwaith Adran 106 i ofyn am ddefnydd 'lleol' (heb amod fforddiadwy) yn gallu cael ei gymhwyso'n ymarferol, gan ystyried y cynsail ar ôl i nifer o'r rhain gael eu codi.	<p>Dim yn derbyn -</p> <p>Mae'r aneddeleodd sydd wedi eu dewis ar gyfer y polisi hwn yn seiliedig ar ddangosyddion penodol. Mae ail gartrefi ond yn un o'r dangosyddion hyn.</p> <p>Tra bod enghreifftiau yng Ngwynedd o amodau tai lleol wedi eu codi, mae'r rhain yn ymwneud gydag unedau a ddatblygwyd yn unol â chyn Gynllun Lleol Dwyfor. Nid oedd cyfyngiad o ran maint yr unedau hynny ac felly, wrth ystyried yr amodau hyn yn unol â chynnwys CDU Gwynedd, ni ellir eu hystyried i fod yn fforddiadwy ychwaith. Yn ychwanegol i hynny, mae'r sail polisi ar gyfer yr unedau hynny bellach wedi mynd.</p>
281	Mr Aled Evans [2646]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	Tai Marchnad Lleol Ehangu'r ffiniau hefo hyn. Byddai hynny yn gwneud y farchnad yn fwy. e.e. Dwyfor Gyfan a Phenrhyndeudraeth yn farchnad leol.	Mae'r polisi arfaethedig yn wahanol gan ei fod yn seiliedig ar dystiolaeth a methodoleg glir sy'n golygu ei fod ond yn berthnasol ar gyfer aneddeleodd penodol ble mae tystiolaeth yn dangos fod problemau dwys o fewn y farchnad dai leol. Mae hefyd yn deillio yn uniongyrchol o'r hyn a nodir ym mharagraff 9.2.4 o Bolisi Cynllunio

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>Cymru. Mae maint unedau preswyl hefyd yn cael eu cyfyngu er mwyn sicrhau fod y polisi yn cwrdd ag anghenion lleol ac yn fwy tebygol o fod o fewn cyrraedd aelwydydd tebyg yn y dyfodol.</p> <p>Fel nodwyd yn flaenorol, argymhellir tynnu'r cyfeiriad at Amod 106 o'r eglurhad i'r polisi er mwyn galluogi'r posibilrwydd o ddefnyddio dulliau eraill o ymglymu unedau i fod yn rhai marchnad lleol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
625	Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd (Mr Arfon Hughes) [1189]	Polisi TAI5	Cefnogi	<p>Croesawu'r papur sydd yn rhoi cymorth i bobl fyw yn eu hardaloedd a chyfrannu i'w cymunedau. Mae'n adnabod yr her i 'ddiwallu anghenion penodol lleol am dai ar y farchnad agored'. Cyfeirir at fodol canolraddol a byddai'r Uned yn croesawu'r opsiwn hwn. Nifer o bobl methu fforddio tŷ i'w brynu a ddim yn disgyn i'r categori o fod mewn angen ar gyfer tai cymdeithasol.</p> <p>Gwybodaeth o Tai Teg a Chofrestr Tai Cyffredin Gwynedd yn dangos bod angen am dai yn bodoli, a bod angen mwy o waith ar lawr gwlad i sicrhau dilysrwydd yr angen yma o safbwynt angen lleol.</p>	<p>Nodi'r sylw</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
638	Partneriaeth Tai Gwynedd (Elfyn Owen) [3052]	Polisi TAI5	Cefnogi	<p>Croesawu'r papur sydd yn rhoi cymorth i bobl fyw yn eu hardaloedd a chyfrannu i'w cymunedau. Mae'n adnabod yr her i 'ddiwallu anghenion penodol lleol am dai ar y farchnad agored'. Cyfeirir at fodel canolraddol a byddai'r Uned yn croesawu'r opsiwn hwn. Nifer o bobl methu fforddio tŷ i'w brynu a ddim yn disgyn i'r categori o fod mewn angen ar gyfer tai cymdeithasol.</p> <p>Mae gwybodaeth o Tai Teg a Chofrestr Tai Cyffredin Gwynedd yn dangos yn glir bod angen am dai yn bodoli.</p>	<p>Nodi'r sylw</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
428	Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]	Polisi TAI5	Cefnogi	<p>Mae Polisi TAI5 yn addas i sefyllfa'r cymunedau a nodir ynddo</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
82	Adran Cynllunio a Thai, Cyngor Sir Ddinbych (Angela Loftus) [2719]	Polisi TAI5	Cefnogi	Cefnogi egwyddor y polisi o gyfyngu cartrefi marchnad agored i angen lleol mewn ardaloedd lle mae galw mawr am ail gartrefi.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
207	John Brinley Jones [2087]	Polisi TAI5	Gwrthwynebu	<p>Cael gwared â Pholisi TAI5 o'r fersiwn derfynol. Mae'r Polisi'n mynd yn groes i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol - Protocol Rhif.12 y Confensiwn ar gyfer Amddiffyn Hawliau Dynol a Rhyddidau Sylfaenol Rhufain, 4.XI.2000.</p> <p>Tynnu paragraff 7.4.37 Polisi TAI 5 o'r fersiwn derfynol.</p>	<p>Dim yn derbyn – Credir yn gryf y dylid cadw'r polisi. Credir fod geiriad paragraff 9.2.4 o Bolisi Cynllunio Cymru yn nodi'n glir y cyfle i gyflwyno polisi o'r fath a bod tystiolaeth gref a chadarn yn cael ei ddarparu ym Mhapur Testun 17 i gefnogi a chyfiawnhau'r polisi a'r hyn mae'n ceisio ei gyflawni. Nodir yn ogystal fod Awdurdodau Cynllunio eraill wedi creu a defnyddio polisi tebyg ers blynyddoedd (fel nodir ym Mhapur Testun 17).</p> <p>Mae Protocol rhif 12 (h.y. y protocol a nodir gan y gwrthwynebydd) yn darparu ar gyfer gwaharddiad cyffredinol o anffafiaeth ar unrhyw sail megis rhyw, hil, lliw, iaith, crefydd, barn wleidyddol neu arall, tarddiad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>cenedlaethol neu gymdeithasol, cysylltiad gyda lleiafrif cenedlaethol, eiddo, genedigaeth neu statws arall. Ni chredir fod y polisi hwn yn mynd yn groes i'r protocol.</p> <p>Ar sail y cynsail a osodir gan Awdurdodau eraill a'r dystiolaeth i gefnogi'r polisi, ni chredir bod sail i'r gwrthwynebiad.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
66	Cyngor Tref Biwmares (Prof TW Ashenden) [1267]	Para. 7.4.37	Cefnogi	Mae yna ddiffyg tai fforddiadwy ym Miwmares. Mae nifer gynyddol y tai haf a thai sy'n cael eu gosod yn gwaethygu'r sefyllfa. Mae Cyngor Tref Biwmares yn croesawu gwneud y polisi tai marchnad leol yn berthnasol i Fiwmares.	<p>Nodi'r sylw – Tra nodir nad yw'r polisi yn un ar gyfer tai fforddiadwy bydd yn cynorthwyo ardaloedd ble mae problemau dwys yn bodoli o fewn y farchnad dai.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
205	John Brinley Jones [2087]	Para. 7.4.39	Gwrthwynebu	<p>Mae'n hanfodol fod perchenogion busnes sy'n creu cyflogaeth a chyfoeth yn yr ardal yn cael eu hannog i symud i mewn i'r ardal neu os oes angen cartref arnynt yn un o'r pentrefi hyn a bod ganddynt ddarn o dir, ni ddylent orfod codi anheddau maint fforddiadwy caeth iawn gan y byddai o bosib angen cyfleusterau ychwanegol arnynt yn eu cartrefi megis gofod swyddfa neu fannau lle gallent weithio o'r cartref.</p> <p>Dylid ystyried pob cais cynllunio ar haeddiant ei hun yn hytrach na chael un polisi cyffredinol ar faint uned breswyl sydd yn amlwg methu cwrdd â phob anghenion.</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae'r polisi hwn yn fodd o gynorthwyo'r manau hynny o fewn ardal y Cynllun ble mae problemau dwys o fewn eu marchnadoedd tai. Mae'n berthnasol felly ar gyfer lleoliadau penodol iawn sydd wedi eu hadnabod drwy dystiolaeth. Mae'n fodd o geisio goresgyn y problemau o fewn y marchnadoedd tai hynny a'r problemau cymdeithasol ac economaidd a ddaw yn sgil hynny. Credir felly ei fod yn hollbwysig rheoli pa fathau o unedau tai a ellir eu hyrwyddo yn y lleoliadau a'u henwir yn y polisi er mwyn goresgyn y problemau dwys hyn. Bydd tai marchnad agored dal ar gael yn y lleoliadau hyn o fewn y stoc dai bresennol.</p> <p>Noder nad yw'r tai marchnad leol yn dai fforddiadwy ac o'r herwydd mae eu huchafswm maint, fel nodir yn y polisi, yn fwy na'r hyn fyddai'n berthnasol ar gyfer tai fforddiadwy.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>Mae'n bwysig fod maint yr unedau marchnad lleol yn cael eu rheoli er mwyn sicrhau y bydd gwerth yr unedau yn fwy cydnaws gydag amcan y polisi o gynnal y cymunedau yn y tymor hir.</p> <p>Nid oes un maint penodol wedi ei nodi ar gyfer uchafswm maint unedau marchnad lleol ond yn hytrach mae ffigyrau gwahanol wedi eu nodi ar gyfer gwahanol fathau o unedau (ar sail os ydynt yn dai unllawr neu ddeulawr a hefyd o ran y nifer o ystafelloedd gwely sydd ynddynt). Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau fod y polisi yn diwallu gwahanol anghenion yn effeithiol.</p> <p>Nodir nad ydi'r gwrthwynebydd wedi herio'r fethodoleg/ meini prawf sydd ynghlwm â'r polisi nac wedi atgyfnerthu eu barn gyda thystiolaeth rymus.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
206	John Brinley Jones [2087]	Para. 7.4.39	Gwrthwynebu	<p>Bydd cael byw mewn tai marchnad leol yn cael eu cyfyngu i'r rhai hynny sy'n gymwys, heb gytundeb cyfreithiol Adran 106. Byddir yn penderfynu ar uchafswm maint unedau yn ôl haeddiant a gofynion yr ymgeisydd. Ni fydd polisi cyffredinol ar gyfyngiad maint.</p> <p>Tynnu'r amod 106 a'r cyfyngiad uchafswm maint. Dylid ystyried pob cais cynllunio ar haeddiant ei hun yn hytrach na chael un polisi cyffredinol ar faint uned breswyl sydd yn amlwg methu cwrdd â phob anghenion.</p>	<p>Dim yn derbyn - Credir fod yn rhaid ymglymu'r unedau a fyddai'n cael eu caniatáu yn unol â'r polisi hwn i fod yn rhai marchnad leol er mwyn sicrhau fod y polisi yn gweithredu'n effeithiol ac yn cwrdd â'i amcanion yn y lle cyntaf ac yn y tymor hir cyn belled â phosib. Gellir ystyried y dulliau priodol o wneud hyn yn y Canllaw Cynllunio Atodol fydd yn cyd-fynd â'r polisi.</p> <p>Mae'n bwysig cyfyngu ar faint yr unedau marchnad lleol. Tra bod uchafswm maint yr unedau a fyddai'n berthnasol yn unol â'r polisi hwn yn fwy na maint tai fforddiadwy, ni allent fod yn ormodol o ran maint gan y byddai hyn yn mynd yn groes i amcanion y polisi - sicrhau gwerth sydd yn fwy cydnaws a'r amcan o</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>gynnal cymunedau. Mae uchafswm maint unedau marchnad lleol yn ddibynnol ar eu math. Nid oes un ffigur cyffredinol ar gyfer pob eiddo. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau fod y polisi yn diwallu gwahanol anghenion yn effeithiol. Mae cysylltiad agos yma felly rhwng maint yr unedau a'r hyn y ceisir ei gyflawni drwy'r polisi.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

TAI 6 – Llety Myfyrwyr Pwrpasol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
674	Mr Noel Davey, Ymgyrch Diogelu	Polisi TAI6	Gwrthwynebu	Ymddengys bod yr ardal ar gyfer llety myfyrwyr yn rhy fawr ac mae pryderon na fyddai'r boblogaeth o fyfyrwyr yn gallu ei llenwi gan adael Bangor gyda gormod o	<p>Dim yn derbyn – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymhell unrhyw newid.</p> <p>Yr ardal chwilio yw lle mae'r rhan fwyaf o'r llety</p>

	Cymru Wledig			dai ar gyfer un person.	<p>myfyrwyr pwrpasol wedi'i leoli. Ystyrir bod hyn yn synhwyrol i ganolbwyntio'r datblygiadau llety myfyrwyr newydd yn yr ardal eang hon. Fodd bynnag, nid yw'n fwriad gan y Cyngor i foddio'r ardal chwilio gyda lefel ormodol o lety myfyrwyr neu dai un person. Bydd rhaid i unrhyw gais ddarparu tystiolaeth o'r angen am y datblygiad.</p> <p>Argymhelliad – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
726	Hughes Brothers Ltd	Polisi TAI6	Gwrthwynebu	<p>Mae rhai o'r meini prawf i asesu cynigion am lety myfyrwyr wedi'i adeiladu'n bwrpasol yn afresymol ac ni ellir eu cyfiawnhau. Awgrymir diwygiadau i'r polisi (gweler yr atodiad am y geiriad llawn).</p>	<p>Dim yn derbyn – Dim yn cytuno â'r sylw nac yn argymhell unrhyw newid.</p> <p>Mae'r diwygiad arfaethedig i Bwynt 1 yn lleihau'n sylweddol y gofynion gan yr ymgeisydd ac yn hepgor yr angen am asesiad cynhwysfawr o alw gan fyfyrwyr a chefnogaeth sefydliad addysg uwch – mae'r ddau beth hyn yn cael eu hystyried yn bwysig iawn wrth sefydlu'r lefelau mwyaf priodol o lety myfyrwyr. Byddai'r diwygiad yn gwanhau effaith y polisi o ran cyfarwyddo datblygiad llety i fyfyrwyr yn y dyfodol i'r lleoliadau mwyaf priodol a rheoli capasiti datblygiad o'r fath.</p> <p>Nid yw'r diwygiad arfaethedig hwn yn cymryd i ystyriaeth y Parth Chwilio a Ffafirir a nodwyd ar y Map Cynigion.</p>

					<p>Teimlir bod geiriad presennol Pwynt 4 yn gryfach na'r diwygiad arfaethedig a'i fod yn briodol i sicrhau bod myfyrwyr yn gallu mynychu'r Coleg gyda modd cludiant cynaliadwy.</p> <p>Mae'r Parth Chwilio a Ffafir yn y polisi yn ardal o ddefnyddiau cymysg yn y Ddinas yn agos at y rhan fwyaf o adeiladau a champws y Brifysgol. Gall ymgeisydd gyflwyno tystiolaeth ar adeg ymgeisio i gefnogi cais ar gyfer adeilad newydd y tu allan i'r parth chwilio a ffafir.</p> <p>Argymhelliad – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
738	Mr Gwyn Hughes, Cyngor Dinas Bangor	Polisi TAI6	Cefnogi	Mae'r Cyngor yn croesawu'r meini prawf a amlinellir yn y polisi hwn sy'n ymwneud â lleoli datblygiadau o'r fath a hefyd yn croesawu cynnwys y Parth Chwilio a Ffafir ar y Map Cynigion.	<p>Nodi'r sylwadau cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
942	Menter Iaith Bangor	Polisi TAI6	Gwrthwynebu	Dylid rhoi ystyriaeth ofalus iawn i ganiatáu datblygiadau preswyl pellach ar gyfer myfyrwyr y Brifysgol ym Mangor. Yng ngwyneb ansicrwydd gallu myfyrwyr i gyllido eu haddysg uwch oddi cartref byddai cwmp yn y galw a gormodedd o lety gwag, mewn dwylo preifat yn andwyol tu hwnt i sefydlogrwydd	<p>Dim yn derbyn – Mae maen prawf 1 yn y polisi hwn yn gofyn am dystiolaeth i gefnogi unrhyw ddatblygiad arfaethedig yn nhermau angen.</p> <p>Gall rhyddhau'r stoc dai presennol i'r farchnad dai cyffredinol gynorthwyo i gwrdd â'r twf tai gan y boblogaeth bresennol a bydd yn cael ei fonitro'n flynyddol yn yr Adroddiad Monitro</p>

				cymunedau Bangor a'r Gymraeg. Dylid cynnal ymchwiliad manwl i anghenion tai pobl Bangor. Cynnwys Penrhosgarnedd yn y ddinas! Dylid sicrhau fod tai rhent yn rhai fforddiadwy yn hytrach na chodi rhent enchwythedig fel sy'n cael eu talu gan fyfyrwyr.	Blynyddol. Argymhelliad – Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
--	--	--	--	---	---

TAI 7 – Ail-Adeiladu Tai

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
604	Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366]	POLISI TAI7	Gwrthwynebu	<p>Ystyrir bod peidio â chaniatáu ailadeiladu llety preswyl dros dro megis tai parod yn afresymol ac na fydd modd ei gyflawni.</p> <p>Os oes gan yr uned ddefnydd preswyl cyfreithiol, yna dylai gael yr hawl i gael ei haildadeiladu dan y polisi ail-adeiladu tai.</p> <p>Dylid adolygu'r polisi hwn a dylid dileu gofyniad rhif 5 y polisi a pharagraff 7.4.47.</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae natur llety dros dro (e.e. carafán neu gabin gwyliau) neu adeiladau a'u hadeiladwyd â defnyddiau oes fer (e.e. tŷ parod) yn golygu na fyddai'n briodol darparu strwythur mwy parhaol yn eu lle.</p> <p>Mae rheolau llym dros ddatblygu unedau preswyl newydd yng nghefn gwlad a chredir y byddai galluogi adeiladu unedau parhaol yn lle llety dros dro / adeiladau oes fer yn mynd yn groes i egwyddorion y Cynllun a chanllawiau cenedlaethol o ran datblygiad cynaliadwy yng nghefn gwlad.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
642	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI TAI7	Gwrthwynebu	<p>Yn ogystal, dylai maen prawf 7 hefyd fod yn berthnasol O FEWN FFINIAU DATBLYGU. Mae ein pryder yn codi oherwydd y profiad o ailadeiladu tai haf mewn cymunedau arfordirol megis Abersoch ble roedd yr aneddiadau a gafodd eu cymeradwyo i'w hailadeiladu o faint, cyfaint ac ôl-troed llawer mwy na'r strwythur gwreiddiol. Rydym yn teimlo y dylai'r polisi gael ei atgyfnerthu'n glir o ran ailadeiladu tai. Mae'r testun presennol yn rhoi'r argraff na fyddai'r amodau hyn yn berthnasol o fewn ffiniau datblygu. Rydym yn nodi bod maen prawf 6 TAI 7, yn gofyn bod tŷ sy'n cael ei ailadeiladu 'o fewn yr un ôl-troed â'r adeilad presennol' pa un a fyddo'r tu allan neu'r tu mewn i'r ffin ddatblygu.</p>	<p>Dim yn derbyn –</p> <p>Maen prawf 6 - Mae'r maen prawf hwn yn berthnasol i bob tŷ sydd yn cael ei ailadeiladu, boed hwy y tu fewn neu y tu allan i ffin ddatblygu. Hyd yn oed y tu fewn i ffiniau datblygu, dylid rhoi blaenoriaeth i ailadeiladu tŷ ar yr un ôl troed a'r tŷ presennol. Mae hyn ar sail ystyriaethau gweledol a mwynderol. Mae'r maen prawf fodd bynnag yn rhoi peth hyblygrwydd i ailadeiladu tŷ o fewn yr un cwrtail os ystyrir hyn i fod yn fwy addas. Mae'r polisiâu tai perthnasol hefyd yn rhoi mwy o hyblygrwydd i ail-leoli addas o fewn ffiniau datblygu.</p> <p>Maen prawf 7 - Anghytuno gyda'r</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>sylw. Tra derbynnir egwyddor yr hyn a nodir, mae yna bolisiau eraill o fewn y Cynllun a fyddai'n ymdrin â cheisiadau o fewn y ffin ddatblygu. Mae'n bosib adeiladu tai mwy o fewn y ffin ddatblygu gan y gellir ystyried y cais fel tŷ o'r newydd. Mae hyn yn wahanol i'r sefyllfa yng nghefn gwlad ble mae'r polisiau tai yn llawer yn fwy llym.</p> <p>Byddai graddfa, dyluniad a.y.b. yn ystyriaethau perthnasol o ran unrhyw gais o fewn y ffin ddatblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
737	Cyngor Cymuned Llanengan (Ms Einir Wyn) [1548]	POLISI TAI17	Cefnogi	Gormod o dai wedi cael eu symud/dymchwel yn y gymuned yma yn ddiweddar - dwsin ers 2010 - a thai anferth wedi cael eu codi yn lle adeiladau traddodiadol a chynhenid.	Nodi'r sylw Argymhelliad Dim newid

TAI 8 – Defnydd Preswyl o Garafanau, Cartrefi Symudol a Mathau Eraill o Lety nad ydynt yn barhaol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
641	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI TAI8	Gwrthwynebu	23.4 Crynodeb Carafanau Sefydlog Sengl. Pryderwn am y gormodedd o garafanau sefydlog sengl mewn ardaloedd gwledig, yn aml mewn lleoliadau agored sydd heb eu sgrinio, sy'n cael effaith andwyol ar y dirwedd. Nid yw polisi TAI8 yn rhoi sylw digonol i'r broblem sydd wedi codi'n rhannol oherwydd deddfwriaeth anfodhaol y DU. Mae angen deddfwriaeth newydd sy'n berthnasol i Gymru, ond yn y cyfamser dylai polisi cynllunio wneud ymrwymiad clir i fonitro	Dim yn derbyn – Mae Polisi TAI8 yn nodi'n glir yr amgylchiadau hynny pryd y bydd yn berthnasol darparu carafán sefydlog mewn lleoliad gwledig i bwrpas defnydd preswyl. Mae'r polisi yn amlygu'n glir natur dros dro unedau o'r fath ac hefyd fe nodir fod "carafanau preswyl dros dro neu fathau eraill o lety nad ydynt yn rhai parhaol yn destun yr un ystyriaethau lleoliadol ag aneddlleoedd preswyl parhaol".

				<p>lleoliad a defnydd carafanau sefydlog sengl, a phan fo'n ymarferol, dylai orfodi amodau ynghylch lliw a sgrinio fyddai'n lleddfu'r effaith ar y dirwedd.</p> <p>Newid: ymrwymiad i gynyddu rheolaeth gynllunio dros garafanau sefydlog sengl niferus.</p>	<p>Mae polisiau eraill megis Polisi PCYFF2 hefyd yn berthnasol o ran hyn, yn benodol felly o ran effaith unedau o'r fath ar y dirwedd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
--	--	--	--	--	--

Tai Fforddiadwy

Cyd-destun a Chyflwyniad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
750	Rhys Llwyd [3087]	Para. 7.4.60	Gwrthwynebu	<p>Rwy'n bryderus nad oes digon o bwyslais ar dai fforddiadwy yn y cynllun, yn enwedig i brynwyr ifanc tro cyntaf lleol. Mae angen tai addas i ateb yr angen lleol ar ddau lefel:</p> <ul style="list-style-type: none"> i) ateb yr angen lleol o rai nifer; ii) ateb yr angen lleol o ran pris. <p>Pam ddim gosod amodau y bydd 75%+</p>	<p>Dim yn derbyn – Credir fod y Cynllun yn hwyluso'r angen hwn.</p> <p>Mae'r ddarpariaeth tai fforddiadwy wedi ei seilio ar dystiolaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y nifer o dai fforddiadwy i'w darparu wedi ei seilio ar Asesiadau Marchnad Tai Lleol (AMTLI) y ddau

				<p>o'r tai yn fforddiadwy i bobl leol gan ganiatáu 25% neu 15% neu 10% yn unig o dai an-fforddiadwy? Mae'n drist gweld fod dim sylw wedi ei roi yn y cynllun i gynorthwyo prynwyr tro cyntaf i adfer tai sydd eisoes yn y stoc dai a'u hystyried hwy fel tai fforddiadwy.</p>	<p>Gyngor;</p> <ul style="list-style-type: none"> Yr isafswm o dai fforddiadwy i'w darparu fesul safle (Polisi TAI9) wedi ei seilio ar Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy gan gwmni Andrew Golland Associates. <p>Ni fydd y tai nad sydd yn cael eu hadnabod fel 'tai fforddiadwy' yn rhai anfforddiadwy. Er enghraifft, bydd yr aelwydydd hyn ar gael i bobl sy'n byw o fewn ardal y Cynllun na fyddent yn gymwys am dŷ fforddiadwy canolradd, a reolir drwy gytundeb adran 106 sy'n rheoli'r ddaliadaeth a phris, neu dŷ fforddiadwy cymdeithasol, sydd fel arfer yn cael ei reoli gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig. Mae strategaeth y Cynllun yn ceisio darparu'r math cywir o dai yn y lleoliadau cywir. Nodir polisi fod polisi TAI 5 ('Tai Marchnad Lleol') yn berthnasol i'r perwyl hwn yn ogystal.</p> <p>Mae'r ddau Gyngor, o fewn eu Strategaethau Tai, yn hybu adfer tai gwag er mwyn cwrdd ag anghenion tai lleol, gan gynnwys yr angen ar gyfer</p>
--	--	--	--	---	--

					<p>tai fforddiadwy. Yn ogystal mae Astudiaeth Capasiti Trefol y Cynllun yn ystyried y nifer o dai gwag yn y prif ganolfannau ac yn cynnwys y cyfleon yma o fewn ffigur ar hap y Cynllun. Mae hyn yn rhywbeth mae'r Cynllun yn ei hwyluso.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
--	--	--	--	--	---

1033	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	Para. 7.4.65	Gwrthwynebu	<p>Dywed Polisi Cynllunio Cymru (PCC, paragraff 9.1.4) ei bod yn bwysig bod awdurdodau lleol yn deall eu system dai yn ei chyfanrwydd er mwyn iddynt allu datblygu polisiau tai marchnad a fforddiadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Efen allweddol o'r dystiolaeth hon fydd yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AMTLI).</p> <p>Dywed paragraff 9.2.16 (PCC) hefyd y dylai'r CDLI gynnwys targed cyflawni tai fforddiadwy ar gyfer yr awdurdod lleol, yn seiliedig ar yr AMTLI. Dylai'r CDLI fynegi cyfanswm yr angen am dai fforddiadwy (gan gynnwys unrhyw ôl-groniad) dros gyfnod cyfan y cynllun, yng nghyfiawnhad rhesymegol y polisi tai fforddiadwy.</p>	<p>Derbyn yn Rhannol - Mae'r Cynllun yn cyfeirio tuag at ganfyddiadau AMTLI cyfredol Ynys Môn a Gwynedd. Yn unol ag anghenion Llywodraeth Cymru mae'r AMTLI wrthi yn cael ei ddiweddarau gan y ddau Gyngor.</p> <p>Mae'r ffigwr tai fforddiadwy o fewn PS14 yn seiliedig ar y lefel o unedau fforddiadwy y gellid ei gyflawni ar sail unedau fforddiadwy wedi eu cwblhau ers 2011, y nifer efo caniatâd cynllunio yn y banc tir presennol a'r lefel twf disgwylidig o ddynodiadau newydd ar sail % o dai fforddiadwy yn y gwahanol Ardaloedd Pris Tai.</p> <p>Fodd bynnag er mwyn egluro yn well y lefel twf disgwylidig yma cytunir buasai ychwanegu tabl yn yr Eglurhad i PS14 yn esbonio yn well y lefel tai fforddiadwy mae'r cynllun yn gallu ei gyflawni.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ychwanegu tabl yn yr Eglurhad i bolisi PS14 yn dangos sut bydd y ffigwr</p>
------	--	--------------	-------------	--	--

					<p>1,400 o dai fforddiadwy yn cael ei gyflawni.</p> <p>Newid â Ffocws NF67</p> <p>Er mwyn gwella eglurder y Cynllun</p>
310	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mr Mark Harris) [1470]	Para. 7.4.66	Gwrthwynebu	<p>Mae'r Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi yn ystyried fod y lwfans £5,000 ar gyfer cyfraniadau Adran 106 yn y profion hyfywedd yn rhy isel. Dylai fersiwn ddrafft y Canllaw Cynllunio Atodol ar Gyfraniadau Datblygwyr, y mae disgwyl iddo gael ei pharatoi ar gyfer yr ymchwiliad, fod o gymorth i roi goleuni ar hyn. At hyn, mae'r adroddiad yn nodi y caiff canran uchel o unedau eu cyflawni ar safleoedd llai. Cred y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi fod nifer o'r rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth brofi yn cael eu cymryd o ffigyrau Adeiladwyr Cenedlaethol ac nad ydynt yn llwyr gynrychioli math ac ystod y gwaith</p>	<p>Dim yn derbyn – Nodir mai ffigwr cyfartaledd yw'r £5000 (nad sydd yn cynnwys cyfraniadau mewn perthynas â thai fforddiadwy) sydd wedi ei sefydlu gyda'r ddau awdurdod ar sail y wybodaeth monitro oedd ar gael. Nodir hefyd fod trafodaeth wedi ei gynnal o ran y ffigwr hwn mewn gweithdy a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid o'r farchnad dai yn lleol.</p> <p>Mae'r Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy yn seiliedig ar dystiolaeth lleol h.y. caniatadau cynllunio rhwng</p>

				<p>datblygu sy'n mynd rhagddo yn y fwrdeistref.</p> <p>Ailystyriwch y ffigyrau sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cyfraniadau Adran 106 yn yr adroddiad hyfywdra. Cysylltwch gydag adeiladwyr bychan i ddeall yn well hyfywdra ar safleoedd bach a bwydwch y canlyniadau i mewn i'r profion hyfywdra.</p>	<p>2009 a 2012. Mae hyn yn amlygu pa mor gyffredin yw datblygiadau ar safleoedd llai yn yr ardal.</p> <p>Cytunir y bydd y Canllaw Cynllunio Atodol mewn perthynas â 'Ymrwymadau cynllunio' yn rhoddi mwy o wybodaeth o ran y maes hwn.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
--	--	--	--	---	--

1036	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	Para. 7.4.66	Gwrthwynebu	<p>Mae angen mwy o eglurhad i esbonio pa gostau y rhoddwyd ystyriaeth iddynt sy'n gysylltiedig ag ymrwymadau/cyfraniadau. Mae'r asesiad o hyfywdra yn ymdrin â hyn ond mae'r costau penodol yn aneglur. Mater i'r awdurdodau yw dangos beth y bydd ymrwymadau/cyfraniadau cynllunio eraill yn ymdrin â nhw a ddim yn ymdrin â nhw (gweler hefyd y sylwadau ynghylch y gallu i gyflawni).</p> <p>Bydd angen seilio targedau heriol ar dystiolaeth a bydd gofyn medru eu cymhwyso i'r rhan fwyaf o sefyllfaoedd ond gan ganiatáu i'r negodi ynghylch safleoedd penodol fynd rhagddynt, os/lle gwelir bod angen (ar nifer gyfyngedig o safleoedd). Rhaid gallu cyfiawnhau pob elfen o'r dystiolaeth o hyfywdra.</p>	<p>Dim yn derbyn – Mae paragraff 3.12 o'r Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy (2013) yn nodi cyfraniad o £5,000 i bob uned o ran holl gyfraniadau adran 106 ar wahan i dai fforddiadwy. Cafodd y ffigwr hwn, sydd yn cynrhychiol'r cyfraniad cyfartalog fesul uned breswyl, ei ddefnyddio o fewn y gwaith profi gwaelodlin, sef y sail ar gyfer y wybodaeth ym Mholisi TAI9.</p> <p>Fel nodir o ran yr ymateb i sylw 310, cytunir y bydd y Canllaw Cynllunio Atodol mewn perthynas â 'Ymrwymadau cynllunio' yn rhoddi mwy o wybodaeth o ran y maes hwn.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
------	--	--------------	-------------	--	--

PS14 – Tai Fforddiadwy

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
727	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	Polisi Strategol PS14	Gwrthwynebu	<p>Dywedir yma 'Caiff tir digonol ei adnabod i ddarparu targed lleiafswm o 1,400 o dai fforddiadwy newydd'.</p> <p>A yw hynny'n golygu fod gweddill y tai, tua 4,500 yn dai heb fod yn fforddiadwy?</p> <p>Mae ein tystiolaeth ('Arolwg Anghenion Tai Ardal Cyngor Cymuned Llanystumdwy') yn cadarnhau nad oes gan y bobl leol y modd i brynu hyd yn oed tŷ fforddiadwy.</p> <p>Angen cynyddu'r ganran o dai fforddiadwy o fewn y Cynllun.</p>	<p>Dim yn derbyn –</p> <p>Nid yw unedau 'marchnad agored' a hwylusir o fewn y CDLI ar y Cyd (h.y. unedau na elwir yn fforddiadwy) yn dai 'anfforddiadwy'. Er enghraifft, bydd yr aelwydydd hyn ar gael i bobl sy'n byw o fewn ardal y Cynllun na fyddent yn gymwys am dŷ fforddiadwy canolraddol, a reolir drwy gytundeb adran 106 sydd yn rheoli'r ddaliadaeth a phris, neu dŷ fforddiadwy cymdeithasol, sydd fel arfer yn cael ei reoli gan landlordiaid cymdeithasol cofrestredig.</p> <p>Bydd darpariaeth tai marchnad agored yn sicrhau bod cynlluniau'n hyfyw yn ariannol ac yn hyn o beth yn sybsideiddio'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy. Mae'n bwysig nodi y dylai pob datblygiad preswyl newydd, yn unol â Pholisi TAI 1 ('Cymysgedd Addas o Dai'), gyfrannu at wella'r cydbwysedd o dai a diwallu anghenion y gymuned gyfan. Felly fe ragwelir y bydd tai marchnad agored mewn nifer</p>
63	Mr Aled Evans [2646]	Polisi Strategol PS14	Gwrthwynebu	<p>Hyn yn golygu bydd llawer gormod o dai nad ydynt yn fforddiadwy yn gorfod cael eu cynnwys yn y cynllun.</p> <p>Astudiaeth iaith a thai'r cyngor yn dangos hyn.</p> <p>Canran llawer uwch o dai fforddiadwy.</p>	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>o ardaloedd marchnad tai yn 'fforddiadwy' trwy ddyluniad / grym y farchnad heb yr angen am fecanwaith megis cytundeb adran 106. Mae'r ddau awdurdod cynllunio lleol wedi gallu hwyluso'r math yma o unedau tai.</p> <p>Ynghyd a gwybodaeth o'r Asesiadau Marchnad Tai Lleol, mae'r lefel o dai fforddiadwy sydd i'w darparu yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy (Andrew Golland Associates). Mae'r Astudiaeth hon yn sefydlu hyfywedd tai fforddiadwy a pha mor bosib yw eu darparu o fewn ardaloedd is-farchnad penodol. O ganlyniad, cynigir polisi wedi'i rannu (Polisi TAI 9); mewn rhai ardaloedd is-farchnad gofynnir am o leiaf 25% o dai fforddiadwy (ble mae trothwy arbennig yn cael ei gyrraedd). O leiaf 15% yw'r ffigwr hwn mewn ardaloedd is-farchnad eraill. Felly, mae hyfywedd cynlluniau a pha mor bosib yw eu darparu yn ystyriaeth fawr o fewn polisi tai fforddiadwy.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Cadw'r ffigwr o 1,400 o dai fforddiadwy.</p> <p>Dim Newid</p>
1179	Horizon Nuclear Power (Miss Sarah Fox) [2919]	Polisi Strategol PS14	Gwrthwynebu	<p>Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisi hwn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisiau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisiau perthnasol ar gyfer gwneud ymatebion ymgynghori i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac i benderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisi hwn.</p>	<p>Dim yn derbyn – Tra bod polisiau megis TAI3 yn uniongyrchol berthnasol i ddatblygiadau mewn perthynas â Wylfa Newydd, mae hefyd yn hollbwysig ystyried nifer o bolisiau perthnasol eraill y Cynllun – gan gynnwys PS14 a TAI 9.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1034	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	Polisi Strategol PS14	Gwrthwynebu	<p>Bydd angen i'r awdurdodau esbonio'r berthynas rhwng y targed o fewn yr Aseiad Marchnad Dai Lleol (AMTLI) a lefel y tai fforddiadwy/marchnad a gynigir yn y cynllun. Bydd gofyn i'r awdurdodau ddangos eu bod yn darparu cymaint ag y gallent trwy'r CDLI gan fod yr angen mor fawr. Mae angen mwy o eglurhad i esbonio'r cyfraddau darparu a ddisgwylir trwy'r ymrwymadau cyfredol a sut y bydd y dyraniadau'n cyfrannu at gyflawni'r targed am dai fforddiadwy. Pery'n aneglur sut y disgwylir darparu 1,400 o dai fforddiadwy a ph'un a yw'r awdurdodau wedi ystyried pob opsiwn i ddarparu cymaint o dai â phosibl trwy'r CDLI o gofio maint yr angen a glustnodir ym 5 mlynedd y cynllun yn unig h.y. y berthynas â thai ar gyfer y farchnad agored.</p>	<p>Derbyn yn rhannol -</p> <p>Cytuno y gellid integreiddio cynnwys a chanfyddiadau AMTLI Môn a Gwynedd yn well yn y CDLI ar y Cyd. Gellir egluro rôl y ddau AMTLI yn y CDLI ar y Cyd yn well, a gwneud y cysylltiadau hyn yn fwy eglur.</p> <p>Mae'n bwysig nodi na fyddai pob uned fforddiadwy newydd a adnabuwyd yn yr AMTLI yn cael eu hadeiladu o'r newydd a'n cael eu rheoli o fewn polisiau'r CDLI ar y cyd hefo mecanwaith megis cytundeb adran 106. Felly, mae'n bwysig nodi mai un teclyn yn unig i sicrhau bod y galw am dai fforddiadwy yn cael ei ddiwallu yw'r CDLI ar y Cyd.</p> <p>Er bod yr UPC ar y Cyd yn credu fod modd darparu'r targed tai fforddiadwy a adnabuwyd yn y Cynllun, gellid gwneud y rhesymeg tu ôl i'r ffigwr hwn yn fwy eglur drwy gyfeirio at yr AMTLI. Pwysleisir mai ffigwr lleiafswm yw'r targed o 1,400 o dai fforddiadwy newydd.</p> <p>Mae gwaith i ddiweddarau AMTLI</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>Gwynedd a Môn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nodir fod AMTLI yn berthnasol am gyfnod o 5 mlynedd, tra bod y ffigwr a nodwyd yn y CDLI ar y Cyd yn berthnasol am gyfnod y Cynllun yn ei gyfanrwydd (hyd at 2026).</p> <p>Er mwyn egluro yn well y lefel twf disgwylidig yma, cytunir buasai ychwanegu tabl yn yr Eglurhad i PS14 yn esbonio yn well y lefel tai fforddiadwy mae'r cynllun yn gallu ei gyflawni. Er enghraifft, pwysleisio rôl dynodiadau tai, safleoedd ar hap, safleoedd eithriedig, tai mewn clwstwr a throsi tai yng nghefn gwlad.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ychwanegu tabl yn yr Eglurhad i bolisi PS14 yn dangos sut bydd y ffigwr 1,400 o dai fforddiadwy yn cael ei gyflawni.</p> <p>Newid â Ffocws NF67</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					Er mwyn sicrhau cysondeb gyda chynlluniau a strategaethau allweddol eraill ac i sicrhau eglurder
434	Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]	Polisi Strategol PS14	Cefnogi	Mae angen bod yn hollol glir beth ydy ystyr y term 'tai fforddiadwy' wrth weithredu'r polisi hwn	Nodi'r sylw – Mae'r rhestr termau yn niwedd y datganiad ysgrifenedig yn rhoddi gwybodaeth o safbwynt 'tai fforddiadwy'. Argymhelliad Dim newid
1266	Cyng. R.H. Wyn Williams [367]	Polisi Strategol PS14	Cefnogi	Croesawu unrhyw bolisi a chynllun am dai yn yr ardal sydd yn fforddiadwy gyda thystiolaeth o angen lleol hefyd er lles ein cymunedau.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim newid
283	Mr Aled Evans [2646]	Polisi Strategol PS14	Gwrthwynebu	Tai fforddiadwy Cynyddu'r targed lleiafswm i adlewyrchu'r hyn, fe ymddengys, y gall trigolion y sir ei fforddio. Ni all 61.4% o drigolion Gwynedd fforddio prynu tŷ felly nid yw petha'n gwneud synnwyr. Mae gofyn dod a'r nifer o dai yn y cynllun i lawr a chynyddu ganran o dai	Dim yn derbyn – Fel nodir mewn ymateb i sylw 1034, mae cysylltiad rhwng y targed o ddarparu lleiafswm o 1,400 o dai fforddiadwy newydd a'r wybodaeth yn Asesiadau Marchnad Tai Leol Ynys Môn a Gwynedd. Fel y nodir mewn cysylltiad â sylw 1034, bydd tabl yn cael ei baratoi sydd yn dangos sut bydd y ffigur 1,400 o dai

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				fforddiadwy.	<p>fforddiadwy yn cael ei gyflawni.</p> <p>Nodir y cysylltiad yn ogystal gyda'r ymateb i sylwadau 728, 273 a 68 ar gyfer Polisi TAI9 o safbwynt fod y ganran o dai fforddiadwy sydd i'w darparu ar safleoedd penodol yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy.</p> <p>Gweler ymateb i Bolisi Strategol PS13 o safbwynt ystyriaethau o ran y nifer o dai i'w darparu yn y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

TAI 9 – Trothwy Tai Fforddiadwy a’u Dosbarthiad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
------------------	------------	-------------	-------------	---	--

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
728	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1550]	Polisi TAI 9	Gwrthwynebu	Mae Chwilog yn y categori 15% o dai fforddiadwy. I gyd-fynd â'r Adroddiad Arolwg Anghenion Tai Ardal Cyngor Cymuned Llanystumdwy, mae angen cynyddu hyn i 60-70% yn hytrach na 15%.	<p>Derbyn yn rhannol -</p> <p>Mae'r canran o dai fforddiadwy sydd i'w darparu yn seiliedig ar ganfyddiadau'r Astudiaeth Hyfywedd Tai Fforddiadwy. Mae'r dull yn ei gyfanrwydd yn ystyried y berthynas ariannol rhwng gwerth gweddilliol a gwerth defnydd presennol mewn dau gam: 'Profion Lefel Uchel' (HLT) a phrofion 'Safle Generig'. Mae'r HLT yn edrych ar werth gweddilliol ar draws ystod o is-farchnadoedd a dwyseddau ac mae'r holl brofion yn ystyried cyfres o dargedau tai fforddiadwy (o 0% i 50%). Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i effaith cyfraniadau Adran 106 eraill. Yn hyn o beth, mae'r dull o sefydlu canran o dai fforddiadwy sydd i'w darparu o fewn yr is-farchnadoedd amrywiol yn seiliedig ar fethodoleg gadarn a chlir.</p> <p>Nodir bod y canrannau a nodwyd yn y Polisi yn ffigyrau lleiafswm, ac mae'n bosib y bydd angen ffigwr uwch os</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
273	Mrs Marian Jones [2832]	Polisi TAI 9	Gwrthwynebu	<p>Tai Fforddiadwy</p> <p>15% o dai fforddiadwy yn Llŷn. Pwy felly fydd yn prynu'r 85% yn weddill? Mae tystiolaeth yn dangos bod 60% + o drigolion Gwynedd yn methu fforddio prynu tai.</p> <p>Fydd hyn yn agor y llifddorau i fwy o ymfudwyr di-gymraeg?</p>	<p>yw'n hyfyw yn ariannol. Mae hefyd yn bwysig nodi fod Polisi TAI 5 ('Tai Marchnad Lleol') yn berthnasol i ardaloedd penodol o fewn ardal y Cynllun ble gwelir problemau difrifol yn y farchnad dai.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ychwanegu testun yn eglurhad i'r polisi ynghylch methodoleg ar gyfer ailasesu prisiau tai cyfartalog mewn gwahanol ardaloedd a'i effaith ar hyfywedd y ganran o ddarpariaeth tai fforddiadwy a geisir. Gellir cyflwyno mecanwaith o'r fath o fewn CCA ar dai fforddiadwy.</p> <p>Newid â Ffocws NF69</p> <p>I sicrhau eglurder ac i sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn rhwydd</p>
68	Cyngor Tref Nefyn (Liz Saville Roberts) [2710]	Polisi TAI 9	Gwrthwynebu	<p>Dylai'r ganran o dai fforddiadwy am ardal Llŷn fod yn 25%.</p>	<p>I sicrhau eglurder ac i sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn rhwydd</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
951	Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd (Mr Arfon Hughes) [1189]	Polisi TAI 9	Cefnogi	Mae'r Polisi TAI 9 yn nodi'r angen i gael 'taliad pro-rata yn hytrach na dim darpariaeth fforddiadwy o gwbl ar y safle i'w groesawu gan fod hyn yn sicrhau cymorth i gael cyflenwad o dai fforddiadwy ac fe all fod o gymorth i Bartneriaid Tai er mwyn sicrhau bod cynllun yn hyfyw.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
1035	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	Polisi TAI 9	Gwrthwynebu	Er mwyn darparu cymaint o dai fforddiadwy â phosibl a chyflawni'r prif amcan, mae'r asesiad o hyfywdra wedi adnabod ardaloedd lle ceir y prisiau uchaf o fewn ardal y cynllun. Dylai'r awdurdodau ystyried a yw geiriad TAI9 yn ddigon cryf i negodi canran uwch o gyfraniad yn yr ardaloedd penodol hyn.	<p>Dim yn derbyn – Credir bod y geirfa presennol o fewn y polisi, sef 'o leiaf' 15% neu 25% yn golygu bod cyfle i gael lefel uwch o dai fforddiadwy mewn ardaloedd gyda'r prisiau uchaf o fewn ardal y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1263	Partneriaeth Tai Gwynedd (Elfyn Owen) [3052]	Polisi TAI 9	Cefnogi	Mae Partneriaid Tai yn barod i hybu datblygiadau addas o fewn ardaloedd sydd ag angen ac mae papur testun Tai a Phoblogaeth, tabl 8.2, yn nodi yn glir bod 'caniatadau cynllunio am dai a roddwyd i gyrff cyhoeddus/cymdeithasau tai yn ffurfio cyfran isel o'r unedau preswyl a ystyriwyd yn arolwg argaeledd tir ar gyfer tai Gwynedd (Ebrill 2013)'. Mae hyn yn dangos effaith isel sydd i waith cyfredol Cymdeithasau Tai mewn cymhariaeth a'r sector breifat. Mae Polisi Tai 9 yn nodi'r angen i gael 'taliad pro-rata yn hytrach na dim darpariaeth fforddiadwy o gwbl ar y safle' i'w groesawu gan fod hyn yn sicrhau cymorth i gael cyflenwad o dai fforddiadwy ac fe all fod o gymorth i Bartneriaid Tai er mwyn sicrhau bod cynllun yn hyfyw.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
443	Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]	Polisi TAI 9	Cefnogi	<p>Mae'r trothwy 'nifer y tai yn y datblygiad' ar gyfer y gwahanol fath o gymunedau yn addas.</p> <p>Mae canran y tai fforddiadwy yn y datblygiad yn ôl lleoliad yn addas.</p> <p>Mae gofyn a derbyn swm cymunedol ar safleoedd lle nad oes modd darparu tai fforddiadwy yn briodol, fel bod modd i gynlluniau tai fforddiadwy neu dai cymdeithasol ar safleoedd eraill yn yr un ardal fod yn hyfyw.</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
60	Cyngor Tref Biwmares (Prof TW Ashenden) [1267]	Polisi TAI 9	Cefnogi	<p>Nid oes tai fforddiadwy ym Miwmares. Mae nifer gynyddol y tai haf a thai sy'n cael eu gosod yn gwaethygu'r sefyllfa.</p> <p>Mae Cyngor Tref Biwmares yn croesawu gwneud y polisi tai fforddiadwy yn berthnasol i Fiwmares (25% mewn datblygiadau o bum uned neu fwy) a Llanfaes (100%).</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
345	Mr Geoff Wood [2916]	Polisi TAI 9	Gwrthwynebu	<p>Nid yw'r polisi yn ystyried tai newydd mewn cefn gwlad agored (er yr ymddrinnir â hyn mewn rhan arall) ac nid yw'n glir beth fyddai'r ymrwymiad tai fforddiadwy ar gyfer datblygiad o'r fath. Ychwanegu</p>	<p>Dim yn derbyn – Mae Polisi PS15 ('Strategaeth Aneddleoedd') yn nodi mai dim ond datblygiadau tai sy'n cydymffurfio â chynnwys Polisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				<p>Iefel arall i'r hierarchaeth sy'n cyfeirio at dai newydd a throsi tai yng nghefn gwlad. Dylid cyfeirio at Bolisi Strategol PS15 er eglurder.</p>	<p>Technegol 6 fydd yn cael eu caniatáu yng nghefn gwlad agored.</p> <p>Nodir y dylai tai o'r newydd yng nghefn gwlad agored ddiwallu anghenion penodol yn gysylltiedig â mentrau gwledig. O safbwynt tai fforddiadwy, nodai NCT 6 (para. 4.13.4) "mewn achosion lle methir â dod o hyd i weithiwr menter wledig i fyw yn yr annedd menter wledig, dylai ymestyn cymhwysedd i gynnwys personau a fyddai'n gymwys i'w hystyried am dai fforddiadwy o dan bolisiau tai'r awdurdod lleol".</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
288	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mr Mark Harris) [1470]	Polisi TAI 9	Gwrthwynebu	<p>Mae angen egluro geiriad 3 ii. oherwydd os bydd gofyn codi eiddo i safonau Gofynion Ansawdd Datblygu (y gofynnir yn bendant amdanynt gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig os rhoddir grant i'r cynllun), yna ni fydd yn bosib cydymffurfio â'r gofyn hwn oherwydd maint a gofynion allanol.</p> <p>Angen geiriau ychwanegol yn 3 iii. i gynnwys cyflafareddu annibynnol lle nad oes modd i'r Cyngor a'r datblygwr gytuno ar hyfywedd.</p>	<p>Derbyn yn rhannol</p> <p>Gwrthdaro â safonau Gofynion Ansawdd Datblygu:</p> <p>Mae'n bwysig iawn fod yr unedau tai fforddiadwy yn cael eu hintegreiddio'n llawn o fewn datblygiad preswyl. Os oes gwrthdaro rhwng hyn a'r angen i gwrdd â safonau Gofynion Ansawdd Datblygu, gellid trafod hyn yn ystod y cam cais cynllunio, ac mae modd sefydlu unrhyw faterion o ran hyfywedd yn ystod y cyfnod hwnnw hefyd. Mewn termau polisi, er mwyn i gynllun fod yn llwyddiannus, mae'n hanfodol nad yw'r tai fforddiadwy yn amlwg yn wahanol i'r tai marchnad. Mae hyn yn bwysig er mwyn eu hintegreiddio'n gymdeithasol ac o ran ystyriaethau dylunio.</p> <p>Cymodi annibynnol:</p> <p>Derbyn y gellid cynnwys sylw yn ymwneud â chymodi o fewn y polisi neu'r eglurhad iddo. Sôn am y ffaith y bydd y ddau Gyngor yn asesu hyfywedd cynlluniau yn y man cyntaf er mwyn sefydlu p'un a yw'r</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>ddarpariaeth tai fforddiadwy'n briodol. Fodd bynnag, os oes anghytundeb, mae modd cynnal asesiad allanol (e.e. gan y Gwasanaeth Priswyr Dosbarth). Bydd yr ymgeisydd yn talu am y gwasanaeth hwn.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ychwanegu sylw yn ymwneud â chymodi o fewn y polisi h.y. lle nad oes modd i'r Cyngor a'r datblygwr gytuno ar hyfywedd datblygiad.</p> <p>Newid â ffocws NF68</p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1043	Mr Mark Newey, Llywodraeth Cymru	Polisi TAI 9	Gwrthwynebu	Ni ddylai polisïau'r CDLI ar dai fforddiadwy nodi'r ystod/math/cymysgedd o dai, oherwydd gallai'r sefyllfa newid dros oes y cynllun gan ei rwystro o bosibl rhag medru gwneud y ddarpariaeth. Fe ddylai CDLliau gyfeirio er hynny at yr wybodaeth ddiweddaraf yn y cyfiawnhad rhesymegol i'w galluogi i negodi'n effeithiol. Gan ddibynnu ar y gymysgedd, a allai fod ag iddi oblygiadau ariannol, gallai effeithio hefyd ar y gallu i ddarparu tai fforddiadwy (y ganran y gofynnir amdani ar y safle). Mae'r AMTLI yn asesu'r ystod lawn o ofynion tai, ond nid yw'r CDLI yn cyfeirio'n benodol at hyn. Byddai'r cynllun ar ei ennill o gynnwys gwybodaeth o'r fath a'i hystyried wrth asesu hyfywdra'r cynllun er mwyn dangos ei fod yn gyson â'r dystiolaeth ac na châi ganlyniadau andwyol.	<p>Dim yn derbyn – mae rhan 3(i) o'r polisi yn cyfeirio tuag at angen i ddatblygiadau gyflawni cymysgedd briodol o ran mathau a maint y tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol. Mae hyn yn seiliedig ar asesiad marchnad dai leol neu unrhyw asesiad amgen gan y Cyngor neu bartner. Felly nid yw'r polisi yn nodi'r ystod / math / cymysgedd o dai ond yn hytrach yn nodi bod yn rhaid rhoi ystyriaeth i hyn yn seiliedig ar unrhyw dystiolaeth sydd ar gael wrth asesu cais unigol.</p> <p>Bydd y CCA ar Tai Fforddiadwy yn rhoi eglurhad ar gyfer oblygiadau posib gwahanol gymysgedd o dai fforddiadwy ar safleoedd unigol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
129	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mr Mark Harris) [1470]	Para. 7.4.68	Gwrthwynebu	<p>Pam y defnyddiwyd dull gweithredu dau gam yn hytrach na thri cham yng nghyswllt y gofyn am % y tai fforddiadwy a pham fod ardaloedd nad ydynt yn hyfyw ar hyn o bryd neu y gallent fynd yn anhyfyw os bydd amgylchiadau cyfredol y farchnad yn parhau wedi'u cynnwys?</p> <p>Angen esbonio pam y defnyddiwyd dull gweithredu dau gam yn hytrach na thri cam, a pam bod disgwyl i ardaloedd efo gwerth gweddilliol negyddol dal ddarparu tai fforddiadwy.</p>	<p>Dim yn derbyn</p> <p><u>Dull Dau-gam:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Ffariwyd yr ymagwedd dau-gam o ganlyniad i gynnwys a chanfyddiadau'r Adroddiad Hyfywedd diweddaraf (Hydref 2014). Credir y bydd y dull hwn yn effeithiol o ran sicrhau bod y cyflenwad gofynnol o dai fforddiadwy yn cael ei ddarparu. <p><u>Ardaloedd sydd â gwerth gweddilliol negyddol:</u></p> <ul style="list-style-type: none"> Derbyniwyd bod yr Adroddiad Hyfywedd diweddaraf (Hydref 2014) yn dangos gwerth gweddilliol negyddol i'r lleoliadau marchnad is, yn seiliedig ar senario 30 annedd fesul hectar. Fodd bynnag, nodir mai canfyddiad cyffredinol a generig yw hwn ar gyfer ardaloedd is-farchnad yn eu cyfanrwydd, a bydd angen asesu pob cais cynllunio yn unigol. Os oes modd profi yn ystod y cam cais cynllunio, i fodlonrwydd yr awdurdod cynllunio lleol, na

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>fyddai'n hyfyw yn ariannol i ddarparu tai fforddiadwy fel rhan o ddatblygiad, yna ni fyddai'n angenrheidiol gwneud hynny.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
108	CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]	Para. 7.4.69	Gwrthwynebu	<p>Sylweddoli fod angen tai fforddiadwy ym Mangor. Angen tai rhent a pherchnogaeth breifat. Angen tai a fflatiau efo 1/2/3 llofft. Angen gerddi ar blant.</p> <p>Dim gwaith manwl wedi ei wneud ar anghenion pobl Bangor. Angen cydweithio (ee efo'r Brifysgol) i weld be sydd angen - llawer o dai rhent gwag erbyn hyn</p>	<p>Dim yn derbyn - mae'r sail tystiolaeth i'r Cynllun yn nodi'r angen am dai fforddiadwy ar draws ardal y Cynllun.</p> <p>Mae rhan 3(i) o'r polisi yn cyfeirio tuag at yr angen i bob bwriad gyflawni cymysgedd briodol o ran mathau a maint y tai fforddiadwy ar gyfer angen lleol.</p> <p>Bydd system monitro'r Cynllun yn golygu y gellid ystyried newidiadau ym mhatrwm defnydd myfyrwyr o'r stoc dai leol ym Mangor.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
698	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	Para. 7.4.69	Gwrthwynebu	<p>Nid yw'r gofyn i ddarparu o leiaf 25% o dai fforddiadwy yn dderbyniol, gan ei fod yn awgrymu nad fydd terfyn ar yr angen am dai fforddiadwy ar safleoedd datblygu. Dylid nodi'n benodol mai hyd at 25% o dai fforddiadwy yw'r lefel.</p> <p>Nid yw'r polisi'n ystyried effaith goblygiadau adran 106. Nid yw'r polisi yn gosod cyfradd wahaniaethol ar gyfer tai fforddiadwy yn seiliedig ar safleoedd tir glas neu safleoedd a ddatblygwyd o'r blaen. Nid yw'n ystyried hyfywedd datblygiadau ac nid yw'n adlewyrchu PCC.</p>	<p>Dim yn derbyn – Mae'n rhaid i ddatblygiad preswyl fod yn hyfyw, felly mae terfyn o ran y nifer o dai fforddiadwy y gellir gofyn amdano. Ni ellir gofyn am ganran o dai fforddiadwy sydd yn golygu nad yw datblygiad yn hyfyw. Mae'r Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy (gan Andrew Golland Associates), sydd yn rhoddi'r sail dystiolaeth ar gyfer y polisi hwn, wedi nodi isafswm o safbwynt y canran o unedau fforddiadwy y dylid eu darparu, fodd bynnag byddai'n hollbwysig ystyried amgylchiadau penodol pob cais yn unigol.</p> <p>Credir fod yr Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy wedi ystyried yn fanwl goblygiadau Cytundebau Adran 106. Mae hyfywedd hefyd wedi ei ystyried</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>felly o fewn y polisi ac o'r herwydd credir ei fod yn adlewyrchu Polisi Cynllunio Cymru (para. 2.2.2).</p> <p>Mae'r Astudiaeth Hyfywdra wedi ystyried caniatadau ar dir llwyd a thir glas. Mae cynnwys y polisi felly wedi ei seilio ar y wybodaeth hyn ond unwaith yn rhagor nodir ei fod yn bwysig ystyried y sefyllfa benodol fesul pob cais perthnasol o safbwynt y nifer o dai fforddiadwy sydd yn bosib ar safle.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

TAI 10 – Safleoedd Eithriad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
-----------	-----	------	------	--	-------------------------------------

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
645	Cyfeillion Borth-y-Gest (Tom Brooks) [3036]	Polisi TAI 10	Gwrthwynebu	<p>Mae safleoedd eithrio sy'n gyfagos ond y tu allan i ffiniau datblygu yn arwain at ddatblygiad heb ei gynllunio ac yn creu datblygiadau rhuban. Gallai hyn gael ei gyfiawnhau ar gyfer safleoedd 100% tai fforddiadwy ble mae'r angen am ddatblygiadau bach o'r fath yn bodoli, ond ni ellir ei gyfiawnhau ar gyfer unrhyw eithriadau ar y farchnad agored. Fel y'i drafftwyd, byddai'r polisi hwn yn mynd ymhell tu hwnt i ganllawiau Polisi Cynllunio Cymru.</p> <p>Bod TAI 10 yn cael ei adolygu i gyfeirio tuag at dim ond caniatáu 100% tai fforddiadwy. Gellid gwneud hyn trwy ddileu y rhan olaf o'r polisi.</p>	<p>Dim yn derbyn -</p> <p>Tra derbynnir bod paragraff 9.2.23 o Bolisi Cynllunio Cymru'n cyfeirio at "darpariaeth arbennig ar ffurf safleoedd eithriedig tai fforddiadwy" ac "Nid yw safleoedd eithriedig tai fforddiadwy yn briodol ar gyfer tai ar y farchnad agored", mae paragraff 4.2.2 o TAN 6 ('Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy') yn datgan "Dylai awdurdodau cynllunio ddefnyddio pob ymagwedd bolisi sydd ar gael, mewn modd arloesol, i sicrhau'r cyflenwad mwyaf posibl o dai fforddiadwy". Mae gwybodaeth a ddarparwyd ym Mhapur Testun 3 'Poblogaeth a Thai' yn nodi effaith cyfyngedig safleoedd eithriedig o ran darparu tai fforddiadwy ar ardal y Cynllun. Yn unol â geiriad TAN 6, mae'r polisi hwn felly'n darparu ymagwedd arloesol er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth tai fforddiadwy ac felly gwireddu targed tai fforddiadwy'r Cynllun.</p>
984	Rob Booth [3033]	Polisi TAI 10	Gwrthwynebu	Ni ddylid cael unrhyw dai marchnad agored y tu allan i ffin datblygu.	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1032	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	Polisi TAI 10	Gwrthwynebu	<p>Yn ôl Polisi TAI10, Datblygu ar safleoedd eithrio, o dan amgylchiadau eithriadol gellid cynnwys tai marchnad i wneud cynnig yn hyfyw. Er hynny, ni ellir dosbarthu safleoedd sy'n gymysgedd o dai fforddiadwy a thai marchnad yn 'safleoedd eithrio' o dan bolisi cenedlaethol - dywed TAN 2 yn benodol nad yw safleoedd o'r fath yn briodol ar gyfer tai marchnad (para. 10.14).</p>	<p>Mae'r polisi hwn yn nodi y bydd tai marchnad ond yn cael eu caniatáu ar safle eithriadig mewn amgylchiadau eithriadol. Yn hyn o beth, bydd angen darparu tystiolaeth i ddangos nad yw darparu 100% o dai fforddiadwy ar safle yn hyfyw. Mewn amgylchiadau o'r fath, dim ond nifer fechan o anheddau ar y farchnad agored fydd yn cael eu darparu i draws-sybsideiddio'r unedau fforddiadwy ac i wneud y cynnig yn hyfyw. Yn ogystal, bydd rhaid i ddatblygiad o'r fath gael ei arwain neu fod mewn partneriaeth â Landlord Cymdeithasol Cofrestredig ac/neu Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol ac/neu'r Awdurdod Tai Strategol. Yn hyn o beth, bydd y nifer o safleoedd perthnasol yn cael ei reoleiddio'n llym, a bydd y nifer o dai marchnad a ddarperir yn lleiafrifol. O ystyried y cysylltiad â Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol neu'r Awdurdod Tai, mae'n debyg y bydd y ddarpariaeth tai marchnad agored yn diwallu anghenion lleol.</p> <p>Mae nifer y tai marchnad fyddai'n cael ei ddarparu'n fychan, ond dyma</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>fyddai'n sbarduno darparu mwy o dai fforddiadwy i ddiwallu anghenion lleol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid i'r polisi. Cryfhau a diweddarau'r dystiolaeth a ddarperir ym Mhapur Testun 3 i gyfiawnhau'r ddarpariaeth o nifer lleiafrifol o dai marchnad ar safleoedd eithriedig mewn amgylchiadau eithriedig.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
945	Hwylusydd Tai Gwledig Gwynedd (Mr Arfon Hughes) [1189]	Polisi TAI 10	Cefnogi	<p>Rwy'n croesawu'r polisi hwn a fydd o gymorth i sicrhau bod model addas yn cael ei ddatblygu o fewn ardaloedd, mwy na thebyg ardaloedd gwledig. Mae darparu cynlluniau tai fforddiadwy yn anos i'w gwireddu heb y sicrwydd bod unedau marchnad ar gael i groes gymorth cynllun.</p> <p>Mae cyswllt cryf yma gyda Pholisi Tai Marchnad Leol yn ddull o sicrhau bod datblygiadau yn digwydd o fewn ardaloedd lle mae angen clir am dai fforddiadwy gydag elfen o werthu ar y farchnad agored er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn hyfyw.</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
1262	Partneriaeth Tai Gwynedd (Elfyn Owen) [3052]	Polisi TAI 10	Cefnogi	<p>Mae'r Partneriaid yn croesawu'r polisi fydd o gymorth i sicrhau bod model addas yn cael ei ddatblygu o fewn ardaloedd, mwy na thebyg ardaloedd gwledig. Gallwn ddarparu gwybodaeth sydd yn dangos bod rhai cynlluniau yn anoddach i'w gwireddu heb y sicrwydd bod unedau ar gael i sybsideiddio'r cynllun. Mae'r tabl 7.13 ym Mhapur Testun tai a Phoblogaeth ar Safleoedd eithrio gwledig yn dangos faint o ddatblygiadau ar safle eithriedig sydd wedi bod gyda chymariaethau clir i'w gweld yn y niferoedd. Mae cyswllt cryf yma gyda Pholisi Tai Marchnad Lleol yn ddull o sicrhau bod datblygiadau yn digwydd o fewn ardaloedd lle mae angen clir am dai fforddiadwy gydag elfen o werthu ar y farchnad agored er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn hyfyw. Bydd hyn yn hwyluso datblygiadau megis Ymddiriedolaeth Tir mewn ardaloedd penodol.</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
309	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	Polisi TAI 10	Gwrthwynebu	Mae'r polisi hwn yn mentro niweidio safleoedd neu nodweddion gwerth bioamrywiaeth leol neu nodweddion pwysig mewn coridorau bywyd gwylt/gwyrdd. Ychwanegu cyfeiriad i'r angen i gydymffurfio gyda pholisïau'r cynllun yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â gwarchod bioamrywiaeth.	<p>Dim yn derbyn –</p> <p>Tra bod y polisi hwn yn darparu'r egwyddor o ddatblygu tai ar safleoedd eithriadig, ceir polisïau a chanllawiau eraill fyddai angen eu hystyried wrth asesu eu priodoldeb ar gyfer datblygiad o'r fath. Er enghraifft, byddai Polisi Strategol PS16 ('Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol'), Polisi AMG4 ('Gwarchod bioamrywiaeth lleol') a chanllawiau ym Mhennod 5 ('Gwarchod a Gwella Treftadaeth Naturiol a'r Arfordir') o Bolisi Cynllunio Cymru yn berthnasol o ran gwarchod safle sydd â gwerth bioamrywiaeth.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
446	Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]	Polisi TAI 10	Cefnogi	Mae'r Polisi TAI10 i'w groesawu yn fawr. Bydd yn caniatáu darparu cartrefi i rai y mae pris tai lleol ar y farchnad agored allan o'u cyrraedd. Bydd angen canllaw Cynllunio ynglŷn â natur a ffynhonnell y dystiolaeth angen fydd yn rhaid ei gyflwyno i gefnogi cais Cynllunio.	<p>Nodi'r sylw – Nodir y bydd y Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig o ran 'Tai Fforddiadwy', fel nodir yn Atodiad 9, yn berthnasol ar gyfer Polisi TAI10.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
452	Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]	Para. 7.4.79	Gwrthwynebu	Dylid darparu canllaw Cynllunio i egluro natur y dystiolaeth fydd yn dderbyniol wrth geisio cyfiawnhau cynnwys tai marchnad agored.	<p>Dim yn derbyn – Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol arfaethedig ar gyfer 'Tai Fforddiadwy', fel nodir yn Atodiad 9, yn berthnasol ar gyfer Polisi TAI10.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
449	Grŵp Cynefin (Rhys Dafis) [2953]	Para. 7.4.83	Cefnogi	Bydd hyn yn osgoi stigma ac yn sicrhau bod y tai fforddiadwy yn cael yr un sylw adeiladu.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Llety ar Gyfer Sipsiwn a Theithwyr

Cyd-destun a Chyflwyniad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1028	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.4.90	Gwrthwynebu	Mae angen eglurhad ynglyn a sut a phryd mae angen yr 16 o leiniau ychwanegol a beth yw anghenion yr awdurdodau o ran y 28 llain deithiol (welwyd sydd ei angen ar draws Gogledd Cymru) a phryd fydd eu hangen. Mae'r awdurdodau wedi cydnabod na fydd modd lletya pob grŵp o Sipsiwn a Theithwyr gyda'i gilydd ar yr un safle a bydd angen i awdurdodau esbonio a ydynt wedi cymryd hyn i ystyriaeth wrth ddarparu ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr	<p>Derbyn</p> <p>Ystyrir y byddai cynnwys geiriad sy'n cyfeirio at y cyfnod pan fo angen y lleiniau ychwanegol yn rhoi cyswllt defnyddiol rhwng yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTANA) diweddaraf a'r Cynllun, ac yn gwella gwaith monitro. Gwnaed gwaith ychwanegol gan y ddau Gyngor i ddangos sut y bydd yr angen nas diwallwyd a nodwyd yn y GTANA diweddaraf (2015) yn cael ei fodloni yn ystod y 5 mlynedd nesaf.</p> <p>Argymhelliad</p>

					<p>Diwygio'r testun fel yr amlinellir uchod i sicrhau eglurder ac i ddangos bod y Cynllun yn rhoi ystyriaeth lawn i ddata a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg.</p> <p>Newid â Ffocws: NF70</p>
1673	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.4.90	Gwrthw ynebu	<p>Mae'r testun yn Papur Testun 18: Siwpsiwn a Theithwyr yn datgan y bydd pob safle sy'n dod o dan restr o feini prawf yn cael eu diystyru. Fodd bynnag, ni ddylid diystyru dynodiad ardal llifogydd C1 yn awtomatig. Dylid profi'r cyfiawnhad dros safleoedd o'r fath yn hytrach na chyfyngu opsiynau addas posibl ymhellach.</p>	<p>Nodwyd y sylw</p> <p>I ddechrau, ystyrir y dylai'r safle a ffefrir barhau i fod yn safle nad yw o fewn parth C1, ond, os nad oes safleoedd posibl ar gael, yna dylai safleoedd ym Mharth C1 gael eu hasesu yn unol â TAN15.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio'r testun ym Mhapur Pwnc 18 diwygiedig i sicrhau eglurder ac i ddangos bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol.</p> <p>Dim newid</p>

TAI 11 – Gwarchod Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1076	Llywodraeth	POLISI	Gwrthw	Polisi TAI11 - mewn perthynas â diogelu safleoedd	Derbyn yn rhannol

	Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	TAI11	ynebu	presennol, dylid ehangu'r cymal i: "diogelu fel safleoedd preswyl parhaol i'w defnyddio gan Sipsiwn a Theithwyr yn unig".	Ychwanegu "a Theithwyr" at ddiwedd brawddeg gyntaf Polisi TAI 11. Diwygio geiriad yr ail frawddeg i sicrhau cysondeb o ran terminoleg. Argymhelliad Diwygio'r testun fel yr amlinellir uchod er mwyn sicrhau cysondeb. Newid â Ffocws: NF71
1260	Partneriaeth Tai Gwynedd / Gwynedd Housing Partnership (Elfyn Owen) [3052]	POLISI TAI11	Gwrthw ynebu	Mae'n ofynnol bod Awdurdodau Lleol yn cynnal arolwg o anghenion Sipsiwn a Theithwyr erbyn Chwefror 2016 a bydd hwn yn ddilyniant i'r gwaith a wnaed yn 2011. Bydd hwn yn rhoi gwybodaeth gyfredol i ni o'r angen a byddwn yn edrych i gonisiynu'r gwaith yn rhanbarthol. Bydd Partneriaid Tai yn cefnogi'r gwaith hwn.	Nodwyd y sylw Derbynnir crynodeb o'r sylwadau fel mater o ffaith; mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd (UPCC) wedi ymgysylltu â'r Gwasanaethau Tai wrth baratoi'r GTANA (2015) Argymhelliad Nid oes angen unrhyw newidiadau i ymdrin â'r sylw Dim newid

TAI 12 – Dyranu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1074	Llywodraeth Cymru (Mr	7.4.97	Gwrthw ynebu	Mae angen eglurhad pellach ynghylch cam 4 (mewn perthynas â'r 'asesiad manwl o safleoedd') ac fe ddylai'r polisi hefyd adlewyrchu'r ffaith bod y	Derbyn Awgrymir diwygio'r rhannau perthnasol o adran 7.4 yn unol â'r sylwadau a dderbyniwyd. Dylai Papur Pwnc 18: Dynodi

	Mark Newey) [1561]			broses yn ymwneud â dod o hyd i safleoedd cyhoeddus ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, yn hytrach na safleoedd preifat.	<p>Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr diwygiedig a ddiweddarwyd esbonio ac egluro'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu a nodi safleoedd preswyl parhaol posibl ar gyfer llety cymdeithasol i Sipsiwn a Theithwyr a'r manau aros dros dro posibl.</p> <p>Diwygio geiriad Polisi TAI 12 i gyfeirio at bob safle a ddyrannwyd ar gyfer safleoedd preswyl parhaol posibl ar gyfer llety cymdeithasol i Sipsiwn a Theithwyr a'r manau aros dros dro posibl. Nodi'r dyraniadau Safleoedd Sipsiwn Teithwyr arfaethedig ar yr Mapiau Cynigion.</p> <p>Argymhelliad Diwygio'r testun fel yr amlinellir uchod i ddangos bod y Cynllun yn rhoi ystyriaeth lawn i ddata a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg.</p> <p>Newid â Ffocws: NF72</p>
1075	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.4.99	Gwrthw ynebu	Mae cynnwys 'ni chant aros am fwy na 5 diwrnod' yn cyfyngu Awdurdodau Lleol yn y dyfodol os byddant yn gweld y terfyn amser hwn yn wrthgynhyrchiol. Hefyd, nodir bod angen safle tramwy/aros allai gymryd hyd at 15 o leiniau er mwyn rhoi lle i 15 carafán. Fodd bynnag, mae canllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru'n datgan y dylai pob llain dramwy fedru rhoi lle i ddwy garafán deithiol. Felly dylai safle 8 llain fod yn ddigonol..	<p>Derbyn Awgrymir diwygio'r rhannau perthnasol o adran 7.4 yn unol â'r sylwadau a dderbyniwyd ac i gymryd i ystyriaeth Bapur Pwnc 18: Dynodi Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr a ddiweddarwyd, ac yn enwedig y fethodoleg a ddefnyddiwyd i asesu a nodi safleoedd manau aros dros dro posibl.</p> <p>Argymhelliad Diwygio'r testun fel yr amlinellir uchod er mwyn sicrhau cywirdeb ac i ddangos bod y Cynllun yn rhoi ystyriaeth lawn i ddata a thystiolaeth sy'n dod i'r amlwg.</p> <p>Newid â Ffocws: NF73</p>

TAI 13 – Safleoedd ar gyfer Lleiniau i Sipsiwn a Theithwyr

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1077	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	POLISI TAI13	Gwrthw ynebu	Mae'r mae'r meini prawf hyn yn ymwneud yn benodol â safleoedd preswyl ac nid ydynt yn caniatáu ar gyfer anghenion safleoedd tramwy yn y dyfodol. Nid yw maen prawf 2 yn ei gwneud yn glir nad oes trafndiaeth gyhoeddus ar gael bob tro, yn arbennig pan fo safleoedd yn cael eu dynodi yn unol â pharagraff 7.4.102. Mae maen prawf 4 yn hyblyg iawn yn sgil defnyddio'r cymal "yn cynnwys". Dylai'r awdurdodau ystyried cyfyngu'r ffactorau hyn i'r rhai a nodwyd eisoes, ac ychwanegu "oni bai bod mesurau lliniaru yn bosibl ac yn gymesur". Mae maen prawf 6 yn afresymol gan fod canllawiau Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru'n ymwneud â safleoedd Awdurdodau Lleol ac nid safleoedd preifat. Gallai'r Awdurdod Lleol egluro y dylai'r safleoedd cyhoeddus ystyried y canllawiau hynny, tra byddai safleoedd preifat yn cael eu rheoleiddio dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Mae maen prawf 9 eisoes yn dod o dan bolisi TAI11.	<p>Derbyn</p> <p>Awgrymir diwygio Polisi TAI13 i gymryd i ystyriaeth y sylwadau a gyflwynwyd. Er y derbynnir y byddai safleoedd preifat yn cael eu rheoleiddio o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013, ystyrir y dylid parhau i gyfeirio at Ganllawiau Arferion Da Llywodraeth Cymru ynglŷn â dylunio safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, ond dylid ei wneud yn glir, yn achos safleoedd preifat, nad yw cydymffurfio'n orfodol. Cynnwys geiriad i ddweud bod yr awdurdodau cynllunio lleol o'r farn y dylai darparwyr preifat ei ystyried wrth ddylunio safleoedd a cheisio ymdrin â chymaint â phosibl o'r canllawiau. Ystyrir na ddylai'r Cyngor fod â disgwyliadau dylunio is ar gyfer dylunio safleoedd preifat ac estyniadau newydd o'u cymharu â safleoedd yn y sector cyhoeddus.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Diwygio'r testun fel yr amlinellir uchod i sicrhau eglurder ac i sicrhau y gellir dehongli'r polisi yn hawdd.</p> <p>Newid â Ffocws: NF74,</p>
1078	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.4.104	Gwrthw ynebu	Gallai paragraff 7.4.104 fod yn rhesymol mewn perthynas â safleoedd preswyl parhaol ond nid mewn perthynas â defnyddwyr tramwy.	<p>Derbyn</p> <p>Awgrymir diwygio paragraff 7.4.104 i gymryd i ystyriaeth y sylwadau a dderbyniwyd.</p>

					<p>Argymhelliad Diwygio'r testun fel yr amlinellir uchod i sicrhau eglurder.</p> <p>Newid â Ffocws: NF75</p>
1079	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.4.105	Gwrthw ynebu	Mae paragraff 7.4.105 yn egluro nad oes gofyn i ddatblygwyr safleoedd preifat fyw yn yr ardal cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer safle, gan y gallai hyn gyfyngu ar ryddid symudiad. Mae cylchlythyr cynllunio 30/2007 Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn glir y byddai gofyniad o'r fath yn annerbyniol ac yn mynd yn groes i bolisi cenedlaethol.	<p>Derbyn Hepgor y cyfeiriad at gysylltiadau lleol yn y testun ac ym Mholisi TAI 13.</p> <p>Argymhelliad Diwygio'r testun fel yr amlinellir uchod i ddangos bod ystyriaeth briodol wedi ei rhoi i Bolisi a Chanllawiau Cenedlaethol.</p> <p>Newid â Ffocws: NF75</p>

Lleoliad Tai

PS15 – Strategaeth Aneddleoedd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
289	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mr Mark Harris)	7.4.113	Gwrthwynebu	Dylai rhagor o ddarpariaethau ddod o du'r Ganolfan Isranbarthol a'r Ganolfan Gwasanaethau Trefol. Mae'r canolfannau hyn yn fwy cynaliadwy o ran lle mae'r	Dim yn derbyn - Mae'n bwysig bod y strategaeth ofodol yn cydnabod bod yr ardal yn un gwledig iawn ac yn un sy'n cynnwys rhwydwaith o wahanol aneddeleoedd gwasgaredig. Cafodd y strategaeth ddogsbathu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
	[1470]			<p>farchnad yn dymuno codi tai a phobl yn dymuno byw. At hyn, mae'r cyfyngiadau ar dai fforddiadwy ac anghenion lleol tai mewn pentrefi, clystyrau a'r cefn gwlad agored yn golygu na fydd yr unedau hyn (1,976) yn cyfrannu at gyfanswm tai ar y farchnad agored.</p> <p>Cynyddu'r % o dai yn y Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol. Tynnu'r cyfyngiad 'tai farchnad leol' o'r ardaloedd sy'n cael ei hadnabod uchod.</p>	<p>chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisiau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Mae'n mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafndiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddeoedd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
626	Dr Morag McGrath [231]	7.4.113	Gwrthwynebu	<p>Mae'n anodd iawn cyfiawnhau datblygiad yn y cefn gwlad agored. Mae Tabl 18 yn dangos fod Ynys Môn yn barod efo 141 o unedau uwchben y lefel disgwylidig dros gyfnod cyfan y cynllun (a 43 dros ben lefel y clystyrau). Oherwydd hyn fe ddylid bod yna</p>	<p>Dim yn derbyn – mae'r Cynllun yn cyfeirio'r mwyafrif o ddatblygiadau i drefi a phentrefi ardal y Cynllun. Credir bod y ffordd yma o ddsbarthu yn ogystal a pholisiau a fydd yn rheoli'r datblygiadau yn cyd-fynd ag egwyddorion cynaliadwyedd y Cynllun a pholisiau cynllunio cenedlaethol.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				rhagdybiaeth yn erbyn unrhyw ddatblygiad pellach yn y cefn gwlad agored yn Ynys Môn heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.	Dim newid
699	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	7.4.113	Gwrthwynebu	<p>Mae Tabl 18 a Thabl 19 yn nodi'r nifer o unedau sydd eisoes â chaniatâd cynllunio.</p> <p>Dylid ystyried pob caniatâd sydd eisoes yn bodoli, fodd bynnag, dylid eu hadolygu fel mai dim ond y safleoedd sy'n debygol o gael eu datblygu yn ystod cyfnod y cynllun sy'n cael eu cynnwys.</p> <p>Mae llawer o safleoedd yn derbyn caniatâd cynllunio ond ni fyddant yn cael eu hadeiladu. Dylid darparu rhestr lawn o safleoedd y gellir dibynnu arnynt.</p> <p>Dylid dadelfennu'r dosbarthiad tai mewn gwahanol gategoriâu o aneddeledd er mwyn adnabod y</p>	<p>Dim yn derbyn – Mae'r Cynghorau'n ymgymryd ag Astudiaethau Tir ar gyfer Tai yn flynyddol mewn ymgynghoriad a chynrychiolwyr y diwydiant adeiladu a darparwyr isadeiledd. Mae gwybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn yr Astudiaethau Tir ar gyfer Tai wedi goleuo'r Cynllun. Nid yw pob safle sydd gan ganiatâd cynllunio wedi cael ei gynnwys yn y Cynllun oherwydd tystiolaeth sy'n awgrymu na fyddant yn cael eu datblygu o fewn oes y Cynllun.</p> <p>Cyfeiriwn at dudalen gwe'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd lle gellir gweld adroddiadau'r Astudiaethau Tir ar gyfer Tai. Cyfeiriwn hefyd at Atodiad 5 y Cynllun Adnau sy'n rhoi'r sefyllfa o ran tir efo caniatâd cynllunio fesul cyngor cymuned/ tref ac fesul anheddle yn 2014.</p> <p>Mae'r Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o drefi a phentrefi sydd gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a'i gyhoeddi i adnabod yr aneddeledd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Aneddeledd.</p> <p>Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth,</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				<p>lefel twf cyffredinol sydd wedi ei ymrwymo i aneddeuoedd unigol ar hyn o bryd.</p> <p>Wrth wneud dyraniadau newydd, dylid ystyried effaith yr ymrwymadau presennol a'u cymharu â maint, rôl a swyddogaeth gymharol bob anheddle.</p>	<p>cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafndiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddeuoedd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
1061	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	7.4.113	Gwrthwynebu	<p>Ymddengys fod cyfanswm y safleoedd a ddynodwyd a'r safleoedd ar hap yn llai na'r ffigur sy'n cael ei nodi yn nhabl 17 y cynllun (1,502 - tudalen 151). Mae angen i'r awdurdod sicrhau fod cyfanswm y safleoedd a ddynodwyd a'r safleoedd ar hap mewn pentrefi yn cyfateb i'r ffigur yn y cynllun. Hefyd rhaid sicrhau bod y ffigur hwn yn cael ei gyflawni, ac nad oes modd datblygu nifer fawr o dai mewn pentref unigol neu lond dwrn o</p>	<p>Derbyn y rhannol – Cyfanswm y nifer o unedau sydd wedi cael ei dynodi yn y Pentrefi yw 301 o unedau tra bod y ffigur ar hap rhwng polisiau TAI 16 a 17 yn 1,157. Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 1,458 o unedau.</p> <p>Mae'r diffyg o 44 o unedau o'r ffigur 1,502 yn nhabl 17 fel y lefel twf disgwylidig ar gyfer y categori yma yn adlewyrchu aneddeuoedd ble mae'r twf a welwyd yn y cyfnod 2011 i 2014 yn uwch na lefel twf disgwylidig y Cynllun ar eu cyfer.</p> <p>I roi gwell eglurder o fewn y Cynllun cynigir newid Atodiad 5 trwy gynnwys tabl ychwanegol sydd yn amlinellu y nifer o unedau sydd wedi cael ei cwblhau yn y cyfnod 2011 i 2014.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Bod tabl ychwanegol yn cael ei gynnwys yn Atodiad 5 yn dangos</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				bentrefi bach, yn unol â'r strategaeth dai yn y cynllun.	nifer o unedau wedi ei cwblhau fesul anheddle. Newid Bychan NB23
83	Cyngor Tref Biwmares (Prof TW Ashenden) [1267]	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	Mae'r aneddiadau rhwng Llanfairpwllgwyngyll a Llanfaes yn gweithredu fel maestref Bangor. Caiff galwadau ar dai ym Mangor eu gyrru gan lwyddiant economaidd Bangor a choridor yr A55 i'r dwyrain. O'r herwydd, mae'r glorian o ran dynodi tai rhwng canolfannau Caergybi, Llangefni ac Amlwch a'r aneddiadau ar hyd y Fenai yn gogwyddo'n amhriodol o blaid Caergybi, Llangefni and Amlwch gyda chanlyniad y bydd y sefyllfa bresennol o brinder tai yn yr ardal yn gwaethygu. Dylid ailgyfeirio rhan o ddynodiadau tai Caergybi, Llangefni, Amlwch a Bangor i aneddiadau Llanfairpwllgwyngyll, Porthaethwy, Llandegfan a Biwmares.	Dim yn derbyn - Cafodd y strategaeth ddisbarthu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisiâu strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Byddai hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â disgwyliadau cenedlaethol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Yn hyn o beth, mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhan 9.2) yn dweud bod angen i gynlluniau datblygu ddarparu fframwaith sydd yn sbarduno, tywys a rheoli newid tuag at batrwm mwy cynaliadwy o ddatblygu. Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol gael rhwydwaith aneddeledd sy'n gynaliadwy, sy'n cwrdd â gofynion yr economi, yr amgylchedd ac iechyd wrth barchu amrywiaeth leol a gwarchod cymeriad a hunaniaeth ddiwylliannol y cymunedau. Mae'r Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o drefi a phentrefi sydd gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a'i gyhoeddi i adnabod yr aneddeledd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Aneddeledd.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafndiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddeleoedd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Byddai dosbarthu llai o dwf i'r prif ganolfannau a chyfeirio mwy i ganolfannau llai neu bentrefi neu glystyrau heb fod yna reswm grymus i wneud hynny yn tanseilio strategaeth ofodol a'r egwyddorion cynaliadwy sy'n sail i'r Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
132	Cyngor Tref Biwmares (Prof TW Ashenden) [1267]	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	Ni roddwyd digon o bwys i rôl ardal Biwmares/Llanfaes fel maestref Bangor. Caiff galwadau ar dai ym Mangor eu gyrru gan lwyddiant economaidd Bangor a choridor yr A55 i'r dwyrain. O'r herwydd, mae'r glorian o ran dynodi tai rhwng canolfannau Caergybi, Llangefni, Amlwch a	<p>Dim yn derbyn – Gweler yr ymateb i wrthwynebiad rhif 132/1267.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				Biwmares/Llanfaes yn gogwyddo'n amhriodol o blaid Caergybi, Llangefni and Amlwch gyda chanlyniad y bydd y sefyllfa bresennol o brinder tai ym Miwmares/Llanfaes yn gwaethygu. Dylid dyrannu mwy o dai i ardal Biwmares/Llan-faes.	
284	Mr Aled Evans [2646]	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	Lleihau'r niferoedd gyda chaniatâd yn y canolfannau mawr, a chynyddu'r niferoedd yn y clystyrau ac ardaloedd gwledig.	<p>Dim yn derbyn - Cafodd y strategaeth ddisbarthu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisiau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Byddai hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â disgwyliadau cenedlaethol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Yn hyn o beth, mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhan 9.2) yn dweud bod angen i gynlluniau datblygu ddarparu fframwaith sydd yn sbarduno, tywys a rheoli newid tuag at batrwm mwy cynaliadwy o ddatblygu. Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol gael rhwydwaith aneddeuoedd sy'n gynaliadwy, sy'n cwrdd â gofynion yr economi, yr amgylchedd ac iechyd wrth barchu amrywiaeth leol a gwarchod cymeriad a hunaniaeth ddiwylliannol y cymunedau.</p> <p>Mae'r Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o drefi a phentrefi sydd</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a'i gyhoeddi i adnabod yr aneddeledd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Aneddeledd.</p> <p>Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafndiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddeledd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Byddai cyfeirio mwy o unedau tai na chafwyd ei ddosrannu yn y Cynllun Adnau i'r cymunedau llai yn tanseilio'r Strategaeth Ofodol a'r egwyddorion cynaliadwy sy'n sail i'r Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
292	Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (Mr Mark Harris)	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	Ystyried darparu mwy o dai yn y canolfannau Isranbarthol a chanolfannau gwasanaethau trefol, gan y byddai hyn yn fwy cynaliadwy ac yn darparu tai	Dim yn derbyn - Mae'n bwysig bod y strategaeth ofodol yn cydnabod bod yr ardal yn un gwledig iawn ac yn un sy'n cynnwys rhwydwaith o wahanol aneddeledd gwasgaredig. Cafodd y strategaeth ddosbarthu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
	[1470]			mewn ardaloedd lle mae ar y farchnad eu heisiau.	<p>chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisiau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Mae'n mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafndiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddeledd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
347	Mr Geoff Wood [2916]	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	Mewn rhai amgylchiadau, gallai fod yn briodol adfer adeiladau gwerinol (gan gynnwys anheddau gwag) yn y cefn gwlad agored er mwyn diogelu cymeriad lleol a/neu dreftadaeth Gymreig. Ar hyn o bryd ni chaiff y math hwn o ddatblygiad ei ystyried yn y polisi.	<p>Dim yn derbyn - Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafndiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddeledd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Byddai cyfeirio mwy o unedau tai na chafwyd ei ddosrannu i safleoedd yng nghefn gwlad yn y Cynllun Adnau yn tansellio'r Strategaeth Ofodol a'r egwyddorion cynaliadwy sy'n sail i'r Cynllun. Mae'r Cynllun Adnau yn cyfeirio at TAN6 - Cynlluniau ar gyfer</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>cymunedau gwledig (2010). Mae Polisi TAI 19 yn hyrwyddo adfer adeiladau presennol priodol i ddefnydd preswyl.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
354	WYG/Alliance Planning (Mr Mark Walton) [2905]	POLISI STRATEGOL PS15	Cefnogi	<p>Mae ein Cleient, Admiral Taverns, yn cefnogi'r lleoliad arfaethedig a'r rhaniad dosbarthu arfaethedig o ran tai mewn aneddiadau cynaliadwy yn enwedig felly bwysigrwydd Pentrefi Gwasanaethau wrth barhau i gyflawni hyd at 25% o'r twf tai yn yr ardaloedd lle mae'r awdurdodau'n gweithio ar y cyd.</p>	<p>Nodi'r sylw o gefnogaeth</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
461	Tai Twnti Cyf [2868]	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	<p>1. Mae Morfa Nefyn yn anheddiad sy'n addas ar gyfer twf rhesymol mewn tai marchnad agored.</p> <p>2. Ni fyddai safleoedd tai marchnad agored ychwanegol yn niweidio</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae Morfa Nefyn wedi cael ei adnabod fel Pentref Arfordirol/ Gwledig. Cafodd y strategaeth ddosbarthu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisiau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				<p>strategaeth y cynllun na'r Gymraeg.</p> <p>3. Gellid neilltuo tir ychwanegol ar gyfer tai neu ymestyn y ffin ddatblygu er mwyn gwneud lle i'r datblygiadau.</p> <p>Awgrymir dau safle.</p>	<p>Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Byddai hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â disgwyliadau cenedlaethol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Yn hyn o beth, mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhan 9.2) yn dweud bod angen i gynlluniau datblygu ddarparu fframwaith sydd yn sbarduno, tywys a rheoli newid tuag at batrwm mwy cynaliadwy o ddatblygu. Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol gael rhwydwaith aneddeoledd sy'n gynaliadwy, sy'n cwrdd â gofynion yr economi, yr amgylchedd ac iechyd wrth Mae'r Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o drefi a phentrefi sydd gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a'i gyhoeddi i adnabod yr aneddeoledd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Aneddeoledd.</p> <p>Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafndiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddeoledd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
482	Cyfeillion y Ddaear Môn a Gwynedd (Mr Richard Mills) [2937]	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	Nid yw'r cynigion o ran dosbarthu twf tai yn cydymffurfio'n ddigonol gyda pholisi cynllunio cenedlaethol, sy'n cynghori y dylai cynlluniau datblygu lleol sicrhau patrwm anedlleoedd cynaliadwy sy'n cwrdd â gofynion yr economi, yr amgylchedd ac iechyd, wrth barchu amrywiaeth lleol a gwarchod cymeriad a hunaniaeth ddiwylliannol cymunedau. Fe ddylid rhoi llai o ffocws i Fangor a'r coridor A55 a mwy o sylw i gymunedau llai.	<p>Dim yn derbyn -. Cafodd y strategaeth ddisbarthu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisiau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Byddai hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â disgwyliadau cenedlaethol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Yn hyn o beth, mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhan 9.2) yn dweud bod angen i gynlluniau datblygu ddarparu fframwaith sydd yn sbarduno, tywys a rheoli newid tuag at batrwm mwy cynaliadwy o ddatblygu. Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol gael rhwydwaith anedlleoedd sy'n gynaliadwy, sy'n cwrdd â gofynion yr economi, yr amgylchedd ac iechyd wrth Mae'r Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o drefi a phentrefi sydd gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a'i gyhoeddi i adnabod yr anedlleoedd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Anedlleoedd.</p> <p>Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafndiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o anedlleoedd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Byddai cyfeirio mwy o unedau tai na chafwyd ei ddosrannu yn y</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>Cynllun Adnau i'r cymunedau llai yn tansilio'r Strategaeth Ofodol a'r egwyddorion cynaliadwy sy'n sail i'r Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
651	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036]	POLISI STRATEGOL PS15	Cefnogi	<p>Mae Polisi PS15 - Strategaeth Aneddleoedd - yn cyfyngu pentrefi arfordirol i "o fewn ffiniau datblygu, safleoedd mewnlenwi neu safleoedd a ddaw ar gael ar hap". Dynodir potensial dangosol o 10 safle o'r fath i Forth-y-gest. Nodwn nad yw hyn yn darged nac yn derfyn.</p> <p>Cefnogwn y polisi hwn, yn enwedig, "Bydd datblygiad yn cael ei gyfyngu i'r raddfa a'r math sy'n ateb angen y gymuned am dai ar leiniau ar hap/lleiniau mewnlenwi oddi mewn i ffiniau datblygu. Ni</p>	<p>Nodi'r sylw o gefnogaeth</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				fydd unrhyw safleoedd tai marchnad agored yn cael eu dynodi yn y Pentrefi hyn."	
701	RCH Douglas Pennant [3070]	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	Gwrthwynebu cyfyngu'r twf yn Nhalybont i 2 annedd ar hap dros gyfnod y cynllun a diffyg ffin ddatblygu. Rwyf yn gwrthwynebu'r asesiad cynladwyedd ar gyfer Talybont (sgôr anheddiad). Mae'r drefn bresennol mewn gwirionedd yn peri risg i hyfywedd y gwasanaethau lleol. Newid: ffin ddatblygu i ganiatáu nifer uwch o anheddau yn Nhalybont, fyddai'n cefnogi'r gwasanaethau lleol yn well.	<p>Dim yn derbyn – Mae Talybont wedi cael ei adnabod fel Clwstwr. Yn nhermau gofodol mae'r Cynllun yn ceisio sicrhau y bydd datblygiad newydd yn cael eu dosbarthu i adlewyrchu gallu cymharol aneddleoedd i ymdopi â thwf, gan roi ystyriaeth i'w cymwysterau cynaliadwyedd o ran hygyrchedd, argaeledd cyfleusterau a gwasanaethau, yn ogystal â maint, poblogaeth a lleoliad yr anheddle. Cyfeiriwn at Bapur Testun 5 sy'n cofnodi cymwysterau'r aneddleoedd unigol. Mae'r strategaeth a'r goeden aneddleoedd yn adlewyrchu'r amcanion cynaliadwyedd sy'n sail i'r Cynllun. Credir bod y dosraniad cyfredol o dwf yn briodol i sicrhau bod datblygiad yn addas i ac yn adlewyrchu gallu aneddleoedd i ymdopi gyda lefel twf a ellir ei wireddu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
729	Cyngor Cymuned Llanystumdwy (Mr Richard J Roberts) [1A550]	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	<p>Dywed pwynt (ix) 'Dim ond datblygiadau sy'n cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Cymru a NCT6 fydd yn cael eu caniatáu yng Nghefn Gwlad agored'.</p> <p>Rydym yn anghytuno â hyn gan y teimlwn ei fod yn cau'r drws ar unrhyw ddatblygiad yng nghefn gwlad, rhywbeth sy'n hollol groes i natur yr ardal hon.</p> <p>Nid yw'r Cynllun yn rhoi digon o sylw i natur gynhenid datblygiadau cefn gwlad, fel yr ardal hon.</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae'r strategaeth a'r goeden aneddeledd yn adlewyrchu'r amcanion cynaliadwyedd sy'n sail i'r Cynllun. Credir bod y dosraniad cyfredol o dwf yn briodol i sicrhau bod datblygiad yn addas i ac yn adlewyrchu gallu aneddeledd i ymdopi gyda lefel twf a ellir ei wireddu.</p> <p>Byddai cyfeirio mwy o unedau tai na chafwyd ei ddosrannu i safleoedd yng nghefn gwlad yn y Cynllun Adnau yn tansilio'r Strategaeth Ofodol a'r egwyddorion cynaliadwy sy'n sail i'r Cynllun. Mae'r Cynllun Adnau yn cyfeirio at TAN6 - Cynlluniau ar gyfer cymunedau gwledig (2010). Mae'r Cynllun felly yn hyrwyddo adeiladu unedau tai newydd yng nghefn gwlad os cyflwynir tystiolaeth rymus adeg cais cynllunio i gyfiawnhau hynny. Mae'r Cynllun hefyd trwy Bolisi TAI19 yn caniatáu darpariaeth o unedau tai fforddiadwy trwy gynigion sy'n ymwneud ag addasu adeiladau priodol yng nghefn gwlad, os gellir cydymffurfio a meini prawf penodol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
730	RCH Douglas	POLISI STRATEGOL	Gwrthwynebu	Gwrthwynebu cyfyngu'r twf yn Llandygai i wyth annedd ar hap	Dim yn derbyn – mae Llandygai wedi cael ei adnabod yn Bentref Lleol yn y Goeden Aneddeledd. Yn nhermau gofodol mae'r Cynllun

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
	Pennant [3070]	PS15		dros gyfnod y cynllun a llunio'r ffin ddatblygu. Rwyf yn gwrthwynebu'r asesiad cynaliadwyedd ar gyfer Llandygai (sgôr anheddle). Mae'r drefn bresennol mewn gwirionedd yn peri risg i hyfywedd y gwasanaethau lleol. Newidiadau: ffin ddatblygu ehangach er mwyn caniatáu nifer uwch o aneddiadau yn Llandygai, a fyddai'n cefnogi'r gwasanaethau lleol yn well.	<p>yn ceisio sicrhau y bydd datblygiad newydd yn cael eu dosbarthu i adlewyrchu gallu cymharol aneddleoedd i ymdopi â thwf, gan roi ystyriaeth i'w cymwysterau cynaliadwyedd o ran hygyrchedd, argaeledd cyfleusterau a gwasanaethau, yn ogystal â maint, poblogaeth a lleoliad yr anheddle. Cyfeiriwn at Bapur Testun 5 sy'n cofnodi cymwysterau'r aneddleoedd unigol. Mae'r strategaeth a'r goeden aneddleoedd yn adlewyrchu'r amcanion cynaliadwyedd sy'n sail i'r Cynllun. Credir bod y dosraniad cyfredol o dwf yn briodol i sicrhau bod datblygiad yn addas i ac yn adlewyrchu gallu aneddleoedd i ymdopi gyda lefel twf a ellir ei wireddu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
814	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI STRATEGOL PS15	Cefnogi	Caiff polisi dyrannu tai 'cytbwys' eang ei gynnig, fel yr ymgynghorwyd arno'r llynedd, ac mae'n cynnwys: hyd at 55% ym Mangor a'r prif drefi (yn cynnwys Caernarfon, Pwllheli, Porthmadog), o leiaf 20% mewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol (yn	<p>Nodi'r sylw o gefnogaeth.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				cynnwys Abersoch, Criccieth, Nefyn), a hyd at 25% mewn canolfannau llai. Cefnogwn y dull hwn.	
822	Cyngor Cymuned Botwnnog (Mrs Gwenda Roberts) [1541]	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	Cyfeirir mai 3% a ganiateir o dai newydd yng nghefn gwlad yn ystod cyfnod y Cynllun hwn. Mae'r nifer yma'n isel iawn o ystyried nifer o flynyddoedd bydd y Cynllun yn weithredol. Eto rhaid ceisio denu'r ifanc i barhau yn eu cynefin a thrwy hynny bydd sicrwydd o ddyfodol i'n hysgolion, etifeddiaeth, ayb.	<p>Dim yn derbyn - Mae'r strategaeth a'r goeden aneddleoedd yn adlewyrchu'r amcanion cynaliadwyedd sy'n sail i'r Cynllun. Credir bod y dosraniad cyfredol o dwf yn briodol i sicrhau bod datblygiad yn addas i ac yn adlewyrchu gallu aneddleoedd i ymdopi gyda lefel twf a ellir ei wireddu.</p> <p>Byddai cyfeirio mwy o unedau tai na chafwyd ei ddosrannu i safleoedd yng nghefn gwlad yn y Cynllun Adnau yn tansilio'r Strategaeth Ofodol a'r egwyddorion cynaliadwy sy'n sail i'r Cynllun. Mae'r Cynllun Adnau yn cyfeirio at TAN6 - Cynlluniau ar gyfer cymunedau gwledig (2010). Mae'r Cynllun felly yn hyrwyddo adeiladu unedau tai newydd yng nghefn gwlad os cyflwynir tystiolaeth rymus adeg cais cynllunio i gyfiawnhau hynny. Mae'r Cynllun hefyd trwy Bolisi TAI19 yn caniatáu darpariaeth o unedau tai fforddiadwy trwy gynigion sy'n ymwneud ag addasu adeiladau priodol yng nghefn gwlad, os gellir cydymffurfio a meini prawf penodol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
835	Cyngor Cymuned Tudweiliog (Mrs Glenys Peters) [1236]	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	Mae pryder mawr am or-ddatblygu ym Motwnnog a Pwllheli yn mynd i gael effaith mawr ar yr iaith Gymraeg.	Dim yn derbyn Mae Botwnnog wedi cael ei adnabod fel Pentref Gwasanaeth ac mae Pwllheli wedi cael ei adnabod fel Canolfan Wasanaeth Trefol. Cafodd y strategaeth ddisbarthu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisiau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Byddai hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â disgwyliadau cenedlaethol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Yn hyn o beth, mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhan 9.2) yn dweud bod angen i gynlluniau datblygu ddarparu fframwaith sydd yn sbarduno, tywys a rheoli newid tuag at batrwm mwy cynaliadwy o ddatblygu. Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol gael rhwydwaith aneddeuoedd sy'n gynaliadwy, sy'n cwrdd â gofynion yr economi, yr amgylchedd ac iechyd wrth Mae'r Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o drefi a phentrefi sydd gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a'i gyhoeddi i adnabod yr aneddeuoedd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Aneddeuoedd. Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau'r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei oleuo gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymïadau cynllunio, gynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, tai fforddiadwy, math a chymysgedd o dai, a briffiau datblygu.</p> <p>Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafniadaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddeleoedd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
836	Cyng./Counc Ann Williams [355]	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	Yr wyf yn teimlo fod y ddarpariaeth ar hap o 82 eiddo, yn ddigonol i Fethesda. Mawr obeithiaf fod y tiroedd sydd wedi eisoes wedi ei ddynodi ar gyfer	<p>Nodi'r sylw – Cyfeiriwn at Atodiad 5 yn y Cynllun Adnau sy'n rhoi gwybodaeth am safleoedd/ adeiladau gyda chaniatâd cynllunio heb ei weithredu neu heb ei gwblhau fesul anheddle yn Ebrill 2014. Bydd yr Astudiaeth Tir ar gyfer Tai blynyddol yn cofnodi faint o unedau tai a gaiff eu hadeiladu. Bydd fframwaith fonitro'r Cynllun yn cofnodi'r</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				adeiladu y tu mewn i'r rhif hwn, gan fod dyraniad sylweddol eisoes ar gyfer fy ward. Byddai hyn yn golygu y byddai'r rhif o 82 eiddo eisoes wedi ei gyrraedd, oherwydd caniatâd cynllunio sydd eisoes wedi ei roi, a cheisiadau sydd yn yr arfaeth.	<p>cynnydd yn erbyn y dangosyddion a'r targedau ac felly'n gofalu bod datblygiad yn digwydd yn unol a'r raddfa a benodwyd yn strategaeth y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
837	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090]	POLISI STRATEGOL PS15	Gwrthwynebu	Tai newydd. Roedd pryder am lefel y ddarpariaeth dai yn ardal Llŷn ac effaith posibl hynny ar y gymdeithas a lles yr Iaith Gymraeg. Yn benodol roedd pryder am y ddarpariaeth ym Motwinnog a Phwllheli sydd yn ymddangos yn ormodol o ystyried maint a chymeriad yr aneddeleodd.	Dim yn derbyn - Cafodd y strategaeth ddisbarthu ei sefydlu yn y lle cyntaf yn ystod y broses o ddatblygu Hoff Strategaeth y Cynllun ar sail tystiolaeth a chyfranogiad cyhoeddus. Yn nhermau gofodol mae'r strategaeth yn mynd i sicrhau bod polisiau strategol a manwl y Cynllun yn mynd i hyrwyddo datblygiadau sy'n cyfarch disgwyliadau Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y Cynllun. Byddai hefyd yn sicrhau bod y Cyngor yn cwrdd â disgwyliadau cenedlaethol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Yn hyn o beth, mae Polisi Cynllunio Cymru (Rhan 9.2) yn dweud bod angen i gynlluniau datblygu ddarparu fframwaith sydd yn sbarduno, tywys a rheoli newid tuag at batrwm mwy cynaliadwy o ddatblygu. Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol gael rhwydwaith aneddeleodd sy'n gynaliadwy, sy'n cwrdd â gofynion yr economi, yr amgylchedd ac iechyd wrth Mae'r Cynllun Adnau yn adnabod Coeden o drefi a phentrefi sydd gan rôl a swyddogaeth benodol. Cafodd methodoleg ei ddatblygu a'i gyhoeddi

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>i adnabod yr aneddeuoedd ar sail eu rôl, swyddogaeth, ystod a dewis o gyfleusterau a gwasanaethau ym Mhapur Testun 5 Datblygu'r Strategaeth Aneddeuoedd.</p> <p>Mae'r iaith Gymraeg wedi bod yn ystyriaeth wrth lunio'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau'r Cynllun ers y cychwyn. Fe gafodd effeithiau posib y Cynllun ar yr iaith Gymraeg ystyriaeth yn ystod y broses Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n cynnwys yr Asesiad Amgylcheddol Strategol), a gafodd ei oleuo gan Asesiad Effaith Ieithyddol. Dylid rhoi sylw i bolisïau amrywiol y Cynllun a dogfennau testun, yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol am: ymrwymadau cynllunio, gynnal a chreu cymunedau cynaliadwy, tai fforddiadwy, math a chymysgedd o dai, a briffiau datblygu.</p> <p>Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafndiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddeuoedd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
316	Mr Paul Green [2908]	POLISI TAI15	Gwrthwynebu	Dylai dyrannu tai i Lanfairpwll, Porthaethwy, Llandegfan a Biwmares adlewyrchu eu cysylltiad â hwb rhanbarthol Bangor. Dylai rhai o'r tai sydd wedi cael ei ddynodi yng Nghaergybi, Amlwch a Llangefni cael ei ddynodi yn yr aneddeleodd ar hyd yr Afon Menai.	<p>Dim yn derbyn – mae papur testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddeleodd' yn amlinellu'r fethodoleg ar gyfer adnabod rôl gwahanol aneddeleodd a dosbarthiad gofodol o lefel twf tai o fewn y Cynllun.</p> <p>Caiff Biwmares, Lanfairpwll a Porthaethwy eu hadnabod fel Canolfannau Gwasanaeth Lleol tra bod Llandegfan yn Bentref Lleol ac mae ei lefel twf yn adlewyrchu hyn.</p> <p>Oherwydd natur y gwasanaethau a chyfleusterau a geir yng Nghaergybi, Llangefni ac Amlwch maent wedi cael ei adnabod fel Canolfannau Gwasanaeth Trefol ac mae eu lefel twf hwythau yn adlewyrchu'r rôl yma ar ffaith fod polisi PS15 yn dosbarthu 55% o dwf y</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Cynllun i'r Ganolfan Isranbarthol / Canolfannau Gwasanaeth Trefol.</p> <p>Nid yw'r gwrthwynebydd wedi cynnwys unrhyw dystiolaeth sy'n tanseilio'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan y Cyngorau i adnabod rôl yr aneddeleoedd neu'r ffordd mae'r ffigyrau twf yn cael eu dosbarthu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd dystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
522	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI TAI15	Gwrthwynebu	<p>Yn synnu nad oes safleoedd tai wedi cael eu hadnabod ar gyfer Bethesda, gyda 82 o unedau i'w hadnabod ar hap. Mae'r safle CDU sydd ger Maes Coetmor, a ddeallwn sydd wedi derbyn caniatâd, du allan i'r ffin datblygu. Nid oeddwn yn credu bod hwn yn addas oherwydd dwysedd a mynediad annigonol. Yn gwrthwynebu tai ar SP633 i'r tir gwyrdd agored i'r gogledd, sy'n cynnwys tir amaethyddol da ac yn cyfrannu at ddatblygiad</p>	<p>Dim yn derbyn – mae Strategaeth Ofodol y Cynllun yn dosbarthu'r cyfanswm galw am unedau tai ar draws yr aneddeleoedd yn ôl eu rôl yn y Goeden Aneddeleoedd. Ar ôl adnabod y lefel twf disgwylidig ar gyfer anheddle edrychwyd beth fyddai cyfraniad unedau a gafodd eu hadeiladu'n barod ac unedau efo caniatâd cynllunio'n barod i'r twf hwnnw.</p> <p>Yn y cyfnod 2011 i 2014 cafodd 18 o unedau tai eu cwblhau o fewn y ganolfan, hefyd yn Ebrill 2014 roedd yna ganiatâd cynllunio ar gyfer 28</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>rhuban. Byddwn yn cefnogi tai ar nifer o safleoedd tir llwyd mewn lleoliad mwy canolig, yn ddarostyngedig i oresgyn problemau llifogydd. Pam dim safleoedd? Pam fod y safle CDU tu allan i'r ffin datblygu?</p>	<p>o unedau tai. Golyga hyn mae 54 o Unedau ychwanegol oedd eu h angen yn 2015 (pan gyhoeddwyd y Cynllun Adnau) dros weddill o gyfnod y Cynllun i gyfarch lefel twf disgwylidig Bethesda.</p> <p>Ar ôl adnabod beth allai cyfraniad unedau tai efo caniatâd cynllunio, edrychwyd ar beth fyddai capasiti'r ardal adeiledig i gyfarch y galw gweddilliol. Mae'r gwaith o fewn Papur Testun 6 Astudiaeth Capasiti Trefol yn ystyried cyfraniad o safleoedd ar hap yn y gorffennol er mwyn rhagfynegi cyfleoedd twf i'r dyfodol ynghyd a chyfleoedd o dai gwag yn dod yn ôl i ddefnydd. Ar gyfer pwrpas y Cynllun gan amlaf 75% o ffigwr Capasiti trefol sydd wedi ei ddefnyddio i gymryd ystyriaeth o lithriad posib o fewn y categori yma. Canlyniadau Papur Testun 6 ar gyfer Bethesda oedd bod yna cyfleoedd am 54 uned ar hap yn y ganolfan.</p> <p>Oherwydd hyn ni oedd angen dynodi'r safle sydd yn y CDU ar gyfer cyfarch lefel twf disgwylidig Bethesda.</p> <p>Cyfeiri tuag at safle SP633 gan y gwrthwynebydd fodd bynnag safle ym Mangor yw hyn a chredir mai safle SP663 mae'n cyfeirio tuag at sef safle ym Methesda. Mae Papur</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Testun 1A 'Diweddariad Asesu Safleoedd posib' yn cadarnhau nad yw'r safle yma wedi cael ei gynnwys oherwydd bod yna ddigon o unedau yn y banc tir presennol a chyfleoedd ar hap i ddiwallu twf disgwylidig tai'r anheddiad.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
754	Mr Rob Booth [3033]	POLISI TAI15	Gwrthwynebu	<p>Dylai polisi TAI15 nodi bod rhaid i ddatblygiadau o fwy na naw thŷ gynnwys o leiaf 10% o dai sy'n fforddiadwy. Mae'n rhaid i ddatblygiadau o fwy na 20 tŷ gynnwys o leiaf 20% o dai fforddiadwy, dylai datblygiadau o fwy na 50 tŷ gynnwys 30% o dai fforddiadwy/tai sy'n perthyn i gymdeithasau tai a dylai datblygiadau o 100 tŷ neu fwy cynnwys 50% o dai fforddiadwy/tai sy'n perthyn i gymdeithasau tai.</p>	<p>Dim yn derbyn - mae paragraff 9.2.14 o Bolisi Cynllunio Cymru yn cadarnhau bod angen y gymuned am dai fforddiadwy yn ystyriaeth gynllunio berthnasol y mae'n briodol ei hystyried wrth lunio polisïau'r cynllun datblygu.</p> <p>Fodd bynnag mae paragraff 9.2.16 o Bolisi Cynllunio Cymru wrth gyfeirio at osod targed am lefel o dai fforddiadwy yn y Cynllun yn dweud "...Dylai'r targed ystyried lefelau tybiedig y cyllid fydd ar gael ar gyfer tai fforddiadwy, gan gynnwys cymorthdaliadau cyhoeddus, a'r lefel y gellir disgwyl yn realistig i'r datblygwr ei chyfrannu...".</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>I sicrhau bod lefel darpariaeth o dai fforddiadwy o ddatblygiadau tai marchnad yn realistig mi wnaeth y Cynghorau gomisiynu Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy (2013) a diweddariad ohono yn 2014. Y dystiolaeth yn y gwaith yma yw sail trothwy a'r canran o dai fforddiadwy ar safleoedd marchnad o fewn polisi TAI 9 'Trothwy Tai Fforddiadwy a'u Dosbarthiad'.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
1431	Cyngor Tref Penrhydeudraeth (Mr Glyn Roberts) [1261]	POLISI TAI15	Gwrthwynebu	Dylai'r ffaith mai dim ond cynnydd o 2.2% a fu yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2001 a 2011 ym Mhenrhydeudraeth, bod y boblogaeth rhwng 20-29 mlwydd oed wedi gostwng 6.1% tra bod y boblogaeth dros 65 mlwydd oed wedi cynyddu 16% a nifer y mewnfudwyr wedi codi o 169 i 242 (+43.2%) rhwng 1991 a 2001 (Byddai dadansoddiad o ffigyrau 2001-2011 wedi dangos cynnydd mwy	<p>Dim yn newid - oherwydd problem llifogydd yn effeithio ar Borthmadog a Tremadog mae yna lefel uwch na disgwyl o dwf wedi cael ei ddsbarthu i Benrhydeudraeth a Cricieth sef Canolfannau Gwasanaeth Lleol o fewn dalgylch Porthmadog.</p> <p>Mae'r strategaeth ofodol, sydd wedi cael ei siapio gan yr Asesiad Cynaliadwyedd, yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint,</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>eto, fyth.) fod yn canu clychau yn glir a thaer. Nid sefyllfa i ymgysuro ynddi ydyw sefyllfa'r Gymraeg ym Mhenrhyndeudraeth, bellach. Ni ellir osgoi'r casgliad bod yma anghysondeb a chroesddweud ac anallu i sylweddoli arwyddocâd ystadegau.</p>	<p>swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafndiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddeledd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Mae Asesiad Effaith Ieithyddol / Asesiad Cynaliadwyedd y Cynllun wedi asesu effaith lefel uwch o dwf i Benrhyndeudraeth.</p> <p>Casgliadau'r Asesiad Effaith Ieithyddol / Asesiad Cynaliadwyedd yw y gellid tywys cyfran uwch na'r disgwyl o dai i'r anheddle. Cyfeirir at bolisiau strategol a manwl a fydd yn rheoli datblygiad yn yr anheddle, gan hyrwyddo darpariaeth ddigonol o dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol, cymysgedd briodol o fathau o dai, a bod datblygiad yn digwydd gam wrth gam. Gall fod cyfleoedd hefyd i hyrwyddo uwchraddio cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol yn sgil datblygiad.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
1695	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI15	Cefnogi	* Gallai'r twf arfaethedig ar safleoedd hap ar gyfer yr aneddiadau hyn gael effaith ar asedau dŵr a charthffosiaeth DCWW. Gan nad ydym yn gwybod ar hyn o bryd lle bydd datblygiadau hap yn digwydd, byddwn yn gwneud asesiad a sylwadau ar safleoedd datblygu arfaethedig ar adeg y cais cynllunio.	Nodi'r sylw - bydd y Cynghorau yn parhau i gydweithio gyda'r cwmni wrth baratoi canllawiau cynllunio atodol perthnasol ac yn ymgynghori a'r cwmni adeg ceisiadau cynllunio perthnasol. Cyfeirir hefyd at Bolisi PS2 a Pholisi ISA1 sy'n rhoi'r fframwaith i sicrhau y bydd isadeiledd priodol mewn lle cyn i ddatblygiad ddigwydd. Argymhelliad Dim newid
1696	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI15	Gwrthwynebu	* Mae llifogydd wedi digwydd ar rai adegau yn y system garthffosiaeth gyhoeddus yn yr aneddiadau a ganlyn, y gallai fod angen eu hateb cyn gallu symud ymlaen i ddatblygu: Biwmares, Benllech, Bethesda, Gaerwen, Llanfairpwll, Rhosneigr, Y Fali, Abermaw/Barmouth, Abersoch, Llanberis, Llanrug, Nefyn, Penygroes a Thywyn. Gall datblygwyr posibl naill ai aros i DCWW gael ateb i'r llifogydd, yn amodol ar fod ein rheoleiddiwr ni, Ofwat, yn cymeradwyo	Nodi'r Sylw - Mae polisiau PS2 a ISA 1 o fewn y Cynllun yn cyfeirio tuag at amgylchiadau pan fydd angen i ddatblygiad penodol baratoi cyfraniad tuag at isadeiledd angenrheidiol. Mae Dangosydd D8 i Thema 1 yn y fframwaith monitro yn sicrhau bod y Cynllun yn monitro unrhyw broblem efo safleoedd sydd wedi ei dynodi yn y Cynllun. Fodd bynnag i sicrhau bod y lefel twf disgwylidig yn digwydd yn yr aneddleoedd yma fe ddylid monitro lefel caniatâd / datblygiadau ar hap yn yr aneddleoedd yma yn erbyn rhaglen gwariant DCWW.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				ariannu hynny, neu symud ymlaen efo'r gwelliannau trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosiaeth trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Efallai y bydd angen gwneud asesiadau modelu i benderfynu lle byddai modd cysylltu'r datblygiad arfaethedig efo'r system garthffosiaeth gyhoeddus.	<p>Dylid cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 ar gyfer nifer o ddatblygiadau ar safleoedd hap o fewn Canolfan Isranbarthol neu Wasanaethol a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud a seilwaith.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1</p> <p>Newid Ffocws NF101</p>
1697	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI15	Gwrthwynebu	<p>* Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo yn nalgylch y gweithfeydd trin dŵr DC a ganlyn angen gwaith gwella yn y gweithfeydd trin:</p> <p>Biwmares, Cemaes, Porthaethwy/Menai Bridge (Treborth, Bangor), Pentraeth, Rhosneigr a Chricieth.</p> <p>Byddai'r angen i'r gwelliannau gael eu hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau ni neu efallai'n gynharach na hynny trwy</p>	<p>Nodi'r Sylw - Mae polisiâu PS2 a ISA 1 o fewn y Cynllun yn cyfeirio tuag at amgylchiadau pan fydd angen i ddatblygiad penodol baratoi cyfraniad tuag at isadeiledd angenrheidiol.</p> <p>Mae Dangosydd D8 i Thema 1 yn y fframwaith monitro yn sicrhau bod y Cynllun yn monitro unrhyw broblem efo safleoedd sydd wedi ei dynodi yn y Cynllun.</p> <p>Fodd bynnag i sicrhau bod y lefel twf disgwylidig yn digwydd yn yr aneddeleodd yma fe ddylid monitro lefel caniatâd / datblygiadau ar hap yn yr aneddeleodd yma yn</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				gyfraniadau datblygwr.	<p>erbyn rhaglen gwariant DCWW.</p> <p>Dylid cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 ar gyfer nifer o ddatblygiadau ar safleoedd hap o fewn Canolfan Isranbarthol neu Wasanaethol a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud a seilwaith.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1</p> <p>Newid Ffocws NF101</p>

TAI 16 – Tai mewn Pentrefi Gwasanaeth

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
211	CYNGOR CYMUNED LLANBEDROG (MR JOHN HARRIS) [2810]	POLISI TAI16	Gwrthwynebu	Argymell fod Llanbedrog yn cael ei gynnwys fel pentref / canolfan wasanaethol. Mae Llanbedrog yn sgorio 28 pwynt ar bapur testun 5, un yn llai na Botwnnog. Mae gan Lanbedrog ysgol, neuadd, siopau, modurdy, tafarndai, caffi, gwestai, Oriel a chanolfan	<p>Dim yn derbyn - mae'r holl gyfleusterau sydd yn cael ei sôn amdano gan y gwrthwynebydd, heblaw am y cartref i'r henoed a'r maes golff, wedi cael sgôr ym mhapur testun 5.</p> <p>Nid yw'r fethodoleg safonol a ddefnyddiwyd i asesu rôl aneddeleoedd yn adnabod busnesau fel cartref i'r</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				celfyddydau, maes golff, stad ddiwydiannol, cartrefi henoed, fferyllfa - cymaint bron o wasanaethau ac Abersoch.	<p>henoed a maes golff fel cyfleusterau unigoli dderbyn sgôr, fodd bynnag bydd swyddi yn rhain yn mynd tuag at sgôr cyflogaeth yr anheddiad.</p> <p>Mae tabl 9 yn y Papur Testun 5 yn dangos bod yna nifer fawr o aneddeleoedd o fewn ychydig o farciau i'w gilydd. Un ystyriaeth wrth asesu rôl fwy strategol Pentref Gwasanaeth o'i gymharu efo Pentrefi eraill oedd faint o Wasanaethau Allweddol sydd yn y Pentref ac yn achos Botwnnog mae 5 o rain o'i gymharu efo 3 yn Llanbedrog.</p> <p>Ar sail hyn nid yw'r gwrthwynebydd, felly, wedi cyflwyno rhesymau dilys na thystiolaeth amlwg i gyfiawnhau cefnogi newid statws Llanbedrog yn y goeden anheddle.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
364	Mrs Gwyneth Evans [2887]	POLISI TAI16	Cefnogi	Hoffwn gefnogi safle Cae Cefn Capel, Botwnnog, credaf fod Botwnnog yn bentref delfrydol i'w ehangu gan fod cymaint o gyfleusterau yma e.e. Ysgol Gynradd ac Ysgol	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Uwchradd (Arbed tal cludiant ac mae palmant yr holl ffordd o'r safle i'r ddwy ysgol) Meddygfa, Llythyrdy, Caffi, Capel ac Eglwys.	Dim newid
423	Dr Richard Roberts [2938]	POLISI TAI16	Gwrthwynebu	Dim tystiolaeth o angen lleol am dai sy'n cyfiawnhau'r nifer a ddynodir ar gyfer Chwilog a'r Ffôr. Effaith andwyol codi cymaint o dai ar y Gymraeg.	<p>Dim yn derbyn - er mwyn sicrhau y caiff materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hystyried o'r cychwyn, mae'r Cynllun wedi bod yn destun i Asesiad Cynaliadwyedd (sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol).</p> <p>Mae'r iaith Gymraeg yn ffitio ym mhroses Asesiad Cynaliadwyedd am ei fod yn nodwedd ganolog o gymdeithas a chymunedau yn ardal y Cynllun. Yn wahanol i ofynion statudol a disgwyliadau polisi a chanllaw cynllunio cenedlaethol, cafodd Asesiad Effaith leithyddol ei wneud er mwyn ychwanegu at yr Asesiad Cynaliadwyedd.</p> <p>O fewn yr Asesiad effaith leithyddol / Asesiad Cynaliadwyedd mae ystyriaeth yn cael ei roi i lefel twf yn Chwilog a'r Ffôr.</p> <p>Mae ffigwr twf tai'r Cynllun yn taro'r cydbwysedd priodol rhwng yr angen i uchafu rôl y Cynghorau i ymateb i'r dystiolaeth o alw am gartrefi newydd, y newid yn yr economi leol a'r gallu i ddangos y gellid adeiladu yn effeithiol a chynaliadwy.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Mae papur testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn cyflwyno methodoleg ar gyfer adnabod rôl gwahanol aneddleoedd o fewn ardal y Cynllun yn seiliedig ar nifer o wasanaethau a chyfleusterau sydd ynddynt.</p> <p>Mae'r strategaeth ofodol yn mynd i sicrhau bod datblygiad yn cael ei gyfeirio at leoliadau sy'n gynaliadwy o ran eu maint, swyddogaeth, cymeriad, cyfleusterau, cysylltiadau trafndiaeth, cynhwysedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Felly, fe fydd yna batrwm cynaliadwy o aneddleoedd gyda chymunedau hyfyw.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
627	Carter Jonas (Mrs Charlene Sussums-Lewis) [2829]	POLISI TAI16	Cefnogi	Cefnogir y dyraniad arfaethedig o oddeutu 30 uned breswyl ar Safle T66 (Tir ger Maes Bleddyn, Rachub) am y rhesymau a ganlyn: 1. Rhwydd i'w ddarparu - mae'r safle dan berchnogaeth sengl.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>2. Niferoedd Tai sydd wedi'u Dyrannu - bydd dyraniadau preswyl mewn Canolfannau Gwasanaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni twf tai.</p> <p>3. Egwyddor Datblygu - gall T66 gynnwys 30 annedd dros gyfnod y cynllun.</p> <p>4. Cyfleoedd a Chyfyngiadau - mae'r cynllun yn dangos bod y safle'n ddichonadwy.</p> <p>5. Prif Gynllun Dangosol - gellid datblygu'r safle heb lawer o effeithiau.</p> <p>6. Arfarniad Cynaliadwyedd Positif - mae'r safle yn unol â strategaeth y cynllun.</p>	
1701	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI16	Cefnogi	Gallai'r twf arfaethedig ar safleoedd hap ar gyfer yr aneddiadau hyn gael effaith ar asedau dŵr a charthffosiaeth DCWW. Gan nad ydym yn gwybod ar hyn o bryd lle bydd datblygiadau hap yn digwydd, byddwn yn gwneud asesiad a sylwadau ar safleoedd datblygu arfaethedig ar adeg y cais cynllunio.	<p>Nodi'r sylw– bydd y Cynghorau yn parhau i gydweithio gyda'r cwmni wrth baratoi canllawiau cynllunio atodol perthnasol ac yn ymgynghori a'r cwmni adeg ceisiadau cynllunio perthnasol. Cyfeirir hefyd at Bolisi PS2 a Pholisi ISA1 sy'n rhoi'r fframwaith i sicrhau y bydd isadeiledd priodol mewn lle cyn i ddatblygiad ddigwydd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
1702	Dwr Cymru Welsh	POLISI	Gwrthwynebu	Mae llifogydd wedi digwydd ar rai adegau yn	Nodi'r Sylw – mae'r unig ddynodiad tai sydd yn y Pentref (T56) efo caniatâd cynllunio yn barod.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	TAI16		<p>y system garthffosiaeth gyhoeddus yn yr aneddiadau a ganlyn, y gallai fod angen eu hateb cyn gallu symud ymlaen i ddatblygu:</p> <p>Niwbwrch</p> <p>Gall datblygwyr posibl naill ai aros i DCWW gael ateb i'r llifogydd, yn amodol ar fod ein rheoleiddiwr ni, Ofwat, yn cymeradwyo ariannu hynny, neu symud ymlaen efo'r gwelliannau trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau carthffosiaeth trwy Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu Adran 106 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.</p>	<p>Dylid cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 ar gyfer nifer o ddatblygiadau ar safleoedd hap o fewn Canolfan Isranbarthol neu Wasanaethol a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud a seilwaith.</p> <p>Mae polisiâu PS2 a ISA 1 o fewn y Cynllun yn cyfeirio tuag at amgylchiadau pan fydd angen i ddatblygiad penodol baratoi cyfraniad tuag at isadeiledd angenrheidiol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1</p> <p>Newid â Ffocws NF101</p>
1703	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI16	Gwrthwynebu	<p>* Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo yn nalgylch y gweithfeydd trin dŵr DC a ganlyn angen gwaith gwella yn y gweithfeydd trin:</p> <p>Llannerchymedd, Bethel (gwaith trin dŵr gwastraff Treborth, Bangor), Bontnewydd (gwaith trin dŵr gwastraff Llanfaglan), Rachub (gwaith trin dŵr gwastraff Bethesda).</p>	<p>Nodi'r Sylw - Mae polisiâu PS2 a ISA 1 o fewn y Cynllun yn cyfeirio tuag at amgylchiadau pan fydd angen i ddatblygiad penodol baratoi cyfraniad tuag at isadeiledd angenrheidiol.</p> <p>Mae Dangosydd D8 i Thema 1 yn y fframwaith monitro yn sicrhau bod y Cynllun yn monitro unrhyw broblem efo safleoedd sydd wedi ei dynodi yn y Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Byddai'r angen i'r gwelliannau gael eu hariannu trwy ein Cynllun Rheoli Asedau ni neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr.	<p>Fodd bynnag i sicrhau bod y lefel twf disgwylidig yn digwydd yn yr aneddleoedd yma fe ddylid monitro lefel caniatâd / datblygiadau ar hap yn yr aneddleoedd yma yn erbyn rhaglen gwariant DCWW.</p> <p>Dylid cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1 ar gyfer nifer o ddatblygiadau ar safleoedd hap o fewn Canolfan Isranbarthol neu Wasanaethol a gyfyngir gan faterion sy'n ymwneud a seilwaith.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Cyflwyno dangosydd ychwanegol ym mhennod 8 Thema 1</p> <p>Newid â Ffocws NF101</p>

TAI 17 – Tai mewn Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
95	Elizabeth Whitehead	POLISI	Cefnogi	Yn cadarnhau cefnogaeth yn amodol ar ddehongli'n gywir -	Nodi'r sylw cefnogol.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
	[2742]	TAI17		<p>* Rhaid i geisiadau cynllunio gydymffurfio â holl bwyntiau TAI17.</p> <p>* Caiff datblygiad ei gyfyngu oddi mewn i'r ffiniau amlinellol (map 55).</p> <p>* Ffafirir Byw'n Gynaliadwy SO5 - wrth barchu rôl amrywiol a chymeriad y canolfannau, y pentrefi a chefn gwlad.</p> <p>* Rydym yn ffafrio gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig SO16 - Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, yn cynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwylt, a chymeriad ei thirwedd.</p>	<p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
200	Rhys Thomas [2738]	POLISI TAI17	Cefnogi	<p>Rwyf yn cefnogi'r bwriad i gyfyngu datblygiad i'r TU MEWN i ffin ddatblygu Llangristiolus fel y gwelir ar y map rhyngweithiol, sef pentref lleol fel y'i diffinnir ym MHOLISI STRATEGOL PS15:</p> <p>Pentrefi Lleol:</p> <p>" Bydd datblygiad yn cael ei gyfyngu i'r raddfa a'r math sy'n ateb angen y gymuned am dai ar leiniau ar hap/lleiniau mewn llenwi ODDI</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol.</p> <p>Er eglurder dylid nodi gall polisi TAI 10 'Safleoedd Eithrio' gefnogi bwriad ar gyfer datblygu tai fforddiadwy ar safleoedd yn union gerllaw ffiniau datblygu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				MEWN I FFINIAU DATBLYGU."	
209	John Brinley Jones [2087]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	<p>Dylai Llanbedrog gael ei ddsbarthu'n Bentref Gwasanaethau ac nid Pentref Arfordirol. Mae gan Lanbedrog nifer o wasanaethau gan fod Pen y Berth hefyd ym mhlwyf Llanbedrog. Dylai Llanbedrog gael ei annog i dyfu a bod yn llwyddiannus ond os caiff ei gategoreiddio yn Bentref Arfordirol yna bydd dan anfantais annheg yn erbyn pentrefi eraill yn Nwyfor. Tynnu Llanbedrog o'r rhestr o Bentrefi Arfordirol a'i ychwanegu i'r rhestr o Bentrefi Gwasanaethol.</p>	<p>Dim yn derbyn - mae'r holl gyfleusterau sydd yn cael ei sôn amdano gan y gwrthwynebydd, heblaw am y cartref i'r henoed a'r maes golff, wedi cael sgôr ym mhapur testun 5.</p> <p>Nid yw'r fethodoleg safonol a ddefnyddiwyd i asesu rôl aneddleoedd yn adnabod busnesau fel cartref i'r henoed a maes golff fel cyfleusterau unigol i dderbyn sgôr, fodd bynnag bydd swyddi yn rhain yn mynd tuag at sgôr cyflogaeth yr anheddiad.</p> <p>Mae tabl 9 yn y Papur Testun 5 yn dangos bod yna nifer fawr o aneddleoedd o fewn ychydig o farciau i'w gilydd. Un ystyriaeth wrth asesu rôl fwy strategol Pentref Gwasanaeth o'i gymharu efo Pentrefi eraill oedd faint o Wasanaethau Allweddol sydd yn y Pentref.</p> <p>Ar sail hyn nid yw'r gwrthwynebydd, felly, wedi cyflwyno rhesymau dilys na thystiolaeth amlwg i gyfiawnhau cefnogi newid statws Llanbedrog yn y goeden anheddle.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
212	CYNGOR CYMUNED LLANBEDROG (MR JOHN HARRIS) [2810]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	<p>Gwrthwynebu Llanbedrog fel pentref Arfordirol a'i gynnwys fel Pentref Gwasanaethol.</p> <p>Argymell Llanbedrog yn cael ei gynnwys fel pentref wasanaethol. Mae Llanbedrog yn sgorio 28 pwynt ar bapur testun 5, un yn llai na Botwnnog. Mae gan Lanbedrog ysgol, neuadd, siopau, modurdy, tafarndai, caffi, gwestai, Oriol a chanolfan celfyddydau, maes golff, stad ddiwydiannol, cartrefi henoed, fferyllfa - cymaint bron o wasanaethau ac Abersoch. Cafodd ffin y pentref ei grebachu y tro diwethaf, ac mae eisiau ymestyn y ffin. Mae angen ffin hyblyg i gyfarfod angen tai angen lleol ac nid o reidrwydd tai fforddiadwy yn unig. Nid yw pawb eisiau amodau caeth tai fforddiadwy.</p>	<p>Dim yn derbyn - mae'r holl gyfleusterau sydd yn cael ei sôn amdano gan y gwrthwynebydd, heblaw am y cartref i'r henoed a'r maes golff, wedi cael sgôr ym mhapur testun 5.</p> <p>Nid yw'r fethodoleg safonol a ddefnyddiwyd i asesu rôl aneddleoedd yn adnabod busnesau fel cartref i'r henoed a maes golff fel cyfleusterau unigol i dderbyn sgôr, fodd bynnag bydd swyddi yn rhain yn mynd tuag at sgôr cyflogaeth yr anheddiad.</p> <p>Mae tabl 9 yn y Papur Testun 5 yn dangos bod yna nifer fawr o aneddleoedd o fewn ychydig o farciau i'w gilydd. Un ystyriaeth wrth asesu rôl fwy strategol Pentref Gwasanaeth o'i gymharu efo Pentrefi eraill oedd faint o Wasanaethau Allweddol sydd yn y Pentref ac yn achos Botwnnog mae 5 o rain o'i gymharu efo 3 yn Llanbedrog.</p> <p>Ar sail hyn nid yw'r gwrthwynebydd, felly, wedi cyflwyno rhesymau dilys na thystiolaeth amlwg i gyfiawnhau cefnogi newid statws Llanbedrog yn y goeden anheddle.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
616	Cater Jonas (Mr Chris Bell) [3041]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	Gwrthwynebu cyfyngu'r twf yn Nhregarth i 13 annedd ar hap dros gyfnod y cynllun a llunio'r ffin ddatblygu. Rwyf yn gwrthwynebu'r asesiad cynladwyedd ar gyfer Tregarth (sgôr anheddle). Mae'r drefn bresennol mewn gwirionedd yn peri risg i hyfywedd y gwasanaethau lleol.	<p>Dim yn derbyn - mae'r holl gyfleusterau sydd yn cael ei sôn amdano gan y gwrthwynebydd, wedi cael sgôr ym mhapur testun 5.</p> <p>Fe wnaeth y Cyngor wrth lunio strategaeth dosbarthiad o fewn y Cynllun ystyried natur wasgaredig yr ardal yn erbyn polisiâu cenedlaethol ar gyfer lleihau'r angen i deithio a lleoli'r twf mwyaf mewn lleoliadau cynaliadwy.</p> <p>Teimlir bod y dosbarthiad yn y Cynllun Adnau wedi creu cydbwysedd addas rhwng polisi cenedlaethol a'r sefyllfa leol. Tra gall lefel uwch o dwf mewn rhai lleoliadau helpu rhywfaint efo rhai gwasanaethau lleol buasai cael ffin datblygu lac a lefel uwch o dwf o bosib arwain at broblemau eraill o fewn rhai cymunedau e.e. effaith ar yr iaith Gymraeg ayb. Nid yw'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno rhesymau dilys na thystiolaeth amlwg i allu cefnogi cais i newid statws Tregarth yn y goeden aneddleoedd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
634	Gweinidog Gwladol dros Amddiffyn [3045]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	<p>Nid oes digon o gyfleusterau cymunedol a chymdeithasol yn anheddiad Llanfihangel yn Nhowyn (LyN) i gefnogi'r stoc tai bresennol. Mae preswylwyr yn ddibynol ar gyfleusterau RAF Y Fali ar gyfer hyn. Mae hyn wedi arwain at gynyddu lefel y traffig cerbydol/traffig cerddwyr gan arwain at nifer o achosion traffig lle mai dim ond cael a chael oedd hi. Ni ddylai'r Cyngor ddibynnu ar gyfleusterau'r ganolfan RAF i wasanaethu'r gymuned leol a'i thwf, yn enwedig os yw problemau'n parhau. Newid: Addasu'r eirfa i annog sefydlu cyfleusterau cymunedol ychwanegol i wasanaethu LyN ac i atal y pentref rhag tyfu mwy oni bai fod amrediad a graddfa'r cyfleusterau cefnogol hefyd yn tyfu.</p>	<p>Dim yn derbyn – mae papur testun 5 ‘Datblygu’r Strategaeth Aneddleoedd’ yn amlinellu’r fethodoleg ar gyfer categoraiddio Pentrefi.</p> <p>Cafodd y gwasanaethau / cyfleusterau sydd o fewn Llanfihangel yn Nhowyn neu o fewn 800 metr yn achos Ysgolion, ei adnabod a derbyn sgôr. Ar sail y sgôr yma cafodd lefel twf disgwylidig i’r Pentref gael ei adnabod.</p> <p>Rhaid cofio bod nifer o’r tai yn Llanfihangel yn Nhowyn wedi bod mewn perchnogaeth y RAF cyn iddynt gael ei gwerthu fel tai ar y farchnad leol.</p> <p>Mae’r cynllun ym mholisi ISA 2 ‘Cyfleusterau Cymunedol’ yn cefnogi cynlluniau priodol ar gyfer cyfleusterau cymunedol a pholisi MAN 3 ‘Manwerthu tu allan i ganol trefi diffiniedig ond oddi mewn i ffiniau datblygu’ yn cefnogi cynigion am siopau cyfleus newydd ar raddfa fach.</p> <p>Nid yw’r Cyngor yn ymwybodol o broblemau trafndiaeth efo’r Pentref. Fodd bynnag efo unrhyw gais penodol yn y Pentref bydd materion trafndiaeth yn ystyriaeth berthnasol a bydd Gwasanaeth Priffyrdd yr awdurdod yn rhoi ei farn ar y bwriad.</p> <p>Os caiff problem benodol ei adnabod yna bydd hyn yn fater i’w ystyried wrth gynnal adroddiad monitro blynyddol y Cynllun ac unrhyw adolygiad o’r Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
708	Carter Jonas (Mrs Charlene Sussums-Lewis) [2829]	POLISI TAI17	Cefnogi	<p>Cefnogwn y newid arfaethedig i ffin ddatblygu i gynnwys Safle i'r dwyrain o'r A466 (SP678) Llanaelhaearn am y rhesymau a ganlyn:</p> <p>Y gallu i'w ddatblygu - Cynllunio Cadarnhaol Niferoedd Tai sydd wedi'u Dyrannu Egwyddor Datblygu</p> <p>Cyfleoedd a chyfyngiadau - fel yr atodir yn Atodiad 1</p> <p>Cynllun meistr dangosol - fel yr atodir yn Atodiad 2</p> <p>Arfarniad Cynladwyedd Positif</p>	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
709	Carter Jonas (Mrs Charlene Sussums-Lewis) [2829]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	<p>Dylai tai marchnad agored gael eu caniatáu o fewn Pentrefi Lleol/Arfordirol/Gwledig. Dylai'r polisi cynnwys diffiniad o beth mae 'angen cymunedol' yn ei olygu.</p> <p>Mae safleoedd o fewn fath bentrefi o dan</p>	<p>Dim yn derbyn – nid yw'r polisi yn cyfyngu twf i dai fforddiadwy yn unig. Mae paragraff 7.4.124 yn cyfeirio tuag at gyfyngu datblygiad tai i fath a graddfa sy'n diwallu'r angen cymunedol am dai. Mae yn mynd yn ei flaen i nodi ceir cefnogaeth i dai neu dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				anfantais o'i gymharu â safleoedd o dan bolisi TAI 10 gan nad yw tai marchnad agored yn cael ei gefnogi gan bolisi TAI 17.	<p>Felly fe ellir cefnogi tai marchnad agored sydd yn cyfarch angen y gymuned am dai.</p> <p>Mae hyn yn adlewyrchu cymeriad a rôl Pentrefi a adnabyddir o dan bolisi TAI 17 ac yn plethu efo polisi TAI 1 ar gyfer cael cymysgedd briodol o dai.</p> <p>Bydd Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) ar Tai Fforddiadwy yn rhoi eglurhad ar gyfer 'angen cymunedol'.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
731 & 733	RCH Douglas Pennant [3070]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	Gwrthwynebu cyfyngu'r twf yn Llandygai i wyth annedd ar hap dros gyfnod y cynllun a llunio'r ffin ddatblygu. Rwyf yn gwrthwynebu'r asesiad cynladwyedd ar gyfer Llandygai (sgôr anheddle). Mae'r drefn bresennol mewn gwirionedd yn peri risg i hyfywedd y gwasanaethau lleol. Newidiadau: ffin ddatblygu ehangach er mwyn caniatáu nifer uwch o aneddiadau yn Llandygai, a fyddai'n	<p>Dim yn derbyn - Mae'r holl gyfleusterau sydd yn cael ei sôn amdano gan y gwrthwynebydd, wedi cael sgôr ym mhapur testun 5.</p> <p>Fe wnaeth y Cyngor wrth lunio strategaeth dosbarthiad o fewn y Cynllun ystyried natur wasgaredig yr ardal yn erbyn polisiâu cenedlaethol ar gyfer lleihau'r angen i deithio a lleoli'r twf mwyaf mewn lleoliadau cynaliadwy.</p> <p>Teimlir bod y dosbarthiad yn y Cynllun Adnau wedi creu cydbwysedd addas rhwng polisi cenedlaethol a'r sefyllfa</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				cefnogi'r gwasanaethau lleol yn well.	<p>leol. Tra gall lefel uwch o dwf mewn rhai lleoliadau helpu rhywfaint efo rhai gwasanaethau lleol buasai cael ffin datblygu lac a lefel uwch o dwf o bosib arwain at broblemau eraill o fewn rhai cymunedau e.e. effaith ar yr iaith Gymraeg ayb. Nid yw'r gwrthwynebydd wedi cyflwyno rhesymau dilys na thystiolaeth amlwg i allu cefnogi cais i newid statws Llandygai yn y goeden aneddleoedd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
764	Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	<p>Bydd darparu tai fforddiadwy yn unig mewn Pentrefi Lleol, Pentrefi Gwledig a Phentrefi Arfordirol yn gwano cymunedau yn gymdeithasol ac yn economaidd gan gynyddu amddifadedd. Mae Polisi Cenedlaethol yn mynnu cymysgedd o dai fforddiadwy a thai ar y farchnad agored. Bydd cyfyngu datblygiadau i 100% tai fforddiadwy yn arwain at anghydbwysedd gymdeithasol.</p> <p>Byddai caniatáu tai angen lleol neu dai</p>	<p>Dim yn derbyn – nid yw'r polisi yn cyfyngu twf i dai fforddiadwy yn unig. Mae paragraff 7.4.124 yn cyfeirio tuag at gyfyngu datblygiad tai i fath a graddfa sy'n diwallu'r angen cymunedol am dai. Mae yn mynd yn ei flaen i nodi ceir cefnogaeth i dai neu dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol.</p> <p>Felly fe ellir cefnogi tai marchnad agored sydd yn cyfarch angen y gymuned am dai.</p> <p>Mae hyn yn adlewyrchu cymeriad a rôl Pentrefi a adnabyddir o dan bolisi TAI 17 ac yn plethu efo polisi TAI 1 ar gyfer cael cymysgedd briodol o dai.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>fforddiadwy yn unig mewn aneddeleodd penodol yn debygol o sicrhau na ellir darparu'r lefel ofynnol o dai. Ni ellir cyflawni tai angen lleol a thai fforddiadwy ond trwy ddatblygiadau cytbwys, hyfyw (gan gynnwys tai marchnad agored a thai fforddiadwy yn y datblygiadau).</p> <p>Diwygio'r polisi i ddarparu cymysgedd o dai fforddiadwy a thai marchnad agored mewn Pentrefi Lleol, Pentrefi Gwledig a Phentrefi Arfordirol.</p>	<p>Mae yna elfen o'r lefel twf disgwylidig o fewn y Pentrefi yma wedi cael ei ddarparu yn barod trwy unedau wedi ei chwblhau ers 2011 ac mae canran bellach efo caniatâd presennol. Bydd system monitro flynyddol y Cynllun yn amlygu os na fydd y lefel twf disgwylidig ar gyfer yr haen yma o'r hierarchaeth yn cael ei wireddu, neu os bydd risg y bydd gormodedd yn cael ei ganiatáu.</p> <p>Credir mai prin iawn yw'r nifer o dai fforddiadwy yn y Pentrefi ar hyn o bryd efo nifer helaeth ohonynt ddim ond efo tai marchnad agored. Bydd cefnogi tai fforddiadwy yn oes y Cynllun yn dod a gwell cymysgedd o dai i'r sefyllfa bresennol y Pentrefi yma.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
832	Jina Gwyrfai [3092]	POLISI TAI17	Gwrthwynebu	Dyma bolisi gall i amddiffyn cymunedau bychain lleol. Oni ddylai'r amodau i) & ii) fod yn sail i'r holl Gynllun? Wedi dweud hynny mae angen diffiniad cliriach o 'dai fforddiadwy' yn y cyswllt cymunedol. Nid yw	<p>Dim yn derbyn - mae cymal i) a ii) yn adlewyrchu cymeriad a rôl Pentrefi a adnabyddir o dan bolisi TAI 17.</p> <p>Mae papur testun 5 'Datblygu'r strategaeth aneddeleodd' yn adnabod rôl gwahanol fathau o ganolfannau a'r math o ddatblygiad y gellid ei ddisgwyl ynddynt.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				67% yn gallu fforddio'r tŷ rhataf un oherwydd cyflogau gwael (is o lawer nag mewn ardaloedd eraill). Mae angen clustnodi mwy o dai ar rent "Tai Teg" yn hytrach na thai ar werth. Y Polisi yma'n sail i holl gynllunio ar wahân i Fangor/ Caergybi'r canolfannau isranbarthol. Cyfyngu ar adeiladu tai i'r newid naturiol.	<p>Gan fod y ganolfan isranbarthol ar ganolfannau gwasanaethol eraill efo nifer o wasanaethau a chyfleusterau maent yn lleoliadau cynaliadwy. Hefyd maent yn boblogaidd ar gyfer cyfarch anghenion poblogaeth ehangach yn ardal y Cynllun na'i gymuned unigol ei hunain. Oherwydd hyn ni chredir y dylid cyfyngu lefel twf fath ganolfannau i gyfarch anghenion eu hunain yn unig.</p> <p>Mae polisi TAI 1 yn cyfeirio tuag at y cymysgedd priodol o dai a gall mwy o dai ar rent gael ei gefnogi efo bwriad os yw'r dystiolaeth berthnasol yn cyfiawnhau hyn.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
1188	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI17	Cefnogi	Does dim materion rydan ni'n gwybod amdanyn nhw o ran y cyflenwad dŵr i effeithio ar gyflawni'r twf sydd wedi'i nodi tu mewn i'r aneddiadau yma ond bydd asesiad llawn yn digwydd ar adeg cais cynllunio, unwaith y byddwn yn gwybod lle mae'r	<p>Nodi'r sylw cefnogol – bydd y Cyngorau yn parhau i ymgynghori gyda'r cwmni adeg ceisiadau cynllunio.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>datblygiad i ddigwydd.</p> <p>Bydd pa mor ddigonol ydi'r rhwydwaith garthffosiaeth yn cael ei asesu ar adeg cais cynllunio, unwaith y byddwn yn gwybod lle mae'r datblygiad i ddigwydd.</p>	
202	John Brinley Jones [2087]	7.4.124	Gwrthwynebu	<p>Sut cyfrifwyd yr 16 annedd newydd ar gyfer Llanbedrog? Ydi'r ffigwr hwn yn cynnwys yr holl fathau o anheddau newydd gan gynnwys tai haf? Daeth arolwg a gynhaliwyd yn 2007 ar gyfer Cyngor Plwyf Llanbedrog i'r casgliad fod 28 o deuluoedd yn dymuno symud i mewn i'r pentref. Codwyd deg tŷ fforddiadwy ond ymddengys bod y deg hyn eisoes wedi'u cynnwys yn y ffigwr ac mae tri arall sy'n dai haf hefyd wedi'u cynnwys, sy'n gadael un i'w godi yn Llanbedrog yn ystod oes y cynllun, sydd ddim yn ddigon o ystyried y dymunwn weld mwy o dwf yn Llanbedrog.</p> <p>Cynyddu'r niferoedd o 16 i o leiaf 28 a ni ddylai'r ffigwr cynnwys ail cartrefi neu gartrefi gwyliau. Newid tabl 20 mewn perthynas i'r eglurhad ym mharagraff 7.4.124. Efallai</p>	<p>Dim yn derbyn - mae papur testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlygu'r fethodoleg ar gyfer adnabod lefel twf sydd yn seiliedig ar y math o gyfleusterau sydd ar gael yn y Pentref.</p> <p>Mae unrhyw ddatblygiad sydd wedi cymryd lle mewn anheddle ers Ebrill 2011 yn cyfrif tuag at ffigwr twf y Cynllun.</p> <p>O dan polisi TAI 5 'Tai Marchnad Lleol', sydd wedi adnabod Llanbedrog fel Pentref briodol yn y polisi yma, bydd unrhyw dŷ marchnad yn cael ei gyfyngu i dŷ marchnad lleol. Bydd hyn yn lleihau'r risg i unedau tai newydd gael eu defnyddio fel tai haf/ gwyliau.</p> <p>Os ceir tystiolaeth gadarn bod yna angen am lefel uwch o dai fforddiadwy yn y Pentref yna fe ellid cefnogi hyn trwy bolisi TAI 10 'Safleoedd eithrio'.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Ileihau niferoedd ym Mhwlheli o 12 a symud yr angen i Lanbedrog.	<p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
210	CYNGOR CYMUNED LLANBEDROG (MR JOHN HARRIS) [2810]	7.4.124	Gwrthwynebu	I gynyddu lefel twf Llanbedrog o 16 i 28 uned. Ym 2007 gwnaeth y Cyngor arolwg o'r angen am dai yn Llanbedrog a chanfuwyd fod angen 28 o dai. Adeiladwyd 12 tŷ fforddiadwy, mae hyn yn gadael 16 anghenus. Yn y Cynllun nid oes unrhyw ddarpariaeth ar gyfer hyn. Ydi'r ffigwr yma yn cynnwys ail gartrefi?	<p>Dim yn derbyn - mae papur testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlygu'r fethodoleg ar gyfer adnabod lefel twf sydd yn seiliedig ar y math o gyfleusterau sydd ar gael yn y Pentref.</p> <p>Mae unrhyw ddatblygiad sydd wedi cymryd lle mewn anheddle ers Ebrill 2011 yn cyfrif tuag at ffigwr twf y Cynllun.</p> <p>O dan bolisi TAI 5 'Tai Marchnad Leol', sydd wedi adnabod Llanbedrog fel Pentref priodol yn y polisi yma, bydd unrhyw dŷ marchnad yn cael ei gyfyngu i dŷ marchnad leol. Bydd hyn yn lleihau'r risg i unedau tai newydd gael eu defnyddio fel tai haf/ gwyliau.</p> <p>Os ceir tystiolaeth gadarn bod yna angen am lefel uwch o dai fforddiadwy yn y Pentref yna fe ellid cefnogi hyn trwy bolisi TAI 10 'Safleoedd eithrio'.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					Dim Newid
213	CYNGOR CYMUNED LLANBEDROG (MR JOHN HARRIS) [2810]	7.4.124	Gwrthwynebu	Mae'r cyfyngiadau a roddir ar bentrefi Arfordirol/ gwledig yn rhy gaeth. Mae'n bwysig cael twf. Mae'n bwysig cael twf i warchod cymeriad y pentref, er mwyn galluogi amrywiaeth o dai angen lleol eu hadeiladu a dim o reidrwydd tai fforddiadwy yn unig.	<p>Dim yn derbyn - mae papur testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddleoedd' yn amlygu'r fethodoleg ar gyfer adnabod lefel twf sydd yn seiliedig ar y math o gyfleusterau sydd ar gael yn y Pentref Arfordirol / Gwledig. Felly mae pob pentref yn y categori Arfordirol / Gwledig (heblaw am Fairbourne sydd heb unrhyw dwf oherwydd problem lefel y môr i'r dyfodol) wedi cael lefel o dwf yn ei erbyn.</p> <p>Nid yw'r polisi yn cyfyngu twf i dai fforddiadwy yn unig. Mae paragraff 7.4.124 yn cyfeirio tuag at gyfyngu datblygiad tai i fath a graddfa sy'n diwallu'r angen cymunedol am dai. Mae yn mynd yn ei flaen i nodi ceir cefnogaeth i dai neu dai fforddiadwy ar gyfer angen lleol.</p> <p>Felly fe ellir cefnogi tai marchnad agored sydd yn cyfarch angen y gymuned am dai.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

TAI 18 – Tai mewn Clystyrau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
383	Mr Emyr Jones [2935]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	Mae'r polisi hwn yn diffinio pentref Llan-faes fel clwstwr. O gofio ei faint a'i nodweddion, byddai pentref lleol yn gategori mwy priodol. Ceir anghysonderau yn y broses asesu sydd wedi'i chynnal, o gofio fod Talwrn, er enghraifft, anheddiad sy'n debyg i Lan-faes o ran nodweddion, wedi'i ddiffinio fel pentref lleol. Mae angen tai fforddiadwy a marchnad yn Llan-faes i gefnogi a datblygu gwasanaethau lleol. Byddai'r safle a adwaenir fel SP49 yn y Gofrestr Safleoedd Arfaethedig yn safle addas ar gyfer ehangu'r pentref ar raddfa fechan.	<p>Dim yn derbyn – mae Papur Testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddeleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod rôl gwahanol ganolfannau o fewn ardal y Cynllun.</p> <p>Ar gyfer gwahaniaethu rhwng Pentref a Chlwstwr fe adnabuwyd 9 cyfleuster penodol fel rhai allweddol, rhain yw'r rhai a ddiffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. I gael cysondeb a sicrhau lefel uwch o dwf mewn canolfan mwy cynaliadwy rhaid oedd cael o leiaf un o'r cyfleusterau allweddol yma.</p> <p>Nid oes gan Lanfaes 'run o'r cyfleusterau penodol ac nid yw'r gwrthwynebydd wedi dangos tystiolaeth i'r gwrthwyneb.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
442	Mr B Pritchard [2951]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	Nid yw pentref Bryn-teg wedi'i gynnwys mewn unrhyw ddsbarthiad y nodweddir bod modd iddo dderbyn datblygiadau tai newydd.	<p>Dim yn derbyn – mae Papur Testun 5 'Datblygu'r Strategaeth Aneddeleoedd' yn amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ar gyfer adnabod rôl gwahanol</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				Amryfusedd yw hyn gan fod y pentref yn arddangos nifer o'r nodweddion sy'n gysylltiedig â phentrefi a chlystyrau lleol eraill. Er enghraifft, mae Talwrn, pentref tebyg, wedi'i ddsbarthu'n bentref lleol. Mae'n hanfodol i les cymdeithasol ac economaidd Bryn-teg y caiff datblygiadau newydd eu hyrwyddo ac y rhoddir dynodiad o'r fath. Mae safleoedd addas ar gyfer datblygiad o'r fath yn y pentref, gan gynnwys cyfeirnod safle SP162 yn y Gofrestr Safleoedd Arfaethedig.	<p>ganolfannau o fewn ardal y Cynllun.</p> <p>Ar gyfer gwahaniaethu rhwng Pentref a Chlwstwr fe adnabuwyd 9 cyfleuster penodol fel rhai allweddol, rhain yw'r rhai a ddiffinnir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. I gael cysondeb a sicrhau lefel uwch o dwf mewn canolfan mwy cynaliadwy rhaid oedd cael o leiaf un o'r cyfleusterau allweddol yma.</p> <p>Nid oes gan Frynteg 'run o'r cyfleusterau penodol ac nid yw'r gwrthwynebydd wedi dangos tystiolaeth i'r gwrthwyneb.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
497	Cyngor Cymuned Tref Alaw (Miss Anna M Jones) [1402]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	<p>Mae eitem 6 yn y paragraff yn nodi fod y feddiannaeth wedi'i chyfyngu hyd dragwyddoldeb.</p> <p>Golyga hyn y bydd yn amhosib cael morgais ar yr annedd.</p> <p>Bwriad y cynllun yw 'cael gwared' â'r trigolion o'r cefn gwlad a chreu getos yn y trefi.</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae strategaeth y Cynllun yn adnabod natur wasgaredig yr ardal a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr hierarchaeth aneddleoedd a'r categori Clystyrau</p> <p>Oherwydd y pwyslais cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Cymru i leoli datblygiad mewn lleoliadau cynaliadwy mae polisi TAI 18 yn cyfyngu datblygiad i unedau fforddiadwy yn unig oherwydd dim ond ychydig o gyfleusterau sydd yn y Clystyrau yma.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
					<p>Mae defnyddio cytundeb cyfreithiol er mwyn cyfyngu deiliadaeth yn ddull a gefnogir gan Bolisi Cenedlaethol. Tra bod y polisi yn hyrwyddo defnydd fforddiadwy am byth bydd yna gymal ar gyfer gwerthu'r tŷ ar y farchnad agored mewn achosion os yw'r cwmni benthyca yn adfeddiannu'r tŷ a methu ei osod i rywun sydd yn bodloni'r cytundeb. Mae hyn yn help i sicrhau unigolion i gael morgais.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
574	Cadnant Planning (Mr Rhys Davies) [1366]	POLISI TAI18	Gwrthwynebu	<p>* Dylid uwchraddio Clystyrau i gynnwys ffin datblygu.</p> <p>* Dylid cynnwys dynodiad tai penodol ynddynt i ddarparu cyfuniad o dai marchnad a thai fforddiadwy i gyfarch y gwir angen lleol am fath dai.</p> <p>* Mae'r clystyrau sydd wedi cael ei adnabod yn aneddeoedd cynaliadwy efo cysylltiadau trafndiaeth dda. Ni ddylid cyfyngu ei lefel twf gan fuasai cyfleusterau a gwasanaethau cymdeithasol yn cael cefnogaeth wedyn.</p> <p>* Buasai hyn yn cefnogi anghenion y gymuned leol bydd yn cefnogi nifer o wasanaethau a</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae'r cynllun wedi adnabod nifer o glystyrau cydlynus o 10 o dai neu ragor gyda chyswllt gweithredol â chanolfan lefel uwch ar lwybr bws neu o fewn 800 metr i safle bws ac mewn rhai achosion efo rhai cyfleusterau / gwasanaethau.</p> <p>Yn unol a'r egwyddorion cynaliadwyedd sydd yn dylanwadu strategaeth ofodol y Cynllun, ni chredir bod y rhain yn lleoliadau addas i ddynodi safleoedd tai ac i hybu lefel uwch o dwf ynddynt a bod rhoi twf o 2 uned fforddiadwy leol i'r clwstwr yn golygu cyfleoedd addas i gyfarch anghenion yn deillio o'r gymuned leol.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhellion swyddogion
				<p>chyfleusterau drwy'r flwyddyn; sydd yn fwy addas na pholisi caeth sydd yn cyfyngu'r nifer o dai i ddau a hefyd yn lleihau effaith crynhoed o dai gwyliau.</p> <p>* Ystyrir bod dim ond cyfarch 2 dy fforddiadwy o fewn clystyrau yn mynd i wanhau cymunedau yn gymdeithasol ac economaidd gan arwain at gynnydd mewn amddifadedd. Mae'n cael ei adnabod ym Mholisi Cynllunio Cymru bod yna angen i ddarparu cymysgedd o dai fforddiadwy a marchnad o fewn aneddleoedd er mwyn creu cymunedau cynaliadwy.</p> <p>* Bydd cyfyngu datblygiad tai i 100% tai fforddiadwy yn creu anghydbwysedd cymdeithasol ac felly yn groes i bolisi cynllunio cenedlaethol.</p>	<p>Credir mai prin iawn yw'r nifer o dai fforddiadwy yn y Clystyrau ar hyn o bryd efo nifer helaeth ohonynt ddim ond efo tai marchnad agored. Bydd cyfyngu unrhyw ddatblygiad pellach yn oes y Cynllun yn dod a gwell cymysgedd i sefyllfa bresennol y Clystyrau yma. Mae hyrwyddo tai fforddiadwy yn unig mewn Clystyrau hefyd yn gyson a pholisi cynllunio cenedlaethol a'r canllawiau a welir yn NCT6.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
1092	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	O ran Polisi PS16 ac AMG4 mae ANC'n cwestiynu a oes angen y ddau bolisi ac a ddylid eu hymgorffori mewn un Polisi 'Bioamrywiaeth'. Trwy gael un polisi, fel Polisi NTE/3 CDLI Conwy, byddai'n rhoi'r strwythur polisi i ddiogelu rhywogaethau o bwysigrwydd Ewropeaidd, Cenedlaethol a lleol yn ogystal â chyfeirio at yr angen i gyrraedd targedau'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol. Dylai'r polisi gynnwys hierarchaeth sy'n diffinio'n eglur y lefel o ddiogelwch i'w gynnig i safleoedd a rhywogaethau, a chynnwys cyfeiriad at y rhywogaethau yn Adran 42 Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1991 gan fod dyletswydd ar yr Awdurdod i ddiogelu o dan Ddeddf NERC (2006).	<p>Dim yn derbyn - Cyfeiria PS16 at yr amgylchedd naturiol ac mae'n ymdrin â graddfa wahanol, sy'n fwy troswaol – fel y nodwyd gan y teitl 'Polisi Strategol', lle mae AMG4 yn darparu rhagor o wybodaeth yn ymwneud â rhoi'r polisi hwn ar waith yn ymarferol i'r lefel achos cynllunio ar gyfer bioamrywiaeth, sy'n gulach na'r 'amgylchedd naturiol'. Felly, ystyrir bod y ddau bolisi ar wahân yn gyfiawn.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
1182	Pwêr Niwclear Horizon(Miss	POLISI STRATEGOL	Gwrthwynebu	Mae camgymeriad teipio yn y cyflwyniad: Dylai fod yn "effect", nid "affect". Mae Horizon o'r farn bod angen cynnwys	Derbyn yn rhannol – Derbyniwyd bod yna wall teipio yn y fersiwn Saesneg o'r rhagarweiniad a dylid diwygio hyn yn unol â hynny.

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
	Sarah Fox) [2919]	PS16		mwy o hyblygrwydd yn y polisiau hyn fel y bydd modd caniatáu cynigion y rhagwelir eu bod am gael effaith andwyol, yn amodol ar bennu mesurau lliniaru digonol, efo cynllun gweithredu priodol i gefnogi hynny. Yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i'r polisiau hyn, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisiau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig uchod. Rheiny fyddai'r polisiau perthnasol ar gyfer gwneud ymatebion ymgynghori i'r cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu ac i benderfynu ar geisiadau datblygu cysylltiedig.	<p>Ystyrir bod digon o hyblygrwydd yn y polisiau presennol i ddarparu ar gyfer mathau priodol o ddatblygiad. Fel unrhyw fath o ddatblygiad arall, bydd angen i unrhyw gais cynllunio/DCO mewn perthynas â'r Wylfa Newydd ystyried yr holl bolisiau perthnasol yn y CDLI.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Cywiros gwall teipio yn y fersiwn Saesneg o'r CDLI ar y Cyd.</p> <p>Newid Bychan: NB 17</p>
1423	NFU Cymru (Dafydd Jarrett) [3285]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Hoffai NFU Cymru wneud y sylwadau cyffredinol canlynol ar y polisiau rheoli datblygu sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun drafft. Dylai'r Cynllun hyrwyddo tirwedd o ansawdd uchel ac adnabod rôl amaethyddiaeth yn hyn.	<p>Dim yn derbyn - Tra cydnabyddir y cyfraniad y mae amaethyddiaeth wedi'i chwarae wrth greu 'tirwedd ansawdd uchel' y Cynllun, ni fyddai'n briodol cyfeirio at rôl amaethyddiaeth fel yr awgrymwyd gan y gwrthwynebydd yng nghyd-destun polisi PS16.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					Dim Newid
1439	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Mae angen ystyriaeth bellach i ardrawiad posib datblygiad ar statws cadwraeth ffafriol rhywogaethau a warchodir. Mae'r rhywogaethau sy'n bresennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn cynnwys dyfrgwn, ystumod, llygod dwr. Dylai polisiau perthnasol sicrhau bod datblygiad arfaethedig yn cael eu hasesu o dan y Cynllun ac yn achos dynodiadau bod ystyriaeth lawn a phriodol yn cael ei roi i rywogaethau a warchodir er mwyn cydymffurfio a gofynion deddfwriaeth berthnasol.	<p>Nodi'r sylw – Noda paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: “Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio”. At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru “Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch.” Mae Pennod 5 Polisi Cynllunio Cymru, ynghyd â TAN 5 yn darparu arweiniad cynllunio mewn perthynas â dynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol a ddiogelir gan ddeddfwriaeth.</p> <p>Mewn perthynas â PS16, mae pwynt bwled 6 eisoes yn cyfeirio at “Ddiogelu rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod yn rhyngwladol, cenedlaethol ac yn lleol”. At hynny, mae polisiau AMG4 ac AMG5 yr CDLI ar y Cyd yn darparu'r cyd-destun cynllunio lleol mewn perthynas â rhywogaethau rhanbarthol/lleol.</p> <p>Bydd y Cyngorau yn parhau i gysylltu gyda CNC wrth ymdrin gyda cheisiadau cynllunio. Wrth ystyried cynigion datblygu (gan gynnwys tir sydd wedi ei ddyrannu yn y cynllun) bydd yr awdurdodau</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					<p>cynllunio lleol yn ystyried ardrawiad amgylcheddol, er mwyn osgoi, ble mae'n ymarferol bosibl, effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd.</p> <p>Recommendation</p> <p>Dim angen newid i ymdrin gyda'r materion sy'n deillio o'r gynrychiolaeth yma.</p> <p>Dim Newid</p>
1443	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Mae nifer o safleoedd a ddynodwyd tu mewn i, wrth ymyl neu'n agos i AHNE Llŷn ac Ynys Môn. Rydym yn atgoffa'r Awdurdod o'i ddyletswydd o dan Adran 85 o'r Ddeddf cefn Gwlad a Mynediad 2000, sy'n dweud bod rhaid i gyrff cyhoeddus roi sylw i'r amcan o warchod a gwella harddwch naturiol AHNE. Credir lle bod yna bosibilrwydd i ddynodiad gael effaith andwyol sylweddol ar yr AHNE a'i ardal gysylltiedig, byddai'n rhaid asesu'r safle yn rymus o ran ei ardrawiad andwyol ar fwynderau a rhinweddau'r AHNE	<p>Nodi'r sylw – Noda paragraff 2.2.4 Polisi Cynllunio Cymru: "Ni ddylid ailadrodd polisi cynllunio cenedlaethol sydd wedi ei osod ym Mholisi Cynllunio Cymru fel polisi mewn CDLlau ond dylai'r cynlluniau esbonio sut y bydd yn berthnasol i'r ardal leol, ac yn hollbwysig sut y bydd polisi cenedlaethol a pholisi lleol yn cydweithio". At hynny, noda paragraff 2.2.5 Polisi Cynllunio Cymru "Ni ddylai cynlluniau ddyblygu darpariaethau sydd mewn cyfundrefnau deddfwriaethol eraill, er enghraifft, mewn rheoliadau iechyd yr amgylchedd ac adeiladu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch." Amlinellir y ddeddfwriaeth bresennol a'r polisi ac arweiniad cenedlaethol mewn perthynas ag AHNE yn Nhabl 23 y CDLI ar y Cyd.</p> <p>Bydd y Cynghorau yn parhau i gysylltu gyda CNC wrth ymdrin gyda cheisiadau cynllunio. Wrth ystyried cynigion datblygu (gan gynnwys tir sydd</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					<p>wedi ei ddyrannu yn y cynllun) bydd yr awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried ardrawiad amgylcheddol, er mwyn osgoi, ble mae'n ymarferol bosibl, effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim angen newid i ymdrin gyda'r materion sy'n deillio o'r gynrychiolaeth yma.</p> <p>Dim Newid</p>
1444	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	Mae rhai dynodiadau o fewn neu'n agos i dirweddau sydd wedi cael eu cofrestru gan CADW fel Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol. Tra nad yw hyn yn ddynodiad statudol, mae Pennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru yn nodi y dylai fod yn ystyriaeth cynllunio berthnasol yn y broses cynllunio ac y dylid rhoi ystyriaeth iddo.	<p>Dim yn derbyn – Ymdrinnir â Thirweddau Hanesyddol Cofrestredig o dan bolisi PS17</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
429	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	POLISI STRATEGOL PS16	Gwrthwynebu	<p>Sylw ychwanegol</p> <p>Dylid cynnwys yn y Cynllun na ddylid cymeradwyo unrhyw gais cynllunio sy'n gwneud niwed sylweddol i goetir hynafol, yn unol â Pholisi Cynllunio Cymru.</p>	<p>Derbyn yn rhannol – Mae paragraff 5.2.9 PCC yn cynnwys datganiadau ar bolisi rheoli datblygiad cenedlaethol mewn perthynas â choed a choetiroedd, gan gynnwys coetiroedd hynafol a lled-naturiol ac felly nid oes angen eu haildrodd fel polisi lleol mewn Cynlluniau Datblygu Lleol.</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				Dylid nodi y dylid manteisio ar bob cyfle i blannu coed mewn llefydd addas er mwyn gwella'r amgylchedd lleol.	<p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

AMG1 – Aradloedd o Dirwedd Arbennig

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
54	Oaktree Environmental Ltd (John Williams) [2594]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Mae'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig a nodir ar y Map Cynigion yn gorgyffwrdd â dynodiadau tirwedd eraill sy'n ymddangos bod ganddynt yr un pwrpas o warchod y dirwedd. Pan geir y cyfryw gorgyffwrdd, dylid rhoi ystyriaeth i ostwng maint yr Ardal Tirwedd Arbennig er mwyn osgoi dyblygu ardaloedd dynodedig. O ran safle ein cleient, sydd o fewn Ardal Tirwedd Arbennig 07 arfaethedig, mae'r dirwedd yn nodweddiadol o'r diwydiant cloddio mwynau sydd yn yr ardal ac ni ddylai fod yn ormod o faich ar gloddio mwynau yn yr ardal yn y dyfodol.	<p>Dim yn derbyn - Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ni chyflwynwyd tystiolaeth i wrthwynebu'r rhesymeg y tu cefn i'r dynodiad ATA hwn a chyfiawnhau'r gostyngiad o ran arwynebedd y mae'n ymestyn drosto. Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
234	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor hir. Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor hir.	<p>Dim yn derbyn - Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. Nid yw'r polisi hwn yn gwahardd/cyfyngu'n benodol ar echdynnu mwynau o fewn ATA ond mae'n sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud dewisiadau deallus ar geisiadau cynllunio.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
235	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor hir. Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor	<p>Dim yn derbyn - Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. Nid yw'r polisi hwn yn gwahardd/cyfyngu'n benodol ar echdynnu mwynau o fewn ATA ond mae'n sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud dewisiadau deallus ar geisiadau cynllunio.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				hir.	Dim Newid
291	Mr Myrddin Roberts [2858]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Nid yw'r Swyddogion sy'n llunio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd wedi dwyn i mewn yn ddigonol randdeiliaid lleol megis cynghorau cymuned, ffermwyr, tîrfeddianwyr a thrigolion cyn dynodi Ardaloedd o Dirwedd Arbennig ar fap Ynys Môn, yn enwedig felly ar gyfer yr Ardal Tirwedd Arbennig o'r enw Llethrau Coediog Biwmares a Glen Llangoed. Fi sy'n digwydd bod yn Gadeirydd Cyngor Cymuned Llanddona, felly gwn nad oes yr un swyddog wedi bod yn ein cyfarfodydd. Fel trigolion, dylem fod wedi cael gwybod am y newid mawr arfaethedig yn y polisi hwn. Ni chafwyd trafodaeth ystyrlon yn amlinellu'r goblygiadau ar fusnesau, tir a chartrefi. Bod Polisi AMG1 yn cael ei ddileu tan fod pob rhanddeilwyr wedi cael ei hysbysu am y cyflwyniad arfaethedig o'r ATAAu a bod trafodaeth a chytundeb yn cael ei gyrraedd gan bob parti perthnasol, yn enwedig y gymuned leol a swyddogion y Cynllun ar y Cyd.	<p>Dim yn derbyn - Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ar Ynys Môn, roedd yr hen Ardal Tirwedd Arbennig yn ymestyn bron dros ardal yr Awdurdod Unedol cyfan. Mae'r ATA newydd yn disodli'r hen ddynodiad a bellach ond yn ymwneud â rhannau penodol o ardal yr Awdurdod Unedol.</p> <p>O ganlyniad, ni ddylid ystyried ATA fel dynodiad newydd ac ni fydd ganddynt oblygiadau mwy i fusnesau a thrigolion lleol na'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd dynodiad ffurfiol yr ATA yn cael ei wneud trwy broses ymgynghori'r CDLI.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun</p> <p>Dim Newid</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
365	Dr Morag McGrath [231]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Mae'n anodd deall sut gall datblygiad 'ychwanegu' at nodweddion hanesyddol, gweledol, daearyddol, ecolegol a diwylliannol y ATA'. Newid y geiriad i 'i gynnal, cyfoethogi neu adfer cymeriad ac ansawdd cydnabyddedig' fel yn 7.5.10.	Derbyn – Ystyriwyd y byddai hyn yn gwella eglurder y polisi ac yn darparu cysondeb gyda pharagraff 7.5.10. Argymhelliad Newid geiriad y polisi i 'gynnal, gwella neu adfer y cymeriad cydnabyddedig'. Newid â ffocws: NF 83
375	Rheilffordd Eryri (Mr Graham Farr) [254]	POLISI AMG1	Cefnogi	Mae'r Cwmni'n cefnogi'r polisi fel y'i geirir. Gweler sylwadau ar wahân y Cwmni yng nghyswllt yr ardal y mae'n berthnasol iddi.	Nodi Argymhelliad Dim Newid
460	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Mae Bourne Leisure yn ystyried y dylai AMG1 datgan yn glir bod yna bosibilrwydd cryf y bydd cyfleusterau ymwelwyr mewn AGT oherwydd yr angen eu lleoli yn agos i'r arfordir. Mae cyfleusterau ymwelwyr o hyd yn newid, gydag ailddatblygu a gwella safleoedd yn digwydd trwy gydol yr amser, er mwyn cwrdd â marchnad ymwelwyr dynamig. Mae Bourne Leisure yn ystyried y gall datblygiad priodol ddod ymlaen hyd yn oed mewn lleoliadau AGT os gellir gweithredu mesurau lliniaru priodol i	Dim yn derbyn – ni ddylid trin y diwydiant twristiaeth yn wahanol i unrhyw fath o ddatblygiad arall. Nid yw'r polisi hwn yn rhwystro datblygiad priodol o fewn ATA ond yn amlinellu sut bydd y fath gynigion yn cael eu hystyried yn y cyd-destun cynllunio lleol. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim Newid

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				ymdopi gydag ardrawiadau uniongyrchol ac anuniongyrchol.	
609	Mr Paul Madden [3032]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Nodwyd y cyfan o Ynys Môn o dan bolisi 31 yng Nghynllun Lleol Ynys Môn fel Ardal Tirwedd Arbennig (SLA). Yn y Cynllun sydd ar fin ei gyhoeddi, dim ond rhai ardaloedd sy'n cael eu nodi fel SLA, a gellid dynodi'r holl ynys yn SLA wrth ddefnyddio'r meini prawf cyfredol. Gall Môn cael ei dyfranu gyda statws uwch geoparc byd-eang sy'n cyfateb i safle treftadaeth y byd. Nid yw'n cynnig gwarchodaeth digonol yn erbyn datblygiadau anaddas ac mae'n gwrthdroi polisi hirdymor heb gyfiawnhad digonol. Dylid dynodi'r cyfan o Ynys Môn yn SLA.	<p>Dim yn derbyn – Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC.</p> <p>Mae'r rhesymeg y tu cefn i ddynodi Geoparciau Byd-eang yn sylweddol wahanol i'r rhesymeg ar gyfer ATA. Mae a wnelo statws Geoparc â chydabod ansawdd uchel dreftadaeth ddaearegol leol, lle gall mwy o werthfawrogiad a dealltwriaeth o dreftadaeth ddaearegol fod o fantais i bobl a busnesau lleol trwy fentrau twristiaeth ac addysg. Nid oes gan statws Geoparc unrhyw sail ddeddfwriaethol na goblygiadau cynllunio defnydd tir.</p> <p>At hynny, mae Geoparciau eisoes wedi'u diogelu trwy bolisiau CDLI eraill, er enghraifft PS17 (ail bwynt bwled) a pholisi AMG5.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun</p> <p>Dim Newid</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
808	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cyngorydd Gruffydd Williams) [3090]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Mewn rhai mannau mae'r ardal yma (ATA Gorllewin Llyn) yn ffinio gyda'r AHNE ac yn creu gwarchodiad i osodiad yr AHNE. Fodd bynnag, mae rhai rhannau o'r AHNE hen warchodaeth yma. Credir felly dylid cyfeirio at warchod gosodiad yr AHNE yn y polisiau perthnasol.	<p>Dim yn derbyn - Cyfeirir at fater a wnaed yn y frawddeg olaf ym mholisi AMG2 sy'n datgan "Bydd ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i ddatblygiadau sydd yn effeithio ar gymeriad tirwedd a gosodiad yr AHNE neu'r Parc Cenedlaethol".</p> <p>Serch hynni nodir bod gwall yn y fersiwn Gymraeg a dylid ychwanegu 'yn uniongyrchol' ar ôl "effeithiau" yn frawddeg olaf polisi AMG2 er mwyn fod yn gyson gyda'r fersiwn Saesneg.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dylid cynnwys y geiriau 'yn uniongyrchol' ar ôl "effeithiau" yn frawddeg olaf polisi AMG2</p> <p>Newid Bychan: NB 18</p>
811	Cyngor Cymuned Botwnnog (Mrs Gwenda Roberts) [1541]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Mae Cynllun Gwarchod y Tirwedd newydd Arfordirol eto yn cyfyngu ar hawliau trigolion Pen Llŷn drwy eu rhwystro i godi tai yn eu hardal eu hunain. Bydd cefn gwlad yn marw ar ei thraed a gwelir diboblogi - os daw i hynny bydd diwylliant a'r arferion unigryw sy'n perthyn i gefn gwlad yn cael ei golli am	<p>Dim yn derbyn – ystyrir mai sylw cyffredinol yw ac nad oes ganddo unrhyw berthnasedd i bolisi AMG1. Ni fydd ATA yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar leoliad tai yn ardal y Cynllun a fydd yn cael ei arwain gan y polisiau tai perthnasol yn yr CDLI.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				byth. Oni fydd edifar gan y Cyngor i golli adnodd mor werthfawr â hyn?	Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim Newid
880	Mr John Tripp [252]	POLISI AMG1	Cefnogi	Falch o weld 5 ardal gadwraeth yn Ynys Môn.	Nodi. Argymhelliad Dim Newid
892	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Mae'r polisi yn ceisio sicrhau nad yw datblygiad o fewn ATA yn cael effaith andwyol ar y dirwedd. Mae'r prawf a'r gofyn hwn yn rhy feichus ac yn anghymesur â statws yr ATA. Mae hefyd yn ymarferol amhosib cyflawni unrhyw ddatblygiad heb gael rhyw fath o effaith ar y diwedd.	Derbyn yn rhannol – derbynnir bod yr ymadrodd 'na fydd yn cael effaith andwyol' yn rhy drwm. Fodd bynnag, yn hytrach na'r newid a awgrymwyd gan y gwrthwynebydd, dylid diwygio'r geiriad i 'na fydd yn cael effaith andwyol sylweddol' er mwyn i'r geiriad fod yn gyson â gweddill y polisi. Nid polisi 'dal popeth' yw Polisi AMG2 ac mae angen ei ddarllen yng nghyd-destun yr CDLI cyfan. Argymhelliad Diwygio geiriad brawddeg gyntaf polisi AMG i 'dim effaith andwyol sylweddol' Newid â ffocws: NF 83
899	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Mae AMG1 yn caniatáu datblygiad i ddod yn ei flaen ar yr amod bod ei raddfa a'i natur yn addas ac na fydd effaith andwyol	Dim yn derbyn – ni ddylid trin y diwydiant twristiaeth yn wahanol i unrhyw fath o ddatblygiad arall. Nid yw'r polisi hwn yn rhwystro datblygiad priodol o fewn ATA ond yn amlinellu sut bydd y fath

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				<p>ar y dirwedd.</p> <p>Felly, mae Polisi AMG1 yn darparu sail bolisi cadarnhaol i ddatblygiadau addas ddod yn eu blaen yn yr ATA.</p> <p>Hoffai Bourne Leisure bwysleisio nad oes gan bob datblygiad y gallu i effeithio'n negyddol ar dirwedd, golygfeydd cyhoeddus a gofod agored pwysig.</p> <p>Mae Bourne Leisure yn ystyried y dylai AMG1 ddatgan yn glir bod tebygolrwydd uchel y byddai cyfleusterau twristiaeth hefyd wedi'u lleoli mewn ATA oherwydd yr angen iddynt gael eu lleoli ger yr arfordir. Mae cyfleusterau twristiaeth yn newid yn gyson, gydag ailddatblygu a rhesymoli safleoedd yn digwydd pob amser, er mwyn cwrdd ag anghenion marchnad dwristiaeth ddeinamig.</p>	<p>gynigion yn cael eu hystyried yn y cyd-destun cynllunio lleol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun</p> <p>Dim Newid</p>
901	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	<p>Rydym yn cefnogi'r pwyslais newydd ar warchodaeth leol trwy'r ATAu (AMG1) Dylid pwysleisio eu rôl fel cylchfeydd rhagod i warchod gosodiad yr ANHE a dylid eu hatgyfnerthu trwy ehangu ATAu</p>	<p>Dim yn derbyn - Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ystyrir bod diogelu lleoliadau'r AHNE yn cael ei gwmpasu'n ddigonol gan ddeddfwriaeth bresennol ac arweiniad cynllunio cenedlaethol ac nid oes</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				sy'n agos i'r ardaloedd hynny o'r AHNE heb warchodaeth. Dylid egluro bod sgôp a bwriad AMG2 yn wahanol i AMG1. Dylid pwysleisio eu rôl fel cylchfeydd rhagod i warchod gosodiad yr ANHE a dylid eu hatgyfnerthu trwy ehangu ATA'u sy'n agos i'r ardaloedd hynny o'r AHNE heb warchodaeth.	<p>angen eu hailadrodd ar lefel leol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun</p> <p>Dim Newid</p>
904	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Eglurhad ar fanylion y newidiadau arfaethedig i Ardal Tirwedd Arbennig Gorllewin Llŷn o gymharu ag Ardal Gwarchod y Dirwedd Gorllewin Llŷn ger Abersoch a Phwllheli a'r rhesymau am hyn.	<p>Dim yn derbyn - Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Mae copi o'r adroddiad hwn ar wefan y Cyngor er mwyn i'r cyhoedd ei weld.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
905	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Darparu byffer SLA i warchod y rhan ogleddol o AHNE Llŷn, yn cynnwys (er enghraifft) strimyn 2km i ffurfio cefnlen i Yr Eifl a Bryniau Clynnog.	<p>Dim yn derbyn - Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ystyrir bod diogelu lleoliadau'r AHNE yn cael ei gwmpasu'n ddigonol gan ddeddfwriaeth bresennol ac arweiniad cynllunio cenedlaethol ac nid oes angen eu hailadrodd ar lefel leol.</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					<p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
906	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI AMG1	Gwrthwynebu	Dylid ehangu Ardaloedd Tirwedd Arbennig 8 a 9 sy'n amddiffyn glannau deheuol y Fenai i gynnwys yr ardaloedd sydd heb eu gwarchod ar ochr Gwynedd i'r Fenai, rhwng Bae'r Foryd a'r Felinheli, naill ochr i'r safle Treftadaeth y Byd yng Nghaernarfon. Ar wahân i amddiffyn tirwedd leol sy'n werthfawr a bregus ac ailgyflwyno cyn Ardal Gwarchod y Dirwedd, eu prif rôl fyddai darparu byffer i AHNE Ynys Môn ar ochr ogleddol y Fenai.	<p>Dim yn derbyn - Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ystyrir bod diogelu lleoliadau'r AHNE yn cael ei gwmpasu'n ddigonol gan ddeddfwriaeth bresennol ac arweiniad cynllunio cenedlaethol ac nid oes angen eu hailadrodd ar lefel leol..</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun</p> <p>Dim Newid</p>
55	Oaktree Environmental Ltd (John Williams) [2594]	7.5.9	Gwrthwynebu	Ni ddylid fod angen gwarchodaeth arbennig os yw ardaloedd o dir eisoes wedi'u gwarchod gan ddynodiadau tirwedd eraill sy'n cydnabod ansawdd y dirwedd dan sylw. Chwarel weithio yw safle ein cleient sydd mewn ardal a chaiff ei chydabod am werth ei thirlun hanesyddol ac mae wedi'i dynodi yn	<p>Dim yn derbyn - Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ni chyflwynwyd tystiolaeth i wrthwynebu'r rhesymeg y tu cefn i'r dynodiad ATA hwn a chyfiawnhau'r gostyngiad o ran arwynebedd y mae'n ymestyn drosto. Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				<p>hynny o beth. Ni ddylid fod angen rhoi i'r ardal warchodaeth tirwedd ychwanegol pan fo'r cyfryw warchodaeth eisoes yn bodoli.</p> <p>Dylid edrych at leihau'r ardal sydd o fewn ATA 07 er osgoi gorgyffwrdd gyda'r ardaloedd Cofrestr Tirweddau Hanesyddol.</p>	<p>wahanol i fathau eraill o ddatblygiad.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
56	Oaktree Environmental Ltd (John Williams) [2594]	7.5.10	Gwrthwynebu	<p>Lle bo'r dirwedd eisoes yn cael ei gwarchod, bydd eisoes gofyn i gynigion datblygu ystyried cynnal, gwella neu adfer cymeriad ac ansawdd cydnabyddedig yr ardaloedd. O'r herwydd, mae rhoi statws Ardal Tirwedd Arbennig yn rhywbeth diangen nad oes fawr ddim pwrpas iddo o gofio lefel bresennol y warchodaeth a roddir i'r dirwedd.</p>	<p>Dim yn derbyn - Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ni chyflwynwyd tystiolaeth i wrthwynebu'r rhesymeg y tu cefn i'r dynodiad ATA hwn a chyfiawnhau'r gostyngiad o ran arwynebedd y mae'n ymestyn drosto. Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
426	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs	7.5.10	Gwrthwynebu	<p>Rydym yn cefnogi'r polisi yma i ddiogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig. Ond yn ein</p>	<p>Dim yn derbyn - Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
	Ann Coxon) [2940]			barn ni, dylid cynnwys Cwmorthin ymysg y rhain. Mae'r ardal hon yn sicr yn ardal sy'n arbennig o drawiadol a hardd, ac sy'n haeddu cael ei gwarchod yn arbennig.	<p>Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ar Ynys Môn, roedd yr hen Ardal Tirwedd Arbennig yn ymestyn bron dros ardal yr Awdurdod Unedol cyfan. Mae'r ATA newydd yn disodli'r hen ddynodiad a bellach ond yn ymwneud â rhannau penodol o ardal yr Awdurdod Unedol. O ganlyniad, ni ddylid ystyried ATA fel dynodiad newydd ac ni fydd ganddynt oblygiadau mwy i fusnesau a thrigolion lleol na'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd dynodiad ffurfiol yr ATA yn cael ei wneud trwy broses ymgynghori'r CDLI ar y Cyd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
275	Mr Myrddin Roberts [2858]	7.5.11	Gwrthwynebu	Ni chafwyd trafodaethau gyda'r Cynghorau Cymuned a'r tîrfeddianwyr perthnasol yng nghyswllt yr Ardal Tirwedd Arbennig o'r enw Llethrau Coediog Biwmares a Glen Llangoed. Does bosib y dylid fod wedi rhoi gwybod i bawb oedd â diddordeb am y dynodiad newydd hwn a'i oblygiadau ar eu busnesau, eu tir a'u cartrefi. Mae'r newid a'r ychwanegiad pwysig hwn i bolisiau	<p>Dim yn derbyn - Dynodwyd ATA yn dilyn adolygiad manwl o ATA presennol yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn 2012 gan LUC. Ar Ynys Môn, roedd yr hen Ardal Tirwedd Arbennig yn ymestyn bron dros ardal yr Awdurdod Unedol cyfan. Mae'r ATA newydd yn disodli'r hen ddynodiad a bellach ond yn ymwneud â rhannau penodol o ardal yr Awdurdod Unedol. O ganlyniad, ni ddylid ystyried ATA fel dynodiad newydd ac ni fydd ganddynt oblygiadau mwy i fusnesau a thrigolion lleol na'r rhai sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd dynodiad ffurfiol yr ATA yn cael ei wneud trwy</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				cynllunio yn haeddu mwy o fewnbwn gan randdeiliaid. Nid yw'n ddigon datgan mai hwn yw'r amser am sylwadau'r cyhoedd pan nad yw'r wybodaeth fanwl wedi bod ar gael i ni ac na chafwyd y trafodaethau angenrheidiol gydag aelodau o Uned y Cynllun Datblygu ar y Cyd.	<p>broses ymgynghori'r CDLI ar y Cyd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

AMG2 – Gwarchod a Gwella Nodweddion a Rhinweddau Sydd yn Unigryw i Gymeriad y Dirwedd Leol

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
236	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI AMG2	Gwrthwynebu	<p>Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor hir. Awgrymu dyblygu gyda Pholisi AMG1.</p> <p>Dylai'r polisi gael ei ddiwygio i gynnwys y geiriau effaith "hir dymor" sydd yn galluogi echdynnu mwynau gymryd lle dros dro gan gyfeirio at gynigion adfer fod yn "unol â'r" nòd "hir dymor" i ddiogelu ardaloedd tirlun arbennig.</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. Nid yw'r polisi hwn yn gwahardd/cyfyngu'n benodol ar echdynnu mwynau mewn ATA ond mae'n sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud dewisiadau deallus ar geisiadau cynllunio.</p> <p>Cyfeiria Polisi AMG2 at Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ac nid i ATA. Mae Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn ymestyn dros ardal gyfan Ynys Môn a Gwynedd ac fe'u diffinnir yn y Strategaeth Tirwedd ar gyfer pob awdurdod. O ganlyniad, mae'r polisi'n ymwneud â'r dirwedd ehangach na'r rhai sydd wedi'u cynnwys mewn ATA.</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				Awgrymir cyfuno gyda pholisi AMG1.	<p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
237	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI AMG2	Gwrthwynebu	<p>Dylid bod pwyslais cadarnhaol ar safleoedd cloddio mwynau presennol neu estyniadau i'r safleoedd hynny dros safleoedd newydd. Dylid edrych ar effeithiau amgylcheddol dros dro yn wahanol i effeithiau amgylcheddol tymor hir. Awgrymu dyblygu gyda Pholisi AMG1.</p> <p>Dylai'r polisi gael ei ddiwygio i gynnwys y geiriau effaith "hir dymor" sydd yn galluogi echdynnu mwynau gymryd lle dros dro gan gyfeirio at gynigion adfer fod yn "unol â'r" nòd "hir dymor" i ddiogelu ardaloedd tirlun arbennig. Awgrymir cyfuno gyda pholisi AMG1.</p>	<p>Dim yn derbyn - Mae gan y diwydiant echdynnu mwynau'r potensial i gael effaith sylweddol ar y dirwedd ac ni ddylid ei drin yn wahanol i fathau eraill o ddatblygiad. Nid yw'r polisi hwn yn gwahardd/cyfyngu'n benodol ar echdynnu mwynau ond mae'n sicrhau bod digon o wybodaeth ar gael i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud dewisiadau deallus ar geisiadau cynllunio.</p> <p>Cyfeiria Polisi AMG2 at Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ac nid i ATA. Mae Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn ymestyn dros ardal gyfan Ynys Môn a Gwynedd ac fe'u diffinnir yn y Strategaeth Tirwedd ar gyfer pob awdurdod. O ganlyniad, mae'r polisi'n ymwneud â'r dirwedd ehangach na'r rhai sydd wedi'u cynnwys mewn ATA.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
					Dim Newid
330	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	POLISI AMG2	Gwrthwynebu	Mae Ardaloedd Tirwedd Arbennig wedi'u cynnwys yn ddigonol yn AMG1. Er mwyn gwell eglurder dylai AMG2 gael ei aralleirio i warchod y dirwedd ehangach a nodweddion pwysig tirweddau lleol Gwynedd a Môn. Dileu'r cyfeiriad at ATA a sicrhau fod y polisi'n berthnasol i'r dirwedd ehangach.	<p>Dim yn derbyn – Cyfeiria Polisi AMG2 at Ardaloedd Cymeriad Tirwedd ac nid i ATA. Mae Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn ymestyn dros ardal gyfan Ynys Môn a Gwynedd ac fe'u diffinnir yn y Strategaeth Tirwedd ar gyfer pob awdurdod. O ganlyniad, mae'r polisi'n ymwneud â'r dirwedd ehangach na'r rhai sydd wedi'u cynnwys mewn ATA.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
809	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cyngorydd Gruffydd Williams) [3090]	POLISI AMG2	Gwrthwynebu	Mae'n bolisi canmoladwy ond braidd yn gymhleth a chredi y gall fod yn anodd ei weithredu.	<p>Dim yn derbyn – ystyrir bod ystyr y polisi'n ddigon clir a bod modd ei weithredu.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
886	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036]	POLISI AMG2	Cefnogi	Mae polisiâu AMG2, AMG3 ac AMG4 yn cyfeirio at nodweddion a rhinweddau sy'n unigryw i'r amgylchedd lleol, gwarchod yr arfordir a chadwraeth bioamrywiaeth leol. Rydym yn cefnogi'r polisiâu hyn sy'n	<p>Nodi</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim Newid</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				arfordir sy'n cyd-fynd gydag amcanion Cyfeillion Borth y Gest.	
893	Barton Willmore (Mr Mark Roberts) [1645]	POLISI AMG2	Gwrthwynebu	Nid yw'r polisi yn gosod gofyn cymhwyso fod angen i effeithiau fod yn 'sylweddol'. Effaith andwyol yn unig yw'r gofyn. Nid yw hyn yn briodol gan y gellir tybio y gall unrhyw ddatblygiad gael effaith andwyol mewn rhyw ffurf neu'i gilydd ar y dirwedd. Yn ogystal, nid yw'r polisi yn caniatáu ar gyfer cydbwysu buddion economaidd, cymdeithasol nac amgylcheddol prosiect (adfer a dymchwel safle wedi'i halogi ac adeiladau mawr), o gymharu â'r effaith ar y dirwedd yn deillio o ddatblygiad ar raddfa fechan.	<p>Derbyn yn rhannol – derbynnir y dylai 'sylweddol' ddisodli 'andwyol' yn y frawddeg gyntaf a dylid ei gynnwys hefyd cyn 'andwyol' yn ail frawddeg polisi AMG2.</p> <p>Nid polisi 'dal popeth' yw Polisi AMG2 ac mae angen ei ddarllen yng nghyd-destun yr CDLI cyfan gan gynnwys y rhannau hynny sy'n cyfeirio at yr economi a datblygu cynaliadwy.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dylai 'sylweddol' ddisodli 'andwyol' yn y frawddeg gyntaf a dylid ei gynnwys hefyd cyn 'andwyol' yn ail frawddeg polisi AMG2.</p> <p>Newid â ffocws: NF 84</p>
1445	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI AMG2	Gwrthwynebu	Byddwn yn awgrymu bod enw'r polisi yma'n cael ei newid i warchod a gwella nodweddion a rhinweddau sydd yn 'nodedig neu arbennig' i gymeriad y dirwedd yn hytrach na 'unigryw'.	<p>Derbyn – Ystyrir y dylid defnyddio'r gair 'nodedig' yn hytrach nag 'unigryw' yn nheitl AMG2.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dylid defnyddio'r gair 'arbennig' yn hytrach nag 'unigryw' yn nheitl AMG2.</p> <p>Newid â ffocws: NF 84</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
1446	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI AMG2	Gwrthwynebu	Dylid newid maen prawf 3 i ddarllen "cynllun aneddeledd a mathau o ffiniau".	<p>Dim yn derbyn – Nid ystyrir y byddai'r geiriad a awgrymir yn gwella eglurder y maen prawf. At hynny, ymdrinnir â 'mathau o ffin' gan 'nodweddion traddodiadol'.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun</p> <p>Dim Newid</p>
57	Oaktree Environmental Ltd (John Williams) [2594]	7.5.12	Gwrthwynebu	Caiff y safle sy'n cynnwys safle ein cleient ei warchod gan ddynodiad tirwedd hanesyddol yr ystyrir sy'n ddigon i gynnal yr olygfa a'r ymdeimlad o le unigryw. Mae'n eironig y gallai gwarchod nodweddion tirwedd - nodweddion na fyddai wedi bod yno pe na cheid diwydiant cloddio mwynau - gael effaith ar waith datblygu'r chwarel ymhellach. Mae Dyffryn Nantlle'n adnabyddus am ei dreftadaeth chwareli llechi ac mewn ardal lle gallai swyddi o ansawdd da fod yn brin, mae gwaith cloddio a phrosesu llechi'n sail i greu swyddi er mwyn cadw'r bobl leol mewn diwydiant sy'n	<p>Dim yn derbyn – nid yw paragraff 7.5.12 yn cyfeirio at ATA. Nid yw'r gwrthwynebiad hwn yn berthnasol i'r paragraff dan sylw. Gwnaed arsylw tebyg hefyd gan y gwrthwynebydd mewn perthynas â pholisi AMG1.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd unrhyw dystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun</p> <p>Dim Newid</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				nodweddiadol o'r ardal o ran tirwedd a diwylliant.	

AMG3 – Gwarchod yr Arfordir

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
810	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE (Cynghorydd Gruffydd Williams) [3090]	POLISI AMG3	Gwrthwynebu	Dynodiad lleol yw'r Arfordir Treftadaeth sydd yn dilyn ffin arfordirol yr AHNE i raddau helaeth y Llŷn. Credir y dylai'r polisi adlewyrchu'r dynodiad yn fwy cadarnhaol drwy roi mwy o warchodaeth i'r AT.	Dim yn derbyn – ystyrir yr eir i'r afael yn ddigonol â phwysigrwydd yr Arfordir Treftadaeth ym mholisi AMG3 a pharagraff 7.5.17. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim Newid
887	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036]	POLISI AMG3	Cefnogi	Polisiau AMG2, AMG3 ac AMG4 sy'n ymwneud â nodweddion a rhinweddau sy'n unigryw i'r dirwedd leol, i ddiogelu arfordiroedd ac i warchod bioamrywiaeth leol.	Nodi Argymhelliad Dim Newid

AMG4 – Cadwraeth Bioamrywiaeth Leol

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
238	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI AMG4	Gwrthwynebu	<p>Awgrymu bod y polisi'n ailadrodd polisi cenedlaethol, yn anhylaw ac mae angen i'r geiriad fod yn hyblyg gan na roddwyd diffiniad na hierarchaeth o ran safleoedd cloddio mwynau.</p> <p>Awgrymir cyfuno gyda Pholisi AMG5 a newid yr eirfa yn y frawddeg gyntaf i "Dylai cynigion, os yn briodol, gwarchod, a gwella bioamrywiaeth sydd wedi ei adnabod i fod yn bwysig i'r ardal leol".</p>	<p>Derbyn yn rhannol - cytunir y dylid dileu'r cyfeiriad at safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol er osgoi ail adrodd polisi cenedlaethol. Ymdrinnir â materion mwynau mewn manylder penodol rywle arall.</p> <p>Yn wahanol i AMG4, cyfeiria AMG5 yn unig at y safleoedd lleol nad ydynt yn mwynhau diogelwch statudol yn y ffordd y mae SoDdGA ac ACA yn ei wneud. Diffinnir lefel y diogelwch a roddir i'r safleoedd lleol hyn yn yr CDLI ac felly mae'n briodol cael hyn fel polisi ar wahân.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>I ail ddrafftio'r polisi er ei wneud yn fwy eglur, osgoi dyblygu polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu pwysigrwydd a statws safleoedd bioamrywiaeth leol.</p> <p>Newid â ffocws: NF 86</p>
239	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI AMG4	Gwrthwynebu	<p>Awgrymu bod y polisi'n ailadrodd polisi cenedlaethol, yn anhylaw ac mae angen i'r geiriad fod yn hyblyg gan na roddwyd diffiniad na hierarchaeth o ran safleoedd cloddio mwynau.</p> <p>Awgrymir cyfuno gyda Pholisi AMG5 a</p>	<p>Derbyn yn rhannol - cytunir y dylid dileu'r cyfeiriad at safleoedd rhyngwladol a chenedlaethol er osgoi ail adrodd polisi cenedlaethol. Ymdrinnir â materion mwynau mewn manylder penodol rywle arall.</p> <p>Yn wahanol i AMG4, cyfeiria AMG5 yn unig at y safleoedd lleol nad ydynt yn mwynhau diogelwch statudol yn y ffordd y mae SoDdGA ac ACA yn ei</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				newid yr eirfa yn y frawddeg gyntaf i "Dylai cynigion, os yn briodol, gwarchod, a gwella bioamrywiaeth sydd wedi ei adnabod i fod yn bwysig i'r ardal leol".	wneud. Diffinnir lefel y diogelwch a roddir i'r safleoedd lleol hyn yn yr CDLI ac felly mae'n briodol cael hyn fel polisi ar wahân. Argymhelliad I ail ddrafftio'r polisi er ei wneud yn fwy eglur, osgoi dyblygu polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu pwysigrwydd a statws safleoedd bioamrywiaeth leol. Newid â ffocws: NF 86
333	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	POLISI AMG4	Cefnogi	Rydym yn croesawu'r warchodaeth a roddir i fioamrywiaeth trwy'r polisi hwn.	Nodi Argymhelliad Dim Newid
462	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI AMG4	Gwrthwynebu	Newid pwynt 1 i ddatgan mai dim ond safleoedd amgen sydd â pherthynas rhesymol i safle'r cais sydd angen eu hystyried i fodloni'r polisi yma. Dylid newid pwynt 2 i gydnabod bod rhai safleoedd eisoes o fewn ardaloedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth ryngwladol, genedlaethol a lleol. Dylid caniatáu rhagor o ddatblygu yn y lleoliadau yma cyn belled a bod bioamrywiaeth yn cael ei	Derbyn yn rhannol - ystyrir bod y geiriad Maen Prawf 1 yn ddigonol i gwmpasu pryderon y gwrthwynebydd mewn perthynas â'r angen i fod yn 'gysylltiedig yn rhesymol' â safle'r cais. Serch hynny, dylid ychwanegu'r gair 'addas' ar ôl "safle amgen arall" yn y fersiwn Cymraeg diwygiedig o'r polisi er mwyn sicrhau cysondeb gyda'r fersiwn Saesneg y polisi. Mewn perthynas â Maen Prawf 2, derbynnir sylwadau'r gwrthwynebydd a diwygiwyd y geiriad trwy roi'r geiriau "ardrawiad niweidiol sylweddol" i

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				warchod a'i wella.	<p>mewn ar ôl "osgoi" yn y polisi diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>I ail ddrafftio'r polisi er ei wneud yn fwy eglur, osgoi dyblygu polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu pwysigrwydd a statws safleoedd bioamrywiaeth leol.</p> <p>Newid â ffocws: NF 86</p>
888	Ffrindiau Borth-y-Gest(Tom Brooks) [3036]	POLISI AMG4	Cefnogi	<p>Polisiau AMG2, AMG3 ac AMG4 sy'n ymwneud â nodweddion a rhinweddau sy'n unigryw i'r dirwedd leol, i ddiogelu arfordiroedd ac i warchod bioamrywiaeth leol.</p> <p>Rydym yn cefnogi'r polisiau hyn sy'n unol ag amcanion Cyfeillion Borth-y-Gest.</p>	<p>Nodi</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim Newid</p>
897	Bourne Leisure Ltd [2768]	POLISI AMG4	Gwrthwynebu	<p>Nid yw AMG4 yn darparu sail bositif i ddatblygiadau addas ddod yn eu blaen a gall rwystro datblygiadau addas.</p> <p>Dylid diwygio Pwynt 1 i ddatgan mai dim ond safleoedd amgen sy'n rhesymol berthnasol i safle'r cais a ddylid eu hystyried i fodloni'r polisi hwn. Mae</p>	<p>Derbyn yn rhannol - ystyrir bod y geiriad Maen Prawf 1 yn ddigonol i gwmpasu pryderon y gwrthwynebydd mewn perthynas â'r angen i fod yn 'gysylltiedig yn rhesymol' â safle'r cais. Serch hynny, dylid ychwanegu'r gair 'addas' ar ôl "safle amgen arall" yn y fersiwn Cymraeg diwygiedig o'r polisi er mwyn sicrhau cysondeb gyda'r fersiwn Saesneg y polisi.</p> <p>Mewn perthynas â Maen Prawf 2, derbyniwyd</p>

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
				<p>Bourne Leisure yn credu ei bod yn anaddas asesu safleoedd amgen nad ydynt yn rhesymol berthnasol i'r safle presennol.</p> <p>Dylid diwygio Pwynt 2 i gydnabod bod rhai datblygiadau eisoes yn bodoli o fewn ardaloedd o bwysigrwydd bioamrywiaeth ryngwladol, genedlaethol a lleol. Dylid caniatáu datblygu ymhellach yn y lleoliadau hyn ar yr amod fod bioamrywiaeth yn cael ei diogelu a'i gwella.</p> <p>Creda Bourne Leisure ei bod yn bwysig i Ynys Môn a Gwynedd ddefnyddio dull cytbwys a phragmatig o ran cynigion datblygu sydd â'r gallu i amharu ar fioamrywiaeth.</p> <p>Mae Bourne Leisure yn nodi fod gan ddatblygiadau penodol hefyd y potensial i gynhyrchu cynnydd net mewn gwerth bioamrywiaeth trwy greu cynefinoedd.</p>	<p>sylwadau'r gwrthwynebydd a diwygiwyd y geiriad trwy roi'r geiriau "effeithiau niweidiol sylweddol" i mewn ar ôl "osgoi" yn y polisi diwygiedig.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>I ail ddrafftio'r polisi er ei wneud yn fwy eglur, osgoi dyblygu polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu pwysigrwydd a statws safleoedd bioamrywiaeth leol.</p> <p>Newid â ffocws: NF 86</p>
1073	Llywodraeth	POLISI AMG4	Gwrthwynebu	Angen ailddrafftio pellach. Mae'r polisi	Derbyn - ystyrir y dylid ailddrafftio'r polisi. Ni fydd yr ail-eirio arfaethedig yn effeithio ar gadernid y

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
	Cymru (Mr Mark Newey) [1561]			drafft ar hyn o bryd yn ymddangos yn rhy feichus ar gyfer ystyried cynigion datblygu ar dir dynodedig lle mae materion cadwraeth natur leol anstatudol.	Cynllun. Argymhelliad I ail ddrafftio'r polisi er ei wneud yn fwy eglur, osgoi dyblygu polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu pwysigrwydd a statws safleoedd bioamrywiaeth leol. Newid â ffocws: NF 86
1440	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynhoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI AMG4	Gwrthwynebu	Nid ydym wedi ystyried effeithiau posib ar bob budd lleol neu ranbarthol. Felly, ni ddylid anwybyddu'r posibilrwydd o effeithiau andwyol ar y rhain, a fyddai'n berthnasol i ddyletswydd gyffredinol sydd gan yr Awdurdod i roi ystyriaeth i warchod bioamrywiaeth fel y gwelir yn Neddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (2006). Mae'r cyngor yma'n cynnwys ystyriaeth i ddarpariaeth arfaethedig o gynefinoedd llinellol a cherrig sarn a ddiffinnir yn Rhan 10 o'r Cyfarwyddyd Cynefinoedd.	Derbyn yn rhannol - er yn derbyn y sylwadau, ystyrir bod y materion a nodir gan y gwrthwynebydd eisoes wedi eu cynnwys ym mholisi AMG4. Hefyd, ystyrir y dylai ailddrafftio'r geiriad ym mholisi AMG4 - fel y bwriedir - fod o gymorth i wella eglurder y polisi hwn. Argymhelliad I ail ddrafftio'r polisi er ei wneud yn fwy eglur, osgoi dyblygu polisi cenedlaethol ac i adlewyrchu pwysigrwydd a statws safleoedd bioamrywiaeth leol. Newid â ffocws: NF 86
1675	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural	POLISI AMG4	Gwrthwynebu	O ran Polisi PS16 ac AMG4 mae ANC'n cwestiynu a oes angen y ddau bolisi ac a	Dim yn ei dderbyn - mae PS16 yn cyfeirio at yr amgylchedd naturiol ac yn weithredol ar raddfa ehangach gan ei fod yn fwy troswaol - fel y dengys

Cyf Sylw	Enw	Adran	Math	Crynodeb o Addasiad(au) neu Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion y Swyddog
Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					<p>hydrocarbonau a hydrocarbonau anghonfensiynol o dan fframwaith y polisi ar gyfer cynigion posibl am echdynnu methan o wely glo a/neu nwy siâl yn ardal y cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
619	Mineral Products Association (Mr Malcolm Ratcliff) [1647]	POLISI STRATEGOL PS19	Gwrthwynebu	<p>POLISI STRATEGOL PS19 - MWYNAU mae'n bosib y gall y polisi hwn gymysgu amcanion cynllunio mwynau sydd ar wahân, wrth eu rhoi o dan y teitl cyffredinol 'cyflenwi' ac felly nid yw'n gadarn.</p> <p>Rydym yn cynnig y dylid ailstrwythuro'r polisi fel a ganlyn, Bydd y Cynghorau yn cyfrannu tuag at alw rhanbarthol a lleol am gyflenwad mwynau parhaus, diogel a chynaliadwy drwy:</p>	<p>Derbyn yn rhannol - Ni ystyrir fod y cyfeiriad at 'gyflenwi' yn golygu nad yw'r polisi'n gadarn nac yn glir ac nid yw'n eithrio datblygu mwynau ar gyfer echdynnu cerrig wedi'u trin neu fwynau diwydiannol. Serch hynny, mae'n ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Cynllunio Mwynau, drwy RAWPS, ac yn unol â Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru a darpariaethau Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru i gynnal banc tir o agregau wrth gefn, a dyma pam y mae wedi'i gynnwys fel maen prawf yn y polisi.</p> <p>Mae'r polisi'n cyfeirio'n benodol at 'gyflenwad mwynau cynaliadwy' yn hytrach nag agregau.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				<p>1. Cynnal banc tir o Dywod a Graean am o leiaf 7 mlynedd a banc tir wrth gefn o agregau cerrig mâl am o leiaf 10 mlynedd drwy gydol cyfnod y cynllun yn unol ag arweiniad cenedlaethol.</p> <p>2. Creu darpariaeth ar gyfer cynhyrchu cerrig wedi'u trin.</p> <p>3. Creu darpariaeth ar gyfer cynhyrchu mwynau diwydiannol.</p> <p>4. Uchafu'r defnydd o ddeunyddiau eilaidd, deunyddiau wedi'u hailgylchu, a gwastraff mwynau y darperir amdanynt mewn dyraniadau tir</p> <p>5. Cydnabod, pan fo modd cyflawni egwyddorion datblygu cynaliadwy, fod ymestyn chwareli a/neu chwareli newydd yn debygol o fod yn briodol.</p> <p>6. Ble mae angen cyflenwad newydd o fwynau, dylai'r rhain ddod o leoliadau lle nad oes llawer o gyfyngiadau amgylcheddol a ble yr ystyrir yr oblygiadau i gludiant.</p> <p>7. Lleihau'r gwrthdaro posib rhwng defnyddiau tir sy'n gysylltiedig â mwynau a defnyddiau tir nad ydynt yn gysylltiedig</p>	<p>Mae'r testun ategol yn ei gwneud yn glir fod cerrig adeiladu a mwynau diwydiannol yn bwysig hefyd. Felly nid oes angen cynnwys '<i>creu darpariaethau ar gyfer cynhyrchu cerrig wedi'u trin/mwynau diwydiannol</i>' fel categori ar wahân.</p> <p>Ystyrir fod Polisi Strategol PS19 yn adlewyrchu gofynion paragraff 10 Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, o dan y pennawd 'Amcanion / egwyddorion canolog datblygu mwynau cynaliadwy', lle mae'r prif egwyddorion canlynol yn cael eu rhestru, ymhlith rhai eraill;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu adnoddau mwynau i fodloni anghenion cymdeithas a gwarchod adnoddau rhag cael eu sterileiddio, • Sicrhau adfer o safon uchel ac ôl-ddefnydd buddiol. <p>Argymhelliad</p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder fe gynigir diwygio'r polisi ychydig.</p> <p>Newid â ffocws: NF92</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				<p>â mwynau.</p> <p>Bydd y Cynghorau'n diogelu adnoddau mwynau adnabyddedig / posibl rhag datblygu parhaol fyddai'n eu sterileiddio neu'n oedi echdyniad, ac yn diogelu cyfleusterau morwrol, glanfeydd a safleoedd terfynu rheilffordd er mwyn annog cludiant cynaliadwy o agregau. Bydd y Cynghorau'n sicrhau yr adferir y tir a gwaith ôl-ofal da.</p> <p>Adolygir pob safle mwynau sy'n segur neu'n anweithredol ers cyfnod hir a nodir ar y Mapiau Cynigion er mwyn asesu eu cyfraniad posib i'r banc tir a'r tebygolrwydd o'u hailagor. Bydd Gorchmynion Gwahardd yn cael eu cyflwyno ble bo hynny'n briodol.</p>	
659	Tŷ Mawr West Ltd (John Hill) [3062]	POLISI STRATEGOL PS19	Gwrthwynebu	<p>PS18 Mwynau - Gwastraff Llechi</p> <p>Nid yw'r crynodeb yn ymwneud â'r cysylltiad rheilffordd ym Mlaenau Ffestiniog yn adlewyrchu holl ffeithiau'r mater. Oes, mae yna gysylltiad teithiwr</p>	<p>Ddim yn derbyn: Mae cludo agregau ar reilffordd yn adlewyrchu egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn ddewis amgen ymarferol i gludo ar ffyrdd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				rheilffordd ond nid yw'r isadeiledd rheilffordd ei hun yn addas ar gyfer trosglwyddo cerbydau nwyddau trwm fyddai angen gwaith adfer fyddai'n arwain at wariant mawr.	cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid

MWYN1 – Diogelu Adnoddau Mwynau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
248	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI MWYN1	Gwrthwynebu	Caiff y polisi ei gefnogi er mwyn sicrhau cyflenwad cyson a pharhaus o agregau. Er mwyn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru, dylai'r Cyngor gynnal banc tir o dywod a graean am O LEIAF saith mlynedd bob amser. Caiff y polisi ei gefnogi er mwyn sicrhau cyflenwad cyson a pharhaus o agregau. Er mwyn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru, dylai'r Cyngor gynnal banc tir o gerrig mâl am O LEIAF ddeg mlynedd bob amser. Yn amlwg, byddai'n fuddiol pe baent yn dod o chwareli presennol.	Ddim yn derbyn - Mae Polisi Mwyn 1 yn adlewyrchu gofynion Polisi Cynllunio Mwynau Llywodraeth Cymru a'r canllawiau perthnasol yn MTAN 1: Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau (Adolygiad Cyntaf 2014). Mae digon o sylw'n cael ei roi i fanciau tir ym Mholisi PS19. Argymhelliad Dim newid

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				Ystyrir dylai'r Cyngor gynnal banc tir o dywod a graean am O LEIAF saith mlynedd bob amser a chael rhagdybiaeth bositif tuag at echdynnu mwynau yn arbennig mewn safleoedd presennol.	
249	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI MWYN1	Gwrthwynebu	<p>Caiff y polisi ei gefnogi er mwyn sicrhau cyflenwad cyson a pharhaus o agregau.. Er mwyn cydymffurfio â Pholisi Cynllunio Mwynau Cymru, dylai'r Cyngor gynnal banc tir o gerrig mâl am O LEIAF ddeg mlynedd bob amser. Yn amlwg, byddai'n fuddiol pe baent yn dod o chwareli presennol.</p> <p>Ystyrir dylai'r Cyngor gynnal banc tir o gerrig mâl am O LEIAF ddeg mlynedd bob amser a chael rhagdybiaeth bositif tuag at echdynnu mwynau yn arbennig mewn safleoedd presennol.</p>	<p>Ddim yn derbyn - Mae Polisi Mwyn 1 yn adlewyrchu gofynion Polisi Cynllunio Mwynau Llywodraeth Cymru a'r canllawiau perthnasol yn TAN 1: Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau (Adolygiad Cyntaf 2014).</p> <p>Mae digon o sylw'n cael ei roi i fanciau tir ym Mholisi PS19.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
600	The Coal Authority (Mr James Smith)	POLISI	Gwrthwynebu	Mae'r Awdurdod Glo yn ystyried nad oes tystiolaeth ddigonol wedi'i darparu i	Ddim yn derbyn - Er gwaethaf y wybodaeth hanesyddol a'r wybodaeth geodechnegol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	[2998]	MWYN1		<p>gyfiawnhau hepgor yr Ardal Diogelu Mwynau sy'n cynnwys maes glo Caernarfon, nad yw'n ymddangos ei fod wedi'i leoli mewn ardal sy'n cael ei gynnwys mewn unrhyw ddynodiad Rhyngwladol na Chenedlaethol.</p> <p>Awgrymwn y newid a ganlyn: Dylid ychwanegu Ardal Diogelu Mwynau sy'n cynnwys maes glo Caernarfon ar y Map Cynigion.</p>	<p>ddiweddar, nid ydym yn gwybod llawer am yr adnodd glo, dim ond, yn ôl pob golwg, ei fod yn cael ei orchuddio gan haen sylweddol o wenithfaen caled iawn tua'r gogledd, sy'n gyson â'r wybodaeth sydd ar gael yng nghyhoeddiad ADP, 2010, 'Map o Adnoddau Mwynol Cymru'. Mae'n ymddangos fod yr holl adnoddau glo yn gorwedd o dan <i>'greigiau igneaid erail, gan gynnwys basalt, ffelsit, gabro, twff a gwenithfaen'</i>, ac mae'r ddaearreg orchuddiol yn cyfyngu ar echdynnu unrhyw lo, felly isel iawn yw'r posibilrwydd o fanteisio ar hyn yn fasnachol. At ei gilydd, ni ystyrir y dylid diogelu adnoddau glo gogledd-ddwyrain Caernarfon ar fapiau cynigion na chyfyngiadau'r CDU.</p> <p>Cyflwynwyd ymholiad i Adran Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru ynghylch unrhyw arolygon geo dechnegol a baratowyd ymlaen llaw ar gyfer y ffordd osgoi arfaethedig yn y Bontnewydd. Mewn ymateb, cadarnhawyd bod cyfres o dyllau turio wedi cael eu drilio yn yr ardal sy'n agos at yr adnoddau glo, lle mae llinell y ffordd sy'n cael ei gwarchod yn croestorri, ond wrth baratoi'r ymateb hwn, nid yw'r cofnodion ar gyfer y tyllau turio wedi'u cyhoeddi.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					<p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
620	Mineral Products Association (Mr Malcolm Ratcliff) [1647]	POLISI MWYN1	Gwrthwynebu	<p>Nid oedd modd dod o hyd i unrhyw gyfeiriad at yr Ardaloedd Diogelu Mwynau, ar y Map Cynigion nac yn Allwedd y map. Ystyried fod y meini prawf arfaethedig ar gyfer asesu datblygiadau nad ydynt yn gysylltiedig â mwynau yn aneglur. Diffyg y polisi yw nad yw'n manylu ar adroddiad mwynau ddylai ddarparu gwybodaeth ar faint ac ansawdd y mwyn sydd o bosib wedi'i sterileiddio; nid yw'n gwahaniaethu rhwng ffurfiau datblygu parhaol sy'n peri risg gwirioneddol i sterileiddio mwynau a'r ffurfiau sy'n ymdebygu mwy i geisiadau llai, nad ydynt yn peri'r risg hwn; nid yw ychwaith yn gofyn am gyflwyno datganiad o'r angen perthnasol rhwng y mwyn a'r datblygiad arfaethedig</p>	<p>Derbyn yn rhannol - Mae'r Ardaloedd Diogelu Mwynau wedi'u cynnwys ar y map cyfyngiadau mewn gwirionedd, felly dylid diwygio geiriad y polisi yn unol â hynny i gyfeirio at y map '<i>cyfyngiadau</i>' yn hytrach na'r map '<i>cynigion</i>'.</p> <p>O ran sut dylid rheoli datblygiadau mewn Ardaloedd Diogelu Mwynau, mae'r rhan fwyaf o adnoddau mwynol y tu allan i ardaloedd trefol a dynodiadau posibl yn y CDU, felly nid oes llawer o gyfle o gwbl ar gyfer datblygiadau sy'n gwrthdaro â'i gilydd mewn ardaloedd o'r fath.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder, dylai geiriad y polisi gyfeirio at y 'Map Cyfyngiadau' yn hytrach na'r 'Map Cynigion'.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				<p>i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau i benderfynu ar y cydbwysedd cynllunio.</p> <p>Wedi darparu polisi manwl yn ei le (gweler atodiad)</p>	Newid Bychan: NB20

MWYN2 – Cyflenwad Cynaliadwy O Adnoddau Mwynol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
250	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI MWYN2	Gwrthwynebu	<p>Dylid bod rhagdybiaeth polisi cadarnhaol o blaid mynd ar drywydd estyniadau i safleoedd presennol a newydd.</p> <p>Dylid y polisi annog ymestyniadau o flaen safleoedd newydd.</p>	<p>Ddim yn derbyn - Ystyrir fod Polisi PS19 a Mwyn 1 yn rhoi digon o sylw i'r mater.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
251	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI MWYN2	Gwrthwynebu	<p>Dylid bod rhagdybiaeth polisi cadarnhaol o blaid mynd ar drywydd estyniadau i safleoedd presennol.</p>	<p>Ddim yn derbyn - Ystyrir fod Polisi PS19 a Mwyn 1 yn rhoi digon o sylw i'r mater.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				Dylai'r polisi annog i safleoedd ddod ymlaen gydag estyniadau i safleoedd presennol yn cael eu ffafrio dros safleoedd newydd.	Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
621	Mineral Products Association (Mr Malcolm Ratcliff) [1647]	POLISI MWYN2	Gwrthwynebu	Yn sgil y ffaith y nodir maint y banc tir i gael ei sicrhau trwy bolisi mewn digon o fanylder ym mholisi PS19, gofynnwn a oes angen y polisi hwn, ac a yw'n ddyblygiad? Mae'r polisi felly'n groes i brawf cadernid CE1. Awgrymwn y dylid ei ddileu.	Derbyn – Cytunir mai dyblygiad o bolisi strategol PS19 yw Polisi MWYN2 ac y dylid ei ddileu. Argymhelliad Er mwyn osgoi ailadrodd diangen, bydd Polisi MWYN2 yn cael ei ddileu a bydd y paragraff eglurhad yn cael ei gynnwys yn y cyflwyniad i'r adran ar Fwynau yn y cynllun (ar ôl para 7.5.61). Newid Bychan: NB19, NF93
321	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	7.5.66	Gwrthwynebu	Mae angen mynegi'r gofyn am fanc tir fel o leiaf saith mlynedd ar gyfer tywod a gro ac o leiaf ddeg mlynedd ar gyfer cerrig mâl bob amser trwy'r cynllun drwyddi draw ac ar ddiwedd y cynllun. Deellir na fyddid yn caniatáu unrhyw ddeunydd ychwanegol wrth gefn yn ychwanegol i'r banciau tir sylfaenol.	Ddim yn derbyn - Mae'r paragraff eglurhad yn adlewyrchu gofynion Polisi Cynllunio Mwynau Llywodraeth Cymru a'r canllawiau perthnasol yn MTAN 1: Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau (Adolygiad Cyntaf 2014). Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
378	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	7.5.66	Gwrthwynebu	Mae angen mynegi'r gofyn am fanc tir fel o leiaf saith mlynedd ar gyfer tywod a gro ac o leiaf ddeg mlynedd ar gyfer cerrig mâl, a hynny bob amser trwy gydol y cynllun ac ar ddiwedd y cynllun. Cesglir na fyddai deunydd ychwanegol wrth gefn sy'n ychwanegol at y banciau tir sylfaenol yn cael caniatâd. Dylid diwygio'r testun paragraff i ddangos y banc tir fel lleiafswm o 7 mlynedd ar gyfer tywod a graean a lleiafswm o 10 mlynedd ar gyfer cerrig mâl bob tro.	Ddim yn derbyn - Mae'r paragraff eglurhad yn adlewyrchu gofynion Polisi Cynllunio Mwynau Llywodraeth Cymru a'r canllawiau perthnasol yn MTAN 1: Agregau a'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar Agregau (Adolygiad Cyntaf 2014). Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid

MWYN3 – Ardaloedd Chwilio a Ffafir

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
252	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI MWYN3	Gwrthwynebu	Mae'r ardal chwilio a ffafir, sef Bodychain, Llanllyfni wedi'i nodi yn y polisi ysgrifenedig ond nid ar y map	Derbyn – Mae camgymeriad ar y map, ac mae'n rhaid ei gywiro. Mae'n rhaid dangos yr Ardaloedd a Ffafir ar y map cyfyngiadau.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				cynigion. Dylid ei dangos ar y map cynigion. Mae posibilrwydd masnachol sylweddol i'r adnodd a gellid rhesymol ddisgwyl cynllunio. O'r herwydd, dylai fod yn Ardal a Ffafrir i'w gweithio fel estyniad i Gefn Graiainog. Byddai hyn, o bosib, yn goresgyn y diffyg sylweddol. Byddai'r union ardal weithio'n elwa ar Aseiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd. Caiff y bloc adnoddau yn Llanllyfni a Chae Efa Lwyd, Penygroes ei gefnogi fel Ardal Chwilio.	<p>Argymhelliad</p> <p>Er mwyn sicrhau cywirdeb, bydd yn rhaid dangos Fferm Bodychain, Llanllyfni, Derwyn Fawr, Garndolbenmaen a Llecheiddior Uchaf, Garndolbenmaen ar y map cyfyngiadau, fel Ardaloedd a Ffafrir.</p> <p>Newid â ffocws: NF135</p>
348	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	POLISI MWYN3	Gwrthwynebu	Mae'r ardal chwilio a ffafrir i'r gogledd a gogledd-orllewin o chwarel Rhuddlan Bach yn cynnwys tir yn ein perchenogaeth. Rydym yn gwrthwynebu ei gynnwys yn yr Ardal Chwilio ac yn nodi ein bod yn rheoli'r tir ar hyn o bryd fel rhan o gylch rhagod safle Cors Goch gerllaw, sef Ardal Gadwraeth Arbennig/Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig/Gwarchodaeth Natur Genedlaethol. Ni fyddem, dan unrhyw amgylchiadau, yn caniatáu	<p>Ddim yn Derbyn - Mae'r warchodaeth tir yn adnabod yr adnodd mwynau, nid yw'n golygu y bydd y safle o reidrwydd yn cael ei weithio.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				chwarela ar ein tir.	
622	Mineral Products Association (Mr Malcolm Ratcliff) [1647]	POLISI MWYN3	Gwrthwynebu	<p>Mae'r polisi'n ddiffygiol wrth ddrysu terminoleg a gynhwysir mewn polisi cenedlaethol. Nid yw'r gwrthwynebiad yn cyfeirio at y safleoedd a restrwyd, yn hytrach, mae'n ymwneud â'r modd y cyfeirir atynt. Mae'r polisi'n defnyddio'r term 'ardaloedd chwilio dethol'. Mae hyn yn drysu rhwng dau fath gwahanol ac unigryw o ddarpariaeth mwynau mewn Cynlluniau Lleol, sy'n bwysig i'w cynnal.</p> <p>Awgrymwn y newidiadau hyn: Ar hyn o bryd, awgrymwn wneud i ffwrdd â'r gair 'dethol' o ardaloedd chwilio er mwyn bod yn debycach i bolisi cenedlaethol. Fodd bynnag, er ein bod yn gofyn am eglurhad pellach am y strategaeth safleoedd mwynau, nid ydym yn medru gwneud unrhyw awgrymiadau ar gyfer newid ar hyn o bryd.</p>	<p>Derbyn – Mae'r derminoleg sy'n cael ei defnyddio ar hyn o bryd yn ddryslyd, oherwydd mae'n ymddangos fod y polisi'n cyfuno dau fath cwbl wahanol o ddarpariaeth mwynau fel 'Ardaloedd Chwilio a Ffafrir'.</p> <p>Dylid adolygu'r 'ardaloedd chwilio a ffafrir' yn unol â'r wybodaeth orau sydd ar gael a'r meini prawf canlynol:</p> <p>Ardaloedd a Ffafrir (<i>"ardaloedd lle gwyddys bod adnoddau ag iddynt rywffaint o botensial masnachol, a lle byddai'n rhesymol disgwyl i ganiatâd cynllunio gael ei roi"</i>), y dylid annog gweithredwyr i gyflwyno cynigion manylach yno.</p> <p>Ardaloedd Chwilio (<i>"...ardaloedd bras y credir bod ynddynt adnoddau mwynau o bwys masnachol ond nad oes sicrwydd ynghylch union faint o'r adnoddau hynny sydd i'w cael yno ..."</i>).</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Er mwyn sicrhau cywirdeb ac er mwyn dangos bod polisïau a chanllawiau cenedlaethol yn cael eu</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					<p>hystyried yn briodol, bydd y term 'Ardaloedd Chwilio a Ffafrir' yn cael ei ddiwygio i ddarllen 'Ardaloedd a Ffafrir'.</p> <p>Newid Bychan: NB21</p>
1812	Gwasanaeth Cynllunio Mwynau & Gwastraff Gogledd Cymru (Dafydd Gareth Jones) [2578]	POLISI MWYN3	Gwrthwynebu	<p>Nid yw'r ardaloedd diogelu mwynau (Polisi Mwyn1) yn ymddangos ar y map rhan gweithion ar wefan Cyngor Gwynedd na chwaith y cyfan o'r ardaloedd chwilio a ffafrir tywod a graean ym mholisi Mwyn 3.</p> <p>Anghysondeb gyda'r ardaloedd chwilio a ffafrir sydd wedi'u hadnabod ar gyfer tywod a graean ym Mholisi Mwyn 3 a Map Cynigion 1.</p> <p>Angen diweddarau'r cyrchfeydd rhagod safleoedd mwynau sydd wedi'u hadnabod ar Fap Cynigion 1.</p> <p>Nodiant ar gyfer rhai o'r cyfyngiadau sydd wedi mapio yn anodd dehongli, e.e. diogelu tywod a graean lle mae'r ardal yn croesi gyda dynodiadau eraill megis</p>	<p>Derbyn – Mae camgymeriad ar y map, ac mae'n rhaid ei gywiro. Mae'n rhaid dangos yr Ardaloedd a Ffafrir ar y map cynigion.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Er mwyn sicrhau cywirdeb, bydd yn rhaid dangos Fferm Bodychain, Llanllyfni, Derwyn Fawr, Garndolbenmaen a Llecheiddior Uchaf, Garndolbenmaen ar y map cynigion, fel Ardaloedd a Ffafrir.</p> <p>Ymhellach er mwyn eglurder fe ddylid cynnwys safle Nant Gwrtheyrn a Nanhoron fel safle gweithio mwynau ar y mapiau cynigion.</p> <p>Newid â ffocws: NF135, NF136</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				<p>'ardaloedd tirwedd arbennig'.</p> <p>Newidiadau</p> <p>Angen cynnwys yr holl ardaloedd chwilio a ffafir sydd wedi'u hadnabod ar gyfer tywod a graen ym Mholisi Mwyn 3 ar Fap Cynigion1, h.y. Sicrhau fod yr ardaloedd canlynol yn cael eu marcio ar y map cynigion yn ogystal i'r rhai sydd wedi'u cynnwys eisoes sef;</p> <ul style="list-style-type: none"> * Fferm Bodychain, Llanllyfni, * Derwyn Fawr, Garndolbenmaen, * Llecheiddior Uchaf, Garndolbenmaen. <p>Diweddaru'r cyrchfeydd rhagod safleoedd mwynau sydd wedi'u hadnabod ar fap Cynigion 1 i gynnwys Chwarel Nanhoron a dyddodion gweithio mwynau Nant Gwrtheyrn. Mae angen adolygu'r sefyllfa i gynnwys cronfeydd wrth gefn Newydd o fwynau (os caniateir) ond hefyd yr ymarferoldeb o gynnwys safleoedd bychan, fel Nant Gwrtheyrn a chyflwyniad Gorchmynion Gwahardd ailgychwyn cloddio ar unrhyw safle mwynau 'cwsgr', e.e. Chwarel</p>	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				Dorothea. Mae angen cynnwys yr ardaloedd diogelu mwynau (polisi Mwyn1) ar y map rhyngweithiol sy'n ymddangos ar wefan Cyngor Gwynedd a hefyd y cyfan o'r ardaloedd chwilio a ffafir tywod a graean ym mholisi Mwyn 3.	
314	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	7.5.67	Gwrthwynebu	Mae tebygolrwydd rhesymol y bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn methu cael banc tir o leiaf ddeg mlynedd ar gyfer cerrig mâl yng Ngwynedd. Mae'r deg mlynedd o ddirwasgiad y cyfrifwyd y galw yn ei erbyn yn debygol o fod yn dan amcan. Nid yw'n adlewyrchu'r prosiectau seilwaith mawr a nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol. Mae cyfrifiad y banc tir yn wallus gan iddo gyfuno llechi ag agregau crai. Mae llechi'n cyfrif am rhwng 11.7% a 14.8% o ddefnydd a wneir o agregau. Mae gan y banc tir sydd wedi'i gyfrifo cyfraniad uwch ac anghymesur o lechi. Ni ystyriwyd yn gywir y cyfyngiadau ar ddefnyddio llechi fel y tanlinellir yn y	Ddim yn derbyn - Mae agregau o safon uchel yn cael eu diogelu ar y map cynigion. Mae'r polisi'n adlewyrchu dosbarthiad rhanbarthol fel yr argymhellir yn y DTRh. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				Datganiad Technegol Rhanbarthol. Mae gofyn cydnabod Agregau o bwys strategol ag iddynt fanyleb uchel. Darparir polisiau amnewid (gweler atodiad)	
372	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	7.5.68	Gwrthwynebu	Efallai na cheid digon o wybodaeth i gefnogi dyraniadau ar gyfer Safleoedd Penodol. Er hynny, ceir digon o wybodaeth ar Fodychain, Llanllyfni iddi gael ei hyrwyddo'n Ardal a Ffafir.	Derbyn – Mae camgymeriad ar y map, ac mae'n rhaid ei gywiro. Mae'n rhaid dangos yr Ardaloedd a Ffafir ar y map cynigion. Argymhelliad Er mwyn sicrhau cywirdeb, bydd yn rhaid dangos Fferm Bodychain, Llanllyfni, Derwyn Fawr, Garndolbenmaen a Llecheiddior Uchaf, Garndolbenmaen ar y map cynigion, fel Ardaloedd a Ffafir. Newid â ffocws: NF135

MWYN4 – Datblygiadau Mwynau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
254	Ellesmere Sand &	POLISI	Gwrthwynebu	Mae'r polisi'n rhy gyfarwyddol yn	Derbyn yn rhannol – Mae'r polisi'n adlewyrchu'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	Gravel Company Limited [2686]	MWYN4		hytrach na bod yn gefnogol o dynnu mwynau e.e. ddim pob ased tirwedd, bioamrywiaeth ac asedau eraill sydd â'r un gwerth. Mae'n gwarchod yr holl asedau yn yr un modd. Nid oes ystyriaeth yn y polisi i fanteision i'r economi a'r gyflogaeth leol nac i'r amgylchedd adferedig o gloddio am fwynau.	<p>asesiadau presennol sy'n seiliedig ar feini prawf, sy'n cael eu hystyried gyda'r holl ddatblygiadau mwynau.</p> <p>Serch hynny, derbynnir y gallai'r polisi gyfeirio at fanteision economaidd ac amgylcheddol a allai ddeillio o weithfeydd mwynau.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder cynigir cynnwys cyfeiriad at y manteision economaidd ac amgylcheddol sy'n deillio o weithfeydd mwynau yn yr eglurhad i'r polisi.</p> <p>Newid â ffocws: NF95</p>
255	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI MWYN4	Gwrthwynebu	Mae'r polisi'n rhy gyfarwyddol yn hytrach na bod yn gefnogol o dynnu mwynau e.e. nid pob tirwedd, bioamrywiaeth ac asedau eraill sydd â'r un gwerth. Mae'n gwarchod yr holl asedau yn yr un modd. Nid oes ystyriaeth yn y polisi i fanteision i'r economi a'r gyflogaeth leol nac i'r amgylchedd adferedig o gloddio am	<p>Derbyn yn rhannol – Mae'r polisi'n adlewyrchu'r asesiadau presennol sy'n seiliedig ar feini prawf, sy'n cael eu hystyried gyda'r holl ddatblygiadau mwynau.</p> <p>Serch hynny, derbynnir y gallai'r polisi gyfeirio at fanteision economaidd ac amgylcheddol a allai ddeillio o weithfeydd mwynau.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				fwynau.	Er mwyn sicrhau eglurder cynigir cynnwys cyfeiriad at y manteision economaidd ac amgylcheddol sy'n deillio o weithfeydd mwynau yn yr eglurhad i'r polisi. Newid â ffocws: NF95
503	Gwasanaeth Cynllunio Archeoleogol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959]	POLISI MWYN4	Gwrthwynebu	Sgrinio a thirlunio pan fo'n briodol yn unig. Mae angen rhyw fath o gydnabyddiaeth bod tomenni chwareli eu hunain yn aml iawn o bwys hanesyddol.	Ddim yn derbyn - Mae'r polisi'n adlewyrchu'r asesiadau presennol sy'n seiliedig ar feini prawf, sy'n cael eu hystyried gyda'r holl ddatblygiadau mwynau. Mae tomenni llechi'n elfen greiddiol o'r Gofrestr o Dirweddau Hanesyddol sy'n dod o fewn cwmpas meini prawf y polisi. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
505	Gwasanaeth Cynllunio Archeoleogol Gwynedd(Mr Ashley Batten)	POLISI MWYN4	Gwrthwynebu	Beth a olygir gan 'capasiti amgylcheddol'?	Derbyn yn rhannol - Capasiti amgylcheddol o dan faen prawf 7 yw'r cysyniad o gynllunio mwynau'n strategol ac mae, o bosibl, y tu hwnt i glych gwaith polisi cynllunio lleol.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	[2959]				<p>Argymhelliad</p> <p>Er mwyn sicrhau cywirdeb, bydd y cyfeiriad at 'gapasiti amgylcheddol' yn cael ei ddileu gan ei fod y tu hwnt i gylch gwaith yr Awdurdod Cynllunio Lleol.</p> <p>Newid â ffocws: NF94</p>
623	Mineral Products Association (Mr Malcolm Ratcliff) [1647]	POLISI MWYN4	Gwrthwynebu	<p>POLISI MWYN4: DATBLYGIADAU MWYNAU</p> <p>Nid yw'r polisi hwn yn gadarn am ei fod yn methu prawf cadernid CE1.</p> <p>Gwrthwynebw'n y meini prawf a ganlyn,</p> <p>1. Gofynnwn a yw cynnwys arogleuon yn y rhestr o effeithiau mwynderol yn cyfeirio at fwynau o gwbl? Siawns fod hyn wedi'i gyfyngu i waredu gwastraff?</p> <p>7. Rydym yn gwrthwynebu cynnwys y maen prawf hwn am ein bod yn credu nad oes ei angen am fod meini prawf eraill y polisi'n ymdrin â phob agwedd amgylcheddol eisoes ac felly nid oes unrhyw ddiben defnyddiol iddo gan y</p>	<p>Derbyn – Dylid dileu'r cyfeiriad at 'arogleuon' yn y Polisi gan nad yw'n fater perthnasol i weithfeydd mwynau.</p> <p>Capasiti amgylcheddol o dan faen prawf 7 yw'r cysyniad o gynllunio mwynau'n strategol ac mae, o bosibl, y tu hwnt i gylch gwaith polisi cynllunio lleol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder, bydd y cyfeiriad at 'arogleuon' ym maen prawf 1 yn cael ei ddileu a bydd maen prawf 7 yn cael ei ddileu.</p> <p>Newid â ffocws: NF94</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				<p>byddai asesiad cyffredinol o'r holl effeithiau amgylcheddol yn cael ei gynnal yn ystod y broses benderfynu. Hefyd, mae hi'n anodd iawn diffinio beth yw capasiti amgylcheddol pob un effaith nad yw'r cysyniad yn gweddu iddynt.</p> <p>Newidiadau i'r Cynllun</p> <p>Gweler yr awgrym ar gyfer addasu'r polisi yn yr atodiad</p>	
875	Mr John Tripp [252]	POLISI MWYN4	Gwrthwynebu	<p>Maen prawf (ii) - Diogelu asedau mwyn. Defnyddio llechi gwastraff. Adfer - adfer cyfreithiol ac ariannol (gan ddyfynnu South Water - mwynglawdd agored).</p>	<p>Ddim yn derbyn – Sylw yn hytrach na gwrthwynebiad.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
317	Lafarge Tarmac Trading Limited	7.5.71	Gwrthwynebu	<p>Nid oes cydnabyddiaeth o'r manteision economaidd, cymdeithasol a chyflogaeth a all godi yn sgil gweithio mwynau. Nac y</p>	<p>Derbyn - Derbynnir y gallai'r polisi gyfeirio at fanteision economaidd ac amgylcheddol a allai</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	[2735]			gall gweithio mwynau arwain at fantais net i fioamrywiaeth ac i asedau lleol eraill, ac mae yn aml iawn. Angen cydnabyddiaeth bod gwaith mwynau yn gallu rhoi cyfraniad positif i economi leol, cynefinoedd a'r amgylchedd.	ddeillio o weithfeydd mwynau. Argymhelliad Er mwyn sicrhau eglurder, cyfeirir at y manteision economaidd ac amgylcheddol sy'n deillio o weithfeydd mwynau yn yr eglurhad i'r polisi. Newid â ffocws: NF95
380	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	7.5.71	Gwrthwynebu	Nid oes cydnabyddiaeth i'r manteision economaidd, cymdeithasol, cyflogaeth a all godi o gloddio mwynau neu i'r ffaith y gall datblygu mwynau arwain, ac y mae yn aml iawn, at fantais net i fioamrywiaeth ac asedau lleol eraill.	Derbyn - Derbynnir y gallai'r polisi gyfeirio at fanteision economaidd ac amgylcheddol a allai ddeillio o weithfeydd mwynau. Argymhelliad Er mwyn sicrhau eglurder cynigir cynnwys cyfeiriad at y manteision economaidd ac amgylcheddol sy'n deillio o weithfeydd mwynau yn yr eglurhad i'r polisi. Newid â ffocws: NF95
507	Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd(Mr Ashley Batten)	7.5.71	Gwrthwynebu	Dylid hefyd ystyried lleoliad Parc Cenedlaethol Eryri yng nghyswllt cynigion ger y parc.	Derbyn – Dylai'r eglurhad ar gyfer y polisi gyfeirio at leoliad Parc Cenedlaethol Eryri. Argymhelliad Er mwyn sicrhau cywirdeb, bydd yr eglurhad yn

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	[2959]				cael ei ddiwygio er mwyn cyfeirio at Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Newid Bychan: NB22

MWYN5 - Cerrig Adeiladau Lleol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
624	Mineral Products Association (Mr Malcolm Ratcliff) [1647]	POLISI MWYN5	Gwrthwynebu	Amau'n gryf y medrai unrhyw chwarel cerrig adeiladu sy'n gweithredu i safonau modern proffesiynol a chynaliadwy ddiwallu gofynion y polisi hwn. Yn ein barn ni, nid yw'r polisi yn ei ffurf ddrafft yn cynnig darlun realistig i annog cwmnïau gwaith cerrig trin newydd, er gall alluogi parhad y rhai sy'n bodoli eisoes. Yn ddiâu, byddai cais am rywbeth sy'n fwy na gwaith bychan (heb ei ddiffinio) sy'n bwriadu gwasanaethu marchnad ehangach nad ydyw wedi'i chyfyngu i'r farchnad dreftadaeth trwy adeiladu busnes lleol cynaliadwy yn siŵr o fethu. Felly hefyd cais am gynhyrchu	Ddim yn derbyn - Ystyrir fod y sylwadau hyn wedi cymryd Polisi Mwyn 5 allan o'i gyd-destun. Mae amcanion polisi Mwyn 5 yn cydnabod pwysigrwydd deunyddiau adeiladu traddodiadol mewn treftadaeth leol drwy agor neu ailagor gweithfeydd mwynau bychan dros dro er budd cadwraeth adeiladu, lle mae modd dangos nad oes modd diwallu'r angen am ddeunyddiau o'r fath wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn/adnoddau sy'n bodoli eisoes. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae Polisi PS19 yn cyfeirio'n benodol at 'gyflenwad mwynau cynaliadwy' yn hytrach nag agregau ac nid yw'n eithrio datblygu mwynau ar gyfer echdynnu cerrig

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				<p>deunydd sydd eisoes ar gael o safle arall, hyd yn oed os yw hynny ddim ond ar raddfa fechan iawn. Nid oes unrhyw reswm wedi'i nodi byddai'n cyfiawnhau amodau mor ddidostur a chosbol.</p> <p>Gofynnir am y Newidiadau a ganlyn i'r Cynllun</p> <p>Awgrymwn newid y polisi fel a ganlyn: Caniateir gweithio neu ailagor gweithfeydd mwynau i ddarparu deunydd adeiladu traddodiadol cyn belled: Ei fod yn cyd-fynd â pholisiau eraill y Cynllun</p>	<p>wedi'u trin.</p> <p>Felly mae digon o ddarpariaeth i ystyried gweithfeydd mwynau hirdymor ar raddfa fawr ar gyfer cerrig wedi'u trin o dan bolisi PS19 a pholisi Mwyn 4 o dan y pennawd cyffredinol 'Datblygiadau Mwynau'.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

MWYN6 – Cylchfeydd Rhagod Safleoedd Mwynau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
258	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI MWYN6	Gwrthwynebu	Nodir ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru (2000) Nodyn Cyngor Technegol Agregau (2004) ganllawiau yng nghyswllt Cylchfeydd Rhagod. Er mai 100m yw'r pellter swyddogol oddi wrth ddatblygiad	<p>Derbyn yn rhannol – Dylid cyfeirio at amgylchiadau lle ceir elfen o hyblygrwydd wrth ystyried y cylchfeydd rhagod yn unol â MTAN1.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				sensitif ar gyfer chwareli tywod a gro, caiff hwn ei ddiffinio fel unrhyw adeilad y mae pobl yn ei ddefnyddio'n rheolaidd ac mae'n cynnwys manau lle ceir tai, hosteli, manau cyfarfod, ysgolion ac ysbytai lle dylid disgwyl safon dderbyniol o fwynder. Gellid gostwng y gylchfa ragod 100m lle nad yw'r safle cloddio mwynau'n cael fawr ddim effaith.	Er mwyn sicrhau eglurder, bydd y polisi'n cael ei ddiwygio er mwyn cyfeirio at amgylchiadau lle gall fod rheswm digonol dros leihau'r pellter. Newid â ffocws: NF96
259	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI MWYN6	Gwrthwynebu	Nodir ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru (2000) Nodyn Cyngor Technegol Agregau (2004) ganllawiau yng nghyswllt Cylchfeydd Rhagod. Er mai 200m yw'r pellter swyddogol oddi wrth ddatblygiad sensitif ar gyfer chwareli craig galed, caiff hwn ei ddiffinio fel unrhyw adeilad y mae pobl yn ei ddefnyddio'n rheolaidd ac mae'n cynnwys manau lle ceir tai, hosteli, manau cyfarfod, ysgolion ac ysbytai lle dylid disgwyl safon dderbyniol o fwynder. Gellid gostwng y gylchfa ragod 200m lle nad yw'r safle cloddio mwynau'n cael fawr ddim effaith..	Derbyn yn rhannol – Dylid cyfeirio at amgylchiadau lle ceir elfen o hyblygrwydd wrth ystyried y cylchfeydd rhagod yn unol â MTAN1. Argymhelliad Er mwyn sicrhau eglurder, bydd y polisi'n cael ei ddiwygio er mwyn cyfeirio at amgylchiadau lle gall fod rheswm digonol dros leihau'r pellter. Newid â ffocws: NF96

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
318	Jones Bros Ruthin [2911]	POLISI MWYN6	Gwrthwynebu	<p>Dylid symleiddio a diwygio'r polisi a'r cyfiawnhad er mwyn caniatáu:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Yn lle cynhwysir, bydd cylchfeydd rhagod yn cael eu gosod ar yr isafswm pellter angenrheidiol, ar sail achos yn ôl achos, yn rhoddedig ar fesurau rheoli deddfwriaethol eraill. 2. Dylai cylchfeydd rhagod 100m cael eu gweithredu ar echdynnu o ddyddodion gweithiol cerrig called lle nad yw ffrwydiadau yn cael eu caniatáu fel MTAN1. 3. Mewn amgylchiadau eithriadol caniateir estyniadau i weithrediadau gweithio mwynau, yn cynnwys gweithio dyddodion gweithrediadau mwynau o fewn cylchfeydd rhagod diffiniedig, lle gellir dangos nad oes ardrawiad annerbyniol ar ddatblygiad sensitif presennol. 4. Adolygu ac egluro anodiad map CDLI. <p>Darparir polisiâu amnewid (gweler atodiad)</p>	<p>Derbyn yn rhannol – Dylid cyfeirio at amgylchiadau lle ceir elfen o hyblygrwydd wrth ystyried y cylchfeydd rhagod yn unol â MTAN1.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder, bydd y polisi'n cael ei ddiwygio er mwyn cyfeirio at amgylchiadau lle gall fod rheswm digonol dros leihau'r pellter.</p> <p>Newid â ffocws: NF96</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
602	The Coal Authority (Mr James Smith) [2998]	POLISI MWYN6	Gwrthwynebu	<p>Mae'n ymddangos fod paragraff olaf MWYN6 yn ceisio cyfuno problemau ansefydlogrwydd tir sy'n deillio o etifeddiaeth mwynloddio a'r potensial am echdyniad glo i osgoi sterileiddio adnoddau gyda pharthau byffer o gwmpas safleoedd mwynau. Dyma ddwy broblem cynllunio benodol. Nid yw'r Awdurdod Glo yn ystyried y dylid cyfeirio at ansefydlogrwydd tir mewn polisi yn ymwneud â pharthau byffer o amgylch safleoedd mwynau.</p> <p>Awgrymwn y newid a ganlyn: Awgryma'r Awdurdod Glo y dylid symud paragraff olaf Polisi MWYN6 i mewn i bolisi newydd.</p>	<p>Ddim yn derbyn – Mae'n ymddangos bod y sylw'n drysu rhwng cylchfeydd rhagod a gweithfeydd mwynau a'r gofyn i ddiogelu mwynau. Mae'r eglurhad ar gyfer polisi Mwyn 6 yn nodi'n glir mai diben cylchfa ragod yw gwarchod y cronfeydd mwynau wrth gefn (<i>adnoddau sydd â chaniatâd cynllunio</i>) ac adnoddau mwynau rhag datblygiadau all eu sterileiddio, a hefyd i sicrhau nad yw effeithiau amgylcheddol mwynloddio yn cael effaith andwyol ar ddatblygiadau sensitif.</p> <p>Nid yw polisiâu cylchfeydd rhagod yn cynnwys echdynnu ymlaen llaw. Rhoddir sylw penodol i'r mater ym mharagraff 13 Polisi Cynllunio Mwynau Cymru, 'diogelu', lle nodir; "...<i>dylai meysydd i'w diogelu fod wedi'u nodi ar fapiau cynigion (map cyfyngiadau ar gyfer CDU Gwynedd a Môn) a dylai polisiâu amddiffyn adnoddau mwynau posibl rhag datblygiadau parhaol eraill a fyddai naill ai yn eu sterileiddio neu'n rhwystro cloddio... , cyn ymgymryd â mathau eraill o ddatblygiadau, dylid ystyried a oes potensial i gloddio am fwynau.</i>"</p> <p>Nid yw'r term 'datblygiad' ym Mholisi Mwyn 6 yn cyfeirio at echdynnu glo mewn manau lle na fyddai'r gwaith yn dderbyniol fel arall. Yn hytrach,</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					<p>mae'r polisi'n dynodi mathau eraill o ddatblygiadau (<i>yn unol â pharagraff 13 Polisi Cynllunio Mwynau Cymru</i>) a fyddai'n cael ei wneud fel arfer o fewn ffiniau aneddiadau.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
1813	Gwasanaeth Cynllunio Mwynau & Gwastraff Gogledd (Dafydd Gareth Jones) [2578]	POLISI MWYN6	Gwrthwynebu	<p>Nid yw'r ardaloedd diogelu mwynau (Polisi Mwyn1) yn ymddangos ar y map rhyngweithiol ar wefan Cyngor Gwynedd na chwaith y cyfan o'r ardaloedd chwilio a ffafrir tywod a graean ym mholisi Mwyn 3.</p> <p>Anghysondeb gyda'r ardaloedd chwili a ffafrir sydd wedi'u hadnabod ar gyfer tywod a graean ym Mholisi Mwyn 3 a Map Cynigion 1.</p> <p>Angen diweddaru'r cylchfeydd rhagod safleoedd mwynau sydd wedi'u</p>	<p>Derbyn – Mae camgymeriad ar y map, ac mae'n rhaid ei gywiro. Mae'n rhaid dangos yr Ardaloedd a Ffafrir ar y map cyfyngiadau.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Er mwyn sicrhau cywirdeb, bydd yn rhaid dangos Fferm Bodychain, Llanllyfni, Derwyn Fawr, Garndolbenmaen a Llecheiddior Uchaf, Garndolbenmaen ar y map cynigion, fel Ardaloedd a Ffafrir.</p> <p>Newid â ffocws: NF135, NF136</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				<p>hadnabod ar Fap Cynigion 1.</p> <p>Nodiant ar gyfer rhai o'r cyfyngiadau sydd wedi mapio yn anodd dehongli, e.e. diogelu tywod a graean lle mae'r ardal yn croesi gyda dynodiadau eraill megis 'ardaloedd tirwedd arbennig'.</p> <p>Newidiadau</p> <p>Angen cynnwys y roll ardaloedd chwilio a ffafrir sydd wedi'u hadnabod ar gyfer tywod a graen ym Mholisi Mwyn 3 ar Fap Cynigion1, h.y. sicrhau fod yr ardaloedd canlynol yn cael eu marcio ar y map cynigion yn ogystal i'r rhai sydd wedi'u cynnwys eisoes sef;</p> <ul style="list-style-type: none"> * Fferm Bodychain, Llanllyfni, * Derwyn Fawr, Garndolbenmaen, * Llecheiddior Uchaf, Garndolbenmaen. <p>Diweddarau'r cylchfeydd rhagod safleoedd mwynau sydd wedi'u hadnabod ar fap Cynigion 1 i gynnwys Chwarel Nanhoron a dyddodion gweithio mwynau Nant Gwrtheyrn. Mae angen adolygu'r sefyllfa i gynnwys cronfeydd wrth gefn Newydd o fwynau (os</p>	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				<p>caniateir) ond hefyd yr ymarferoldeb o gynnwys safleoedd bychan, fel Nant Gwrtheyrn a chyflwyniad Gorchmynion Gwahardd ailgychwyn cloddio ar unrhyw safle mwynau 'cwsgr', e.e. Chwarel Dorothea.</p> <p>Mae angen cynnwys yr ardaloedd diogelu mwynau (polisi Mwyn1) ar y map rhyngweithiol sy'n ymddangos ar wefan Cyngor Gwynedd a hefyd y cyfan o'r ardaloedd chwilio a ffafir tywod a graean ym mholisi Mwyn 3.</p>	

MWYN7 – Cyfleusterau Terfynfeydd A Glanfeydd

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
260	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI MWYN7	Gwrthwynebu	<p>Dylai'r polisi gynnwys yr holl gyfleusterau rheilffyrdd a glanfeydd sy'n ymwneud â'r diwydiant mwynau (yn hytrach na dim ond y rhai hynny a nodir ar y Map Cynigion) yn ffyrdd cynaliadwy o deithio. Byddir yn cefnogi defnyddiau</p>	<p>Ddim yn derbyn – Nid yw dynodi'r rheilffordd a'r cei yn eithrio unrhyw ddull arall o gludo mwynau'n gynaliadwy.</p> <p>Os ydynt yn dymuno chwilio am ddewis amgen, dylent gydymffurfio â pholisïau ac amcanion y</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				eraill i'r safleoedd yn y dyfodol lle bo modd cyfiawnhau nad oes gan y cyfleusterau hyn ddyfodol sy'n fasnachol hyfyw.	<p>cynllun datblygu lleol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
435	Cyngor Tref Ffestiniog (Mrs Ann Coxon) [2940]	POLISI MWYN7	Cefnogi	Mae Cyngor Tref Ffestiniog hefyd yn cefnogi gwarchod y tir yn Rhiw ar gyfer datblygiad rheilffordd. Petai fodd datblygu rheilffordd Dyffryn Conwy, fe fyddai yna gyfle i symud llechi gwastraff o Flaenau Ffestiniog i'w ddefnyddio fel aggregate, gan osgoi'r angen i greu chwareli newydd a throi'r llechi hyn yn ffynhonnell newydd o waith ac incwm i'r dref.	<p>Nodi'r sylw yn cefnogi</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>

MWYN8 – Gweithfeydd Fforio

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
261	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI MWYN8	Gwrthwynebu	<p>Fel y noda'r cyfiawnhad rhesymegol, ystyrir gwaith cloddio mwynau yn ddatblygiad a ganiateir dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995.</p> <p>Dileu'r polisi.</p>	<p>Ddim yn derbyn - Mae rhan 22, Dosbarth B, Atodlen 2 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn caniatáu ar gyfer chwilio am fwynau y tu allan i'r cyfnod 28 diwrnod sydd wedi'i nodi yn Nosbarth A, ar yr amod fod yr awdurdod cynllunio mwynau'n cytuno ac yn unol â chyfres o feini prawf datblygu. Nid yw chwilio a chloddio am betrolewm is na 10m o ran dyfnder a dros 12 metr sgwâr o ran arwynebedd yn dod o fewn cwrmpas datblygiad a ganiateir ac mae'n rhaid cael caniatâd cynllunio. Felly dylai'r polisi barhau i fod yn y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
262	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI MWYN8	Gwrthwynebu	<p>Fel y noda'r cyfiawnhad rhesymegol, ystyrir gwaith cloddio mwynau yn ddatblygiad a ganiateir dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995.</p>	<p>Ddim yn derbyn - Mae rhan 22, Dosbarth B, Atodlen 2 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn caniatáu ar gyfer chwilio am fwynau y tu allan i'r cyfnod 28 diwrnod sydd wedi'i nodi yn Nosbarth A, ar yr amod fod yr awdurdod cynllunio</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				Dileu'r polisi	<p>mwynau'n cytuno ac yn unol â chyfres o feini prawf datblygu. Nid yw chwilio a chloddio am betrolewm is na 10m o ran dyfnder a dros 12 metr sgwâr o ran arwynebedd yn dod o fewn cwmpas datblygiad a ganiateir ac mae'n rhaid cael caniatâd cynllunio. Felly dylai'r polisi barhau i fod yn y Cynllun.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
1449	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI MWYN8	Gwrthwynebu	Byddai'n ddefnyddiol gwybod os ydi holi anghonfensiynol o fewn sgôp y polisi yma. Os ydi o fewn y polisi yna byddai elfen o hyblygrwydd o fewn y polisi'n cael ei groesawu fel byddai'r polisi'n cael ei adolygu yng ngoleuni tystiolaeth newydd am ardrawiadau posib y math yma o ddatblygiad ar yr amgylchedd.	Ddim yn derbyn - Mae rhan 22, Dosbarth B, Atodlen 2 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir yn caniatáu ar gyfer chwilio am fwynau y tu allan i'r cyfnod 28 diwrnod sydd wedi'i nodi yn Nosbarth A, ar yr amod fod yr awdurdod cynllunio mwynau'n cytuno ac yn unol â chyfres o feini prawf datblygu. Nid yw chwilio a chloddio am betrolewm is na 10m o ran dyfnder a dros 12 metr sgwâr o ran arwynebedd yn dod o fewn cwmpas datblygiad a ganiateir ac mae'n rhaid cael caniatâd cynllunio.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					<p>Felly dylai'r polisi barhau i fod yn y Cynllun.</p> <p>Gellid ystyried ffracio anghonfensiynol yn yr un cyd-destun â chwilio am betrolewm.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
508	Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd(Mr Ashley Batten) [2959]	7.5.80	Gwrthwynebu	Mae posibilrwydd y bydd y cyfryw waith yn cael effaith archeolegol/effaith ar yr amgylchedd hanesyddol y dylid hefyd ei hystyried.	<p>Ddim yn derbyn - Dim darpariaeth benodol ar gyfer cofnodion archeolegol o dan hawliau datblygu a ganiateir o dan Ran 22 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir heblaw am yr hyn y gellid ei ddehongli'n llac fel manylion wedi'u cyflwyno yn unol â hysbysiad a gyflwynwyd i'r awdurdod cynllunio mwynau o dan Ddosbarth B.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					Dim newid

MWYN9 – Pyllau Benthg

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
263	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI MWYN9	Gwrthwynebu	<p>Gallai pyllau benthg arfaethedig a rhai sydd eisoes yno fod yn ffynhonnell hyfyw o fwynau y dylid eu cefnogi i sicrhau nad yw mwynau'n cael eu steryllu. Mae manteision amgylcheddol yn ddatganiad eang ei ystod ac mae angen ei ddiffinio.</p> <p>Cefnogi'r defnydd o byllau benthg presennol ac arfaethedig ble maent yn hyfyw oherwydd natur dros dro'r datblygiad. Angen diffiniad o'r sgôp a maint y buddiannau amgylcheddol.</p>	<p>Derbyn yn rhannol - Mae angen eglurhad pellach yn yr eglurhad i'r polisi o ran y rhesymau pam fod yna effeithiau amgylcheddol yn deillio o byllau benthg .</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder, bydd y polisi'n cael ei ddiwygio er mwyn cyfeirio at yr amgylchiadau a ellir achosi effeithiau amgylcheddol.</p> <p>Newid â ffocws: NF97</p>
1184	Pŵer Niwclear Horizon(Miss Sarah	POLISI MWYN9	Gwrthwynebu	Mae Horizon yn cefnogi polisi ar byllau benthg.	Ddim yn Derbyn - Ni ddylid eithrio datblygiadau atodol sy'n gysylltiedig â phrosiect Wylfa Newydd o

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	Fox) [2919]			Fodd bynnag, yn hytrach na cheisio cael newidiadau penodol i bolisi MWYN9, mae Horizon yn cynnig dibynnu ar y polisiau penodol ar gyfer Wylfa Newydd sy'n cael eu cynnig isod. Rheiny fyddai'r polisiau perthnasol ar gyfer penderfynu ar ei geisiadau datblygu cysylltiedig. Am y rheswm hwn, nid ydi Horizon yn cynnig cau allan ei ddatblygiad cysylltiedig rhag bod yn destun i'r polisi hwn.	<p>gwmpas polisiau ac amcanion perthnasol y CDU. Mae modd defnyddio polisiau eraill yn y Cynllun yn briodol i asesu datblygiadau sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

MWYN10 – Adfer Ac Ôl-Ofal

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
264	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	POLISI MWYN10	Gwrthwynebu	Dylai gwaith adfer edrych ar wahanol ddefnyddiau o'r safle law yn llaw â chynlluniau adfer traddodiadol o ddychwelyd y safle i statws tir gwyrdd, yn enwedig felly lle mae ffurf y tir wedi newid yn sylweddol o'i ffurf wreiddiol.	<p>Dim yn derbyn - Gall cynlluniau adfer amgen gynnwys rhai er budd mwynderol a bioamrywiaeth, ond mae'r sylw'n amwys o ran unrhyw ddefnyddiau arfaethedig. Mae'n rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer ôl-ddefnydd gydymffurfio â pholisiau ac amcanion y cynllun datblygu lleol.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
265	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI MWYN10	Gwrthwynebu	Dylai gwaith adfer edrych ar wahanol ddefnyddiau o'r safle law yn llaw â chynlluniau adfer traddodiadol o ddychwelyd y safle i statws tir gwyrdd, yn enwedig felly lle mae ffurf y tir wedi newid yn sylweddol o'i ffurf wreiddiol. Mae'r polisi angen fod yn hyblyg ar gyfer caniatáu defnyddiau terfynol amgen a hyfyw lle mae'n briodol.	Ddim yn Derbyn - Gall cynlluniau adfer amgen gynnwys rhai er budd mwynderol a bioamrywiaeth, ond mae'r sylw'n amwys o ran unrhyw ddefnyddiau arfaethedig. Mae'n rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer ôl-ddefnydd gydymffurfio â pholisïau ac amcanion y cynllun datblygu lleol. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
315	Lafarge Tarmac Trading Limited [2735]	POLISI MWYN10	Gwrthwynebu	Dylid annog defnyddiau eilaidd neu adfer mewn safleoedd cloddio mwynau. Mae adfer yn cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer defnyddiau hamdden, economaidd a chyflogaeth a allai esgor ar fanteision hirhoedlog yn lleol ar ôl y gwaith adfer.	Ddim yn Derbyn - Gall cynlluniau adfer amgen gynnwys rhai er budd mwynderol a bioamrywiaeth, ond mae'r sylw'n amwys o ran unrhyw ddefnyddiau arfaethedig. Mae'n rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer ôl-ddefnydd gydymffurfio â

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				Dylid newid geirfa'r polisi a'r paragraph cysylltiedig er mwyn annog defnyddiau amgen	<p>pholisïau ac amcanion y cynllun datblygu lleol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
352	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	POLISI MWYN10	Gwrthwynebu	Fel ffordd o hwyluso gweithrediad polisiau eraill e.e. PS16 (pwynt 5) ac AMG 5, dylid rhoi mwy o bwyslais ar bosibilrwydd ail-gytrefu bywyd gwyllt yn naturiol a gwella neu ddarparu cynefinoedd iddynt a rhoi mwy o flaenoriaeth i'r gwaith hwn	<p>Ddim yn Derbyn – Credir fod y potensial ar gyfer ail-gytrefu naturiol neu wella neu ddarparu cynefinoedd bywyd gwyllt yn cael digon o sylw ym maen prawf 8 Polisi MWYN10.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
509	Gwasanaeth Cynllunio Archeoleogol Gwynedd(Mr Ashley Batten)	POLISI MWYN10	Gwrthwynebu	Mae angen rhyw fath o gydnabyddiaeth bod tomenni chwareli eu hunain yn aml iawn o bwys hanesyddol ac efallai na fyddai adfer yn briodol neu y byddai angen o leiaf ystyried hyn yn y cyd-	<p>Ddim yn Derbyn – Dylid darllen y Cynllun yn ei gyfanrwydd. Bydd yn rhaid ystyried polisiau eraill yn y Cynllun, yn cynnwys y rheini sy'n cyfeirio at dirweddau sy'n bwysig yn hanesyddol.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	[2959]			destun hwn.	<p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
592	The Coal Authority (Mr James Smith) [2998]	POLISI MWYN10	Cefnogi	Mae'r polisi'n rhoi pwyslais mawr ar gyflawni safonau adnewyddu ac ôl-ofal uchel, rhywbeth y mae'r Awdurdod Glo yn gefnogol iawn ohono. Bydd hyn yn sicrhau y gellid defnyddio'r safleoedd mewn modd buddiol a phriodol heb faterion diogelwch cyhoeddus yn y dyfodol sy'n deillio o etifeddiaeth.	<p>Nodi'r sylw yn cefnogi</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim Newid</p>
381	Ellesmere Sand & Gravel Company Limited [2686]	7.5.82	Gwrthwynebu	Dylid annog defnyddiau eilaidd neu adfer mewn safleoedd gweithio mwynau. Mae adfer yn cynnig cyfleoedd sylweddol ar gyfer defnyddiau hamdden, economaidd a chyflogaeth a allai esgor ar fanteision hirhoedlog yn lleol ar ôl y gwaith adfer.	<p>Derbyn yn rhannol - Mae'n rhaid i unrhyw gynigion ar gyfer ôl-ddefnydd gydymffurfio â pholisiau ac amcanion y cynllun datblygu lleol.</p> <p>Serch hynny, derbynnir y dylid cynnwys mwy o bwyslais yn y Cynllun ar fanteision economaidd, hamdden ac amgylcheddol a allai ddeillio o'r datblygiad.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					<p>Argymhelliad</p> <p>Er mwyn sicrhau eglurder, bydd y polisi'n cael ei ddiwygio er mwyn cyfeirio at amgylchiadau lle gall fod rheswm digonol dros leihau'r pellter.</p> <p>Newid â ffocws: NF98</p>

PENNOD 8 AC ATODIADAU

Pennod 8 - Monitro a gweithredu

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Ymateb ac argymhelliad swyddogion
361	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	8.1	Gwrthwynebu	Wrth gyfeirio at thema 5, rydym yn awgrymu cynnwys rhagor o ddangosyddion fel bod modd asesu effaith y Cynllun yn llawn ac yn gywir. At hyn, dylid addasu'r lefelau sbarduno i adlewyrchu'r ffaith nad yw Cyfoeth Naturiol Cymru'n gwrthwynebu materion sy'n cael effaith ar gynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig yn lleol.	<p>Derbyn – Cynnwys dangosydd ychwanegol i gyfeirio at WNLl a Safleoedd Bywyd Gwyllt yn ogystal a chynefinoedd CGBLI. Yn ogystal a hynny cael gwared o gyfeiriad at CNC lle mae'n briodol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Newid Thema 5 yn unol a nodir uchod.</p> <p>Newid a ffocws NF110</p>
1065	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	8.3	Gwrthwynebu	Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r rhannau canlynol o'r fframwaith: * Datblygu safleoedd yn raddol, eu cyflawni, unrhyw sbardun perthnasol a chamau gweithredu cysylltiedig. * Dylid cynnwys targedau a sbardunau er mwyn sicrhau bod y prif elfennau'n cael eu cyflawni. * Aildrefnu yn y	<p>Derbyn – cytunir y dylid gwella'r fframwaith i gynnwys dangosyddion datblygu cynaliadwy perthnasol a dangosyddion craidd a welir yn Llawlyfr</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Ymateb ac argymhelliad swyddogion
				fath fodd fel nad yw dangosyddion allbwn craidd Llywodraeth Cymru bob tro yn gysylltiedig â'r dangosydd allbwn lleol. * lle'n briodol, diwygio dangosyddion craidd i adlewyrchu'r amgylchiadau lleol. * dylid ystyried goblygiadau'r Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy a gyhoeddwyd yn ddiweddar i'w casglu o fis Ebrill 2013 ymlaen a'r gwaith parhaus ar fireinio'r broses o lunio Cynlluniau Datblygu Lleol.	CDLI Argymhelliad Newid yn unol a'r uchod Newid â Ffocws NF99, NF102, NF104 – NF110
1064	Llywodraeth Cymru (Mr Mark Newey) [1561]	8.5	Gwrthwynebu	Nid yw'n glir pam fod yr awdurdod wedi penderfynu cael dwy fframwaith monitro ar wahân (para 8.5).	Derbyn – cytunir y byddai'r rhan yma yn elwa trwy wneud man newidiadau i egluro'r sefyllfa. Argymhelliad Newid y cyflwyniad yn unol a'r uchod Newid â Ffocws NF100
479	Ffedarasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cyf (Mr Mark Harris) [1470]	8.8	Gwrthwynebu	Yn ôl Thema 4 Dangosydd D26 y Targed Polisi: Nid yw'r raddfa ddatblygu'n mynd dim uwch na 2,604 uned yng nghyfnod 2011 i 2018. Ymddengys mai polisi fesul cam yw hwn sydd ddim wedi'i ddatgan yn glir yn adrannau polisi'r	Derbyn yn rhannol – ar ôl rhoi ystyriaeth i'r mater cytunir y byddai Thema 4 yn well pe fyddai'n cynnwys cyfeiriad clirach at gyflenwad

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Ymateb ac argymhelliad swyddogion
				ddogfen. Rydym wedi gwrthwynebu hwn mewn rhan arall o'n sylwadau ID:130. Dileu'r targed tai sydd wedi ei rannu gan ei fod yn ofyniad adeiladu cam wrth gam.	5 mlynedd a'r dangosyddion cynaliadwy a chraidd. Argymhelliad Newid geiriad yn unol a'r uchod. Newid â ffocws NF109
847	Mr Rob Booth [3033]	8.8	Gwrthwynebu	Cytunaf gyda'r dangosyddion monitro ar gyfer cludiant cyhoeddus (D4, D6, D7) fodd bynnag rwy'n anghytuno gyda dangosydd D5 i leihau amseroedd siwrneiau mewn ceir. Pam fod un o'r dangosyddion yn seiliedig ar ostwng amseroedd siwrneiau? Y cyflymaf mae ceir yn teithio, y mwyaf o danwydd a ddefnyddiant, a'r mwyaf peryglus yw'r daith. Mae hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd o bobl yn defnyddio ceir yn hytrach na bysus. Hefyd, dylid cael dangosydd bod y rhwydwaith cludiant cyhoeddus yn cael ei gynnal fel y mae neu ei gynyddu, a bod nifer y bysus heb leihau, ond wedi cynyddu. Yr amseroedd sydd ar gael i wasanaethau bws yw e.e. yn fuan yn y bore ac ehangu'r ddarpariaeth o fysis gyda'r hwyr.	Derbyn yn rhannol – newid i gyfeirio at hyrwyddo dulliau teithio mwy cynaliadwy Argymhelliad Newid geiriad yn unol a'r uchod. Newid â ffocws NF103, NF104

Atodiadau

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
478	Rheilffordd Eryri (Mr Graham Farr) [254]	Rhestr Dogfennau Allweddol	Gwrthwynebu	<p>Mae'n ymddangos y cynhaliwyd yr asesiad o Safle Arfaethedig cyfeirnod cyflwyniad: SP870 ar wahân i Safle Arfaethedig cyfeirnod cyflwyniad: SP552 sy'n hynod gysylltiedig (copïau ynghlwm). Dylai'r cyfeiriad fod yr un fath (Rheilffordd Eryri Cyf yn masnachu fel Rheilffordd Treftadaeth Ucheldir Cymru) a'r defnydd arfaethedig wedi'i ddisgrifio'n well fel twristiaeth. Byddai modd cael mynediad trwy'r safle hwnnw, nid yn annibynnol arno. Ddylai dull gweithredu'r polisi '... dyfarnu ... yn erbyn y polisi/meini prawf ... yn y cynllun datblygu a fabwysiadwyd' hefyd fod yn debyg?</p>	<p>Dim yn derbyn –</p> <p>Tra bod ystyriaeth wedi ei roi i'r ddau safle hyn ar y cyd, o gofio eu bod wedi eu cyflwyno fel safleoedd ar wahân, fe rannwyd y safleoedd yn y modd hwn. Derbyn fod cysylltiad rhwng y ddau safle ond fe ystyrir mai dim ond safle SP552 sydd yn addas i'w gynnwys o fewn ffin ddatblygu Porthmadog.</p> <p>Nodir fod Polisi TWR1 yn berthnasol yn yr achos hwn. Tra rhoddir blaenoriaeth i ddatblygu atyniadau a chyfleusterau ymwelwyr o fewn ffin ddatblygu, nid yw'n gwahardd datblygiadau ar safleoedd tu allan i ffin ddatblygu pan fo hynny'n berthnasol.</p> <p>Nodir fod safle SP870 yn ymestyniad llinol hir a chul i gefn gwlad ac o'r herwydd credir byddai ei gynnwys o fewn y ffin ddatblygu yn anaddas, yn enwedig o gofio goblygiadau hyn mewn perthynas â pholisïau eraill y CDLI ar y Cyd, megis polisïau tai.</p> <p>Argymhelliad</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
474	Mr Geraint Evans [2962]	Rhestr o Anedlleoedd	Cefnogi	<p>Re: Botwnnog - Cae SP433 Cytuno gyda'r safle posib yma. Canolog i'r pentref, mynediad uniongyrchol o'r safle unai i'r briffordd B4413 neu i ffordd dawelach cyn ymuno a'r B4413. Llwybr troed yn barod o'r safle yma yr holl ffordd i ganol y pentref ac i'r ddwy ysgol.</p> <p>Mae Botwnnog bentref delfrydol i'w ddatblygu gan fod cyn gymaint o gyfleusterau yma e.e. Ysgol Gynradd ac Ysgol Uwchradd, Meddygfa, Siop, Caffi, Capel ac Eglwys.</p>	<p>Nodi'r sylw – Dynodiad tai T61 yw'r safle hwn.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
676	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	Rhestr o Safleoedd neu Ardaloedd wedi eu Gwarchod	Gwrthwynebu	<p>Ac eithrio Atodiad 7, nid oes cyfeiriad at y Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig a fawr ddim, os o gwbl, at yr Arfordir Treftadaeth. Mae'r ddau ohonynt o bwysigrwydd arbennig wrth warchod treftadaeth gorllewin Llŷn.</p>	<p>Dim yn derbyn –</p> <p>Mae Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig yn cael eu hystyried ym Mholisi AT1. Nodir fod yr Arfordir Treftadaeth yn cael ei ystyried ym Mholisi AMG 3. Nodir fod y Tirweddau Hanesyddol Cofrestredig ynghyd a'r Arfordir</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				Dylid sôn mwy am yr Arfordir Treftadaeth a'r Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig.	Treftadaeth wedi eu dangos ar y map cyfyngiadau mewn perthynas â'r CDLI ar y Cyd. Argymhelliad Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun. Dim newid
363	Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru (Mr Chris Wynne) [2626]	Rhestr o Ganllawiau Cynllunio Atodol Arfaethedig	Cefnogi	Rydym yn cefnogi cynnwys y Canllawiau Cynllunio Atodol ar Fioamrywiaeth ond yn gofyn am eglurder ynghylch a yw Canllawiau Cynllunio Atodol Gwynedd wedi'u mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor. Nodwn y bwriad i adolygu, diweddarau ac ymestyn y Canllawiau cyn pen 18 mis i fabwysiadu'r Cynllun.	Nodi'r sylw – Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol sydd yn gysylltiedig â CDU Gwynedd wedi eu mabwysiadu gan Gyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys CCA mewn perthynas â 'Safleoedd Bywyd Gwyllt'. Argymhelliad Dim newid
610	Mr Paul Madden [3032]	Rhestr o Ganllawiau Cynllunio Atodol Arfaethedig	Gwrthwynebu	Nid yw Atodiad 9 yn rhoi disgrifiad digonol o'r CCA cyfredol sydd mewn grym ac y bydd angen eu hadolygu yn sgil y cynllun newydd. Byddai cael rhestr gyfan yn caniatáu i'r ymatebwyr gyfeirio at y CCA er mwyn deall	Dim yn derbyn – Mae'r rhestr o Ganllawiau Cynllunio Atodol a nodir yn Atodiad 9 yn cyfeirio at y canllawiau newydd arfaethedig fydd yn cael eu paratoi i

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				<p>oblygiadau'r cynllun ar eu cynnwys.</p> <p>Nid yw'n eglur a oes cyfeiriad i'r CCA cyfredol ar Ynni Gwynt ar y Tir a oedd yn destun ymgynghori a sylwadau eang yn 2013. Dylid fod wedi cydnabod ei gynnwys wrth greu polisi ADN1.</p> <p>Angen rhestr gyfan o'r CCA cyfredol ac a fyddant yn cael eu hadolygu neu eu disodli.</p>	<p>gefnogi polisiâu'r CDLI ar y Cyd. Ni fydd y Canllawiau sydd wedi eu mabwysiadu yn bresennol yn berthnasol felly mewn perthynas â'r Cynllun hwn.</p> <p>Nodir y bydd y CCA 'Lleoli datblygiad ynni adnewyddol ar wahân' yn berthnasol ar gyfer datblygiadau ynni gwynt ar y tir. Bydd yn darparu gwybodaeth i gefnogi Polisi ADN1. O safbwynt y CCA hwn, fe nodir yn Atodiad 9 y "bydd CCA cyfredol (Gwynedd a Môn) yn cael eu adolygu, diweddarau a'u hymestyn o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun".</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>

Sylwadau cyffredinol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
563	Mr John E. Williams [3013]	Sylwadau cyffredinol	Gwrthwynebu	<p>Fel y mae, nid yw'r drefn rhoi sylwadau yn hygyrch i nifer fawr o drigolion Môn a Gwynedd. Nid oes gan rai'r adnoddau na'r gallu i gael mynediad i'r ffurflen ar-lein, a phan maent yn cael mynediad iddi, nid ydyw'n cyfathrebu ar lefel y gallent ei deall. Efallai fod y ffurflen yn dderbyniol i adrannau cynllunio a chwmnïau ynni, ond mae'n cynrychioli 'iaith swyddogol' nad yw'r unigolyn arferol yn gallu ei deall. Oherwydd bod rhaid iddi gyflawni swyddogaeth fel dogfen ymgynghorol, rhaid iddi fod ar gael i bawb yn hawdd ac wedi'i gosod yn haws.</p>	<p>Dim yn derbyn –</p> <p>Mae'r we yn fodd o alluogi nifer eang o bobl i weld y Cynllun, fodd bynnag derbyn nad oes gan bawb fynediad iddo. Roedd copi papur o'r Cynllun Adnau ar gael i'w gweld mewn llyfrgelloedd a Swyddfeydd y Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae gwybodaeth o ran y camau allweddol ym mharatoad y Cynllun wedi eu hysbysebu mewn papurau newydd perthnasol. Hefyd, er enghraifft, mae pawb sydd wedi dangos diddordeb yn y Cynllun yn cael eu hysbysu a'u diweddarau adeg camau allweddol drwy e-bost neu lythyr.</p> <p>Ceisiwyd gwneud y Cynllun Adnau a'r dogfennau cysylltiol mor syml â phosib i'w dilyn o ran eu hiaith a'r modd y maent wedi eu gosod allan.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					Dim newid
570	Angela Williams [3016]	Sylwadau cyffredinol	Gwrthwynebu	Nid yw'r Cynllun ond ar gael ar y we ac mae hyn yn enghraifft o wahaniaethu. Nid yw mater pwysig twristiaeth wedi'i gynnwys. Newidiadau: i) Pecyn gwybodaeth i bob aelwyd trwy'r post ii) Ffurflenni cais ar gael mewn Swyddfeydd Post iii) Opsiwn Rhadbost iv) Dylid cynnwys effeithiau andwyol posib nifer lluosog o dyrbinau gwynt mewn ardaloedd twristiaeth fel ystyriaeth gynllunio ddilys.	<p>Dim yn derbyn –</p> <p>Mae copïau papur o'r holl ddogfennau sydd ymwneud a'r CDLI ar y Cyd ar gael, gan gynnwys felly'r Cynllun Adnau.</p> <p>Mae dogfennau ar gael mewn llyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor.</p> <p>Mae'r lefel o adnoddau yn ei gwneud yn anodd i gysylltu yn uniongyrchol gyda phawb yn ardal y Cynllun. Credir fod pob ymdrech wedi ei wneud i hysbysebu'r camau perthnasol o fewn y broses o baratoi'r Cynllun a'r dogfennau cysylltiol mewn modd sydd mor effeithiol â phosib.</p> <p>Derbyn y gellir ystyried ffurf gwahanol o hysbysebu ac ymgynghori yn y dyfodol.</p> <p>Nid oes tystiolaeth gadarn wedi cael ei gyhoeddi sydd yn dangos effaith arwyddocaol ar dwristiaeth mewn ardal oherwydd effaith tyrbinau gwynt. Ceir cyhoeddiad ar safle we Llywodraeth Cymru sydd yn cyfeirio tuag at</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					<p>'Effaith Economaidd ffermydd gwynt ar dwristiaeth' (Chwefror 2014) oedd yn dod i'r casgliad mae prin iawn yw'r dystiolaeth sy'n profi fod ffermydd gwynt yn cael effaith ar dwristiaeth Cymru.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
595	Age Cymru Gwynedd a Mon (Stephen Williams) [3030]	Sylwadau cyffredinol	Gwrthwynebu	Anogwn y ddau Gyngor i sicrhau y rhoddir ystyriaeth deilwng i'r ymrwymiad a gytunwyd arno yn Natganiad Dulyn a chefnogi'r prif amcanion a nodwyd yn y rhaglen Heneiddio'n Dda yng Nghymru wrth ystyried polisïau cynllunio a datblygu Ynys Môn a Gwynedd yn y dyfodol.	<p>Dim yn derbyn –</p> <p>Nodir sylw. Credir fod y Cynllun yn ystyried ac yn diwallu anghenion pobl hŷn yn effeithiol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus i gyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim newid</p>
597	The Coal Authority (Mr James Smith)	Sylwadau cyffredinol	Gwrthwynebu	Mae'r Awdurdod Glo wedi adolygu'r dogfennau sydd ar gael ac wedi nodi nifer o	Dim yn derbyn – Ystyrir fod y polisïau sydd yn ymwneud a mwynau yn adlewyrchu'r

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
	[2998]			<p>faterion yr hoffai weld yn cael eu datrys.</p> <p>Awgrymwyn y newidiadau hyn:</p> <p>Dylid rhoi ystyriaeth lawn i rannau o'r polisi cynllunio sy'n ymwneud â'r Awdurdod Glo:</p> <p>-diogelu glo yn unol â'r cyngor a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru - Mwynau a MTAN2 yng Nghymru;</p> <p>-sefydlu fframwaith polisi priodol ar gyfer mwynau ynni gan gynnwys hydrocarbonau yn unol â'r cyngor a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru - Mwynau ac MTAN2 yng Nghymru; a</p> <p>-sicrhau fod datblygu yn y dyfodol yn cael ei ymgymryd mewn modd diogel sy'n lleihau'r cyfrifoldeb ar y trethdalwr ar gyfer ymsuddiant a hawliadau peryglon eraill yn ymwneud â mwyngloddio sy'n deillio o etifeddiaeth mwyngloddio yn unol â'r cyngor a geir ym Mholisi Cynllunio Cymru a MTAN2 yng Nghymru.</p>	<p>arweiniad cyfredol a roddir ym Mhennod 14 o Bolisi Cynllunio Cymru (2016) ynghyd a MTAN2. Nid yw'r briodol i'r Cynllun ail-adrodd arweiniad polisi cenedlaethol..</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
665	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	Sylwadau cyffredinol	Gwrthwynebu	Crynodeb Siediau Amaethyddol - mae angen polisi arbennig ar gyfer siediau amaethyddol sy'n debyg i bolisi D9 y CDUG. Mae ffermwyr angen y rhain, ond maent yn strwythurau mawr ac mae mwy a mwy ohonynt yn cael eu hadeiladu mewn ardaloedd gwledig. Ar hyn o bryd yn y maes cynllunio mae craffu ceisiadau am siediau i'w weld yn wan, ac mae angen rhoi mwy o sylw i'w lleoliad, eu lliw a math y deunyddiau a ddefnyddir.	<p>Dim yn derbyn –</p> <p>Mae hawliau datblygu a ganiateir yn berthnasol i lawer o adeiladau amaethyddol. Os bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer sied amaethyddol, gellir gweld gwybodaeth berthnasol ym Mholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 6 (yn enwedig felly yn rhan 6).</p> <p>Mae Polisi PCYFF2 yn berthnasol wrth ystyried effaith gweledol y siediau amaethyddol.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>
748	Mr Rob Booth [3033]	Sylwadau cyffredinol	Gwrthwynebu	Asesiad Effaith Iechyd - nid yw'r ddogfen hon yn sôn am y peth allai gael yr effaith fwyaf bosib ar iechyd yn yr ardal hon, sef adeiladu gorsaf bŵer niwclear newydd. Mae'r risg yn un i gymunedau sy'n bodoli, ond hefyd i boblogaeth yr ardal yn y dyfodol. Hoffwn herio pa mor gyflawn yw'r ddogfen hon, gan	<p>Dim yn derbyn – Fel mae'r cyflwyniad i'r polisi strategol am cynigion am brosiectau isadeiledd mawr yn amlinellu bydd gorchmynion caniatâd datblygu ar brosiectau isadeiledd mawr megis gorsaf bŵer niwclear yn cael eu edrych ar y tu allan i broses y Cynllun Datblygu Lleol.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
				<p>nad yw'n cynnwys yr ardrawiad posib petai trychineb niwclear yn yr orsaf bŵer ac wrth gludo gwastraff ymbelydrol.</p>	<p>Bydd materion iechyd yn ymwneud a fath brosiect yn un o'r materion bydd yr Arolygaeth Gynllunio yn ei ystyried fel rhan o'i archwiliad o'r prosiect.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
756	Mr Rob Booth [3033]	Sylwadau cyffredinol	Gwrthwynebu	<p>Tai: dylid bod mwy o dai sy'n perthyn i gymdeithas tai. Dylai'r polisiâu bwysleisio'r gofyn am dai cymdeithasol a thai cymysg. Dylai pob datblygiad tai gynnwys cyfran o dai cymdeithasol h.y. tai sy'n perthyn i gymdeithasau tai.</p>	<p>Dim yn derbyn –</p> <p>Cefnogir y rôl bwysig sydd gan Gymdeithasau Tai o ran darparu tai i gwrdd ag anghenion penodol yn lleol.</p> <p>Mae Polisi TAI9 yn darparu'r trothwyon ar gyfer darparu tai fforddiadwy gan gynnwys taliad pro rata ble nad yw darparu uned fforddiadwy yn bosib. Mae'n bwysig fod y math o dai a ddarperir yn cwrdd â'r anghenion cydnabyddedig, gan gynnwys felly ar gyfer tai cymdeithasol a canolraddol.</p> <p>Tra'i bod yn bwysig darparu'r gymysgedd briodol o dai, mae hyn yn dibynnu ar yr amgylchiadau penodol. Ni ellir mynnu bod Cymdeithas Dai yn rhan o bob datblygiad preswyl. Mae'n debyg y bydd oblygiadau ariannol i'r cymdeithasau tai yn ogystal o ran hyn.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
					Dim Newid

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
910	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	Sylwadau cyffredinol	Gwrthwynebu	<p>Rydym o'r farn fod y CDLI ar y Cyd yn llai strwythuredig, cryno a chydlynol na'r CDU cyfredol o ran ei gyflwyniad, ei bwyslais a'r polisiau sy'n cael blaenoriaeth. Darparu cyswllt i'r CDUG gan gynnwys dadansoddiad o berfformiad y CDUG, a'r rhesymau dros y newidiadau o ran y dull a'r pwyslais. Darparu polisiau ychwanegol, mwy penodol a chryno ar gyfer pob math o ddatblygiad cynllunio ar fodel y CDUG. Gwella'r arddull a'r cyflwyniad, prawf-ddarllen yr atalnodi a'r gramadeg. Peidio â defnyddio jargon. Symleiddio'r iaith. Matrics yn cysylltu polisiau perthnasol y CDLI ar y Cyd â'r gwahanol fathau o gynigion cynllunio.</p>	<p>Dim yn derbyn –</p> <p>Ni fydd y CDLI ar y Cyd yn cynnwys polisi ar gyfer pob math o ddatblygiad. Ni fydd ychwaith yn ail-adrodd arweiniad polisi cenedlaethol.</p> <p>Nid oes modd i'r Cynllun ystyried pob math o ddatblygiad. Mae rhestr o'r holl bolisiau wedi ei nodi yn Atodiad 8.</p> <p>Tra bod yn rhaid defnyddio rhai termau technegol, nodir fod y Cynllun Adnau a'r dogfennau cysylltiol yn ceisio arddull syml cyn gymaint a phosib. Nodir y bydd y Cynllun yn cael ei brawf ddarllen.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac argymhelliad swyddogion
971	Cyngor Cymuned Llanrug. (Mr Meirion Jones) [3134]	Sylwadau cyffredinol	Cefnogi	Mae Cyngor Cymuned Llanrug yn datgan bodlonrwydd ar y Cynllun.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim newid</p>
1822	Mr Thomas Conway [3371]	Sylwadau cyffredinol	Gwrthwynebu	Mae'r Cynllun Adnau yn rhy fawr, yn anymarferol ac yn rhy ddarniog i gael ei gyflwyno i ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r holl wybodaeth ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd wedi cael ei chyfuno sy'n golygu fod y dogfennau'n eithriadol o hir. Mae'r ddwy sir yn wahanol gyda gwahanol anghenion ac mae angen gwahanol bolisiau ar eu cyfer. Mae diffyg croesgyfeirio o fewn dogfennau ac nid yw'r ffurflen cyflwyno sylwadau'n addas i'w phwrpas. Nid yw cyfnod ymgynghori o chwech wythnos yn hanner digon, er eu bod ar gael yn y llyfrgelloedd, nid yw'r rhain ar agor pob amser.	<p>Dim yn derbyn –</p> <p>Nodir fod y dull o baratoi'r Cynllun yn cyd-fynd â'r rheoliadau perthnasol. Mae'n bwysig iawn fod cynnwys y Cynllun yn seiliedig ar dystiolaeth eang a chynhwysfawr.</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Ni chafwyd tystiolaeth rymus a fyddai'n cyfiawnhau diwygio'r Cynllun Adnau er mwyn sicrhau cadernid y Cynllun.</p> <p>Dim Newid</p>

CANOLFAN ISRANBARTHOL

1) Bangor

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
1552	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI14, T1 - Goetra Uchaf, Bangor	Cefnogi	Mae gan y safle yma ganiatâd cynllunio a does gennym ni ddim sylwadau pellach arno.	<p>Nodi'r sylw cefnogol</p> <p>Argymhelliad</p> <p>Dim Newid</p>
113	CPERA (Cynghorydd Elin Walker Jones) [2760]	POLISI TAI14, T2 - Caeau chwarae Hen Ysgol Friars, Bangor	Gwrthwynebu	<p>dileu cynlluniau i ddatblygu</p> <p>1) safle'r Hen Friars ar Ffordd Ffriddoedd</p> <p>2) safle Pen y Ffridd</p> <p>3) gwirio nad oes cynlluniau i ddatblygu'r ardal rhwng Ffordd Eithinog a Bryn Eithinog adeiladu ar dir llwyd nid tir gwyrdd</p>	<p>Dim yn Derbyn</p> <p>Mae'r sylw yn gofyn am ddileu cynnwys y safle o fewn y Cynllun Adnau. Wrth baratoi'r Cynllun Adnau fe gasglwyd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ystod eang o dystiolaeth i gefnogi'r anghenion tai yn ystod oes y CDLI ar y Cyd ynghyd ac adnabod yr isadeiledd sydd yn angenrheidiol er mwyn cefnogi datblygu'r safleoedd. Mae'r safleoedd sydd wedi eu dynodi o fewn y Cynllun yn gyson hefo strategaeth y Cynllun ac mae posib eu datblygu yn ystod oes y Cynllun sydd yn golygu eu bod yn cyflawni anghenion tai'r ardal hyd at 2026.</p> <p>Ymhellach, mae'r Cynllun Adnau yn cynnwys cyfres o bolisiau a gwybodaeth gysylltiol sydd yn egluro sut y bydd datblygiad yn cael ei reoli o fewn yr ardaloedd o newid, a'r mecanwaith angenrheidiol a fydd angen ei ddarparu - isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau. Fe gynhwysir y fframwaith polisi gofynion y</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					<p>Cyngor o ran lliniaru effaith posib datblygiad mewn perthynas â gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, y ddarpariaeth o drafnidiaeth gynaliadwy, cyfleusterau cymunedol, asedau amgylcheddol a rheolaeth gofalus o ddatblygiad mewn ardaloedd sydd yn amgylcheddol sensitif neu ardaloedd gwledig.</p> <p>Argymhelliad Ystyrir bod y CDLI ar y Cyd yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am gael gwared ar y safle</p> <p>Dim Newid</p>
1419	CPERA (Cyngorydd Elin Walker Jones) [2760]	POLISI TAI14, T2 - Caeau chwarae Hen Ysgol Friars, Bangor	Gwrthwynebu	<p>Hoffwn weld cyfiawnhad am gynnig safle'r hen Friars - o ble'r ymddangosodd hwn, a pha gyfiawnhad sydd ar gyfer adeiladu yn fan'na? Mae'n gamgymeriad adeiladu rhagor o dai heb ystyried yr isadeiledd a'r mwynderau yn ofalus, a chynllunio i sicrhau fod mwynderau a chynlluniau isadeiledd yn rhan annatod o unrhyw gynllun ar gyfer rhagor o dai. Hoffwn ein gweld yn casglu data ein hunain, a seilio'n angen am dai ar ddata yn hytrach nag ar ffigyrau Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Dim yn Derbyn Mae'r sylw yn gofyn am ddileu cynnwys y safle o fewn y Cynllun Adnau. Wrth baratoi'r Cynllun Adnau fe gasglwyd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ystod eang o dystiolaeth i gefnogi'r anghenion tai yn ystod oes y CDLI ar y Cyd ynghyd ac adnabod yr isadeiledd sydd yn angenrheidiol er mwyn cefnogi datblygu'r safleoedd. Mae'r safleoedd sydd wedi eu dynodi o fewn y Cynllun yn gyson hefo strategaeth y Cynllun ac mae posib eu datblygu yn ystod oes y Cynllun sydd yn golygu eu bod yn cyflawni anghenion tai'r ardal hyd at 2026.</p> <p>Ymhellach, mae'r Cynllun Adnau yn</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					<p>cynnwys cyfres o bolisiau a gwybodaeth gysylltiol sydd yn egluro sut y bydd datblygiad yn cael ei reoli o fewn yr ardaloedd o newid, a'r mecanwaith angenrheidiol a fydd angen ei ddarparu - isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau. Fe gynhwysir y fframwaith polisi gofynion y Cyngor o ran lliniaru effaith posib datblygiad mewn perthynas â gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, y ddarpariaeth o drafndiaeth gynaliadwy, cyfleusterau cymunedol, asedau amgylcheddol a rheolaeth gofalus o ddatblygiad mewn ardaloedd sydd yn amgylcheddol sensitif neu ardaloedd gwledig.</p> <p>Argymhelliad Ystyrir bod y CDLI ar y Cyd yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am gael gwared ar y safle</p> <p>Dim Newid</p>
1553	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI14, T2 - Caeau chwarae Hen Ysgol Friars, Bangor	Gwrthwynebu	Mae'n bosibl bod y safle hwn ar uchder lle na ellir bod yn sicr o gael dŵr o'r prif gyflenwad gydol yr amser. O dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991, does dim dyletswydd ar DCWW i ddarparu dŵr o'r prif gyflenwad hyd at uchder mwy na'r uchder y bydd yn llifo trwy ddisgyrchiant o'r gronfa gyflenwi neu o danc y daw'r cyflenwad ohono. Oherwydd hynny, mae'n debyg y bydd angen gwneud asesiad modelu hydrologig i weld a oes angen gwella'r	<p>Nodi'r sylw Fe fydd y Cyngor yn parhau i fod mewn cyswllt hefo DCWW yn ystod y broses o gyflwyno cais cynllunio.</p> <p>Argymhelliad Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.</p> <p>Dim Newid</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				rhwydwaith dŵr i gyflenwi dŵr i'r safle hwn. Bydd modd cael gofyn am wella'n rhwydwaith dŵr trwy ddefnyddio'r drefn ar gyfer gofyn am ddarpariaethau dŵr sydd yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991. Byddai lefel y cyfraniad y gallai fod angen i ddatblygwr ei wneud yn cael ei gyfrifo ar ôl cael cynlluniau manwl o drefn y safle a gwybodaeth am faint o ddŵr fyddai'n cael ei ddefnyddio.	
1554	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI14, T2 - Caeau chwarae Hen Ysgol Friars, Bangor	Gwrthwynebu	Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus yn gallu derbyn y llif dŵr budr allai ddod o'r safle datblygu arfaethedig yma. Byddai'r twf sy'n cael ei gynnig ar gyfer yr anheddiad yma'n golygu bod angen gwelliannau yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Treborth, ac ariannu hynny trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr.	Nodi'r sylw Fe fydd y Cyngor yn parhau i fod mewn cyswllt hefo DCWW yn ystod y broses o gyflwyno cais cynllunio. Argymhelliad Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. Dim Newid
671	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI TAI14, T3 - Hen safle Jewsons, Bangor	Cefnogi	Mae T3 yn safle ailddatblygu bychan sydd wedi bod yn wag ers peth amser. Yn gyffredinol, mae T4 yn dderbyniol gennym.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim Newid
1556	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI14, T3 - Hen safle Jewsons, Bangor	Gwrthwynebu	Mae modd darparu cyflenwad dŵr i wasanaethu'r safle yma Byddai'r safle'n draenio yn y pen draw i Orsaf Pwmpio Carthffosiaeth Ffordd y Traeth Bangor, a gallai fod angen gwneud asesiad o'r orsaf hon i weld a fyddai modd cynnwys y llif o'r safle ynte a fyddai angen gwelliannau pellach i'r orsaf cyn symud ymlaen efo'r	Nodi'r sylw Fe fydd y Cyngor yn parhau i fod mewn cyswllt hefo DCWW yn ystod y broses o gyflwyno cais cynllunio. Argymhelliad Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				datblygiad. Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer yr anheddiad yma'n golygu bod angen gwelliannau yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Treborth, ac ariannu hynny trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr.	Dim Newid
104	Cyfoeth Naturiol Cymru (Mr Gareth Thomas) [2757]	POLISI TAI14, T4 - Hen safle Crosville, Bangor	Gwrthwynebu	Cwblhawyd Asesiad Strategol ar Ganlyniadau Llifogydd ond ni chafodd y safle hwn ei gynnwys mewn unrhyw asesiad o'r fath. Yn ôl adran 9.3 yr asesiad hwn, nid yw'r un o'r dyraniadau yn syrthio y tu mewn i barthau C1 neu C2. Ceir trefniadau galw -i mewn lle byddai angen i'r Awdurdod Cynllunio Lleol alw mwy na 10 o anheddau mewn parth C2 i mewn i Lywodraeth Cymru i gael cyfarwyddyd yn eu cylch. Nid yw'r perygl llifogydd wedi'i asesu. Tynnu allan dynodiad T4 allan o'r CDLI ar y cyd ai amnewid gyda safle arall addas sydd y tu allan i barth C1 a C2.	Derbyn Comisiynwyd Ymgynghoriaeth Gwynedd i gynnal ACLIS Cam 2 sy'n dangos nad yw'r safle yn cydymffurfio â gofynion NCT15. Argymhelliad Dylid dileu'r dynodiad a chanfod safle amgen yn ei le er mwyn sicrhau cysondeb o fewn y cynllun ac i gydymffurfio gyda pholisi cenedlaethol.
672	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI TAI14, T4 - Hen safle Crosville, Bangor	Cefnogi	Mae T4 yn safle ailddatblygu bychan sydd wedi bod yn wag ers peth amser. Ymddengys bod T4 yn agored i lifogydd ac felly mae'n amhriodol ar gyfer tai.	Newid â Ffocws NF122, NF77
1084	Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resource Wales (Ymgynghoriadau Cynllunio) [1521]	POLISI TAI14, T4 - Hen safle Crosville, Bangor	Gwrthwynebu	Mae'r tir ym mharth llifogydd C1 TAN 15 Llywodraeth Cymru: Mapiau Cyngor Datblygu. Byddai datblygu'r tir yma ar gyfer cyflogaeth yn groes i gyfarwyddyd polisi cenedlaethol TAN 15. Mae ANC o'r farn na chafodd risg llifogydd y safle yma ei asesu'n ddigonol. Mae	

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				ANC yn argymhell paratoi Asesiad Strategol Canlyniad Llifogydd cam 2 neu gam 3 a gyrru hwnnw i ANC i asesu ymhellach, er mwyn dangos y byddai datblygu'r safle yma ar gyfer cyflogaeth yn cydymffurfio efo gofynion TAN15 neu nad ydi datblygiad sy'n dod ymlaen o dan y dyraniad yma'n cynnwys codi unrhyw unedau cyflogaeth newydd tu mewn i'r safle.	
1555	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI14, T4 - Hen safle Crosville, Bangor	Gwrthwynebu	Mae modd darparu cyflenwad dŵr i wasanaethu'r safle yma. Byddai'r safle'n draenio yn y pen draw i Orsaf Pwmpio Carthffosiaeth Ffordd y Traeth Bangor, a gallai fod angen gwneud asesiad o'r orsaf hon i weld a fyddai modd cynnwys y llif o'r safle ynte a fyddai angen gwelliannau pellach i'r orsaf cyn symud ymlaen efo'r datblygiad. Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer yr anheddiad yma'n golygu bod angen gwelliannau yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Treborth, ac ariannu hynny trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr.	Nodi'r sylw Fe fydd y Cyngor yn parhau i fod mewn cyswllt hefo DCWW yn ystod y broses o gyflwyno cais cynllunio. Argymhelliad Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd. Dim Newid
669	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (Mr Noel Davey) [1169]	POLISI TAI14, T5 - Tir dros ffordd i'r Amlogfa, Bangor	Cefnogi	Mae'r safleoedd arfaethedig ym Mangor yn cynnwys safle tir glas (T5) gyferbyn â'r amlogfa, ac yn gyfochrog â'r ffin ddatblygu ac oddi mewn i'r ATA; mae mynediad da iddo ac efallai nad yw'n gyfleus ar gyfer defnydd amaethyddol gan ei fod ar wahân i gaeau eraill. Mae T5 yn gyffredinol yn dderbyniol gennym.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim Newid
1293	RCH Douglas	POLISI TAI14,	Cefnogi	Cefnogir y bwriad i ddyrannu oddeutu 72 uned	Nodi'r sylw cefnogol

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	Pennant [3070]	T5 - Tir dros ffordd i'r Amlogfa, Bangor		<p>breswyl ar T5 am y rhesymau a ganlyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Y gallu i'w ddatblygu - Cynllunio Cadarnhaol - Niferoedd Tai sydd wedi'u Dyrannu - Egwyddor Datblygu - Cyfleoedd a chyfyngiadau - At 1 - Prif Gynllun Dangosol - At 2 - Arfarniad Cynladwyedd Positif 	<p>Argymhelliad</p> <p>Dim Newid</p>
1299 & 1345	Cyngor Dinas Bangor (Mr Gwyn Hughes) [1523]	POLISI TAI14, T5 - Tir dros ffordd i'r Amlogfa, Bangor	Gwrthwynebu	<p>Mae Cyngor y Ddinas o'r farn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Fod y safle wedi'i leoli mewn lleoliad gwledig amlwg a deniadol, ar wahân i ardal adeiledig Dinas Bangor a'r cyfleusterau a'r gwasanaethau siopa a chymunedol y mae'n eu darparu. Ni fyddai, o'r herwydd, yn ddatblygiad cynaliadwy gan y byddai'n annog defnyddio ceir modur i fanteisio ar y cyfleusterau hyn. - Byddai'n ymestyn rhuban o ddatblygiad i dirwedd wledig ddeniadol a hynny ar draul cymeriad a mwynderau gweledol yr ardal. - Mae'r safle mewn lleoliad amlwg pan edrychir arno o'r briffordd gyfagos a byddai unrhyw adeiladau yn gormesu'r nenlen ac yn peri niwed difrifol i fwynderau gweledol yr ardal. - Dylid ailystyried rhoi dynodiad preswyl i'r safle a dylid ail ddylunio'r ffin ddatblygu er mwyn eithrio'r safle. 	<p>Dim yn Derbynn</p> <p>Mae'r sylw yn gofyn am ddileu cynnwys y safle o fewn y Cynllun Adnau. Wrth baratoi'r Cynllun Adnau fe gasglwyd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ystod eang o dystiolaeth i gefnogi'r anghenion tai yn ystod oes y CDLI ar y Cyd ynghyd ac adnabod yr isadeiledd sydd yn angenrheidiol er mwyn cefnogi datblygu'r safleoedd. Mae'r safleoedd sydd wedi eu dynodi o fewn y Cynllun yn gyson hefo strategaeth y Cynllun ac mae posib eu datblygu yn ystod oes y Cynllun sydd yn golygu eu bod yn cyflawni anghenion tai'r ardal hyd at 2026.</p> <p>Ymhellach, mae'r Cynllun Adnau yn cynnwys cyfres o bolisiau a gwybodaeth gysylltiol sydd yn egluro sut y bydd datblygiad yn cael ei reoli o fewn yr ardaloedd o newid, a'r mecanwaith angenrheidiol a fydd angen ei ddarparu - isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau. Fe gynhwysir y fframwaith polisi gofynion y Cyngor o ran lliniaru effaith posib datblygiad mewn perthynas â gwarchod a</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					<p>gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, y ddarpariaeth o drafnidiaeth gynaliadwy, cyfleusterau cymunedol, asedau amgylcheddol a rheolaeth gofalus o ddatblygiad mewn ardaloedd sydd yn amgylcheddol sensitif neu ardaloedd gwledig.</p> <p>Argymhelliad Ystyrir bod y CDLI ar y Cyd yn bodloni'r profion cadernid heb yr angen am gael gwared ar y safle</p> <p>Dim Newid</p>
1557	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI14, T5 - Tir dros ffordd i'r Amlogfa, Bangor	Gwrthwynebu	<p>Mae modd darparu cyflenwad dŵr i wasanaethu'r safle yma.</p> <p>Byddai angen cael carthffosydd tu allan i'r safle i gysylltu efo'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus. Mae modd darparu'r rhain trwy'r drefn o ofyn am garthffosydd dan Adrannau 98-101 Deddf y Diwydiant Dŵr 1991.</p> <p>Byddai'r twf arfaethedig sy'n cael ei hyrwyddo ar gyfer yr anheddiad yma'n golygu bod angen gwelliannau yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Treborth, ac ariannu hynny trwy ein Cynllun Rheoli Asedau neu efallai'n gynharach na hynny trwy gyfraniadau datblygwr.</p>	<p>Nodi'r sylw Fe fydd y Cyngor yn parhau i fod mewn cyswllt hefo DCWW yn ystod y broses o gyflwyno cais cynllunio.</p> <p>Argymhelliad Nid oes angen newid mewn ymateb i'r materion a godwyd.</p> <p>Dim Newid</p>
912 & 915	Dr Dewi Roberts [3096]	Map 1 - Bangor	Gwrthwynebu	<p>Mae Map Cynigion Bangor yn eithrio eiddo Derwen Deg o ffin yr anheddiad ynghyd ag eiddo eraill sy'n wynebu Ffordd Hwfa. Dylid addasu'r Cynllun i gynnwys yr eiddo presennol hwn yn Ffin yr Anheddiad. Mae Derwen Deg yn eiddo sydd wedi'i hen sefydlu, a</p>	<p>Derbyn Mae ffiniau datblygu yn cael eu llunio o gwmpas ffurf drefol aneddiadau. Mae'r eiddo ar hyd Ffordd Hwfa a Derwen Deg yn cael ei ystyried i fod yn rhan o ffurf drefol Bangor.</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				adeiladwyd yn 18???. Roedd yn ffurfio rhan bwysig o estyniad gwreiddiol y ddinas tua diwedd cyfnod Fictoria a datblygiad y Brifysgol. Mae ffin yr Ardal Warchodaeth yn cynnwys yr eiddo ac yn cydnabod ei bwysigrwydd fel rhan o'r amgylchedd adeiledig. Mae defnydd y tir a ddangosir ar y cynllun hwnnw yn dangos y tŷ a'i gwrtil yn glir yn rhan o'r tai presennol, tra gwarchodir y coedlannau derw cyfagos a'r ardaloedd gwyrdd sy'n cyfrannu at osodiad yr amgylchedd adeiledig.	<p>Argymhelliad Ymestyn y ffin datblygu i gynnwys yr eiddo ar hyd Ffordd Hwfa a Derwen Deg er mwyn sicrhau cysondeb o fewn y cynllun.</p> <p>Newid â Ffocws NF113</p>
913	Catrin Eames [3097]	Map 1 - Bangor	Gwrthwynebu	<p>Awgrymwn y dylid cynnwys safle oddi ar Ffordd Siliwen yn ffin ddatblygu Bangor. Mae'r safle wedi'i leoli yn union gyfochrog â'r ffin ddatblygu i dri chyfeiriad. Ystyrir y byddai estyniad i'r ffin ddatblygu fel y'i dangosir ar y cynllun sydd ynghlwm yn ffurfio estyniad rhesymol a rhesymegol i ffin ddatblygu Bangor. Mae'r safle wedi'i integreiddio'n dda ac yn gysylltiedig â phatrwm cyfredol datblygu ar hyd Ffordd Siliwen. Byddai'r safle'n mewnlenni bwlch bychan rhwng tai presennol mewn modd sensitif.</p> <p>Awgrymwn fod ffin ddatblygu Bangor yn cael ei hymestyn i gynnwys y tir ger Ffordd Siliwen fel y nodir ar y cynllun ynghlwm, fyddai'n ffurfio estyniad rhesymol a rhesymegol i ffin ddatblygu Bangor.</p>	<p>Ddim yn derbyn Mae ffiniau datblygu yn cael eu llunio o gwmpas ffurf drefol aneddiadau. Ni ystyrir bod y safle dan sylw yn ffurfio rhan o ffurf drefol Bangor.</p> <p>Argymhelliad Ni ystyrir bod angen diwygio'r ffin datblygu er mwyn sicrhau cadernid y cynllun .</p> <p>Dim Newid</p>
1020	Mr Bleddyn Hughes [68]	Map 1 - Bangor	Gwrthwynebu	Mae safle SP270 fel y'i diwygiwyd yn safle mewnlenni naturiol a byddai'n cyd-fynd â thai presennol sydd eisoes wedi'u cynnwys o fewn	Dim yn Derbyn Mae'r sylw yn gofyn am gynnwys safle newydd sydd heb ei gynnwys o fewn y

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				<p>ffin y Cynllun Adnau ac mae'n estyniad naturiol i'r anheddiad. Mae datblygu'r safle hwn yn ateb yr holl feini prawf a restrir o fewn y Fframwaith AC gan gynnig tai i bobl leol sy'n gweithio'n lleol. Mae'n ystyried y strategaeth gymunedol berthnasol. Mae'n dir amaethyddol gwael fyddai i'r dim ar gyfer tai ac ni fyddai'n ymwithio'n ormodol i gefn gwlad agored. Nid yw'r materion traffig honedig ym Mhenrhosgarnedd yn rhai na ellir eu gorchfygu.</p> <p>Dymunwn i ffin y Cynllun Adnau gynnwys safle SP270 fel y'i diwygiwyd.</p>	<p>Cynllun Adnau. Wedi ystyried y cyd-destun polisi, strategaeth y Cynllun, darpariaeth y CDLI ar y Cyd ac ystyriaethau materol perthnasol eraill ystyrir nad oes yna angen wedi ei brofi i gynnwys y safle o fewn y Cynllun.</p> <p>Ymhellach, mae polisiâu'r Cynllun ynghyd a'r wybodaeth a dogfennau cysylltiol yn nodi sut fwriedir y Cyngor reoli'r ddarpariaeth o ddatblygiad newydd gan gynnwys manylion ynglŷn â chynllunio isadeiledd. Gan hynny, mae'r CDLI ar y Cyd yn dangos sut mae modd rheoli, datblygu yn raddol a lliniaru effeithiau datblygiad. Ystyrir fod y CDLI yn cyrraedd gofynion y profion cadernid heb yr angen ar gyfer ymdriniaeth wahanol megis aneddiadau eraill neu gynnwys y safle amgen a awgrymir er mwyn diwallu'r angen am dai a chyflogaeth sydd wedi ei hadnabod.</p> <p>Argymhelliad Ni ystyrir bod angen cynnwys y safle hwn er mwyn sicrhau cadernid y cynllun .</p> <p>Dim Newid</p>
1022	Mr R Ellerby [3185]	Map 1 - Bangor	Gwrthwynebu	<p>Nid yw'r Cynllun yn llwyddo i ddarparu ar gyfer digon o dai yng nghanolfan isranbarthol Bangor i gyrraedd ei tharged lefel twf o 969 uned. Byddai'r safle hwn yn helpu i roi sylw i'r diffyg a byddai ei leoliad cynaliadwy sydd wedi'i sgrinio'n dda yn ffurfio estyniad</p>	<p>Dim yn Derbyn Mae'r sylw yn gofyn am gynnwys safle newydd sydd heb ei gynnwys o fewn y Cynllun Adnau. Wedi ystyried y cyd-destun polisi, strategaeth y Cynllun, darpariaeth y CDLI ar y Cyd ac ystyriaethau materol</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
				<p>rhesymegol i ffurf drefol yr anheddiad.</p> <p>Ail-ddrafftio ffin ddatblygu Bangor a nodir ar Fap Mewnosod 1 i gynnwys y safle hwn ac i'w ddynodi ar gyfer tai heb ganiatâd cynllunio.</p>	<p>perthnasol eraill ystyrir nad oes yna angen wedi ei brofi i gynnwys y safle o fewn y Cynllun.</p> <p>Ymhellach, mae polisiâu'r Cynllun ynghyd a'r wybodaeth a dogfennau cysylltiol yn nodi sut fwriedir y Cyngor reoli'r ddarpariaeth o ddatblygiad newydd gan gynnwys manylion ynglŷn â chynllunio isadeiledd. Gan hynny, mae'r CDLI ar y Cyd yn dangos sut mae modd rheoli, datblygu yn raddol a lliniaru effeithiau datblygiad. Ystyrir fod y CDLI yn cyrraedd gofynion y profion cadernid heb yr angen ar gyfer ymdriniaeth wahanol megis aneddiadau eraill neu gynnwys y safle amgen a awgrymir er mwyn diwallu'r angen am dai a chyflogaeth sydd wedi ei hadnabod.</p> <p>Argymhelliad Ni ystyrir bod angen cynnwys y safle hwn er mwyn sicrhau cadernid y cynllun .</p> <p>Dim Newid</p>
1416	CPERA (Cyngorydd Elin Walker Jones) [2760]	Map 1 - Bangor	Gwrthwynebu	Hoffwn wirio nad yw'r ardal sy'n cael ei nodi ar Ffordd Eithinog yn cynnwys y llwybr porthmyn rhwng Bryn Eithinog a Ffordd Eithinog. Yn ogystal, ynglŷn â safleoedd penodol, hoffwn weld Pen y Ffridd yn cael ei ddileu yn gyfan gwbl.	<p>Nodi'r Sylw Wrth baratoi'r Cynllun Adnau fe gasglwyd yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ystod eang o dystiolaeth i gefnogi'r anghenion tai yn ystod oes y CDLI ar y Cyd ynghyd ac adnabod yr isadeiledd sydd yn angenrheidiol er mwyn cefnogi datblygu'r safleoedd. Mae'r safleoedd sydd wedi eu dynodi o fewn y Cynllun yn gyson hefo</p>

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
					<p>strategaeth y Cynllun ac mae posib eu datblygu yn ystod oes y Cynllun sydd yn golygu eu bod yn cyflawni anghenion tai'r ardal hyd at 2026.</p> <p>Ymhellach, mae'r Cynllun Adnau yn cynnwys cyfres o bolisiau a gwybodaeth gysylltiol sydd yn egluro sut y bydd datblygiad yn cael ei reoli o fewn yr ardaloedd o newid, a'r mecanwaith angenrheidiol a fydd angen ei ddarparu - isadeiledd, gwasanaethau a chyfleusterau. Fe gynhwysir y fframwaith polisi gofynion y Cyngor o ran lliniaru effaith posib datblygiad mewn perthynas â gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, y ddarpariaeth o drafnidiaeth gynaliadwy, cyfleusterau cymunedol, asedau amgylcheddol a rheolaeth gofalus o ddatblygiad mewn ardaloedd sydd yn amgylcheddol sensitif neu ardaloedd gwledig.</p> <p>Argymhelliad Cyfieithiad DC Heledd</p> <p>Dim Newid</p>
1302	Cyngor Dinas Bangor (Mr Gwyn Hughes) [1523]	Map 1 – Bangor	Gwrthwynebu	Ychwanegu "llecynnau agored "Gerddi Pen y Bryn" a "Penrhyn Arms" i'r map cynigion.	<p>Derbyn Llecyn agored presennol gyda gwerth hamddenol i'r cyhoedd.</p> <p>Argymhelliad Adnabod fel llecyn agored i'w warchod ar y</p>
1383	Cymdeithas Ddinesig Bangor 1				

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
	(Don Mathew) [2988]				Map Mewnosod Newid â Ffocws NF114

CANOLFANNAU GWASANAETH TREFOL

2) Amlwch

Rhif Sylw	Enw	Rhan	Math	Crynodeb o'r Sylw / Newid(iadau) i'r Cynllun	Sylwadau ac Argymhellion
687	Cyngor Tref Amlwch (Mrs M Hughes) [1266]	POLISI TAI14, T6 - Tir ger maes Mona, Amlwch	Cefnogi	Dylai o leiaf 10% fod yn gartrefi cychwynnol i bobl ifanc leol - mae ein pobl ifanc yn gadael yr ardal oherwydd y diffyg cyflogaeth. Mae'r boblogaeth yn bwysig i Amlwch.	Nodi'r sylw cefnogol Mae policy TAI9 yn anelu at sicrhau lefel priodol o dai fforddiadwy yn ardal y Cynllun. Argymhelliad Dim Newid
1558	Dwr Cymru Welsh Water (Mr Dewi Griffiths) [2680]	POLISI TAI14, T6 - Tir ger maes Mona, Amlwch	Cefnogi	Mae modd darparu cyflenwad dŵr i wasanaethu'r safle yma. Mae'r rhwydwaith carthffosiaeth gyhoeddus yn gallu derbyn y llif dŵr budr posibl o'r safle datblygu arfaethedig yma. Mae Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Amlwch yn gallu derbyn y llif dŵr budr o'r safleoedd datblygu/ffigwr twf arfaethedig yma.	Nodi'r sylw cefnogol Argymhelliad Dim Newid
689	Cyngor Tref Amlwch (Mrs M Hughes) [1266]	POLISI TAI14, T7 - Tir ger Lôn Bach, Amlwch	Cefnogi	Dylai o leiaf 10% fod yn gartrefi cychwynnol i bobl ifanc leol - mae ein pobl ifanc yn gadael yr ardal oherwydd y diffyg cyflogaeth. Mae'r boblogaeth yn bwysig i Amlwch.	Nodi'r sylw cefnogol Mae policy TAI9 yn anelu at sicrhau lefel priodol o dai fforddiadwy yn ardal y Cynllun. Argymhelliad Dim Newid

